



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – nodiadau o'r gweithdai thematig

Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf

Paratowyd gan Miller Research Cyf

12 Hydref 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg	Nodiadau o weithdai thematig ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru ar Fudd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Mwy o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Diwygio AHO Cyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: PCETReform@gov.wales
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://beta.gov.wales/tertiary-education-and-research-commission-wales
Dogfennau cysylltiedig	Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180423-comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-i-gymru-dogfen-ymgyngghori.pdf

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Llywodraethiant Addysg Uwch: Fframwaith Deddfwriaethol Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru: diwygio dogfennau llywodraethu	2
3.	Llywodraethiant Addysg Uwch: Fframwaith Deddfwriaethol Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru: pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu Corfforaeth Addysg Uwch yng Nghymru	8
4.	Llywodraethiant Addysg Uwch: Gweithdrefnau a meini prawf ar gyfer Pwerau Dyfarnu Graddau a Theitl Prifysgol yng Nghymru	14
5.	Diogelu Dysgwyr	18
6.	Cyllido a Chynllunio Strategol	26
7.	Sicrhau a Gwella Ansawdd	34
8.	Chweched Dosbarth.....	46
9.	Cynllunio a Chyllido.....	58
10.	Y Comisiwn / Y Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn ..	72
11.	Undebau a Cyngor Gweithlu Addysg Cymru	81
12.	Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol.....	89
13.	Ymchwil ac Arloesi	92
14.	Digwyddiad i Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr - De Cymru.....	101
15.	Sicrwydd Ariannol a Llywodraethiant.....	106
16.	Prentisiaethau	113
17.	Aseidiadau Effaith	123
18.	Digwyddiad i Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr – Canol Cymru	127
19.	Materion yn ymwneud â Chyllid Myfyrwyr	132
20.	Digwyddiad i Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr - Gogledd Cymru ..	138

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad
AB	Addysg Bellach
ACL	Dysgu Oedolion yn y Gymuned - Adult Community Learning
AHO	Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET)
ASCL	Association of School and College Leaders
AU	Addysg Uwch
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CITB Cymru	Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu - Construction Industry Training Board Cymru
CMA	Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd - Competition and Markets Authority
CQFW	Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru - Credit and Qualifications Framework for Wales
CUSP	Partneriaeth Sgiliau Colegau a Phrifysgolion - College University Skills Partnership
CYDAG	Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg
DAP	Pwerau i Ddyfarnu Graddau - Degree Awarding Powers
DOyG	Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL)
DSW	Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL)
DU	Y Deyrnas Unedig
ECITB	Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu Peirianeg - Engineering Construction Industry Training Board
ELWa	Y corff cyhoeddus a oedd yn gyfrifol am addysg a dysgu ôl-16 yng Nghymru rhwng 2000 a 2006 (Education and Learning Wales)
ESG	Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd - European Standards and Guidelines
FHEQ	Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch - Framework for Higher Education Qualifications
FISSS	Federation for Industry Sector Skills and Standards
GDPR	Rheoliadau diogelu data - General Data Protection Regulations
HEFCW	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
HESA	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch - Higher Education Statistics Agency
IACW	Cyngor Cynghori Cymru ar Arloesi - Innovation Advisory Council for Wales
LPPP	Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr - Learner Protection and Progression Plan
NAEL	Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol - National Academy for Educational Leadership
NAHT	National Association of Head Teachers

NASUWT	National Association of Schoolmasters Union of Women Teachers
NEET	Person ifanc nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (Not in Education, Employment, or Training)
NEU Cymru	National Education Union Cymru
NOS	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol - National Occupational Standards
NSOA	National Society of Apprentices
NTfW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru - National Training Federation for Wales
OIA	Swyddfa Dyfarnydd Annibynnol Addysg Uwch - Office of the Independent Adjudicator for Higher Education
PCET	Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (Post-Compulsory Education and Training)
QAA	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd - Quality Assurance Agency
QR	Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd - Quality-related Research
REF	Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil - Research Excellence Framework
RIW	Ymchwil ac Arloesi Cymru - Research and Innovation Wales
ROA	Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau - Regulation and Outcome Agreement
RSP	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol - Regional Skills Partnership
RTO	Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg - Research Technology Organisations
SASW	Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru - Specification of Apprenticeship Standards for Wales
SQAP	Panel Cyngori ar Gymwysterau Sectorau - Sector Qualification Advisory Panel
SSC	Cyngor Siliau Sector - Sector Skills Council
TDAP	Pwerau Dyfarnu Graddau a Addysgir - Taught Degree Awarding Powers
TEF	Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Deilliannau Myfyrwyr - Teaching Excellence and Student Outcomes Framework
TERCW	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru - Tertiary Education and Research Commission for Wales
UCAC	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
UCM	Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
UCU	Undeb Prifysgolion a Cholegau - University and College Union
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
UKPSF	Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU - UK Professional Standards Framework
UKRI	Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig - United Kingdom Research and Innovation
ULN	Rhif Unigryw'r Dysgwr - Unique Learner Number
UT	Teitl Prifysgol

WAAB	Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru - Wales Apprenticeship Advisory Board
WAS	Manyleb Brentisiaethau Cymru - Welsh Apprenticeship Specification
WESB	Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru - Wales Employment and Skills Board

1. Cyflwyniad

Diben ymgynghoriad Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion manwl ar gyfer diwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru a'r ffordd y dylid goruchwyllo a chydgysylltu gwariant ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru. Roedd y papur yn gwahodd ymatebion i gynigion technegol ar gyfer ffurf y Comisiwn newydd a'r ffordd y bydd yn gweithredu.
- 1.2 Roedd y ddogfen ymgynghori ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru rhwng 24^{ain} Ebrill hyd 17^{eg} Gorffennaf 2018, gan ddenu 422 o ymatebion gan sefydliadau, mudiadau, cyflogwyr ac unigolion.
- 1.3 Gwahoddwyd ymatebwyr i adolygu'r ddogfen ymgynghori ac ymateb i bob un o 100 o gwestiynau, gan ddefnyddio naill ai holiadur i'w e-bostio neu ei bostio, neu ffurflen ar-lein.
- 1.4 Yn ogystal, cynhaliwyd 19 o weithdai technegol thematig, yn bennaf yng Nghaerdydd, gyda fideogynadledda ar gael o swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru. Roedd y sesiynau hyn yn galluogi rhanddeiliaid i drafod manylion y cynigion mewn amgylchedd torfol, mewn ymdrech i geisio dealltwriaeth ychwanegol a dyfnach o'r cynigion. Manylir ar yr allbynnau o'r sesiynau hyn yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.
- 1.5 Mae manylion yr holl ymatebion ysgrifenedig wedi eu nodi yn y prif adroddiad a dylid eu darllen ar y cyd â'r adroddiad hwn.

2. Llywodraethiant Addysg Uwch: Fframwaith Deddfwriaethol Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru: diwygio dogfennau llywodraethu

8^{fed} Mehefin 2018 (bore)

- 2.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:
- Prifysgol Wrecsam Glyndŵr
 - Prifysgol De Cymru
 - CCAUC
 - Prifysgolion Cymru
 - Undeb Prifysgolion a Cholegau
- 2.2 Mae barnau Cadeiryddion Prifysgolion Cymru hefyd wedi cael eu hymgorffori o fewn y nodiadau hyn yn dilyn sesiwn un-i-un gyda hwy.

C1: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i oruchwylio a chymeradwyo'r diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd?

- 2.3 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i oruchwylio a chymeradwyo'r diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd. Roedd y grŵp o'r farn fod y Cyfrin Gyngor yn cyflawni rôl werthfawr a bod ganddo brofiad helaeth mewn materion addysg uwch ac o'r herwydd y byddai'n ddoeth cadw'r oruchwyliaeth hon ar hyn o bryd. Roedd yn ymddangos bod teimlad cyffredinol ymysg y cynrychiolwyr nad yw'r system bresennol "wedi torri" ac y dylid ei chadw ar hyn o bryd.
- 2.4 Teimlai rhanddeiliaid na ddylai unrhyw newidiadau yng Nghymru fynd cyn belled â'r diwygiadau yn Lloegr o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 a wnaeth, ymysg pethau eraill, ddileu'r angen i'r Cyfrin Gyngor gymeradwyo diwygiadau i ddogfennau llywodraethu. O dan y diwygiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf hon, mae sefydliadau AU yn Lloegr bellach yn gallu diwygio eu dogfennau llywodraethu eu hunain cyn belled â'u bod yn parhau'n elusen.
- 2.5 Roedd rhanddeiliaid yn mynegi'r angen i gymryd gofal wrth wneud newidiadau sylweddol i'r trefniadau presennol ar hyn o bryd. Y teimlad oedd, pe bai newidiadau mawr yn cael eu gwneud yn awr, gallai sefydliadau AU eu colli ymysg y diwygiadau ehangach a gynigir i AHO. Roedd y grŵp o'r farn mai ffordd fwy synhwyrol o weithredu fyddai cadw'r trefniadau presennol cyn belled â phosibl a gwneud mân newidiadau yn unig, a hynny dim ond lle bernir eu bod yn angenrheidiol.
- 2.6 Y teimlad oedd y gellid gwneud newidiadau i rôl y Cyfrin Gyngor yn y dyfodol pe bernid bod hyn yn angenrheidiol, a phe gwneid unrhyw newidiadau o'r fath, dylid gwneud hyn mewn darn diffiniedig o ddeddfwriaeth i'r diben hwn. Roedd rhanddeiliaid o'r farn na fyddai

hyn, yn ddelfrydol, yn cael ei wneud am o leiaf dair blynedd gan y byddai hynny'n caniatáu i drafodaeth ac ystyriaeth briodol ddigwydd.

C2: A ydych chi'n ystyried bod y cynnig i ymestyn dull ailddosbarthu 2006 yn briodol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch? Os na, pam?

- 2.7 Roedd y trafodaethau'n tynnu sylw at yr angen am eglurder o ran y gweithgaredd a gynigir a diben dull ailddosbarthu 2006.
- 2.8 O safbwynt y cynnig i ymestyn dull ailddosbarthu 2006, daeth y themâu canlynol i'r amlwg o'r drafodaeth:
- Roedd rhai rhanddeiliaid yn bryderus y gellid defnyddio ymestyn y dull i orfodi rheolaeth ychwanegol ar drefndiadau llywodraethau sefydliadau AU Cymru ac effeithio ar ymreolaeth sefydliadau. Roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn nad bwriad cynigion Comisiwn y Gyfraith (a oedd yn annog ymestyn y dull hwn) oedd gorchymyn trefniadau llywodraethu ond rhoi eglurder a chysondeb ar draws pob mathau o sefydliadau AU a rhoi modd o symleiddio gweithdrefnau ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu.
 - Mynegwyd pryderon y gallai ailddosbarthu darpariaethau yn unol â dull 2006 gymryd llawer o amser a chreu cryn dipyn o waith i sefydliadau. Wrth ymateb i'r pryder hwn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi bod dull 2006 yn wirfoddol i sefydliadau ac mai'r bwriad oedd peidio â newid hyn. Nodwyd hefyd mai diben y dull ailddosbarthu oedd caniatáu i ddarpariaethau a oedd y tu allan i restr budd y cyhoedd, ac ar hyn o bryd mewn offeryn ac erthyglau llywodraethu neu siarter a statudau prifysgol, gael eu symud i ddogfennau llywodraethu lefel is. Roedd hyn fel y byddai unrhyw ddiwygio pellach i'r darpariaethau hyn yn y dyfodol yn cael ei symleiddio ac na fyddai angen ei gyfeirio at y Cyfrin Gyngor am gymeradwyaeth.
 - Ceisiwyd eglurder ynghylch a oedd ymestyn dull 2006 yn cyfeirio at yr ymestyniad yn y rhestr o faterion budd i'r cyhoedd a fyddai'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth a chymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor neu estyniad o'r dull i bob math o sefydliadau AU. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi bod cynnwys canllawiau 2006 a'r rhestr budd i'r cyhoedd yn adlewyrchu i raddau helaeth y trefniadau ar gyfer prifysgolion siartredig. Y bwriad y tu ôl i'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad technegol yw ymestyn y broses fel ei bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn adlewyrchu trefniadau pob sefydliad AU waeth beth fo'u sail cyfansoddiadol. Yn ogystal, nodwyd bod y bwriad y tu ôl i'r cynigion i adolygu rhestr bresennol budd y cyhoedd yn ymwneud â sicrhau bod y materion a gynhwysir yn y rhestr budd y cyhoedd yn parhau'n gyfoes ac yn briodol yng ngoleuni newidiadau eraill a gynigir i fframwaith deddfwriaethol corfforaethau AU. Cynigir y bydd yr arolwg a'r adolygiad posibl o'r rhestr yn cael ei gyflawni gan y Comisiwn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

- Teimlai rhanddeiliaid y gallai'r amrediad o ganllawiau a gynigir fod yn eang, a bod angen eglurder ar ei ddiben a'i gyrhaeddiad.
- Roedd y grŵp o'r farn fod y rhestr budd y cyhoedd bresennol yn rhesymol ac fe wnaethant ailadrodd eu pryderon ynghylch sut y gallai'r newidiadau gael eu gweithredu.
- Roedd y grŵp o'r farn y dylai fod mwy o gysondeb o safbwynt y trefniadau llywodraethu a rheoleiddio rhwng AU ac AB o gofio holl gylch gwaith AHO y Comisiwn. Roedd teimlad na ellid edrych ar y cynigion ar gyfer llywodraethu AU ar wahân ac y gellid ystyried dull cyson (megis egwyddorion budd y cyhoedd tebyg) ar gyfer sefydliadau AB yn ogystal. Cytunwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei fwydo'n ôl i'r tîm Prosiect AHO.

C3: A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofynion statudol presennol sy'n gymwys i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch er mwyn gallu ymestyn y dull gweithredu arfaethedig i bob sefydliad addysg uwch?

- 2.9 Roedd cynrychiolwyr corfforaethau AU yn nodi mai Atodlen 7/7A o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yw'r ddarpariaeth sy'n cyfyngu corfforaethau addysg uwch rhag cael hyblygrwydd i ddiwygio eu hofferyn llywodraethu a diweddarau eu trefniadau llywodraethu. Mae'r Atodlenni yn gosod gofynion statudol mewn perthynas ag offeryn llywodraethu corfforaethau AU yng Nghymru. Yn benodol, mae'r Atodlenni yn pennu gofynion sy'n ymwneud ag aelodaeth y corff llywodraethu, y nifer o aelodau a phenodi aelodau i'r corff llywodraethu [Nodyn wedi'r cyfarfod: o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, mae Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio neu ddiddymu Paragraffau 3-5 ac 11 (Aelodaeth, Niferoedd, Penodiadau a Dehongli) Atodlen 7A trwy orchymyn. Gellir gwneud hyn heb newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n bod]. Peth arall a nodwyd oedd, hyd yn oed pe bai Atodlen 7/7A yn cael ei diddymu ar gyfer corfforaethau AU Cymru, y byddai'n dal i fod angen ennill cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor am newidiadau i'r offeryn a'r erthyglau llywodraethu.
- 2.10 Fe wnaeth rhai cynrychiolwyr fynegi'r angen am gymryd gofal. Y teimlad oedd bod angen eglurder o safbwynt gweledigaeth, strategaeth, rolau a chyfrifoldeb y Comisiwn a'r sector AHO ehangach cyn y gellir ystyried yn llawn y mathau hyn o newidiadau. Roedd teimlad cyffredinol ymysg y cynrychiolwyr fod angen i'r Comisiwn fod yn gweithredu'n iawn i ddechrau ac y gellir adolygu'r mathau hyn o faterion yn ddiweddarach. Roedd teimlad hefyd bod angen amser ar sefydliadau i ystyried effaith y Comisiwn newydd heb orfod gwneud newidiadau i lywodraethiant yn ogystal. Dadleuwyd bod angen amser er mwyn galluogi ymgynghori priodol ynghylch y materion hyn.
- 2.11 Codwyd pryderon ynghylch diddymu Atodlen 7/7A cyn bod manylion trefniadau rheoleiddio a sicrwydd y Comisiwn yn hysbys. Teimlai rhanddeiliaid y gallai fod yn annoeth gwneud y newidiadau hyn yn awr gan y gallent arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd ar randdeiliaid. Yn

Ile hynny, gallai ystyried dewisiadau eraill fel dull 2006 a drafodwyd eisoes fod yn well. Pe bai darpariaethau Atodlen 7/7A yn cael eu diddymu, roedd y grŵp yn gryf o'r farn y byddai angen i drefniadau cadarn gael eu rhoi ar waith a fyddai'n caniatáu i'r Comisiwn sicrhau trefniadau llywodraethu sefydliadol yn absenoldeb y gofynion statudol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddiannau myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid eraill a gwarchod enw da AU Cymru. Cafodd yr angen am gysondeb gydag AB ei godi eto ac yn benodol yr angen i bob darparwr fod yn ddarostyngedig i drefniadau rheoleiddio ac egwyddorion sicrwydd tebyg.

C4: A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried diwygiadau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch?

- 2.12 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r Comisiwn fod yn rhan o'r broses ar gyfer ystyried gwelliannau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch gan y byddai hyn yn gyson â'i swyddogaethau sicrhau llywodraethu ehangach. Fodd bynnag, cymedrolwyd y farn hon â'r materion a godwyd mewn trafodaethau cynharach.
- 2.13 Roedd teimlad y dylai fod goruchwyliaeth gan y Comisiwn o gychwyn y broses gan y byddai hyn yn caniatáu i gyngor gael ei roi ac y byddai'n hyrwyddo dealltwriaeth o'r diwygiadau arfaethedig. Byddai hefyd yn helpu cyflymu camau diweddarach y broses ddiwygio.
- 2.14 Awgrymwyd y dylai'r weithdrefn arfaethedig gynnwys cam cynnar anffurfiol lle byddai gofyn i'r sefydliad ymgynghori gyda rhanddeiliaid, yn staff a myfyrwyr. Nodwyd bod, o dan brosesau presennol CCAUC, disgwyliad yn cael ei roi ar sefydliadau i wneud hyn. Cytunwyd y byddai'r barnau hyn yn cael eu cyfleu i dimau prosiect AHO sy'n ystyried swyddogaethau sicrwydd y Comisiwn.
- 2.15 Er bod cytundeb cyffredinol yn y grŵp y dylai'r Comisiwn chwarae rôl fwy sylweddol yn y broses ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu, nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth frys. Yn lle hynny roedd teimlad y dylid ystyried hyn unwaith y byddai'r Comisiwn wedi cael ei sefydlu.

C5: Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig, a ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

(a) Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu?

- 2.16 Roedd cytundeb cyffredinol y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y broses ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau AU gan nad yw'r rhain yn bod ar hyn o bryd. Y teimlad oedd y gallai gwaith ar y canllawiau gychwyn ar unwaith ac nad oes angen iddo aros hyd nes y sefydlir y Comisiwn.

(b) Dylai'r Comisiwn adolygu rhestr 2006 o faterion budd y cyhoedd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyhoeddi canllawiau ynghylch y materion hynny y bydd y Cyfrin Gyngor yn parhau i'w goruchwyllo a'u cymeradwyo?

- 2.17 Roedd cytundeb cyffredinol i'r cynnig hwn mewn egwyddor. Os bydd yn mynd ymlaen, teimlai'r grŵp y byddai angen i'r Comisiwn adolygu'r rhestr budd y cyhoedd er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn gyfredol, yn briodol a'i bod yn adlewyrchu trefniadau ym mhob math o sefydliadau. Fodd bynnag, roedd barn gref na allai unrhyw adolygiad o faterion budd y cyhoedd 2006 ddigwydd ar ei ben ei hun a bod angen diffinio'r cwrdd a'r cyd-destun polisi ar gyfer adolygiad o'r fath. Dywedodd rhanddeiliaid y gallai fod yn gymhleth adnabod pa faterion y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd yn y cyd-destun polisi Cymreig ehangach. Y teimlad oedd y byddai'n gofyn am lawer iawn o waith i benderfynu a diffinio yn y canllawiau arfaethedig.
- 2.18 Roedd teimlad bod newidiadau sy'n helpu lleihau biwrocratiaeth yn rhai cadarnhaol yn gyffredinol.
- 2.19 Fel y nodwyd uchod, teimlai'r cynrychiolwyr fod angen mwy o gysondeb rhwng AB ac AU o gofio bod cylch gwaith y Comisiwn ar draws holl AHO ac y gellid ystyried rhestr debyg o faterion budd y cyhoedd i sefydliadau AB yn ogystal. Fodd bynnag, o ran y posibilrwydd o ymestyn i AB, nodwyd bod rhestr budd y cyhoedd 2006 yn nodi'r materion hynny y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd y dylid eu cadw yn offeryn ac erthyglau llywodraethu neu siarter a statudau sefydliad AU ac felly'n parhau i fod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth a chymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor. O dan fframwaith deddfwriaethol presennol sefydliadau AB, nid yw newidiadau i'w dogfennau llywodraethu yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor ac o'r herwydd ni fyddai rhestr budd y cyhoedd 2006 yn berthnasol yn yr un ffordd ag y mae i sefydliadau AU.

(c) Dylid galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau i'r Comisiwn o ran y materion budd y cyhoedd y dylid parhau i graffu arnynt a'u goruchwyllo?

- 2.20 Er nad oedd y grŵp yn anghytuno â'r cynnig hwn mewn egwyddor, roedd cynrychiolwyr yn nodi'r angen i sicrhau bod canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn a chanllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn i ddarparwyr yn gyson â'i gilydd. Fel dewis arall awgrymwyd y gallai unrhyw ganllawiau arwyddocaol gael eu cyfleu i'r Comisiwn trwy'r llythyr cylch gwaith yn hytrach na chanllawiau ffurfiol.

C6: A ydych chi'n credu y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn diogelu budd y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru?

- 2.21 Fel y nodwyd uchod, roedd y grŵp yn mynegi pryder ynghylch diddymu gofynion statudol a osodir ar sefydliadau AU heb fanylion llawnach o drefniadau sicrwydd y Comisiwn a fyddai'n cymryd eu lle.

3. Llywodraethiant Addysg Uwch: Fframwaith Deddfwriaethol Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru: pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu Corfforaeth Addysg Uwch yng Nghymru

8^{fed} Mehefin 2018 (prynhawn)

- 3.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:
- Prifysgol Wrecsam Glyndŵr
 - Prifysgol De Cymru
 - CCAUC
 - Prifysgolion Cymru
 - Colegau Cymru
 - Grŵp Llandrillo Menai
- 3.2 Mae barnau Cadeiryddion Prifysgolion Cymru hefyd wedi cael eu hymgorffori o fewn y nodiadau hyn yn dilyn sesiwn un-i-un gyda hwy.

C1: Pa opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi, a pham? A oes unrhyw opsiynau eraill y dylid eu hystyried?

- 3.3 Roedd y grŵp yn croesawu'r cyfle i drafod opsiynau o ran pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru. Teimlai'r cynrychiolwyr ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r diffyg cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ar arfer y pwerau hyn ar hyn o bryd. Ymysg cynrychiolwyr, ymddangosai fod mwy o gefnogaeth i Opsiwn 3 (model "Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017") er bod rhai'n gweld Opsiwn 2 (model AB) fel y dull y byddent yn ei ffafrio. Roedd un rhanddeiliad yn gweld Opsiwn 4 (gosod amodau ar gyfer arfer pwerau) fel y dewis gorau am yr hirdymor, gydag amodau'n cael eu gosod gan y Comisiwn unwaith y caiff ei sefydlu. Caiff y prif bwyntiau o'r drafodaeth ar opsiynau eu crynhoi isod:
- 3.4 Teimlai amryw o'r cynrychiolwyr y dylid cael gwared ar bwerau presennol Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth AU yng Nghymru heb ganiatâd y sefydliad mewn ffordd debyg i'r hyn a wnaed yn Lloegr o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Dadleuwyd y byddai hyn y rhoi cysondeb gyda threfniadau ledled y DU a gyda sefydliadau siartredig nad ydynt yn ddarostyngedig i'r darpariaethau hyn na rhai cyfwerth â hwy. Mynegwyd pryderon ynghylch cadw pwerau nad ydynt yn berthnasol ond i dri sefydliad yng Nghymru.
- 3.5 Teimlai rhanddeiliaid a oedd yn cefnogi Opsiwn 3 fod angen archwilio ymhellach y rhesymau dros gadw pwerau i ddiddymu sefydliadau heb ganiatâd. Er bod y cynrychiolwyr hyn yn cydnabod yr angen am gosb i'w defnyddio fel dewis terfynol a gallu'r Comisiwn i ymyrryd, teimlent y gellid cyflawni hyn yn well trwy ddefnyddio cosbau rheoleiddiol eraill a oedd yn berthnasol i bob sefydliad yn hytrach na thrwy bwerau diddymu nad ydynt yn berthnasol ond i nifer bach o sefydliadau yng

Nghymru. Cyfeiriwyd at bwerau rheoleiddio presennol CCAUC megis y gallu i ddal cyllid yn ôl neu dynnu'n ôl Gynllun Ffioedd a Mynediad sefydliad. Nodwyd nad yw pwerau diddymu (heb ganiatâd) erioed wedi cael eu defnyddio yng Nghymru, na, cyhyd ag roedd y grŵp yn gwybod, yn Lloegr. O'r herwydd, roedd cynrychiolwyr a oedd yn cefnogi Opsiwn 3 yn amau a oedd angen y pwerau hyn.

- 3.6 Teimlai rhai cynrychiolwyr fod mecanweithiau cydnabyddedig eraill a allai ymdrin yn effeithiol â methiant neu gamreolaeth sefydliadol. Roedd y rhain yn cynnwys y gweithdrefnau a rheoliadau methdaliad presennol gan y Comisiwn Elusennau. Fodd bynnag, dadleuai cynrychiolwyr eraill na fydd y mathau hyn o drefniadau efallai'n ymdrin â phob math posibl o fethiannau nac yn diogelu'n ddigonol, ac nad dyma'r ffordd orau ychwaith o wasanaethu buddiannau rhanddeiliaid ehangach fel myfyrwyr a staff. Roedd teimlad hefyd y gallai'r trefniadau hyn arwain at densiynau rhwng gweithredoedd y bernir eu bod yn iawn i'r sefydliad ei hun a'r rheini y bernir eu bod er budd gorau rhanddeiliaid. Dadleuwyd y gallai hyn hefyd arwain at y corff llywodraethu'n cymryd camau nad yw er budd hirdymor y sefydliad, er enghraifft, ceisio "benthyg" eu ffordd allan o drafferthion ariannol.
- 3.7 Mynegwyd pryderon y gallai amwysedd yn y cynigion ynghylch diddymu olygu y byddent yn cael eu harfer am resymau gwleidyddol neu strategol.
- 3.8 Roedd teimlad y dylai'r Comisiwn gael pwerau ymyrryd digonol dros bob darparwr AHO. Gallai pwerau o'r fath gynnwys amrywiaeth o fesurau y gellid eu gweithredu fel bo'n addas gan ddibynnu ar amgylchiadau unrhyw fethiant posibl. Y farn oedd y gallai hyn gynnwys diddymu neu gosb arall yr un mor bwerus fel dewis terfynol. Roedd y drafodaeth yn pwysleisio'r effaith sylweddol y byddai dal neu dynnu cyllid yn ôl yn ei gael ar sefydliadau fel enghraifft o gosb dewis terfynol. Teimlai'r cynrychiolwyr fod angen diffinio'r hyn a olygir fel "dewis terfynol".
- 3.9 Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y risg o ailddosbarthiad ONS i gorfforaethau AU pe byddai pwerau diddymu yn cael eu cadw. Y ddadl oedd, er bod y newidiadau a wnaed o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') wedi datrys y sefyllfa i sefydliadau AB, nid oedd unrhyw warrant y byddai cyflwyno darpariaethau tebyg i gorfforaethau AU yn cael yr un effaith ac yn lleihau risg ailddobarthu.
- 3.10 Roedd rhanddeiliaid a oedd yn cefnogi Opsiwn 2 o'r farn y byddai'r model hwn yn rhoi mwy o gysondeb a chydlyniant ar draws darparwyr AHO trwy sefydlu trefniadau tebyg i gorfforaethau AB a chorfforaethau AU. Byddai hyn yn ddymunol gan fod holl AHO o fewn cylch gwaith y Comisiwn. Byddai hefyd yn ymdrin â'r diffyg cyfyngiadau presennol o ran gweithredu pwerau diddymu. Fodd bynnag, er y byddai mwy o gysondeb rhwng AB ac AU, dadleuwyd na fyddai cydraddoldeb llawn o hyd gyda sefydliadau siartredig o dan yr opsiwn hwn.

- 3.11 Teimlad rhai cynrychiolwyr oedd y byddai'r model AB a sefydlwyd o dan Ddeddf 2014 (lle gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo sefydliad i benderfynu ei ddiddymu ei hun) yn ddefnyddiol mewn achosion o gyfuno, ond bod angen ystyried rôl y Comisiwn a sut y byddai'r model hwn yn rhyngweithio â'i swyddogaethau ymyrryd ehangach o safbwynt yr amgylchiadau lle gallai'r pwerau gael eu harfer. Nodwyd bod, o dan y trefniadau presennol ar gyfer AB, adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn nodi'r amodau lle gall Gweinidogion ymyrryd yn ymddygiad sefydliad AB. Mae'r ffordd y gall Gweinidogion Cymru ymyrryd yn amrywio o ymyraethau meddalach i gosbau mwy sylweddol gan gynnwys y pŵer i gyfarwyddo sefydliad AB i'w ddiddymu ei hun. Rhaid i'r sefydliad AB gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath. Mae gweithrediad y pwerau ymyrryd hyn wedi eu nodi yn Natganiad Ymyrraeth AB a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017.
- 3.12 O ran Opsiwn 4, nodwyd y byddai'r dull gweithredu a awgrymir, lle byddai'r Comisiwn yn gosod yr amodau ar gyfer arfer pwerau diddymu unwaith y bydd wedi ei sefydlu yn golygu na fyddai'r amodau hyn yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth ond yn hytrach yn cael ei gosod ar sail anstatudol. Yn ogystal, nodwyd y gallai fod angen, o dan y math hwn o ddull gweithredu, ystyried diwygio Deddf Diwygio Addysg 1988 er mwyn sicrhau bod gan y Comisiwn bŵer priodol i osod a gorfodi amodau o'r fath.
- 3.13 Roedd rhanddeiliaid y byddai'n well ganddynt Opsiwn 4 yn dweud hefyd y gellid cefnogi Opsiwn 3, ond y byddai hynny'n gwbl amodol ar fod y Comisiwn yn cael swyddogaethau rheoleiddio priodol a phwerau cadarn i ymyrryd a fyddai'n ei alluogi i fynd i'r afael â chamreolaeth neu fethiannau llywodraethu difrifol mewn sefydliad. Eu teimlad oedd pe bai pwerau clir i'r Comisiwn ymyrryd pe digwyddai methiannau, y byddent yn llai pryderus ynghylch y diwygiadau i'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n dileu pwerau Gweinidogion Cymru i ysgogi diddymu corfforaeth AU. Fodd bynnag, gan nad yw fframwaith rheoleiddio, swyddogaethau sicrwydd a phwerau ymyrryd y Comisiwn wedi cael eu pennu eto, roeddent yn mynegi amheuon ynghylch symud ymlaen gydag Opsiwn 3.
- 3.14 Teimlai rhai rhanddeiliaid y byddai cadw pwerau diddymu yn rhoi modd o gymryd camau gweithredu pan fo buddiannau dysgwyr mewn perygl a phan fo angen i amddiffyn cyllid cyhoeddus a buddiannau ehangach y cyhoedd. Roedd eraill yn amau a oedd diddymu sefydliad yn gwneud dim i amddiffyn cyllid cyhoeddus. Dadleuwyd y dylid canolbwyntio gweithredu ar sicrhau bod gan sefydliadau drefniadau llywodraethu cryf yn eu lle ac ar fynd i'r afael â phroblemau penodol yn hytrach na diddymu sefydliadau.
- 3.15 Cafodd y potensial am gyfuno strwythurol yng Nghymru yn y dyfodol ei godi yn ystod y trafodaethau. Yn yr amgylchiadau hyn y teimlad oedd bod gwrthdaro yn aml rhwng yr hyn y bernir ei fod er budd gorau myfyrwyr a'r sefydliad unigol. Teimlai'r rhai a oedd yn mynegi'r farn hon y byddai angen cadw pwerau Gweinidogion Cymru mewn rhyw

ffurf er mwyn gallu hwyluso cyfuniadau strwythurol o'r fath lle'r oedd er budd gorau myfyrwyr a sector AU Cymru.

- 3.16 Dadleuwyd na ddylai fod angen am bwerau diddymu os yw swyddogaethau sicrwydd a rheoleiddio y Comisiwn yn iawn.
- 3.17 Barn rhai rhanddeiliaid oedd, beth bynnag oedd y dewis y penderfynir arno, y dylai pob sector AHO fod yn ddarostyngedig i'r un trefniadau rheoleiddio ac na ddylai fod gwahanol ddarpariaethau a dulliau gweithredu i wahanol sectorau. Roedd hefyd angen codeiddio a diffinio beth sy'n ffurfio camreolaeth neu fethiannau llywodraethu difrifol mewn sefydliad.
- 3.18 Mynegwyd pryderon ynghylch nifer o'r hyn a ganfyddir fel methiannau llywodraethu a oedd wedi digwydd yn y sector AU dros y blynyddoedd diwethaf, a'r effaith sylweddol mae'r methiannau hyn wedi'i gael ar staff a myfyrwyr. Y teimlad oedd fod y gallu i aelodau staff gynghori llywodraethwyr a sefydliadau yn cael ei anghofio'n aml, ac er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, fod angen i Lywodraeth Cymru feddwl o ddifrif ynghylch rôl staff ar gyrff llywodraethu a phwyllgorau a ffordd o sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o staff.
- 3.19 Nodwyd yr angen i sicrhau bod trefniadau'n ystyried y potensial am ddarparwyr newydd gan y gallai'r rhain fod y mwyaf bregus o'r cwbl.
- 3.20 Roedd y grŵp yn pwysleisio'r angen i warchod ymreolaeth sefydliadol waeth pa opsiwn a weithredir. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau y byddai cadw pwerau i Weinidogion Cymru ddiddymu corfforaeth AU heb ganiatâd yn peryglu ymreolaeth y sefydliadau hyn.
- 3.21 Fe wnaeth cynrychiolwyr dynnu sylw at risgiau posibl gwneud newidiadau fel y rhain yr un pryd â gweithredu diwygiadau ehangach AHO. Y teimlad oedd y gallai fod yn fwy priodol ymdrin â'r materion o dan sylw y tu allan i'r ymgynghoriad hwn.
- 3.22 Roedd rhai cynrychiolwyr yn ei theimlo'n anodd ystyried materion fel y rhain yn llawn heb ddeall swyddogaethau a rôl y Comisiwn. Holwyd hefyd a fyddai'r trefniadau rheoleiddio presennol o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn cael eu parhau neu eu disodli.

C2: O dan ba amodau neu amgylchiadau ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol arfer pwerau diddymu?

- 3.23 Fe wnaeth y drafodaeth nodi amrywiaeth o amgylchiadau neu amodau lle gallai fod yn briodol arfer pwerau diddymu os byddant yn cael eu cadw. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Cyfuno;
 - Camreolaeth neu gamwedd ariannol;
 - Pryderon difrifol ynghylch ansawdd;
 - Arferion anghyfreithlon megis twyll;
 - Methiannau neu gamreolaeth sefydliadol difrifol (nodwyd y byddai angen diffinio'r rhain yn gliriach);
 - Methdaliad;

- Difrod difrifol i enw da'r sefydliad unigol neu i'r sector fel cyfanrwydd.
- 3.24 Wrth ystyried yr amodau hyn, roedd y grŵp o'r farn fod yn rhaid ystyried pwerau diddymu yng nghyd-destun ehangach fframwaith rheoleiddio a swyddogaethau ymyrryd y Comisiwn, a bod yn rhaid iddynt fod yn gyson â hwy. Yn ogystal, ni ddylid ystyried y pwerau hyn ond fel dewis terfynol pan fo pob dewis arall wedi cael eu dihysbyddu.
- 3.25 Os pennir amodau lle gellid arfer pwerau diddymu oddi tanynt, y teimlad oedd y byddai angen pennu'r rhain yn fanwl. Er enghraifft, byddai angen diffinio'n glir yr hyn a olygir gyda methiant sefydliadol difrifol neu gamreolaeth ariannol difrifol (gan gynnwys rhagamcanion rhy uchel o niferoedd myfyrwyr yn y dyfodol). Heb y manylder hwn ni fyddai'n bosibl gweithredu'r hyn sydd ei angen.
- 3.26 Pwysleisiwyd hefyd y byddai angen sefydlu mesurau diogelu priodol ar gyfer myfyrwyr pe codai sefyllfa lle byddai pwerau diddymu yn cael eu defnyddio. Nodwyd bod mecanweithiau fel Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn caniatáu ar gyfer gosod trefniadau diogelu myfyrwyr ar waith.
- 3.27 Awgrymwyd gan un rhanddeiliad y byddai pwerau diddymu, yn y mwyafrif llethol o achosion, yn cael eu harfer am resymau'n ymwneud â chamreolaeth ariannol. Yn benodol, roedd pryder nad yw sefydliadau bob amser yn rhoi sylw dyledus i'r newid demograffig yng Nghymru a dylai fod gan y Comisiwn rôl o herio'r ffordd mae sefydliadau'n rhagamcanu niferoedd myfyrwyr yn y dyfodol. Mynegwyd pryder hefyd fod cyllidebau a rhagolygon ariannol yn cael eu seilio weithiau ar wybodaeth na fyddai'n gwrthsefyll craffu cadarn ac nad oes gan lywodraethwyr annibynnol y set sgiliau a'r arbenigrwydd angenrheidiol bob amser i allu herio'r rhagolygon.
- 3.28 Fel y nodwyd uchod, roedd barn y gallai fod angen newid strwythurol pellach yn sector AU Cymru er mwyn sicrhau bod prifysgolion yng Nghymru'n gallu cystadlu ledled y DU. Yn y cyswllt hwn, mynegwyd pryder y byddai opsiwn sy'n arwain at Weinidogion Cymru heb fod yn gallu diddymu corfforaeth AU oni bai fod y sefydliad yn symbylu'r broses ei hun (Opsiwn 3) yn achosi problemau pe digwyddai fod cyfuniadau strwythurol yn angenrheidiol yn y dyfodol ac y byddai felly'n anodd ei gefnogi. Teimlai'r rheini a oedd yn mynegi'r farn hon fod sefydliadau'n aml yn gwrthwynebu cyfuno ar sail eu buddiannau eu hunain yn hytrach na gweithredu er budd gorau myfyrwyr neu sector AU Cymru, ac roeddent yn dweud y byddant yn cefnogi cyfuniadau yn y dyfodol lle'r oedd hynny er budd myfyrwyr a/neu sector AU Cymru. Roeddent yn teimlo fod ar Lywodraeth/Gweinidogion Cymru angen y gallu i weithredu newid strwythurol yn yr amgylchiadau hyn. Yn y cyswllt hwn nid oeddent o'r farn fod yr anghysondeb rhwng corfforaethau AU a phrifysolion siartredig o ran pwerau diddymu yn broblem fawr, oherwydd teimlent fod unrhyw gyfuno strwythurol posibl a fyddai'n ymwneud â sefydliadau siartredig yng Nghymru eisoes wedi digwydd.

C3: A ddylai pwerau diddymu fod yn arferadwy ar argymhelliad y Comisiwn yn unig? Os felly, a ddylid ymestyn hyn i'r trefniadau presennol ar gyfer sefydliadau addysg bellach?

- 3.29 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r Comisiwn gael rôl ymgynghorol allweddol mewn perthynas â chosbau sylweddol fel y rhain. Y teimlad oedd mai'r Comisiwn fyddai yn y sefyllfa orau i wneud dyfarniad ac na ddylid gwneud penderfyniadau am resymau gwleidyddol neu strategol.
- 3.30 Roedd teimlad y dylai'r Comisiwn chwarae rôl sylfaenol wrth ddarparu'r sail dystiolaeth ar gyfer arfer pwerau diddymu pe cedwid y rhain. Yn ogystal, dylai'r Comisiwn gael rôl fwy hirdymor wrth ddatblygu fframwaith addas ar gyfer defnyddio pwerau o'r fath.
- 3.31 Cafodd yr angen i'r pwerau hyn fod yn gyson â fframwaith rheoleiddio a swyddogaethau ymyrryd ehangach y Comisiwn ei nodi drwy gydol y trafodaethau yn y grŵp ffocws.
- 3.32 Roedd y cyfranwyr o'r farn hefyd y dylai'r Comisiwn geisio sefydlu trefn fwy cyson ymhlith holl ddarparwyr AHO o ran y safonau y mae disgwyl iddynt eu cyrraedd. Fodd bynnag, dadleuwyd y dylai'r trefniadau newydd ganiatáu ar gyfer gwahaniaethu yn y ffordd y mae'r Comisiwn yn rhyngweithio gyda gwahanol fathau o ddarparwyr ar sail pethau fel eu maint, cenhadaeth, trefniadau comisiynu a chyfansoddiad cyfreithiol.

4. **Llywodraethiant Addysg Uwch: Gweithdrefnau a meini prawf ar gyfer Pwerau Dyfarnu Graddau a Theitl Prifysgol yng Nghymru**

13^{eg} Mehefin 2018

4.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Prifysgol De Cymru
- CCAUC
- Prifysgolion Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
- Colegau Cymru
- Prifysgol Wrecsam Glyndŵr

4.2 Mae barnau Cadeiryddion Prifysgolion Cymru hefyd wedi cael eu hymgorffori o fewn y nodiadau hyn yn dilyn sesiwn un-i-un gyda hwy.

C1: A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig, hynny yw na ddylid gwneud newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd?

4.3 Roedd cytundeb cyffredinol ar y dull gweithredu arfaethedig a nodiwr yn yr ymgynghoriad technegol, sef na ddylid gwneud newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn benodol:

- roedd y cynrychiolwyr yn cytuno'n fras â sail resymegol y polisi a nodir yn yr ymgynghoriad technegol ac yn enwedig yr angen i ystyried y materion canlynol wrth ystyried unrhyw newidiadau a allai fod yn briodol yng Nghymru:
 - y gwahanol gyd-destun polisi sy'n bod yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig;
 - maint cymharol y sector AU ac amledd isel ceisiadau o gymharu â Lloegr;
 - yr angen i ystyried unrhyw newidiadau i drefniadau pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng nghyd-destun y diwygiadau AHO ehangach a gynigir yng Nghymru er mwyn sicrhau nad ydynt yn lleihau lefel bresennol y diogelu i fyfyrwyr nac yn effeithio'n negyddol ar ansawdd ac enw da addysg uwch Cymru; a'r
 - angen i ganiatáu amser i'r prosesau newydd yn Lloegr ymwreiddio a chael eu gwerthuso'n llawn.

4.4 Nodwyd bod gan y Cyfrin Gyngor brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd mewn addysg uwch ers amser maith ac o'r herwydd ei fod yn gallu darparu goruchwyliaeth gref ac effeithiol. Roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio bod y berthynas â'r Cyfrin Gyngor wedi bod yn dda iawn yn gyffredinol hyd yma, gyda'r Cyfrin Gyngor yn darparu cyngor a chymorth gwerthfawr ar amrywiaeth o faterion llywodraethu AU.

Roedd rhanddeiliaid yn mynegi'r farn fod, cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud i rôl y Cyfrin Gyngor, angen sicrhau bod trefniadau'r un mor gadarn ar waith i gymryd lle'r trefniadau presennol.

- 4.5 Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod y trefniadau presennol wedi hen ennill eu plwyf ac wedi gweithio'n dda dros nifer o flynyddoedd. Y teimlad oedd eu bod yn cynnig fframwaith cadarn i sicrhau ansawdd ac enw da addysg uwch Cymru ac i ddiogelu buddiannau myfyrwyr. O'r herwydd nid oedd dadl gref dros eu newid ar hyn o bryd.
- 4.6 Nid oedd rhanddeiliaid yn diystyru'r posibilrwydd o newid i amgylchiadau yn y dyfodol ond nid oeddent o'r farn fod hyn yn briodol ar hyn o bryd gan fod angen ystyried diwygiadau ehangach AHO yng Nghymru ac effaith diwygiadau yn Lloegr cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar unrhyw newidiadau yng Nghymru
- 4.7 Gofynnwyd barn ar unrhyw faterion neu bryderon o safbwynt y trefniadau presennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol. Nodwyd bod ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau yn cymryd rhwng 18 mis a 2 flynedd. Awgrymwyd y gellid gweld hyn fel un o anfanteision y trefniadau presennol ond bod angen ei gydbwysu yn erbyn yr angen i sicrhau trylwyrdd a diogelwch y broses. Roedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn nodi eu bod yn edrych ar ffyrdd o symleiddio'r broses mewn ymateb i'r trefniadau newydd yn Lloegr ac y gallai hyn arwain at fanteision o ran hyd y broses i ymgeiswyr yng Nghymru hefyd.
- 4.8 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru gadw ei rôl bresennol mewn perthynas â chyhoeddi canllawiau ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru. Y teimlad oedd y gellid o bosibl trosglwyddo'r rôl hon i'r Comisiwn yn y dyfodol ond y dylai aros gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.
- 4.9 Mae'r ymgynghoriad technegol yn dangos bod y meini prawf yr asesir ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yn eu herbyn wedi eu pennu ar sail an-neddfwriaethol ar y rhyn o bryd, sy'n cynnig yr hyblygrwydd i'w diwygio yn y dyfodol heb newid deddfwriaethol, pe bernid bod angen hyn. Roedd consensws cyffredinol y dylai'r Comisiwn gael rôl wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r meini prawf yn y dyfodol ac y dylid gwneud hyn gan ymgynghori â rhanddeiliaid eraill.
- 4.10 Nodwyd y byddai angen i'r Comisiwn gael y swyddogaethau a'r pwerau angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni'r rôl hon a rhoi cyngor.
- 4.11 Mynegwyd barn gan un rhanddeiliad y dylai unrhyw newidiadau i feini prawf pwerau dyfarnu graddau a/neu meini prawf teitl prifysgol yn y dyfodol fod yn destun craffu priodol gan Weinidogion Cymru a/neu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

C2: A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru?

- 4.12 Mae'r ymgymghoriad technegol yn cynnig y dylai'r Comisiwn chwarae mwy o rôl wrth roi cyngor ar geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru. Gallai rôl o'r fath i'r Comisiwn gynnwys bod â chyfrifoldeb dros gomisiynu cyngor ar ansawdd a chynaliadwyedd ariannol y sefydliadau sy'n ymgeisio a thros yr asesiad yn erbyn y meini prawf a bennwyd cyn gwneud argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynghylch cymeradwyo neu wrthod ceisiadau ar sail canlyniadau'r asesiadau hynny. Cyflawnir y rôl hon ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Roedd cytundeb cyffredinol o blaid y rôl fwy a gynigir i'r Comisiwn fel a nodir yn yr ymgynghoriad technegol. Roedd teimlad fod hyn yn gyson â'r rôl ehangach yng nghyd-destun sicrwydd a gynigir ar gyfer y Comisiwn. Roedd teimlad hefyd y byddai'r rôl hon yn fuddiol o ran galluogi'r Comisiwn i gasglu gwybodaeth ehangach o ddarpariaeth ôl-16 ar draws pob sector.
- 4.13 Codwyd pryder gan y grŵp ynghylch yr angen i sicrhau bod gan y Comisiwn adnoddau ddigonol i allu cyflawni ei holl swyddogaethau.
- 4.14 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi mai'r bwriad yw rhoi cyfrifoldeb statudol i'r Comisiwn dros sicrhau asesu ceisiadau pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol ac y gallai hyn fod trwy'r corff ansawdd dynodedig (DQB) arfaethedig (nad yw wedi cael ei bennu eto). Nodwyd hefyd y byddai angen i'r Comisiwn gael y swyddogaeth a'r pwerau angenrheidiol i'w alluogi i roi cyngor i Weinidogion Cymru ar y materion hyn. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol gan y grŵp mewn perthynas â'r cynigion hyn.

C3: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer darparu addysg uwch mewn addysg bellach fel rhan o'i gylch gwaith strategol ehangach ar gyfer darpariaeth AHO?

- 4.15 Rhoddwyd eglurhad mai'r bwriad y tu ôl i'r cynnig hwn oedd peidio â chyflwyno newidiadau tebyg i drefniadau dilysu sydd wedi cael eu cyflwyno yn Lloegr o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Yn lle hynny, cynigir bod y Comisiwn yn cael y gallu i adolygu a gwella effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno AU mewn AB. Mynegwyd pryderon y gellid dehongli hyn fel rhoi pwerau agored i'r Comisiwn i adolygu teitlau prifysgol a phwerau dyfarnu graddau a chyflwyno dull gweithredu tebyg i un y Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil yng Nghymru. Rhoddwyd eglurhad y byddai cyflwyno trefniadau dilysu o'r math hwn yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, rhywbeth nad yw'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad technegol.
- 4.16 Roedd consensws cyffredinol y dylai'r Comisiwn, fel rhan o'i gylch gwaith, adolygu a gwella'n barhaus effeithiolrwydd yr holl drefniadau ôl-16, gan gynnwys cyflwyno AU mewn AB.

Sylwadau cyffredinol

- 4.17 Nodwyd y caiff ceisiadau am deitl prifysgol yng Nghymru, o dan y trefniadau presennol, eu hystyried o dan feini prawf a nodir mewn canllawiau a gyhoeddwyd yn 2004. Cafodd dogfen 2004 ei chyhoeddi fel canllawiau ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr, ond bellach mae'n berthnasol i geisiadau am deitl prifysgol gan sefydliadau yng Nghymru yn unig yn sgil y newidiadau dilynol yn Lloegr. Cadarnhaodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ei bod yn chwarae rhan wrth asesu ceisiadau am deitl prifysgol, ond nodwyd na chaiff y rôl hon ei hadlewyrchu yng nghanllawiau 2004. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hysbysu'r grŵp fod canllawiau diwygiedig pwerau dyfarnu graddau ar gyfer sefydliadau yng Nghymru wedi cael eu cyhoeddi yn 2017 ac mai'r bwriad oedd cynnal adolygiad tebyg o ganllawiau teitl prifysgol 2004. Fodd bynnag, roedd hyn wedi ei ohirio yng ngoleuni'r ymgynghoriad AHO sy'n ceisio barnau rhanddeiliaid ar amrywiaeth o faterion llywodraethu AU, gan gynnwys trefniadau gweithdrefnol ar gyfer ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru.
- 4.18 Ceisiwyd barnau ar unrhyw oblygiadau posibl i Gymru a allai godi o'r trefniadau newydd yn Lloegr ac yn benodol a allai'r rhain effeithio ar weithredu effeithiol trefniadau pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yn y cyfamser a'r tu hwnt. Dywedodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wrth y grŵp am y bwriad i gynnal y seilwaith presennol er mwyn sicrhau y gellid parhau i ystyried ceisiadau o Gymru yn y cyfamser. Byddai unrhyw newidiadau gweithdrefnol yn y dyfodol yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Cymru yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae gan Lywodraeth Cymru statws sylwedydd yn y cyfarfodydd hyn. Fe wnaeth yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd nodi hefyd fod ACDAP yn gweithio gyda gwahanol geisiadau a meini prawf asesu pwerau dyfarnu graddau ledled y Deyrnas Unedig ac nid oeddent yn gweld hyn fel rhwystr wrth symud ymlaen.
- 4.19 Mae canllawiau a meini prawf presennol pwerau dyfarnu graddau yn cyfeirio at y Cod Ansawdd y byddai angen ei adolygu yng ngoleuni newidiadau i'r trefniadau presennol.
- 4.20 Tynnwyd sylw at ddiffyg eglurder ynghylch prentisiaethau gradd o ran y broses a'r ddealltwriaeth o drefniadau ar draws sectorau. Nodwyd bod yr ymgynghoriad technegol yn cynnwys adran ar wahân ar brentisiaethau ac y byddai'r pryder hwn yn cael ei gyfleu i'r tîm prosiect priodol.
- 4.21 Codwyd pryder ynghylch gwahanol drefniadau ar gyfer pwerau dyfarnu graddau ledled y Deyrnas Unedig a'r oblygiadau posibl ar gymorth i fyfyrwyr.
- 4.22 Nodwyd y byddai angen i'r Comisiwn sicrhau bod arbenigedd briodol o AB ac AU yn bresennol yn aelodaeth ei Fwrdd er mwyn sicrhau y gellid gweithredu'r swyddogaethau hyn yn effeithiol. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r ffrwd waith briodol.

5. Diogelu Dysgwyr

14^{eg} Mehefin 2018

5.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Estyn
- CCAUC
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol,
- UCM Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Gyrfa Cymru
- Prifsgol Glyndwr Universi
- Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

Barnau Cyffredinol

- 5.2 Roedd cefnogaeth helaeth i'r cynigion gan bob parti – yn enwedig o safbwynt yr egwyddorion cyffredinol a gefnogir gan weithredoedd penodol i gyd-destunau / sectorau.
- 5.3 Dywedodd UCM fod yr ymgynghoriad technegol wedi ysgogi trafod sylweddol yn eu sgysiau eu hunain, yn enwedig ynghylch graddau'r pennu ffurfiol – rhywbeth roeddent wedi'i gefnogi i raddau helaethach yn flaenorol. Adleisiwyd hyn gan gyfranwyr eraill ac roedd galwad i sicrhau y gallai'r Comisiwn gadw hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau mewn cyd-destun dros amser – mewn perthynas â newidiadau mewn disgwyliadau ac anghenion myfyrwyr er enghraifft.
- 5.4 Roedd yr holl bartïon a oedd yn bresennol yn cydnabod y gwahaniaethau mewn hawl rhwng dysgwyr mewn ysgol a lleoliadau eraill fel her o safbwynt dod â chweched dosbarth ysgolion i mewn i gylch gwaith system holistaidd.
- 5.5 Yn ogystal, roedd sefydliadau addysg uwch yn cael eu gweld fel petaent yn arwain y ffordd o ran Llais y Dysgwr a'r teimlad oedd fod angen cadw'r lefel hon fel y safon ofynnol (gyda threfniadau priodol yn ôl sector), a allai fod yn anodd i sefydliadau addysg bellach ac ysgolion yn enwedig. Ar hyn o bryd mae'r iaith a ddefnyddir yn amrywio ar draws sectorau ac mae angen cyflwyno geirfa gyffredin i ddisodli hyn.
- 5.6 Yn gyffredinol, mae angen cadw'r dysgwr yn y canol ac amlygu manteision cynnwys dysgwyr yn ogystal â rheoleiddio drosto.
- 5.7 Cyngor ar yrfaoedd yw eu prif bwyslais a sicrhau bod gan bob myfyrwr fynediad cyfartal at wybodaeth. Angen.
- 5.8 Gofynnodd un cyfrannwr ynghylch Rhwystro, ond gwrthodwyd hyn fel rhywbeth sy'n rhan o ddeddfwriaeth y DU ac felly heb fod yn berthnasol yma.
- 5.9 Gwnaed un sylw fod y ddogfen ymgynghori'n anodd mynd i'r afael â hi a'i bod yn brin mewn dewisiadau manwl i fyfyrion arnynt.

C8: Yn adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, a oes yna faterion eraill y dylid eu cynnwys? Os felly, beth yw'r rheini? A ddylid cael gwared ag unrhyw faterion? Os felly, pa rai?

- 5.10 Roedd cytundeb lwyr â'r egwyddorion cyffredinol, ond roedd galwad i osgoi gormod o fanylder yn y ddeddfwriaeth, er y gellid cynnwys dolenni i ganllawiau atodol.
- 5.11 Gwnaed y pwynt nad oedd Llais y Dysgwr yn cael ei gynnwys yn benodol (er bod Diogelu Dysgwyr wedi'i gynnwys).

C16: Pa wybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sydd â Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd y dylai'r Comisiwn ei rhyddhau i'r cyhoedd?

- 5.12 Mae rhywfaint o drafodaeth am y ffaith fod cymunedau ymchwil ac arloesi wedi'u cynnwys yma, gan eu bod yn aml yn cael eu hystyried fel petaent ar wahân i'r gymuned ddysgwyr.
- 5.13 Os cymeradwyir Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, dylent gynnwys sicrwydd digonol fod Diogelu Dysgwyr ar waith. Lle'r sefydliadau eu hunain wedyn fyddai cyhoeddi cynlluniau a gwybodaeth. O safbwynt y Comisiwn, dylai fod yn ddigon gwybod bod y rhain ar waith.

C34: A ydych chi'n cytuno y dylai trefniadau diogelu dysgwyr fod yn gydnaws â chyfres gyffredin o egwyddorion, er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector AHO?

- 5.14 Roedd cytundeb cyffredinol gyda'r egwyddorion, ond mae angen ystyried yr heriau wrth weithredu ar draws pob sector. Mae angen i egwyddorion fod yn rhai lefel uchel – sicrhau bod trefniadau yn eu lle, yn hytrach na gosod manylion fel rhan annatod o bolisi. Gallai gwneud yn wahanol dynnu ymaith yr hyblygrwydd i gyflwyno ymyrraeth ragweithiol – ymdrin â chau cwrs, er enghraifft. Mae angen cydnabyddiaeth y gall trefniadau wahaniaethu yn ôl lleoliad ac ymarferoldeb trosglwyddo, gan ystyried natur ardaloedd gwledig er enghraifft, a lle gall cyfleoedd fod yn fwy cyfyng.
- 5.15 Awgrymwyd bod angen goblygiadau amser yma, Os nad yw cwrs yn rhedeg, faint o amser y dylid ei ganiatáu i ddarparwyr gynnig darpariaeth gyfatebol i'r dysgwyr yr effeithir arnynt?
- 5.16 Mae cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn tueddu i fod yn grwpiau llai ac mae angen trefnu strwythurau er mwyn sicrhau y gall darpariaeth gyfrwng Cymraeg dyfu. Mae angen cael cynlluniau ar waith i sicrhau na ddylai fod yn bosibl tynnu darpariaeth yn ôl heb ddewis arall hyfyw pe na bai cwrs yn rhedeg oherwydd niferoedd.

- 5.17 Dylai'r egwyddor fod y dysgwr yn ganolog i bopeth ymestyn i sicrhau bod dysgwyr yn ymwneud mewn amrywiaeth ehangach o ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, adolygiadau a gwerthusiadau.

C35: A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a awgrymwyd? A oes yna egwyddorion y dylid eu hepgor neu egwyddorion ychwanegol y dylid eu cynnwys?

- 5.18 Roedd cytundeb cyffredinol fod yr egwyddorion yn rhai priodol, ac ni welwyd yr angen am rai ychwanegol. Mae angen i'r egwyddorion gael eu perchnogi gan y Comisiwn ac nid wedi eu pennu mewn deddfwriaeth gan fod angen cael y gallu i adolygu a diweddarau yn y tymor hirach. Gallai fod ar ddarparwyr angen cyfres o "ddisgwyliadau" seiliedig ar sector sy'n dod o dan y rhain; wedi eu datblygu mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn. Mae C ychwanegol ynghylch sut ydym yn monitro gweithredu'r egwyddorion.
- 5.19 Ymgynghorwyd ag UCM Cymru ar y drafft cychwynnol ac ar y pwynt hwnnw roeddent yn eithaf hapus â nhw. Gyda llygaid ffres, mae angen newid yr iaith i gau'r ddolen i gynnwys ymwneud, gweithredu, monitro a gwerthuso er mwyn sicrhau cyd-ddrafod llawn a pharhaus. Fodd bynnag, wrth iddynt gael eu gwrthio ymlaen, mae angen i drefniadau fod yn eang a hygyrch i'r corff ehangach o fyfyrwyr ar draws sectorau. Gellid monitro hygyrchedd trwy'r broses werthuso – proses y mae angen iddi ddarparu modd o wirio a rhannau o fewn pob sector.
- 5.20 Cododd y C o gwynion a'r angen am lwybr clir i ddysgwyr godi cwynion neu leisio pryderon. Y Comisiwn ddylai hyn fod yn y lle cyntaf, er y gallent gyfeirio ymlaen at gorff arall am archwiliad – megis Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol, fel corff annibynnol. Mae gwahaniaeth rhwng problemau systemig (cyfrifoldeb yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd) a'r rheini sy'n effeithio ar yr unigolyn (Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol) a dylid trin y rhain yn wahanol.
- 5.21 Dylai fod symudiad oddi wrth reoleiddiwr yn canolbwyntio ar orfodi a chydymffurfio tuag at bartneriaeth a chydweithio. Gallai'r Comisiwn deimlo'r angen i ddarparu cyllid i Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol i gefnogi hyn.
- 5.22 Mae rhai heriau ynghylch yr egwyddor "cefnogol" ar gyfer dysgwyr seiliedig ar waith yn y gweithle – o ran mecanweithiau llesiant ac iechyd meddwl ymysg grwpiau gwarchodedig. O ran iechyd meddwl, mae angen osgoi dyblygu, lle be cymorth ar gael trwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu gymorth arall. Felly mae angen adnabod y cymorth mwyaf addas a dangos y ffordd tuag ato, yn hytrach na'r sefydliad yn ceiiso darparu popeth gydag adnoddau cyfyngedig.

C36: A ydych chi'n cytuno â'r hyn yr awgrymir ei gynnwys mewn Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr? A oes yna unrhyw beth y dylid ei ychwanegu neu ei hepgor?

- 5.23 Roedd y cynnig yn cael ei weld fel un manwl iawn, yn enwedig wrth ystyried yr is-bwyntiau bwled a awgrymwyd. (Roedd rhywfaint o drafod ynghylch a oedd y cynnwys yn pennu, neu yn awgrymu, pethau y gellid eu cynnwys yma.) Roedd yr egwyddorion lefel uchel unwaith eto'n cael eu gweld fel rhai addas, ond byddai angen datblygu'r ffordd o'u gweithredu fesul achos er mwyn ymdrin ag amgylchiadau unigol. Fel arall gallai lesteirio gallu darparwyr i ddiogelu dysgwyr yn effeithiol – weithiau mae arloesi'n codi o argyfwng.
- 5.24 Ni does dim cyfeiriad at ganllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd na sicrwydd ariannol, yn enwedig i fyfyrwyr AU a phrentisiaid; ee ffioedd dysgu.
- 5.25 Cydnabuwyd mai enghreifftiau yw'r is-bwyntiau, yn hytrach na gorchmynion, ond mae angen gwneud hynny'n glir. Er enghraifft, wrth bennu staff.
- 5.26 Angen rhyw fath o gyfeiriad penodol at y Gymraeg mewn Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, yn enwedig ynghylch dosbarthiadau chwech.
- 5.27 Mae paragraff 127 yn awgrymu nad oes ar ddosbarthiadau chwech angen elfen cynnydd.
- 5.28 Mae 128 yn trafod trosglwyddo rhwng ysgolion ond nid rhwng ysgol a choleg. Mae angen cryfhau "archwilio yn y dyfodol". Llawer o heriau ynghylch sicrhau cynnydd, yn enwedig o safbwynt defnyddio rhifau unigol dysgwyr – efallai fod angen iddynt fod yn eu lle cyn TGAU fel y gall dysgwyr eu defnyddio fel rhif Yswiriant Gwladol. Ar hyn o bryd, gall dysgwyr ddiweddu gyda 2 neu 3 rhif unigryw dysgwr, wedi eu rhoi gan wahanol ddarparwyr, oherwydd problemau rhannu data.
- 5.29 Mae angen gwella'r llif o wybodaeth er mwyn osgoi i unigolion orfod ail-sefyl modiwlau wrth drosglwyddo i ddarparwr arall.
- 5.30 Roedd cynnwys cyngor a chanllawiau gyrfaedd yn cael ei groesawu.

C37. Pa sancsiynau, os o gwbl, ddylai fod ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Chynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr?

- 5.31 Roedd hyn yn cael ei weld fel her anodd. Y consensws oedd y gall fod rhai cosbau ariannol yn angenrheidiol (efallai 10% yn cael ei ddal yn ôl), ond na ddylid ei gysylltu â chyllid craidd, a allai effeithio ar ddarpariaeth. Felly dylai fod yn gysylltiedig â chyllid cymelliannol.
- 5.32 Teimlad un darparwr oedd os yw Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr am fod o fudd i ddysgwyr, yna rhaid tybio bod pob darparwr wedi eu datblygu. Heb arf o gosbau o ryw fath, efallai na fyddai Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr yn addas i'r diben ac felly mae angen rhoi rhai cosbau yn y lle, er mai ond fel y dewis olaf.

Gwnaed y pwynt fod angen dull blaengar o weithredu er mwyn osgoi cyrraedd y pwynt lle gallai cosbau fod yn angenrheidiol. Un awgrym oedd cytuno ar ansawdd Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr o'r dechrau, er mwyn osgoi unrhyw amwysedd. Gallai cyrff sectorau ddarparu templedi ar gyfer y cynlluniau a chymorth wedyn i'w gweithredu.

- 5.33 Roedd cosbau mewn perthynas â dosbarthiadau chweched ysgolion yn cael eu gweld fel rhywbeth a allai beri problemau, er y tybiwyd y byddai'r Comisiwn yn rhyngweithio trwy awdurdodau lleol ar faterion o'r fath. Yn yr un modd, gellid disgwyl i awdurdodau lleol gynnig cymorth i Gynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion, mewn modd tebyg i'r cymorth presennol ar ddiogelu. Awgrymodd un cyfrannwr fod angen am gorff cydgysylltu gyffredinol i gynrychioli chweched dosbarth ysgolion.

C38: A ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau presennol ar gyfer datrys cwynion barhau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion?

- 5.34 Roedd y cyfranwyr yn cytuno y dylai dysgwyr gael mynediad at gorff annibynnol ac y dylai hyn fod y tu hwnt i Lywodraethwyr yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol. Yn wyneb cyfyngiadau rôl yr Ombwdsmon, roedd cefnogaeth gyffredinol i edrych ar Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, er y byddai hyn yn golygu helaethu eu cylch gwaith a byddai hefyd yn ymgorffori un o gyrff y Deyrnas Unedig i bolisi Cymru. Y teimlad oedd fod dadl dros i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fod y beirniad terfynol ar draws pob sector, er mwyn cynnig profiad a lefel gwasanaeth cyson.

C39: A ydych yn cytuno y dylid datblygu egwyddorion a gwerthoedd cyson o ran llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr, ac y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr dysgu weithredu yn unol â'r rhain?

- 5.35 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn o ran egwyddorion lefel uchel yn gosod sail ar gyfer trafodaethau mwy hyblyg ynghylch gweithredu'n ymarferol (a fyddai o anghenraid yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd). Roedd galwad am derminoleg fwy cyson i ganiatáu dealltwriaeth o rôl llais ac ymwneud dysgwyr ac felly i yrru cynrychiolaeth fwy ystyrion i ddysgwyr.
- 5.36 Teimlai cyfranwyr y gallai chweched dosbarth ysgolion olygu her yma, gan nad ydynt yn ddarparwyr AHO yn unig ac felly byddai angen iddynt fabwysiadu safonau deul.
- 5.37 O ran darparwyr dysgu seiliedig ar waith, mae heriau hefyd o safbwynt ymarferoldeb ymwneud â dysgwyr yn y gweithle.

C40: A ydych yn cytuno y dylai cynrychiolwyr dysgwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu elfen ddeilliannau'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau?

- 5.38 Roedd cytundeb cyffredinol gyda'r awgrym hwn ac awydd i weld cynrychiolaeth yn mynd y tu hwnt i ymrwymiad cytundebol i gynnwys llais y dysgwr. Fel mewn lleoedd eraill, cytunwyd y gallai natur yr ymwneud amrywio yn ôl sector ond y dylai er hynny eistedd yn is nag egwyddor lefel-uchel o ymwneud gwirioneddol. Awgrymodd un cyfrannwr gyflwyno cychwynnwyr a chontractau myfyrwyr.

C41: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer sicrhau llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr? A ydych o'r farn y byddai hyn yn gweithio i bob darparwr dysgu?

- 5.39 Roedd dadl helaeth ynghylch y tabl a gynhwysir yn y ddogfen ym mhennod 157. Teimlai un cyfrannwr yr ymddangosai fel pe bai'n ymwneud â nodweddion darparwyr, nid llais y dysgwr. Roedd un arall yn meddwl tybed a ellid ei ail-lunio i ddatgan bod ar bawb angen trefniadau ar gyfer sicrhau llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr ac mai'r rhain yw'r egwyddorion?
- 5.40 Roedd un cynrychiolydd dysgu seiliedig ar waith yn bryderus y byddai'n anodd sicrhau corff cynrychioli dysgwyr mewn lleoliad DSW. Roedd cyfranwyr eraill yn cytuno â hyn (a'r un modd gyda Dysgu Oedolion yn y Gymuned), er y teimlent ei bod yn bwysig cael ffordd o ddysgwyr seiliedig ar waith yn cyfathrebu gydag eraill yn eu sector neu gymuned ymarfer. Awgrymwyd ymhellach y gellid dysgu gwersi gan Undebau Llafur ac y gallai fod potensial i ddefnyddio Cymdeithas Genedlaethol Prentisiaid i ddarparu cynrychiolaeth.
- 5.41 Dywedwyd bod Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn awyddus i ymwneud â'r agenda hon – o bosibl ar sail ranbarthol.

C42: Os felly, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am sefydlu'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig?

- 5.42 Cynigiwyd bod angen i'r fframwaith hwn gael ei berchnogi gan rwydwaith cydweithredol o ddarparwyr, a allai wedyn adlewyrchu amgylchiadau unigol. Teimlai un rhanddeiliad fod angen gwahaniaethu rhwng pennu'r egwyddorion a'u gweithredu.

C43: A ddylai'r Comisiwn weithio gyda phob darparwr addysgol yng Nghymru i sicrhau bod digon o adnoddau a chefnogaeth i sefydlu cyrff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr?

- 5.43 Teimlai cyfranwyr fod angen cytundebau partneriaeth blynyddol, ffurfiol – gyda darparwyr a dysgwyr yn cytuno ar drefniadau – yn flynyddol yn ysgrifenedig. Byddai hyn yn caniatáu i egwyddorion lefel-uchel gael eu hategu gan drefniadau lleol. Trwy arwyddo'r cytundeb,

- byddai'r darparwr a'r corff dysgwyr yn cytuno ar ddyraniad, gyda'r Comisiwn fel y cymrodeddwr ar gyfer unrhyw apeliadau.
- 5.44 Roedd ansicrwydd ynghylch beth fyddai'r goblygiadau i gontractau DSW.
- 5.45 Gwnaed y pwynt fod ar wahanol gyrff dysgwyr angen gwahanol lefelau o adnoddau i weithredu. Bydd angen gwneud trefniadau unigol i adlewyrchu niferoedd a swyddogaeth. Gallai fod ar chweched dosbarth ysgolion angen swyddogaeth ysgrifenyddiaeth yn hytrach na chyllid.
- 5.46 Y peth allweddol yw sicrhau cymorth digonol i rymuso'r corff myfyrwyr i chwarae rhan weithgar.

Cwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg

Esboniwch hefyd sut y credwch y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel y caiff effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac**
 - ii) fel na chaiff unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
- 5.47 Yn gyffredinol, cafodd datganiadau ar ymrwymiad i ddwyieithrwydd o fewn y ddogfen eu croesawu, er bod angen canolbwyntio ar wreiddio'r ymrwymiad hwnnw'n drylwyr.
- 5.48 Un pwynt a wnaed oedd nad oedd darpariaeth gyfrwng Cymraeg addysg uwch wedi ei glustnodi, pan ddylid cydnabod bod costau a heriau ychwanegol wrth gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg a bod angen cymelliannau a chymorth i sefydliadau yn hyn o beth. Cytunwyd nad oedd y nifer o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg wedi tyfu mor gyflym â'r disgwyl a bod newidiadau mewn cyllid yn bygwth cynaliadwyedd darpariaeth gyfrwng Cymraeg.
- 5.49 Dywedwyd bod darpariaeth pynciau Safon Uwch yn y Gymraeg wedi datblygu'n dda (yn enwedig mewn chweched dosbarth ysgolion), a bod rhai enghreifftiau da o gydweithio rhwng AB/Dosbarthiadau 6 wedi bod ynglŷn â hyn. Roedd cyrsiau galwedigaethol, fodd bynnag, yn wynebu heriau gwahanol.
- 5.50 Roedd dysgu seiliedig ar waith yn wynebu eraill cynhwysedd o ran cael hyd i staff â'r sgiliau, ond roedd y sector wedi gwella o ran adnabod galw am ddwyieithrwydd. Cytunwyd, fodd bynnag, fod angen cyfle ar ddysgwyr Cymraeg eu hiaith i rwydweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiynau Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Pa gostau neu arbedion ariannol a fydd yn deillio o'r diwygiadau hyn yn eich barn chi, ym mhob un o wahanol rannau'r sector ac yng Nghymru, yn y tymor byr (wrth i'r newidiadau ddod i rym) ac yn yr hirdymor?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill y gellid eu teimlo ar draws gwahanol rannau o'r sector yn y tymor byr a'r hirdymor?

- 5.51 Roedd un cyfrannwr yn holi a ddylai'r Comisiwn ddarparu cyllid i'r meysydd hynny lle nad yw Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr wedi datblygu cymaint ar hyn o bryd. Roedd C hefyd ynghylch a allai darparwyr fod yn hyderus y bydd y Comisiwn yn cynnal cyllidebau ar o leiaf lefelau presennol Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr.
- 5.52 Dywedwyd y dylai darpariaeth gyfrwng Cymraeg mewn pynciau costau uchel gael eu clustnodi er mwyn osgoi arbedion ar draul gweithgareddau eraill.
- 5.53 Nodwyd bod rhai ymadroddion defnyddiol ynghylch "dulliau cymesur" – gan y gallai rhai newidiadau fod yn wirioneddol ddud i ddarparwyr bach.
- 5.54 Pwyntiau eraill a wnaed:
- Bydd cydweithio'n hanfodol er mwyn osgoi costau
 - Gall fod angen cyllid i osgoi costau i fyfyrwyr os digwydd i gysiau gau
 - Dywedwyd bod problem o fyfyrwyr ymchwil yn colli tiwtoriaid ac yn gorfod adleoli o ganlyniad
 - Gall fod ar ddarparwyr angen am gronfeydd wrth gefn hefyd i fod yn barod am ddigwyddiadau posibl fel hawliadau yn erbyn streiciau
 - Gallai fod costau pontio tymor byr – er enghraifft:
 - Cost ymgynghorwyr i helpu ar gyfer newid
 - Lleoliad a staffio
 - TGCh a diogelu data
 - Systemau rheoli

6. Cyllido a Chynllunio Strategol

15^{fed} Mehefin 2018

6.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Coleg Sir Benfro
- CCAUC
- Colegau Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Prifysgol Glyndwr
- Agored
- Prifysgolion Cymru

C13: Ai'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yw'r ffordd orau ymlaen? Beth yw'r manteision a'r anfanteision?

6.2 Roedd y cyfranwyr o'r farn fod y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau arfaethedig yn cynnig model rhy fanwl i'r sector cyn sefydlu Comisiwn y dylid ei alluogi i benderfynu ar y model ei hun. Gwnaed dadl gref gan amryw o'r rhai oedd yn bresennol y dylid rhoi i'r Comisiwn, fel sefydliad hyd braich, yr awdurdod deddfwriaethol i benderfynu ar y trefniadau rheoleiddio rhyngddo'i hun a'r sefydliadau y mae'n eu rheoleiddio.

6.3 Fe wnaeth amryw o'r rhai a oedd yno fynegi pryderon ynghylch graddau'r manylder a gynigiwyd o fewn y papur ymgynghori gan ychwanegu mai'r Comisiwn yn y pen draw – er ei bod wedi bod yn briodol nodi tri dewis posibl o fewn y Papur Gwyn – ddylai gael yr awdurdod a'r sail gyfreithiol i benderfynu ar y model rheoleiddio mwyaf addas unwaith y'i sefydlir.

6.4 Yn hytrach, gallai fod o werth ystyried rhai egwyddorion allweddol ac ystyried y materion canlynol o safbwynt y berthynas rhwng y Comisiwn a'r darparwyr dysgu:

- bod y trefniadau'n gymesur â'r lefel o gyllid a fydd ar gael i bob darparwr dysgu
- sut y byddai unrhyw gytundeb deilliannau yn gweithredu o fewn cyd-destun ffi presennol y Sefydliad Addysg Uwch a chynlluniau mynediad (neu a fyddent yn disodli'r rhain)
- y dylai trefniadau cyllido yn y dyfodol gael eu cysoni ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

6.5 Roedd y cyfranwyr yn mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno system ddwy-haen o ganlyniad i'r cynnig i gynnwys sefydliadau elusennol yn unig o fewn cwrdd goruchwyliaeth reoliadol y Comisiwn.

6.6 Awgrymwyd os yw darparwr dysgu wedi sicrhau contract cyflwyno cyfredol gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno darpariaeth dysgu

seiliedig ar waith, yna dylid eu cynnwys o fewn goruchwyliad rheoliadol y Comisiwn. Dadleuwyd ymhellach fod y papur ymgynghorol yn aneglur ynghylch a oedd y cynnig presennol yn ceisio allgáu sefydliadau penodol. Gwnaed dadl y dylai darparwyr a ddaw o dan gwmpas rheoleiddio'r Comisiwn gynnwys sefydliadau sy'n seiliedig ar elusennau (ee mae'r sector AU yn gyfan gwbl seiliedig ar elusennau) yn ogystal â sefydliadau gwneud elw (ee mae'r mwyafrif o ddarparwyr DSW yn gwneud elw). Byddai hyn yn cadw darpariaeth o ddewis i ddysgwyr.

- 6.7 O safbwynt manteision y model arfaethedig, dadleuai cyfranwyr fod y model rheoleiddio arfaethedig yn cynnwys yn fras y gofynion sydd eisoes ar waith i'r sector AU, ac felly na fyddai'n peri unrhyw heriau sylweddol iddynt. Fodd bynnag, roedd yn fwy anodd gwneud sylw ar y model Cytundeb Deilliannau gan ei bod yn aneglur sut y byddai hyn yn gysylltiedig â'r cynlluniau ffioedd a mynediad y mae'n ofynnol i SAU eu cael.

C15: A oes model arall y dylem ei ystyried? Os felly, beth yw'r model hwnnw a beth fyddai'r manteision?

- 6.8 Roedd consensws barn y dylai'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Comisiwn arfaethedig newydd roi iddo'r pwerau a'r awdurdodaeth angenrheidiol i bennu ei fodel cytundeb rheoleiddio a deilliannau ei hun ar gyfer darparwyr dysgu, ac na ddylai'r graddau hyn o fanylder gael eu pennu'n barhaol gan y Ddeddf. Fel enghraifft, cyfeiriodd un cyfrannwr at Ddeddf Addysg Uwch 2015 gan ychwanegu ei bod wedi dyfarnu i CCAUC, fel corff hyd braich, y pwerau i benderfynu drosto'i hun ar y trefniadau ar gyfer y sector AU. O ganlyniad, nid oedd y cynrychiolwyr yn gyffredinol yn meddwl y byddai'n briodol cynnig model arall ar gyfer rheoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu. Yn hytrach roedd cytundeb bras y dylai'r Comisiwn benderfynu ar y model mwyaf priodol ei hun yn hytrach nag i hyn gael ei ddiffinio gan ddeddfwriaeth.
- 6.9 Nododd un cyfrannwr y dylai'r model Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau arfaethedig geisio ystyred cytundeb rheoleiddio a chytundeb deilliannau trwy un model ac nad oedd o gymorth eu cyfuno yn yr ystyr hon. Roedd y cyfrannwr hwn yn cynnig gwahanu'r ddwy elfen ac yn galw am ystyried model o'r fath lle byddai'n rhaid i ddarparwyr fodloni gofynion rheoleiddio (megis hyfywedd ariannol, llywodraethu ac ansawdd) er mwyn bod yn gymwys am gyllid. Dylai'r Cytundeb Deilliannau, dadleuwyd, gael ei wahanu gan felly ganiatáu gradd o hyblygrwydd i'r Comisiwn ymateb i wahanol anghenion.
- 6.10 Roedd rhai cyfranwyr yn galw am fwy o eglurder ar bwyntiau a wnaed o fewn y ddogfen ymgynghori ynghylch a ddylai darparwr dysgu fod wedi'i leoli yng Nghymru neu gyflwyno yng Nghymru, gan ychwanegu bod y cynigion yn cynnig barnau a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd ar y mater. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch a ddylai darparwyr dysgu a fyddai'n dod o dan gwmpas y Comisiwn fod wedi'u lleoli yng Nghymru

a/neu yn cyflwyno yng Nghymru. Gwnaed galwad ar i Lywodraeth Cymru ystyried sut roedd yn ymdrin ag amgylchiadau penodol ee coleg y tu allan i Gymru yn cael ei gymeradwyo fel darparwr gan y Comisiwn.

C8: Yn adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, a oes yna faterion eraill y dylid eu cynnwys? Os felly, beth yw'r rheini? A ddylid cael gwared ag unrhyw faterion? Os felly, pa rai?

- 6.11 Roedd y cyfranwyr yn dadlau bod y gofynion rheoleiddio a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn gyffredinol dderbyniol ar y sail eu bod eisoes wedi eu cynnwys fel rhan o gytundebau contractio a chyllid. Ni chredid bod unrhyw faterion penodol wedi cael eu hepgor ac ni alwodd unrhyw gyfrannwr ar i unrhyw rai gael eu dileu. Er enghraifft, awgrymwyd bod darparwyr dysgu seiliedig ar waith eisoes yn ymateb i'r alwad i sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu (ee cyrff llywodraethu) a nodwyd yn eu cytundebau contractio. Yn yr un modd, roedd SAU a SAB eisoes yn bodloni'r amodau hyn.
- 6.12 Gwnaed galwad am i radd i gymesuredd gael ei derbyn wrth fonitro gofynion rheoleiddio a orfodir ar ddarparwyr, sef bod y graddau o graffu ar ddarparwyr dysgu yn gymesur â'u maint a'r graddau o gyllid a ddyfernir.
- 6.13 Awgrymai rhai cyfranwyr y gallai'r gofynion rheoleiddio a gynigir olygu heriau i ddarparwyr chweched dosbarth, er y cydnabuwyd y byddai'n ofynnol i Awdurdodau Lleol fodloni'r rhain. Nid oedd neb o'r cyfranwyr fodd bynnag yn cynrychioli'r sectorau Awdurdodau Lleol na chweched dosbarthiadau i gallu gwneud sylw pellach.
- 6.14 Gwnaed pwynt pellach gan rai cyfranwyr y dylai'r ddeddfwriaeth berthnasol ganiatáu i'r Comisiwn allu ymateb i wahanol drefniadau llywodraethu yn y dyfodol ar draws darparwyr dysgu yn hytrach na thybio y bydd yr un trefniadau llywodraethu'n dal i fod yn y dyfodol.

C17: Unwaith caiff ei chymeradwyo, a ddylai rhan reoleiddio'r Cytundeb fod yn barhaol, neu a ddylid ei hailystyried o bryd i'w gilydd? Os felly, pa mor aml y dylid ei hailystyried? Pa mor aml y dylid ailnegodi elfen ddeilliannau'r cytundeb?

- 6.15 Roedd y cyfranwyr yn mynegi barn ac iddi gonsensws bras y dylid dyfarnu i'r Comisiwn y pwerau deddfwriaethol i allu gosod ei fframwaith rheoleiddio ei hun ac adolygu hyn heb fod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn ofynnol, yn hytrach na'r fframwaith ei hun yn cael ei bennu o fewn y ddeddfwriaeth. Yn yr ystyr hon, dadleuai cyfranwyr y dylai'r Comisiwn gael y pŵer i adolygu ei fframwaith rheoleiddio a dod i'w farn ei hun ynghylch a ddylai Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau fod yn un parhaus neu a ddylid ei ailystyried o bryd i'w gilydd. Byddai hyn yn caniatáu iddo ymateb i ffactorau allanol dros amser. Dadleuai un cyfrannwr ei bod yn anodd

barnu hyd nes oedd Bil wedi cael ei ddrafftio ac ymgynghori arno wedi digwydd a fyddai'n tan-bennu neu or-bennu.

- 6.16 Fel pwynt o egwyddor, roedd cyfranwyr yn derbyn yn fras y byddai'n synhwyrol i'r adran reoleiddio a'r cytundeb deilliannau gael eu hailystyried yn rheolaidd ond ni fyddai arnynt eisiau i hyn gael ei bennu'n barhaol o fewn y ddeddfwriaeth.

C14: Pa bwerau y gallai'r Comisiwn fod ei angen i sicrhau bod darparwyr dysgu ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau?

- 6.17 Fe wnaeth y cyfranwyr gynnig nifer o syniadau ac egwyddorion i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar natur y pwerau roedd angen eu dyfarnu i'r Comisiwn. Nodwyd nad oedd yr ddogfen ymgynghori'n cynnig unrhyw awgrymiadau ar y pwerau y gallai'r Comisiwn eu caffael, ac o ganlyniad roedd y sgwrs yn weddol gyffredinol ei natur.
- 6.18 Awgrymwyd mai man cychwyn da fyddai ystyried y pwerau rheoleiddio a ddyfarnwyd i gyrff tebyg fel OfCOM ac Estyn yn ogystal â'r pwerau a ddyfarnwyd i CCAUC trwy Ddeddf Addysg Uwch 2015. Roedd consensws bras y dylai'r pwerau a ddyfernir i'r Comisiwn fod yn gymharol, o leiaf, i'r rheini a bennir yn y Ddeddf Addysg Uwch.
- 6.19 Cynhaliwyd trafodaeth hefyd ynghylch a ddylid dyfarnu i'r Comisiwn wahanol lefelau o bwerau ar gyfer rheoleiddio gwahanol fathau o ddarparwyr trwy y gall fod nad yw'r model ar gyfer un sector, megis y sector AU, yn addas ar gyfer un arall, megis chweched dosbarth ysgolion. Er bod cefnogaeth i'r syniad hwn, mynegwyd rhai pryderon hefyd y gallai arwain at y Comisiwn fod yn gweithio mewn 'seilos' yn hytrach na gweithio'n strategol a hyblygu ar draws yr holl sectorau a gyllidir. Awgrymodd cyfranwyr y dylid dyfarnu i'r Comisiwn y pwerau sy'n anghenrheidiol i benderfynu yn y pen draw ynghylch hyn.
- 6.20 Gwnaed pwynt pellach gan gyfranwyr na ddylai'r pwerau a ddyfarnwyd i'r Comisiwn danseilio unrhyw bwerau presennol a ddyfarnwyd i ddarparwyr dysgu gan reoleiddwyr eraill, fel nad yw darparwyr dysgu sy'n gorfod cydymffurfio â'r rheoleiddwyr hyn yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa amhosibl. Tynnwyd sylw at Awdurdodau Lleol fel enghraifft gan fod gofyn iddynt fodloni eu gofynion statudol eu hunain.
- 6.21 Awgrymwyd hefyd y dylai'r pwerau a ddyfernir i'r Comisiwn fod yn gymesur er mwyn osgoi unrhyw sefyllfaoedd eithafol (bod hynny'n rhy ychydig neu'n ormod o bŵer) ac yn gymesur â'r lefel o gyllid a ddyfernir i ddarparwyr. Nodwyd ei bod yn dal i fod yn anodd, ar draws y sector AU, sicrhau'r pwerau angenrheidiol i ddylanwadu ar ddarparwyr heb fod yn 'ormesol', ac roedd galwad gyffredinol am ddefnyddio cyllid fel 'moron miniog ac nid ffyn aflwm'. Cydnabuwyd hefyd fod y swm o gyllid cyhoeddus a ddarperir i wahanol sectorau, fel cyfran o incwm cyffredinol y sector hwnnw, yn amrywio ee roedd cyllid cyhoeddus yn cyfrif am gyfran llai o incwm y sector AU o gymharu ag AB a DSW.

- 6.22 Roedd y cyfranwyr yn cydnabod bod angen dyfarnu i'r Comisiwn y pwerau angenrheidiol i allu adolygu sefyllfaoedd ariannol darparwyr dysgu, gan ychwanegu bod hyn eisoes yn wir ar gyfer CCAUC a Sefydliadau Addysg Uwch. Yn enwedig, dylai'r Comisiwn gael y pwerau angenrheidiol i ymyrryd yn ddigon cynnar pe bai darparwyr dysgu mewn anawsterau ariannol, er mwyn amddiffyn buddiannau dysgwyr. Yn yr un modd, dylid rhoi i'r Comisiwn bwerau digonol i ymyrryd ac, os yw'n briodol, ddiweddu cytundeb cyllido gydag unrhyw ddarparwr dysgu ar sail perfformiad gwael neu broblemau ansawdd.

C16: Pa wybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sydd â Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd y dylai'r Comisiwn ei rhyddhau i'r cyhoedd?

- 6.23 Roedd y cyfranwyr yn cytuno na ddylid pennau'r graddau hyn o fanylder cyn sefydlu'r Comisiwn, ond yn hytrach y dylai'r Comisiwn gael y pwerau angenrheidiol i allu ymgynghori ar yr wybodaeth y dylai ei chasglu a'i chyhoeddi yn ogystal â'r pwerau angenrheidiol i gasglu a chyhoeddi'r data hwnnw. Dadleuai un cyfrannwr fod hyn yn bwysig gan y gallai gofynion data a gwybodaeth newid dros amser, felly gallai'r Comisiwn ymateb i'r gofynion hyn heb orfod gwneud diwygiadau deddfwriaethol.
- 6.24 Roedd pwynt arall a godwyd gan gyfranwyr yn ymwneud â natur yr wybodaeth a gesglir ac a gyhoeddir, a dadleuwyd y dylai'r wybodaeth fod yn gymharol ar draws pob sector, ee byddai'n bwysig i ddeilliannau dysgwyr, cynnydd dysgwyr a chyflogau'r sector gael eu cyhoeddi mewn fformat cymharol ar draws yr holl ddarpariaethau boed hwy'n DSW, Addysg Bellach neu Chweched Dosbarth, er enghraifft. Byddai hyn yn sicrhau bod gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddysgwyr a rhieni.
- 6.25 Roedd rhai cyfranwyr yn rhybuddio yn derbyn Bil arfaethedig a fyddai'n pennu'r angen i baratoi adroddiad blynyddol 'cyflwr y genedl', er i hyn gael ei awgrymu o fewn adroddiad Weingarten. Fodd bynnag, cafodd barn fwy cymysg ei chyfleu gan gyfranwyr ynghylch a ddylai'r wybodaeth a gyhoeddir gael ei gosod mewn cyd-destun neu ei chyflwyno fel data amrwd yn unig.

C18: Rhowch eich barn am y materion a restrwyd yn adran 'Materion ychwanegol' y papur hwn.

- 6.26 Roedd cyfranwyr yn anghytuno'n gryf â'r cynnig i ddyfarnu'r pŵer i'r Comisiwn weithredu cosbau yn ffurfiau dirwyon neu gosbau ariannol gan y bernid y byddai'n wrth-gynhyrchiol defnyddio cyllid cyflwyno rheng flaen yn y dull hwn ac mai'r cyfan y byddai'n ei wneud fyddai dyfarnu 'pwerau didrugaredd' i'r Comisiwn. Roedd Sefydliadau Addysg Uwch yn neilltuo o bryderus ynghylch sut byddai pwerau o'r fath yn cael eu gweld gan fyfyrwyr, a allai deimlo bod ffioedd myfyrwyr yn cael eu defnyddio i dalu dirwyon. Dadleuwyd yn hytrach y dylai'r

Comisiwn fabwysiadu dull mwy cefnogol a chydweithredol: pe bai angen iddo ddirwyo darparwyr dysgu yna gellid dadlau ei fod wedi methu yn ei rôl. Roedd cyfranwyr yn fwy agored i'r syniad o'r Comisiwn yn cael ey pwerau i adfachu cyllid – roedd y math hwn o iaith a ffordd o weithio yn fwy derbyniol yn debycach i'r trefniadau presennol.

- 6.27 Nodwyd bod gan Gymwysterau Cymru fel corff rheoleiddio y pwerau i osod cosbau a dirwyon ac adroddwyd y dylai'r cyllid a godir gael ei ddyrannu i Gronfa Gyfunol Cymru. Felly, pe dyfernid pwerau tebyg i'r Comisiwn byddai angen sut y byddai cyllid a godir yn cael ei ddefnyddio.
- 6.28 Roedd y cyfranwyr yn ffafrio dull lle'r oedd y Comisiwn yn gwobrwyo ymddygiadau cadarnhaol trwy gymelliannau gan ychwanegu y gall defnydd effeithiol o gyllid fod yn effeithiol wrth yrru ymddygiadau, cyn belled â'u bod yn ystyried ymreolaeth sefydliadau. Roedd cyfranwyr yn sylweddoli bod cyllid cymelliannau eisoes yn cael ei ddefnyddio ar draws gwahanol rannau o'r sector. Dadleuwyd hefyd y dylid caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cyllid cymelliannau trwy ddull hyblyg, ac y dylid rhoi'r pwerau angenrheidiol iddo symud cyllid o un sector i'r llall heb unrhyw gyfyngiadau er mwyn diwallu anghenion strategol. Byddai hyn â goblygiadau i ddarpariaethau a ariennir ar hyn o bryd, gan fod cyllid yn cael ei glustnodi i bob un.

Y Gymraeg:

Ym mha ffordd y dylai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

- 6.29 Roedd y cyfranwyr yn cytuno y dylai'r Gymraeg gael ei phrif-ffrydio i waith y Comisiwn ac roeddent yn cefnogi unrhyw newid i gynyddu a gwella darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws y sector AHO. Roedd y cyfranwyr hefyd yn nodi y byddai'r Comisiwn wedi'i rwymo gan y gofynion a bennir o fewn Safonau'r Gymraeg.
- 6.30 Gwnaed y sylw hefyd ei bod yn bwysig i'r Comisiwn sicrhau bod ganddo'r graddau priodol o arbenigedd yn fewnol i arwain ar y Gymraeg. Dylai'r Comisiwn gael ei arfogi'n ddigonol i yrru a chyfrannu tuag at wella darpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sectorau ysgolion, AB, DSW ac AU.
- 6.31 Gwnaed pwynt pellach ynghylch y lefel o flaenoriaeth a roddwyd i'r Gymraeg a darpariaeth gyfrwng Cymraeg gan y Comisiwn: byddai'n bwysig amddiffyn lefelau o gyllid cyfrwng Cymraeg o fewn y Comisiwn, trwy gyfrifoldebau statudol clir a dyraniad adnoddau.

- 6.32 Barn gymysg a gafodd ei chyfleu o ran a oedd ar y Comisiwn angen Pwyllgor penodol i gymryd cyfrifoldeb am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er bod cytundeb bras y dylid prif-ffrydio materion ynglŷn â'r Gymraeg trwy holl waith y sefydliad.
- 6.33 Codwyd pwynt terfynol yn ymwneud â gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – roedd cyfranwyr yn gofyn a oedd gwaith y Ganolfan yn disgyn i mewn i gylch gwaith y Comisiwn a'r sector AHO yn fwy cyffredinol, er na chyrhaeddwyd unrhyw gonsensws a ddylai hyn fod neu beidio.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Pa gostau neu arbedion ariannol fydd yn deillio o'r diwygiadau arfaethedig yn y tymor byr a'r tymor hir?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol ellid eu teimlo ar draws gwahanol rannau o'r sector yn y tymor byr a'r tymor hir?

- 6.34 Nodwyd y bydd graddau'r costau neu arbedion ariannol ar gyfer gwahanol rannau o'r sector yn dibynnu'n helaeth ar fanylder y ddeddfwriaeth a dderbynnir a'r dull terfynol a gymerir gan y Comisiwn o ran sut y caiff Cytundebau Deilliannau eu gweithredu'n ymarferol. Pe bai'r dull yn fiwrocrataidd a thrwsgl, yna byddai'n arwain at waith ychwanegol i ddarparwyr. Awgrymwyd bod gweithredu Cytundebau Deilliannau mewn gwledydd eraill yn tueddu i awgrymu eu bod yn llyncu adnoddau felly gall darparwyr dysgu ragweld cynnydd yn yr adnoddau ariannol sy'n ofynnol ar gyfer diwallu eu gofynion. Byddai unrhyw newidiadau mewn methodoleg ariannu a gyflwynir gan y Comisiwn yn effeithio ar adnoddau – roedd rhai cyfranwyr yn rhagweld effaith ar gynhyrchiant o ganlyniad i orfod dyrannu adnoddau staff i ymdrin â'r newidiadau hyn.
- 6.35 Gallai fod arbedion costau hirdymor i ddarparwyr dysgu os bydd y Comisiwn yn ceisio symleiddio'r adrodd sy'n ofynnol iddynt ei wneud, ond nid os yw'r gofynion adrodd lluosog yn parhau. Er enghraifft, gall darparwyr sy'n rhedeg dwy system weithredu ar hyn o bryd i fodloni gofynion cyllid ac adrodd darpariaeth AB a DSW weld cynnydd yn eu costau tymor byr (sy'n gysylltiedig â mudo cynnwys dwy system i un) ond lleihad yn eu costau tymor hir. Gellid gwreiddio arbedion hirdymor eraill pe bai'r Comisiwn yn lwyddo i gael gwared ar gystadleuaeth rhwng darparwyr dysgu.
- 6.36 Roedd cyfranwyr yn dadlau hefyd y bydd, yn achos y sector AU, yr angen i ddiwallu gofynion adrodd y DU, fel yn achos y TEF, yn parhau ac felly lleihau unrhyw arbedion costau posibl a allai ddeilio o ganlyniad i symleiddio a fyddai'n cael ei yrru gan y Comisiwn.
- 6.37 Yn gyffredinol, mae cyflwyno Comisiwn newydd yn cael ei groesawu ar draws y sector gan ei fod yn cynnig cyfle i weithio'n holistaidd ar draws y ddarpariaeth AHO, ac felly'n sicrhau arbedion hirdymor. Fodd bynnag, os caiff y dull presennol o gyllido 'seilo' ei gynnal ac os mai'r

cyfan a wneir fydd trawsgludo'r gyfundrefn bresennol i'r Comisiwn, yna bydd y cyfleoedd am arbedion hir dymor yn llai.

- 6.38 Teimlai'r cyfranwyr na allent roi sylwadau manylach ynghylch yr arbedion neu gostau cyffredinol posibl i'r sector AHO yng ngoleuni unrhyw fanylion ynghylch costau uniongyrchol sefydlu a gweithredu Comisiwn newydd. Cydnabuwyd y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn yn uchel ond y gallai enillion hirdymor o bosibl wrthbwysu hyn. Awgrymodd un cyfrannwr y dylai Llywodraeth Cymru ddatgelu'r costau llawn sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg y Comisiwn er mwyn galluogi'r sector i ddod i farn mwy gwybodus ar y mater hwn.
- 6.39 Dywedodd amryw o gyfranwyr fod y Comisiwn yn cael ei sefydlu ar adeg pan fo mwy o gydweithio a chydweithredu'n cael eu sefydlu a'u cyflawni ar draws y sector AU ac AB, a nodwyd ychydig enghreifftiau lle'r oedd darparwyr DSW yn trafod ar hyn o bryd gyda sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ynghylch cydweithio yn y dyfodol.
- 6.40 Roedd arbedion costau'n debygol o gael eu cynhyrchu yn y dyfodol yn sgil peidio â gorfod ail-dendro darpariaeth mor aml er y cydnabuwyd y byddai'r siawns hwn yn cael ei yrru gan gael gwared ar ofynion cyllido'r UE yn hytrach na sefydlu'r Comisiwn.

Sylwadau i gloi a barnau ychwanegol

- 6.41 Mae'r neges allweddol a gafodd ei chyfleu gan y rhai a oedd yn bresennol yn y grŵp ffocws hwn yn ymwneud â phwysigrwydd galluogi'r Comisiwn newydd i gynnal ymreolaeth hyd-braich o Lywodraeth Cymru a rhoi iddo'r pwerau angenrheidiol i wneud ei benderfyniadau ei hun ynghylch llawer o'r elfennau a godir gan y ddogfen ymgynghori. Mae'n bwysig nad yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cyfyngu'r Comisiwn rhag gallu gosod ei fframwaith rheoleiddio ei hun ac ymateb i anghenion ac amgylchiadau yn y dyfodol.
- 6.42 Mae'n bwysig hefyd fod sefydlu Comisiwn newydd yn cyflawni mwy na dim ond cyfuno'r adnoddau cyllid presennol ac y rhoddir iddo'r pwerau priodol i adnabod ac ariannu anghenion a blaenoriaethau strategol y sector AHO.
- 6.43 Codwyd tri phwynt allweddol arall yn ystod y drafodaeth, pob un ohonynt yn ymwneud â chylch gwaith y Comisiwn:
- a ddylai'r Comisiwn gael cylch gwaith sy'n cynnwys agweddau o reoleiddio gweithluoedd a datblygu sgiliau
 - a ddylid cynnwys y gweithlu iechyd anfeddygol ee nyrsys (sy'n rhan o gyfrifoldeb Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) ar hyn o bryd) o fewn cylch gwaith y Comisiwn
 - a ddylid cynnwys darpariaeth dysgu Troseddwy'r Ifanc o fewn cylch gwaith y Comisiwn

7. Sicrhau a Gwella Ansawdd

18^{fed} Mehefin 2018

7.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- CCAUC
- Gyngor Castell-nedd Port Talbot
- Gwasanaethau Addysg Gatholig yng Nghymru
- UCM Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Prifysgol De Cymru a chadeirydd grŵp Prifysgolion Cymru
- Prifysgolion Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

C44: A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer y fframwaith ansawdd?

- 7.2 Dadleuwyd bod y rhestr o egwyddorion yn 'gymysgedd ryfedd', yn yr ystyr fod rhai egwyddorion neu agweddau o rai egwyddorion yn ymwneud â'r hyn y dylai'r fframwaith fod/yn ei wneud, tra bod eraill yn ymddangos fel pe baent yn nodi beth ddylai fod ynddo. Y farn oedd bod rhai o'r manylion a gynhwysir yn y rhestr o egwyddorion yn perthyn o bosibl i restr atodol ee y dylai'r fframwaith archwilio gwerth am arian, asesiad allanol o ansawdd etc.
- 7.3 Teimlai rhai cyfranwyr y dylai'r egwyddorion fod yn fwy uchelgeisiol, 'yn cael eu harwain gan y nod o wella' ac yn hirydd eu natur. Wrth ddadlau hyn, fodd bynnag, cydnabuwyd bod fframwaith ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi defnyddio'r math hwn o iaith¹ ers amser maith, ond bod fframwaith Estyn yn siarad am 'wella' ansawdd. Roedd cynrychiolwyr AU yn glir mai 'cod ansawdd' yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yw'r safon allweddol i sefydliadau addysg uwch, ac sy'n debygol o barhau i fod, gan ei fod yn cynnig y gallu i gymharu â sefydliadau AU ledled y DU ac yn ehangach, sy'n hanfodol o ran 'brandio' a chynnal enw da. Bydd yn hanfodol felly fod unrhyw fframwaith ansawdd drwy system AHO Cymru yn cael ei fframio ar

¹ Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn diffinio gwella (enhancement) ansawdd fel "y broses o gymryd camau bwriadol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd cyfleoedd dysgu ... Caiff gwella ansawdd felly ei weld fel un o agweddau rheolaeth ansawdd sefydliadol sydd wedi ei gynllunio i sicrhau, yng nghyd-destun y cyfyngiadau y mae sefydliadau unigol yn gweithredu ynddynt, gwelliannau sefydlog, dibynadwy a gweladwy yn ansawdd cyfleoedd dysgu" (Asiantaeth Sicrhau Ansawdd 2006). Wrth gynghori ei dimau archwilio, mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn mynd ymlaen i ddweud: "Mae'r diffiniad o wella ['enhancement'] mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ei fabwysiadu ar gyfer archwiliad sefydliadol yn gadael lle i sefydliadau ddilyn eu diffiniadau eu hunain [o 'enhancement']. Gall rhai sefydliadau ddiffinio 'enhancement' fel 'continuous improvement', eraill fel 'arloesi' a gall fod diffiniadau eraill" (Asiantaeth Sicrhau Ansawdd 2007).

lefel ddigon uchel i 'wau gyda' threfniadau Prydeinig/Ewropeaidd ehangach.

- 7.4 Gwnaed y pwynt dro ar ôl tro fod gwahanol rannau o'r system AHO yn gwasanaethu gwahanol farchnadoedd. Mae sefydliadau addysg uwch, er enghraifft, yn gweithredu mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol (er nad yw cenhadaeth pob sefydliad AU yr un fath), tra bod sefydliadau addysg bellach yn tueddu i ganolbwyntio ar farchnadoedd sgiliau rhanbarthol a chweched dosbarth ysgolion yn canolbwyntio ar ardaloedd lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd llunio un fframwaith ansawdd oni bai ei fod yn ddigon cyffredinol a hyblygu i allu ei osod yn ei gyd-destun.
- 7.5 Nodwyd bod 'y geiriau "asesu" a "sicrwydd" yn gael eu defnyddio'n rhyngnewidiol', rhywbeth y dywedwyd ei fod yn amhriodol gan fod y termau yn golygu gwahanol bethau i wahanol rannau o'r system AHO.
- 7.6 Dywedwyd bod 'llawer ddatganiadau'r fframwaith yn eithaf goddefol'.
- 7.7 Bydd fframwaith a phhecyn hunan-werthuso Estyn yn wahanol iawn i'r hyn a gynigir yn y ddogfen ymgynghori ac roedd rhywfaint o bryder ynghylch 'diffyg cysylltiad yn y tirwedd addysg', yn enwedig gan ei fod yn ymwneud ag ysgolion a chweched dosbarthiadau.

Egwyddor i

- 7.8 Roedd croeso unfrydol i'r syniad o gynnwys dysgwyr a dysgwyr fel 'partneriaid' wrth lunio a gweithredu prosesau sicrhau a gwella ansawdd. Dadleuwyd, fodd bynnag, fod angen cynnwys dysgwyr hefyd wrth 'werthuso' sicrhau a gwella ansawdd.
- 7.9 Wrth groesawu cynnwys dysgwyr, fodd bynnag, cydnabuwyd bod hyn yn debygol o fod yn hawd ei gyflawni yn y sector AU nag mewn rhannau eraill o'r system AHO, oherwydd mae eisoes draddodiad sefydledig o gyfraniad myfyrwyr mewn AU. Mae myfyrwyr AB yn tueddu i fod yn fwy anodd ennyn eu diddordeb, er bod rhai sefydliadau AB wedi datblygu trefniadau cynnwys myfyrwyr i raddau pellach na'i gilydd. Mae anawsterau ymwneud â myfyrwyr yn fwy anodd fyth yn y sector DSW, lle mae gan ddysgwyr yn gyffredinol lai o gysylltiad â darparwyr ac sydd hefyd yn gorfod ymateb i ofynion cyflogwyr yn ogystal â gofynion darparwyr. Dywedir bod ymwneud dysgwyr mewn ysgolion wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.
- 7.10 O ganlyniad i'r ffaith fod gwahanol sectorau AHO ar wahanol rannau o'r daith o ran cynnwys dysgwyr, roedd teimlad y dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl sefydlu'r egwyddor gyffredinol, ei gadael i'r Comisiwn ddatblygu a gweithredu arferion cynnwys myfyrwyr, gan weithio gyda myfyrwyr a'r sector, gan gynnwys trwy drefniadau cynrychiolaeth myfyrwyr mwy ffurfiol mewn AB, ysgolion a DSW.

Egwyddor ii

- 7.11 Roedd cred y gallai'r gair 'safonau' gael ei ddehongli'n wahanol gan sefydliadau AU a sectorau eraill AHO. I ysgolion a sefydliadau AB, er enghraifft, byddai safonau'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at gyfraddau cyrhaeddiad ac ychwanegu gwerth, tra bod y gair yn cyfleu sicrhau ansawdd mewn AU. Byddai'r egwyddor yn gweithio'n dda heb gynnwys y gair 'safonau' neu gyda'r ymadrodd 'lle bo'n berthnasol' wedi'i ychwanegu ato os oedd am gael ei ddefnyddio.
- 7.12 Cydnabuwyd bod yr egwyddor fel y cafodd ei eirio yn cynnwys glynu at safonau asesu ansawdd rhyngwladol i sefydliadau AU a gwahanol 'gynhadaeth sefydliadol'.

Egwyddor iii

- 7.13 Er y barnwyd bod yr egwyddor, fel y'i mynegir, yn dderbyniol, dadleuai rhai ei fod yn mynd braidd yn groes i ddatganiadau diweddarach am gorff sengl i sicrhau ansawdd.

Egwyddor iv

- 7.14 Trafodwyd y gwahaniaeth ystyr rhwng geiriau Saesneg am sicrhau, gyda rhai'n dadlau na all y fframwaith ei hun sicrhau yn yr ystyr 'assure' ond y gall yn yr ystyr 'ensure'. Y farn oedd hefyd y gallai'r egwyddor hwn fod yn llai 'goddefol' a nodi'n benodol y dylai'r fframwaith sicrhau (ensure) fod addysgu o ansawdd uchel yn cael ei sicrhau (assured).
- 7.15 Er bod yr egwyddor yn cael ei dderbyn yn fras fel y'i mynegir, dadleuwyd na ddylai'r fframwaith geisio 'gwrthio pawb i'r un bocs', ond yn hytrach y dylai roi lle i wahaniaethau yn y dull gweithredu, er mwyn sicrhau ansawdd addysgu ar draws gwahanol rannau o'r sector AHO. Er enghraifft, nodwyd bod arsylwi uniongyrchol yn un o nodweddion y system ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu mewn ysgolion ac AB, ond mae graddfa AU yn golygu na fyddai dull tebyg yn ymarferol. Dull mwy realistig o sicrhau ansawdd addysgu mewn AU fyddai sicrhau bod y trefniadau arsylwi gan gymheiriaid yn eu lle a bod staff yn ymwneud yn effeithiol ag Advance HE.

Egwyddor v

- 7.16 Ni roddir diffiniad o 'gwerth am arian' yn y ddogfen ymgynghori ac roedd gan y rheini o'r sector AU amheuan am y defnydd o derm mor amwys yng nghyd-destun egwyddorion sylfaenol fframwaith ansawdd. Nodwyd bod dadl yn mynd ymlaen ynghylch sut i fesur gwerth am arian mewn AU yn Lloegr a bod y cysyniad 'gwerth am arian' yn gymhleth ac aml-haenog, gan y gall ystyried pethau fel cost cyflwyno gwahanol fathau o ddarpariaeth, hyd cyrsiau (graddau dwy flynedd), ffioedd (mewn AU), yr enillion i 'raddedigion' (mewn cyflogau) ac i'r Trysorlys (mewn trethiant).

- 7.17 Er hynny, roedd cyfranwyr o sectrau eraill â'r canfyddiad bod cyfeirio at werth am arian ymysg yr egwyddorion sylfaenol yn arfogi'r Comisiwn gyda'r gallu i adnabod aneffeithlonrwydd yn y system, ac i fynd i'r afael â hynny ee wrth ymwneud â niferoedd bach iawn mewn chweched dosbarth. Y farn hefyd oedd y byddai'n rhywbeth teg a naturiol i'r Comisiwn ystyried yr enillion y byddai'n eu cael o'i fuddsoddiad yn y system AHO.
- 7.18 Roedd consensws yn ffurfio bod angen i'r syniad o werth am arian gael ei wau i'r egwyddorion sy'n sail i'r fframwaith ansawdd, ond wrth fynd â phethau ymhellach mae angen i Lywodraeth Cymru / y Comisiwn ddweud yn blaen y bydd y term yn cael ei ddehongli'n wahanol ar draws gwahanol sectorau AHO ac o bosibl, wrth gael ei ystyried o safbwyntiau gwahanol randdeiliaid ee dysgwyr, rhanbarthau, llywodraeth etc.
- 7.19 Mae angen diffinio'r term 'deilliannau cynaliadwy', yn enwedig gan fod yr egwyddor yn cyfeirio at ddeilliannau cynaliadwy i amrywiaeth o wahanol randdeiliaid. Lle'r Comisiwn fydd penderfynu ar y diffiniadau hyn yn hytrach na bod angen i rywbeth ymddangos mewn datganiadau egwyddorion cyffredinol.
- 7.20 Y gred oedd ei bod yn debygol bod geiriad egwyddor v yn adlewyrchu'r hyn sydd yn fframwaith ansawdd AB ac, felly, yn fwy ystyrlon i gynrychiolwyr AB.

Egwyddor vi

- 7.21 Y gred oedd bod yr egwyddorion yn gyffredinol briodol, ond bod angen yr hyblygrwydd iddynt esblygu dros amser i ganiatáu ar gyfer newidiadau i'r cyd-destun allanol. Y farn oedd bod risg mewn nodi egwyddorion ar gyfer y fframwaith ansawdd cyn sefydlu'r Comisiwn, oherwydd mae'n debyg mai'r Comisiwn ddylai gael gwneud hynny. O leiaf, mae angen lle i'r Comisiwn i addasu neu esblygu'r egwyddorion sy'n sail i unrhyw fframwaith ansawdd.
- 7.22 Er bod angen i'r fframwaith fod yn hyblyg a chaniatáu lle i esblygu, mae angen iddo hefyd fod yn ddigon cyffredinol a pharhaol i beidio â dod yn destun ymrafael gwleidyddol. Dylai natur byd-braich y Comisiwn arfaethedig helpu gyda hyn.

Egwyddor vii

- 7.23 Er mai'r farn oedd bod yr egwyddorion yn weddol briodol ar lefel gyffredinol, mae angen iddynt roi lle i wahaniaethau ar draws gwahanol sectorau o fewn system ehangach AHO. Er enghraifft, nodwyd bod systemau mesur ansawdd/perfformiad mewn AB, DSW a chweched dosbarth ysgolion yn canolbwyntio'n helaeth ar 'allbynnau

[cymwysterau] a llwyddiannau myfyrwyr², ond nad yw'r un peth yn wir am AU. Mae hyn i raddau helaeth gan fod y sefydliadau AU eu hunain yn gyrrff dyfarnu, tra bod rhannau eraill o'r sector AHO yn cyflwyno cymwysterau a ddyfernir gan sefydliadau eraill. Mae eu sefyllfa fel cyrrff dyfarnu yn golygu bod sefydliadau addysg uwch yn canolbwyntio ar 'brosesau sy'n gyrru safonau' yn hytrach nag ar gymwysterau a enillwyd³. Roedd hyn yn cael ei weld fel gwahaniaeth pwysig rhwng sefydliadau AU a darparwyr eraill AHO, yn enwedig yn wyneb y feirniadaeth ddiweddar yn ymwneud â 'chwyddiant graddau' mewn AU a'r potensial am ganlyniadau anfwriadol wrth geisio cysondeb ar draws holl sector AHO.

- 7.24 Roedd rhywfaint o wahaniaeth barn ynghylch y defnydd o ddeilliannau i asesu ansawdd darpariaeth, gydag un cyfrannwr yn holi: "Os nad yw fframwaith ansawdd yn arwain at well deilliannau, beth yw'r pwynt?"
- 7.25 Mae angen cydnabod y gwahaniaethau hyn mewn dull o fesur ansawdd/perfformiad a bydd angen i'r Comisiwn ddatblygu 'gwahanol is-fframweithiau ar gyfer pob sector'.
- 7.26 Dywedwyd bod geiriad egwyddor vii yn anghyson â'r hyn a ddywedir mewn rhannau eraill o bennod sicrhau a gwella ansawdd y ddogfen ymgynghori yn yr ystyr ei bod yn cyfeirio at 'asiantaethau' yn y lluosog yn hytrach nag 'un corff dynodedig', fel y cynigir mewn lleoedd eraill (eitem 177).

Egwyddor viii

- 7.27 Dadleuwyd y dylai'r egwyddorion fod yn glir fod angen i drefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer AU 'gael eu cydnabod yn rhyngwladol'.

Egwyddor ix

- 7.28 Yng nghyd-destun y cyfeiriad at adolygiadau thematig a daearyddol, nodwyd bod ymdrechion i gynnal adolygiadau rhanbarthol o bethau fel Dysgu Oedolion yn y Gymuned a darpariaeth 16-19 (heb fod yn AU) wedi 'creu diwydiant o fiwrocratiaeth a chyfarfodydd partneriaeth' heb gynhyrchu unrhyw fudd gweladwy. Yn benodol, roedd cyndynrwydd i gael adolygiadau o'r fath yn gysylltiedig ag asesu ansawdd a byddai'r egwyddor yn fwy derbyniol petai'n darllen: 'dylai'r fframwaith hyrwyddo cydweithio, ac adnabod a rhannu'r arferion gorau ar draws yr holl system AHO. Dylai gynnwys adolygiadau thematig a daearyddol sy'n edrych ar effeithiolrwydd yr holl system ...' etc. Yn ei hanfod, roedd 'rhaglenni o waith' 'ffurfiannaol' yn hytrach

² Er bod adwaith yn y cyfnodau addysg gorfodol i ddefnyddio allbynnau fel yr unig fesur o werth system addysg

³ Yng ngeiriau Weingarten, felly, mae AU yn ymwneud yn fwy â mewnbynnau, tra bod sectorau eraill AHO yn ymwneud yn fwy ag allbynnau.

nag 'adolygiadau' sy'n gwneud dyfarniadau yn cael eu gweld fel modd o hwyluso arferion da ar draws sectorau AHO.

- 7.29 Rhaid cydnabod, fodd bynnag, ei bod yn anochel y bydd gan adolygiadau thematig / rhaglenni o waith oblygiadau o ran adnoddau i ddarparwyr ac mai'r ffordd y byddant yn gweithio orau fydd os cânt eu cyllido yn yr un modd â'r adolygiadau gwella thematig a wneir yn yr Alban.

Egwyddor x

- 7.30 Roedd rhywfaint o anghytundeb barn os mai 'improve' neu 'enhance' ddylid ei ddefnyddio yn Saesneg i gyfateb â 'gwella'. Gallai 'improve' swnio'n fwy naturiol i ysgolion a sefydliadau AB, ond roedd yn ymddangos bod yn well gan y sector AU ddefnyddio'r gair 'enhance'. Roedd rhai'n dadlau bod defnyddio'r gair 'improve' yn awgrymu diffygion yn y lle cyntaf. Y farn oedd mai rhywbeth i'r Comisiwn benderfynu arno oedd hyn.

Egwyddor xi

- 7.31 Mae angen newid y geiriad ychydig i ddarllen '... dylid yn arferol rhoi cyfle a chefnogaeth i ddarparwyr dysgu ...'. Byddai'n amhriodol i rhoi cyfle i ddarparwyr y gallai eu perfformiad beryglu deilliannau dysgwyr barhau heb ymyrraeth.
- 7.32 Ni fyddai'n afresymol i ddisgwyl i'r Comisiwn bennu diffiniadau o'r hyn y gallai ymyraethau ei olygu i bob sector (gan ddefnyddio deddfwriaeth/rheoliadau, fel bo'n briodol). Gellid ychwanegu troednodiadau at yr egwyddor unwaith mae hynny wedi'i wneud.

C45: Ac eithrio chweched dosbarth ysgolion, a ddylai un corff gael ei ddynodi i gynnal asesiad ansawdd allanol o'r holl ddarpariaeth AHO?

Pa resymau allai fod dros un corff dynodedig?

Beth allai'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol o sefydlu un corff penodedig?

- 7.33 Roedd cyfranwyr yn croesawu'n frwd y syniad o fframwaith ansawdd cyffredin i'r sector AHO a gallent weld y gallai dynodi un corff i gynnal asesiad ansawdd allanol ddod ag anfanteision ee wrth leihau dyblygu a gweinyddu a dod â mwy o gydlyniaeth ar draws holl sector AHO. Cytunwyd bod hyn yn rhywbeth y dylid grymuso'r Comisiwn i'w wneud yn yr hirdymor.
- 7.34 Fodd bynnag, er bod hyn yn cael ei weld fel rhywbeth a fyddai'n iawn fel dyhead hirdymor, ni chredid ei fod yn ymarferol yn y tymor byr gan nad oes unrhyw sefydliad yn y DU â phrofiad o sicrhau ansawdd ar draws holl rychwant sectorau AHO. Byddai pob opsiwn ar gyfer rhoi'r arbenigedd ar waith yn gyflym (datblygu sefydliadau presennol,

sefydlu corff newydd neu fynd i Ewrop i chwilio am ddarparwr addas) yn ddrud ac yn gallu golygu risgiau. Roedd consensws y dylai'r Comisiwn allu cynnwys gwahanol sefydliadau yn y gwaith (yn benodol yr Asiantaeth Sicrhau Anawdd ac Estyn) i wneud y gwaith, ond ei gwneud hi'n ofynnol iddynt weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni cyfanrwydd mwy cydlynus. Dadleuwyd y byddai hyn yn cyflawni ysbryd yr hyn a geisir, heb symud i fodel un asiantaeth.

- 7.35 Mantais ychwanegol o wneud hyn fyddai y byddai'n caniatáu gwell integreiddio chweched dosbarth ysgolion o fewn y fframwaith o'r cychwyn. Roedd teimlad y byddai symud popeth ond chweched dosbarth ysgolion i un corff dynodedig yn gadael chweched dosbarth mewn rhywfaint o ddryswch. Roedd consensws y dylai chweched dosbarth ysgolion fod o fewn cwrpas fframwaith ansawdd y Comisiwn, gyda beirniadaeth o'r ddogfen ymgynghori ei bod yn amwys ynghylch sefyllfa chweched dosbarth – 'mae'n dweud bod chweched dosbarth ysgolion i mewn ac nad ydyn nhw ddim'.
- 7.36 Nodwyd bod arolygiadau ysgolion yn canolbwyntio'n bennaf ar Gyfnod Allweddol 4, gyda chweched dosbarth yn cael ei drin fel atodiad i bob pwrpas, a golyga hyn nad yw chweched dosbarth yn destun yr un graddau o graffu ag elfennau eraill o'r sector AHO. Byddai hyn yn ymddangos yn anghyson yn wyneb y graddau o orgyffwrdd sydd yn y ddarpariaeth a gynigir bellach gan chweched dosbarth ysgolion a sefydliadau AB. Nodwyd yn y cyd-destun hwn fod OFSTED wedi cael mwy o bwerau yn Lloegr i arolygu darpariaeth ôl-16.
- 7.37 Dadleuwyd y byddai comisiynu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn i weithio gyda'i gilydd yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol am welliant trwy roi trefniadau ar waith i rannu arferion da a gwybodaeth. Efallai mai lle da i ddechrau fyddai'r meysydd hynny o orgyffwrdd rhwng y ddau sefydliad yn nhermau diagram Venn, neu feysydd lle gallai AB ac AU ddod gyda'i gilydd i ddatrys materion sy'n berthnasol i'r ddau sector ee yr her o bontio myfyrwyr BTEC i AU.
- 7.38 Cydnabuwyd y byddai parhau gydag arolygu ar drywydd deuol, gan gynnwys yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn, yn anafanteisio sefydliadau AB gan y byddent yn parhau i fod yn destun arolygu gan ddau gorff gwahanol. Fodd bynnag, y farn oedd y dylai'r Comisiwn fod mewn sefyllfa i sicrhau gwell integreiddio trwy ei ddull o gomisiynu. Yn allweddol i hyn byddai perthynas y Comisiwn gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn a'r pwerau sydd ganddo i bennu beth sydd arno eisiau gan y cyrff hyn. Byddai angen ystyried hefyd sut i gynnwys trefniadau arolygu esgobaethol (a chyfraith elusen).
- 7.39 Pwysleisiwyd hefyd y dylai unrhyw gorff (neu gyrff) dynodedig gael yr arbenigedd a'r enw da i sicrhau cydnawsedd gyda threfniadau sicrhau ansawdd Prydeinig a Rhyngwladol (trwy gydymffurfiaeth ag ENQA), yn enwedig o ran y sector AU. Dadleuai un cyfrannwr y bydd angen i unrhyw gorff dynodedig allu gwneud i sefydliadau AU yr hyn mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ei wneud ar hyn o bryd.

- 7.40 Roedd yn cyfrannwr o'r farn fod y pedwerydd pwynt bwled o dan eitem 177 yn adlewyrchu camddealltwriaeth o God Ansawdd y DU yn yr ystyr ei fod wedi ei gyd-berchnogi gan y sector ac nad oes angen i'r corff sicrhau fodloni ei ofynion. Awgrymwyd y gellid geirio'r paragraff yn well, efallai i ddweud bod angen i'r adolygiadau roi sylw i God Ansawdd y DU yn hytrach na'r sefydliad ei hun.

C46: A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig o wella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

- 7.41 Y gair a ddefnyddir yn y fersiwn Saesneg yw 'enhance', ac roedd rhai yn ei weld fel gair braidd yn amwys a thrwsogl.
- 7.42 Ar y llaw arall, y farn oedd ei bod yn neilltuol o bwysig fod y fframwaith nodi'n benodol ei fod yn cwmpasu gwella ansawdd yn ogystal â sicrhau ansawdd.
- 7.43 Defnyddir diffiniadau ychydig yn wahanol o sicrhau ansawdd a gwella ansawdd ym mhob sector AHO. Er y byddai'n ddigon rhesymol i'r Comisiwn gael ei ddiffiniad ei hun, bydd angen iddo gydnabod y gallai sectorau o fewn y tirwedd AHO ddefnyddio diffiniadau sydd ychydig yn wahanol hefyd. Dywedwyd bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd eisoes yn gwneud hyn.
- 7.44 Roedd barn y byddai'n ddefnyddiol i'r diffiniad ddarllen '... gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn strategol ...' er mwyn pwysleisio natur bwrpasol y prosesau a'r gweithgareddau y mae'n cyfeirio atynt. Dadleuwyd hefyd y gellid ychwanegu 'gweithredu bwriadol a systematig' at y dataniad i'w wneud yn llai goddefol.
- 7.45 Ychwanegiad posibl arall a awgrymwyd oedd y dylai'r datganiad sôn am welliant yn arwain at 'berfformiad uchel parhaus', gan gysylltu gwelliannau mewn ansawdd â deilliannau.

C47: A ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig rôl y Comisiwn mewn perthynas â gwella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

- 7.46 Mae'r egwyddor o'r Comisiwn yn rhoi arweiniad strategol ar wella ansawdd yn ddefnyddiol, ond nid oes angen i'r ddeddfwriaeth ddiffinio'n rhy fanwl sut y dylid gwneud hynny. Dadleuwyd bod graddau'r manylder a nodir yn y ddogfen ymgynghori (yma ac mewn lleoedd eraill) yn ormodol i ymgynghoriad y bwriedir iddo baratoi'r ffordd ar gyfer y broses ddeddwriaethol. Mae angen i rai o'r pethau a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori gael eu gadael i'r Comisiwn, fel arall mae Llywodraeth Cymru mewn perygl o fframio'r ddeddfwriaeth yn rhy dynn, ac o ganlyniad, peri'r angen am ddeddfu pellach rywbryd yn y dyfodol. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch beth sydd angen ei gynnwys o fewn y Bil a'r hyn y mae angen i'r Comisiwn ei weithredu unwaith y bydd y Bil wedi'i ddeddfu. Fel y dywedodd un cyfrannwr 'ewch i'r lefel uchel a gadael lle oddi tanodd'.

- 7.47 Er hynny, roedd un cyfrannwr yn rhybuddio yn erbyn cyflwyno 'bil fframwaith' a rhybuddiodd fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn ddigon clir ynghylch ei disgwyliadau o ran dyletswyddau, swyddogaethau a phwerau.
- 7.48 Nodwyd bod angen cyfleu i'r Comisiwn nad yw rhai o'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori hon o angenrheidrwydd yn berthnasol wrth lunio'r Bil er mwyn sicrhau nad yw'n mynd ati i ofyn yr un cwestiynau eto.
- 7.49 Awgrymwyd er enghraifft y byddai paragraff 137 yn fwy priodol pe bai'n darllen '... gweithio gydag asiantaethau eraill a gyda sefydliadau i wella ansawdd cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr'. Y farn oedd y dylid dileu rhan olaf y paragraff, ynghyd â'r pwyntiau bwled sy'n dilyn.
- 7.50 Dadleuai un cyfrannwr fod angen ystyried sut y bydd sicrhau a gwella a ansawdd yn cysylltu â'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau. Roedd disgwyl y byddai elfennau o'r asesiadau / cynlluniau sicrhau a gwella ansawdd yn ffurfio rhan o'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn hytrach na'u bod yn ddogfennau / cytundebau ar wahân a digyswllt. Teimlai cyfranwyr fod angen mwy o wybodaeth ar beth fyddai'r Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau cyn gallu gwneud sylwadau pellach yn y cyswllt hwn.
- 7.51 Nodwyd y bydd angen ystyried yn ofalus sut y gallai'r Comisiwn fynd at ii wneud y mathau o bethau a restrir ym mharagraff 187.

C48: Sut y gellid teilwra rôl y Comisiwn o ran datblygu'r gweithlu i adlewyrchu anghenion gwahanol sectorau a darparwyr?

- 7.52 Unwaith eto, y teimlad oedd bod yr adran hon o'r ymgynghoriad yn cynnig manylion ond nid eglurer ynghylch beth ddylai rôl y Comisiwn fod.
- 7.53 Roedd cyfranwyr yn croesawu'r rhagolygon (fel yr awgrymir yn y ddogfen ymgynghori) y bydd gan y Comisiwn ddiddordeb mewn bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol o ansawdd uwch ar gael i ymarferwyr yng Nghymru – gan nodi bod hyn fel pwynt o wahaniaeth posibl o gymharu â Lloegr. Cytunwyd y dylai'r Comisiwn gael goruchwyliaeth o drefniadau datblygu gweithlu ar draws y sector AHO, ond na ddylai o angenrheidrwydd ymwneud â chyflwyno datblygiad proffesiynol parhaus, eithr yn hytrach roi arweiniad a'r modd i lenwi bylchau lle maent yn dod i'r amlwg. Yn ei hanfod, dadleuwyd y dylai'r Comisiwn gan rôl o 'gydgysylltu' yn hytrach nag o 'wneud' yn y cyswllt hwn.
- 7.54 Gwnaed y pwynt fod safonau proffesiynol yn bod ar draws gwahanol rannau o'r sector AHO ac efallai mai rhan o rôl y Comisiwn fyddai sicrhau cysondeb ac integreiddio yn hyn o beth. Yn wir, croesawyd y cynnig y gallai rôl y Comisiwn gynnwys 'helpu i sicrhau mwy o gydraddoldeb a chludadwyedd ar gyfer athrawon cymwys rhwng y sector ysgolion a'r sector addysg bellach'. O ran safonau proffesiynol AU yn benodol, mae angen pwysleisio pwysigrwydd cludadwyedd

gyda sector AU ehangach y DU. Mae angen cydnabod hefyd fod llawer o weithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus a wneir gan sefydliadau AU yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag asiantaethau'r sector ee Advance HE, yr Academi AU a'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth. Gwnaed cyfeiriad at brosiect 'dadansoddeg dysgu' a gyflwynwyd gan y sector AU.

- 7.55 Er yr hyn a ddywedir uchod, y farn oedd y gallai'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori gynnig cyfleoedd ar gyfer ehangu gweithgaredd datblygu gweithlu ymysg darparwyr DSW. Mae'r sector DSW yn brin o'r strwythurau ffurfiol sy'n bresennol i gefnogi AU ac, i raddau llai AB a chweched dosbarth ysgolion.
- 7.56 Er gwaethaf yr hyn a ddywedir yn yr ymgynghoriad na fyddai dull 'un maint addas i bawb' yn gweithio ar draws pob sector, roedd y cyfranwyr yn daer na ddylai'r Comisiwn gael ei dynnu i geisio datblygu cyfres sengl o safonau y byddai disgwyl i bob sector lynu atynt. Dylid osgoi hyn ar bob cyfrif.

C99: Sut y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio i gael effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

- 7.57 Mae angen ei gwneud hi'n glir o'r cychwyn fod gan y Comisiwn rôl i gefnogi'r Gymraeg a beth yw'r rôl honno. Byddai hyn yn rhoi i'r Comisiwn yr awdurdod i weithredu er budd hyrwyddo gweithgareddau sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg. I rai cyfranwyr, byddai hyn yn golygu bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hystyried fel pwnc prif-ffrwd yn hytrach nag atodiad, rhywbeth y mae cael pennod ar 'gefnogi'r Gymraeg' sydd ar wahân i'r ddogfen ymgynghori yn ei awgrymu.
- 7.58 Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad o bwyllgor statudol gyda'r Comisiwn i oruchwylio ei rôl o gefnogi'r Gymraeg a datblygu darpariaeth gyfrwng Cymraeg, tra bod cyfranwyr eraill yn fwy amwys, ac yn dymuno i bwyllgor o'r fath gael ei ystyried yng nghyd-destun rôl bwrdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- 7.59 Roedd rhai'n dadlau mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol dros gyllido'r Coleg Cymraeg, yn hytrach na bod y Coleg yn gael ei gyllido o ffynonellau na fyddent efallai'n yn llwyr rannu uchelgeisiau'r Coleg. Gwnaed yr wrth-ddadl, fodd bynnag, y dylai'r Coleg ddal i gael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, gan nad yw'r trefniant ond yn ddiweddar wedi cael ei roi ar waith.
- 7.60 Dadleuai un cyfrannwr fod angen cyfeirio at uchelgais Llywodraeth Cymru o Filiwn o Siaradwyr Cymru yn y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r Comisiwn.
- 7.61 Dadleuwyd y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn weithio gyda chyrff eraill â'r arbenigedd ar agweddau o ffurfio a gweithredu polisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Y farn oedd na fyddai gan y Comisiwn ei hun o angenrheidrwydd raddau uchel o arbenigedd mewn datblygiad a

hyrwyddo iaith, ond y gallai gydweithio mewn modd defnyddiol gyda'r Coleg Cymraeg, sydd a'r arbenigedd honno.

- 7.62 Awgrymwyd y dylid dod â'r elfen Dysgu Oedolion yn y Gymuned o AHO o fewn maes y Coleg i ganiatáu dull gweithredu mwy hyblyg, gan ei bod bellach yn gweithio ar drefniadau ar gyfer AB a DSW.
- 7.63 Peth arall y gallai'r Comisiwn ei wneud i gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg oedd sicrhau bod aseswyr ansawdd allanol ar gael sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.64 Hefyd rhannu arferion da, nid yn unig trwy sectorau AHO, ond hefyd ar draws rhaniadau sectorol.
- 7.65 Pwysleisiwyd pwysigrwydd i'r Comisiwn gael data dibynadwy yn ymwneud â darpariaeth gyfrwng Cymraeg (math, nifer sy'n cymryd rhan, dilyniant trwy gamau pontio) os yw am gynllunio'r ddarpariaeth mewn ffordd wybodus.

Cwestiynau Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Pa gostau neu arbedion ariannol yn eich barn chi a ALLAI ddeillio o'r diwygiadau arfaethedig hyn, yn y tymor byr ac yn yr hirdymor?

Pwy ddylai fod yn gyfrifol am gostau asesiadau allanol?

- 7.66 Dadleuwyd nad yw diwygiadau o'r math a gynigir 'byth yn arwain at arbedion' ac roedd cyfranwyr yn ei chael yn anodd darganfod unrhyw arbedion y gellid eu gwneud. Ar y gorau, gallai'r diwygiadau fod yn niwtral o ran cost, ond gyda dull gweithredu mwy holistaidd a seiliedig ar system gyfan yn arwain at well gwerth yn deillio ohono.
- 7.67 O droi at sicrhau a gwella ansawdd yn benodol, y gred oedd ei bod yn fwy tebygol y bydd y diwygiadau'n arwain at fwy o gost oherwydd bydd disgwyl i'r Comisiwn wneud mwy, neu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr AHO neu aseswyr sicrhau a gwella ansawdd wneud mwy nag a wneir ar hyn o bryd.
- 7.68 Gwnaed y pwynt nad yw sefydliadau addysg bellach (yn yr ystyr ehangaf) yn talu am arolygiadau ar hyn o bryd, tra bo sefydliadau addysg uwch (trwy swyddfeydd Prifysgolion Cymru) yn gwneud hynny. Dadleuwyd y dylai pob sector o AHO gael eu trin yr un fath o ran talu am arolygiadau ac y dylai costau asesiadau gael eu hysgwyddo gan y Comisiwn.

Materion eraill

- 7.69 Roedd consensws fod y ddogfen ymgynghori fel cyfanrwydd yn cynnwys llawer mwy o fanylder nag sydd ei angen i lywio'r rheoliad. Mae'n hanfodol fod y rheoliad yn cael ei lunio mewn ffordd sy'n caniatáu hyblygrwydd i'r Comisiwn ddatblygu ac addasu wrth i amser fynd yn ei flaen. Yn ei hanfod, mae angen gwneud y Bil yn addas at y dyfodol.

- 7.70 Bydd yn bwysig, fodd bynnag, i faterion mwy manwl gael eu hystyried yn ystod cam nesaf datblygiad y Comisiwn a bod negeseuon sy'n ymwneud â'r materion mwy manwl hyn sy'n codi o'r ymarferiad ymgynghori presennol yn cael eu hystyried.
- 7.71 Er yr ymddengys y bydd chweched dosbarth ysgolion o fewn cwrpas y Comisiwn, nodwyd y bydd y rhan fwyaf o'r dylanwad dros ysgolion yn dal i fod yn nwylo awdurdodau lleol. Gall hyn gyfyngu ar allu'r Comisiwn i weithredu newid mewn darpariaeth chweched dosbarth yn y tymor byr i dymor canol o leiaf. Mae'n golygu hefyd y bydd rhaniad yn dal i fod rhwng chweched dosbarth ysgolion ar y naill law a sefydliadau AB a DSW ar y llall.
- 7.72 Roedd rhywfaint o bryder o fewn y sector AU fod y ddogfen ymgynghori'n awgrymu sector AHO a gynllunir yn ganolog, rhywbeth roedd pawb o'r cyfranwyr yn ei wrthwynebu. Gall fod angen i'r Comisiwn gymell darparwyr i gymryd y risg o fuddsoddi mewn darpariaeth nad oes fawr o alw amlwg amdano er mwyn symbylu'r galw dros amser. Fodd bynnag, nid cynllunio a thargedau ddylai'r drefn fod.
- 7.73 Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd os yw sefydliadau AU Cymru am ddal i fod yn 'rhagorol'. Dadleuwyd ei bod yn ddigon teg gofyn i sefydliadau AU chwarae rhan mewn ymateb i flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru, ond mae sefydliadau AU yn gweithredu ar lwyfan byd-eang ac mae angen caniatáu'r rhyddid iddynt wneud hynny'n llwyddiannus.

8. Chweched Dosbarth

20^{fed} Mehefin 2018

8.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- CCAUC
- Gwasanaeth Addysg Gatholig
- Ysgol Maes y Gwendraeth
- UCM Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Estyn
- Conosrtiwm Canolbarth y De
- GwE Gogledd
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Ysgol y Creuddyn and CYDAG

Pwyntiau cyffredinol a wnaed

- 8.2 Roedd diffyg gweledigaeth glir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector AHO yn cael ei weld fel gwendid a rhywbeth a oedd yn peri bod y broses ymgynghori braidd yn haniaethol mewn mannau. Roedd y cyfranwyr yn cytuno bod angen i Weinidogion fod yn glir ynghylch beth sydd arnynt ei eisiau gan y Comisiwn a sut i fynegi i'r cyhoedd beth yw eu huchelgeisiau ar gyfer y Comisiwn. Yn gysylltiedig â hyn, roedd amryw o gyfranwyr yn awyddus i wybod sut y gall/ sut y caiff dirprwyo pwerau gweinidogion i'r Comisiwn ei gysoni ag atebolrwydd democrataidd. Yn wir, roedd atebolrwydd democrataidd yn un o themâu parhaus y gweithdy hwn, o bosibl oherwydd bod cymaint o'r cyfranwyr o feysydd cysylltiedig at ysgolion.
- 8.3 Roedd rhywfaint o amheuan ynghylch i ba raddau y bydd Comisiwn yn debygol o fod wedi ei wahanu oddi wrth Lywodraeth Cymru mewn gwirionedd, gyda'r ddogfen ymgynghori'n gadael lle i raddau o amwysedd yn hyn o beth. Y teimlad cyffredinol oedd waeth beth y gall hyd braich ei olygu mewn egwyddor, bod y ffaith y bydd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn golygu'n anochel y bydd yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cael ei weld fel rhywbeth da yn yr ystyr y byddai'n helpu hyrwyddo cydlyniaeth polisi (ee mewn perthynas ag addysg cyn-16 ac ôl-16), ond hefyd fel risg posibl gan y gallai'r Comisiwn fod yn agored i bwysau (gwleidyddol) gormodol neu amhriodol.
- 8.4 Nodwyd yn achos CCAUC, bod y meysydd hynny lle na all Llywodraeth Cymru orfodi CCAUC (na sefydliadau'n anuniongrychol) wedi eu pennu'n clir mewn deddfwriaeth ee mewn perthynas â rhyddid academaidd neu fynediad i fyfyrwyr.
- 8.5 Fel pwynt cyffredinol, nodwyd y bydd chweched dosbarth ysgolion o fewn cylch gwaith y Comisiwn, ond bod y ddogfen ymgynghori yn nodi y byddant wedi eu heithrio o rai agweddau o waith rheoleiddio'r

Comisiwn (ee o ran Awdurdodau Lleol yn dal i weithredu fel cyfryngwyr rhwng ysgolion a threfniadau llywodraethu'n aros yr un fath). Mae hyn yn rhoi teimlad o anghysondeb i'r ddogfen ymgynghori ac i'r cynigion yn ehangach. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, dadleuwyd bod torri'r ddogfen ymgynghori'n wahanol rannau ar gyfer y sesiynau gweithdy yn cuddio'r anghysondebau hyn ac yn ei gwneud yn fwy anodd adnabod tensiynau lle maent yn bod.

- 8.6 Nodwyd hefyd na chyfeirir fawr ddim yn y ddogfen ymgynghori at y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, er bod disgwyl i'r Partneriaethau chwarae rhan allweddol wrth adnabod anghenion sgiliau rhanbarthol a dylanwadu ar ffurf darpariaeth AHO mewn gwahanol rannau o Gymru. Roedd hepgor hyn yn cael ei weld fel rhywbeth sydd angen mynd i'r afael ag ef.
- 8.7 Roedd amryw o gyfranwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal asesiad effaith cyn cymryd unrhyw benderfyniad terfynol i sefydlu Comisiwn.

C19: A ddylai swyddogaethau Gweinidogion Cymru (sef dyletswyddau a phwerau) o dan adrannau 31, 33, a 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ddod i ben, ac a ddylai'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hynny neu swyddogaethau tebyg iawn iddynt?

- 8.8 Roedd rhywfaint o anghytundeb ynghylch a ddylai pwerau presennol Gweinidogion gael eu rhoi i'r Comisiwn. Roedd y rheini a oedd yn erbyn y syniad yn dadlau:
- Bydd yr atebolrwydd terfynol dros berfformiad y sector AHO yn aros gyda'r llywodraeth, boed pwerau wedi eu dirprwyo i Gomisiwn neu beidio.
 - Y llywodraeth sy'n pennu blaenoriaethau ar gyfer adfywio economaidd a datblygu medrau, ac felly, dylai gael mewnbwn uniongyrchol i'r system AHO.
 - Y llywodraeth sy'n gosod yr agenda ar gyfer addysg cyn-16 o fewn ysgolion a byddai iddi gael goruchwyliaeth o chweched dosbarth o fewn ysgolion hefyd yn caniatáu parhad a chysondeb.
 - Gallai'r Comisiwn ddod yn gocyn hitio i Weinidogion os bydd yn angenrheidiol gwneud toriadau i gyllid AHO neu benderfyniadau anghysurus eraill.
- 8.9 Roedd y rheini a oedd yn gweld gwerth mewn rhoi pwerau'r Gweinidogion i'r Comisiwn yn dadlau:
- Byddai'n darparu llwyfan i weledigaeth a dull gweithredu mwy holistaidd ar gyfer AHO.
 - Byddai'n darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer pob dysgu ôl-16.
 - Byddai'n helpu meithrin parch cydradd rhwng gwahanol sectorau AHO (a rhwng astudiaethau galwedigaethol ac academaidd).
 - Mae'r tirwedd AHO yn newid, ee gyda darpariaeth AU yn cael ei chyflwyno mewn lleoliadau AB ac ysgolion a sefydliadau AB yn

cydweithio i gyflwyno cwriciwla ehangach. Byddai chweched dosbarth yn rhan o'r broses esblygu hon.

- Byddai'n datgysylltu penderfyniadau ynghylch AHO oddi wrth wleidyddiaeth.

- 8.10 Nodwyd bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol o ran y cymorth a roddir i bobl ifanc hyd at 25 oed, gyda'r gwahaniad cyn-16 ac ôl-16 wedi ei ddileu i bob pwrpas. Roedd teimlad bod y ddogfen ymgynghori yn dawel yn hyn o beth, a'r farn oedd mai camgymeriad oedd hyn y bydd angen rhoi sylw iddo. Y dybiaeth yn y fan hon yw y bydd yn rhaid dod â darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal a darpariaeth ôl-16 heb fod yn brif ffrwd, i mewn i gylch y Comisiwn os bydd chweched dosbarth ysgolion a rhannau eraill o'r sector AHO yn cael eu cynnwys.
- 8.11 Dadleuwyd bod angen ystyried yn ofalus beth fydd cysylltiad darpariaeth AHO â darpariaeth cyn-16, gyda rhai cyfranwyr (fel y nodir uchod) yn gweld pwysigrwydd gwneud cysylltiadau o'r fath fel dadl dros beidio â dirprwyo swyddogaethau Gweinidogion i'r Comisiwn. Roedd cyfranwyr yn sôn am y camau a gymerwyd i ddiwygio'r cwriclwm trwy 'gyd-adeiladu' a'r farn oedd bod pwysau Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol wrth sicrhau'r newidiadau. Roedd rhai cyfranwyr yn siomedig na wnaed unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at y cynnydd a wnaed na'r dull gweithredu a gymerwyd ac roedd pryder y gallai hyn olygu na fydd y datblygiadau mewn addysg cyn-16 yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan y Comisiwn. Crybwyllwyd yn y cyswllt hwn y gwaith a wnaed ar lefel leol a rhanbarthol i ddatblygu llwybrau dysgu 14-19.

C20: A ddylai Gweinidogion Cymru gadw rôl yn y broses o gynllunio, darparu a chyllido addysg a hyfforddiant 16-19 ac ôl-19? Os felly beth ddylai'r rôl honno fod?

C21: A ddylid creu'r un pwerau, fwy neu lai, ar gyfer y Comisiwn newydd â'r pwerau o dan adrannau 65 a 66 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ynghyd â'r pwerau yn adrannau 86 ac 87 o Ddeddf Addysg 2005?

C22: A ddylid disodli adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 â phŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer pob darpariaeth ôl-16? Oes yna elfennau penodol y dylid ystyried eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys fel rhan o'r pŵer newydd hwn?

- 8.12 Fel y nodwyd eisoes, roedd rhai cyfranwyr o'r farn ei bod yn rhan o gyfrifoldeb democrataidd Gweinidogion i fod â rôl mewn cynllunio a chyllido addysg a hyfforddiant o'r cyfnod sylfaen trwodd i AHO. Crybwyllwyd dro ar ôl tro bwysigrwydd cynnal cysylltiadau rhwng polisi addysg cyn-16 ac ôl-16, gyda 'goblygiadau Donaldson' ar ddarpariaeth mewn chweched dosbarth ysgolion yn cael ei weld fel rhywbeth o arwyddocâd penodol.

- 8.13 Roedd eraill yn dadlau mai'r unig reswm y gallai fod ar Weinidogion angen cadw rôl mewn cynllunio a chyllido AHO fyddai pe bai'r ddeddfwriaeth i sefydlu'r Comisiwn yn cael ei fframio'n rhy dynn, ac felly'n amddifadu'r Comisiwn o'r hyblygrwydd i gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol. Y farn oedd y gallai Llywodraeth Cymru sianelu cyllid ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ychwanegol angenrheidiol drwodd i'r Comisiwn os a phryd bo'r angen.
- 8.14 Dadleuwyd hefyd y gallai anawsterau godi os oes gormod o gyrff â rolau i'w chwarae wrth gynllunio a chyllido AHO, gan dueddu i danseilio'r sail resymegol dros sefydlu'r Comisiwn yn y lle cyntaf. Awgrym un cyfrannwr oedd os yw'r Comisiwn am weithredu i ysbryd y pum ffordd o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yna dylid gwneud y cysylltiadau â gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru.
- 8.15 Er bod barnau'n amrywio ymysg cyfranwyr, roedd rhywaint o gonsensws y gall fod ar Weinidogion eisiau cadw rhywfaint o rôl dros gyfnod trosiannol, wrth i unrhyw Gomisiwn newydd fynd i'r afael â'i gylich gwaith ac a'r heriau mae'n eu hwynebu.

C23: A ddylai Gweinidogion Cymru neilltuo elfennau penodol o fewn cyfanswm y grant sydd ar gael i'r Comisiwn ar sail y math o ddarpariaeth i'w gyllido?

C24: A ydych chi'n cytuno y dylid rhannu'r symiau a neilltuir ar lefel addysg bellach/addysg uwch er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Comisiwn, ond gan gydnabod ein bod yn cynnig y dylai cyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â chyllid addysg bellach gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd?

- 8.16 Dadleuwyd y byddai elfen o anghysondeb i'r syniad o greu Comisiwn i gynllunio a chyllido AHO ar y naill law, a Gweinidogion yn parhau i orchymyn sut y dylid dyrannu cyllid, ar y llall. Byddai neilltuo cyllid yn haearnidd, dywedwyd, yn cael ei weld fel arwydd nad yw Llywodraeth Cymru yn ymddiried yn y Comisiwn i wneud yr hyn y rhoddwyd iddo'i wneud.
- 8.17 Y farn oedd y gallai neilltuo haearnidd sefyll yn ffordd newid, er enghraifft, yn achos colegau AB yn cyflwyno mwy o ddarpariaeth AU. Dylai Comisiwn gyda goruchwyliaeth o'r ddau sector gael yr hyblygrwydd i annog (trafod a chyllido) modelau cydweithredol o gyflwyno. Gallai hyn gynnig manteision, yn enwedig mewn ardaloedd nad ydynt yn cael ei gwasanaethu'n dda gan sefydliadau AU sy'n cynnig mathau penodol o gyrsiau.
- 8.18 Er hyn, fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai fod angen i 'ddiogelu' rhai agweddau o ddarparu, ac nid y lleiaf o'r rhain yw chweched dosbarth ysgolion, sy'n dod o dan bwysau cynyddol mewn rhai rhannau o Gymru gan yr hyn a oedd yn cael ei weld fel ymddygiad rheibus ar ran

colegau AB. Roedd y ddadl hon yn gysylltiedig â'r angen i warchod a meithrin twf darpariaeth ôl-16 gyfrwng Cymraeg, sydd, dadleuwyd, yn hanfodol er mwyn gwireddu'r uchelgais a nodir yn y strategaeth 'Miliwn o Siaradwyr'. Yn ei hanfod, roedd chweched dosbarth ysgolion yn cael eu gweld fel cartref naturiol darpariaeth gyfrwng Cymraeg ôl-16, gyda cholegau AB yn cael eu ystyried yn wael am drefnu bod darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar gael ac weithiau heb y cymhwysedd i gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

- 8.19 Un ddadl dros neilltuo rhwng cyllid AU ac AB, o leiaf yn y tymor byr, oedd y gallai fod 'tueddiad i AU fod â'r lle blaenllaw yn y drafodaeth am gyllid'.

C44: A ddylid ychwanegu, dileu neu newid rhywbeth gyda'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer y fframwaith ansawdd? A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion penodol ar sicrhau ansawdd ynglŷn â chweched dosbarth ysgolion?

- 8.20 Gwnaed y pwynt fod y fframwaith rheoleiddio sydd ar waith ar hyn o bryd yn gweithio'n dda ar y cyfan. Gan fod gan y trefniadau presennol nifer o gryfderau, dadleuwyd y gallai model 'hybrid' sy'n cynnwys Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fod yn fwy ymarferol na dynodi un corff i oruchwylio sicrhau a gwella ansawdd ar draws sectorau AHO, fel y cynigir. Byddai hyn yn gydnaws iawn ag egwyddor iii, fel y cynigir. Nid oedd fawr o awydd am un corff dynodedig, o leiaf yn y tymor byr i'r tymor canolig, er y dylai fod yn fater i'r Comisiwn benderfynu ar drefniadau mwy hirdymor.
- 8.21 Cydnabuwyd nad yw chweched dosbarth ysgolion yn hanesyddol wedi derbyn y graddau o sylw y dylent efallai, drwy eu bod wedi eu cynnwys o fewn arolygiadau ehangach ysgolion. Er y derbyniwyd bod y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn golygu bod chweched dosbarth ysgolion bellach yn destun craffu manylach gan Estyn, derbyniwyd y gallai'n hawdd fod gwerth i holl sector AHO ddod yn destun cyfundrefn gyffredin ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd.
- 8.22 Bydd angen i'r Comisiwn ystyried sut y bydd unrhyw drefniadau newydd ar gyfer AHO yn gweithio gyda'r gyfundrefn hunan-werthuso ac arolygu cyn-16. Bydd hyn yn neilltuo o bwysig i ysgolion gyda chweched dosbarth, a allai o bosibl fod yn destun dwy wahanol system.
- 8.23 Roedd datblygu a chyflwyno graddol dulliau cyson o fesur deilliannau ôl-16 yn cael ei weld fel cam pwysig ar y daith at system ystyrlon o sicrhau a gwella ansawdd, gydag unigolion yn cyfeirio at bwysigrwydd 'tryloywder' o fewn y system a'r angen ar i ddulliau mesur ystyried y cynnydd a wnaed gan bob dysgwr unigol wrth gamu ymlaen rhwng cyfnodau allweddol addysg cyn-16 ac ôl-16. Cafodd argymhellion diweddar yr Athro Donaldson yn hyn o beth eu croesawu'n helaeth.
- 8.24 Yn gyffredinol, y farn oedd bod yr egwyddorion yn cynnig man cychwyn da gan eu bod i raddau helaeth yn adlewyrchu'r dull a

weithredir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen eu datblygu ymhellach.

- 8.25 Cafodd yr egwyddor cyntaf ei groesawu'n frwd. Yn wir, y farn oedd os mai buddiannau dysgwyr oedd y prif symbyliad yn ymddygiad darparwyr, ni fyddai unrhyw rwystrau i gydweithio.
- 8.26 Y farn oedd y gallai egwyddor v achosi pryder i ysgolion gan y gall dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion fod yn fach ee mewn pynciau lleiafrifol, i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, mewn ardaloedd gwledig neu os oes gan ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Yn eu hanfod, mae'n anochel y bydd rhai mathau o ddarpariaeth yn ddrutach y pen nag eraill ac ni ellir felly farnu gwerth am arian ar sail costau yn unig. Mae angen diffinio gwerth am arian, gyda diffiniadau o bosibl yn cael eu gosod mewn cyd-destun, gan ganiatáu i ddiffiniadau olygu gwahanol bethau mewn gwahanol rannau o Gymru, neu o safbwynt darpariaeth gyfrwng Cymraeg, er enghraifft. Yn y cyswllt hwn, teimlai rhai cyfranwyr y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am lunio diffiniadau yn hytrach na'i adael i'r Comisiwn.
- 8.27 Yn gysylltiedig â'r pwynt am ffyrdd o fesur gwerth am arian, dadleuwyd bod angen ystyried dyfarniadau ynghylch chweched dosbarth ysgolion yng nghyd-destun y gwerth a ychwanegir gan ysgol yn ei chyfanrwydd, gyda bodolaeth chweched dosbarth weithiau'n chwarae rhan allweddol yn hyfywedd ysgolion fel cyfanrwydd (ee o safbwynt cyllid ac apêl i athrawon gwell).
- 8.28 Y farn oedd bod egwyddor naw yn bwysig gan ei bod yn cydnabod yn bendant ei bod yn anochel y bydd gwahaniaethau ledled Cymru ee rhwng ardaloedd trefol a gwledig a'r angen i gynnwys grwpiau llai eu maint mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth.
- 8.29 Y farn oedd y dylid ychwanegu egwyddor arall at y rhestr a gynigir, sy'n cyfleu'r disgwyliad y bydd unrhyw fframwaith ansawdd yn ystyried cynnig a datblygiad yr unigolyn o ddysgu cyn-16 i mewn a thrwy ddysgu ôl-16. Yn ei hanfod, ni ddylai fframwaith ansawdd ôl-16 eistedd ar wahân i'r hyn sydd yn ei le ar gyfer y sector cyn-16, (Fframwaith Arolygu Cyffredin), ond yn hytrach gydnabod 'y genhadaeth genedlaethol' (cyn-16), rôl hunan-werthuso sefydliadol (o fewn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn) ac argymhellion yr Athro Weingarten.
- 8.30 Ystyriwyd bod hyn yn faes sydd ar goll o'r egwyddorion a gynigir. Nid yw'n gwneud fawr o synnwyr siarad am sicrhau ansawdd ôl-16 yn gwbl ar wahân i'r trefniadau cyn-16.

C49: A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill i ysgogi addasiad a reoleiddir o ran chweched dosbarth, ee cau lleoliad penodol, neu a fyddai negodi Rhan II o'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau yn ffordd well o gyflawni hyn?

- 8.31 Mae'n debyg nad oedd y ffordd y cafodd y C hwn ei fframio wedi bod yn llawer o help, gan fod cyfeirio at gau chweched dosbarth yn

gwneud cyfranwyr yn amddiffynnol ac o bosibl yn eu rhwystro rhag deall graddau'r pwerau a ddelir ar hyn o bryd gan Weinidogion, sef i gyhoeddi cynigion i ychwanegu neu gael gwared ar chweched dosbarth ysgolion yn hytrach na chau chweched dosbarth yn fympwyol.

- 8.32 Arweiniodd y C at gyfranwyr yn mynegi ofn y byddai dyfarnu pwerau i'r Comisiwn i ysgogi addasiad a reoleiddir yn tanseilio awdurdod democrataidd a roddwyd i aelodau awdurdodau lleol a Gweinidogion. Yn ogystal, roedd pryder y gallai'r Comisiwn, wrth ysgogi addasiadau fel cau chweched dosbarth, yn sgil ei bwyslais ar ddarpariaeth ôl-16, ddadsefydlogi strwythurau ysgolion cyfain a hyd yn oed beryglu sefydlogrwydd ysgolion cynradd sy'n bwydo i ysgolion uwchradd.
- 8.33 Roedd y cyfranwyr yn glir eu barn mai Llywodraeth Cymru ddylai fod y cymrodeddwr terfynol mewn unrhyw anghydfod ynglŷn â chyngion i newid. Yn wir, dadleuwyd y dylai unrhyw newidiadau deddfwriaethol sicrhau na all Gweinidogion ddirymu nac osgoi eu cyfrifoldebau democrataidd yn wyneb cynigion dadleuol fel y posibilrwydd o gau chweched dosbarth ysgolion.
- 8.34 Er bod rhywfaint o anfodlonrwydd, ymddengys ei fod yn cael ei dderbyn ar y cyfan mai'r Comisiwn, fel awdurdod rheoleiddio, ddylai gael y pwerau i ysgogi (yn hytrach na gorfodi) addasiad a reoleiddir, yn enwedig os yw i gyflawni tuag at ei genhadaeth o sicrhau cydlyniaeth a chael gwared ar aneffeithlonrwydd o fewn y sector AHO. Wrth arfer pwerau o'r fath, fodd bynnag, bydd angen i'r Comisiwn roi ystyriaeth i oblygiadau ehangach posibl unrhyw newidiadau y gall ddewis eu hysgogi.
- 8.35 Roedd consensws y byddai'n well gweithredu newidiadau trwy drafod (trwy Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau) nag arfer pwerau deddfwriaethol. Awgrymwyd yn y cyd-destun hwn y dylai Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau gymell darparwyr i gyflawni nodau penodol neu ymddwyn mewn ffyrdd penodol yn hytrach na bod y Comisiwn yn defnyddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau mewn ffordd gosbedigol. Fe wnaeth cyfranwyr gymedroli hyn trwy ddweud ei bod yn anodd gwneud sylwadau gydag unrhyw sicrwydd ynghylch a yw Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn debygol o fod yn bethau da neu beidio hyd nes y daw'n amlwg beth yn hollol fydd y Cytundebau hyn a sut y bydd darparwyr (gan gynnwys ysgolion trwy awdurdodau lleol) yn cael eu dal yn atebol am y cyrsiau a gyflwynir.
- 8.36 Y farn oedd ei bod yn anghyson i'r Comisiwn fod yn trafod Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau gyda sefydliadau AU, sefydliadau AB a darparwyr DSW unigol, ond nid gydag ysgolion unigol mewn perthynas â'u chweched dosbarth. Er y deellir bod y nifer anferthol o ysgolion, yn ogystal â'u cyfrifoldebau ehangach, yn ei gwneud yn anymarferol i bob ysgol ymwneud yn uniongyrchol â'r Comisiwn, y teimlad oedd y gallai hyn rwystro cyfathrebu a phylu dealltwriaeth rhwng ysgolion a'r Comisiwn. Awgrymwyd hefyd y bydd angen i'r Comisiwn, wrth drafod Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau gydag awdurdodau lleol, gymryd golwg ranbarthol, er

mwyn sicrhau cydbwysedd darpariaeth ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Mae modelau eisoes yn bod o weithio trawsffiniol rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys y rheini i ymddangos o'r gwaith a wnaed gan rwydweithiau 14-19.

- 8.37 Yn y cyd-destun hwn, nodwyd bod y ddogfen ymgynghori yn mynegi y bydd Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn dangos tystiolaeth o hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd ariannol darparwyr. Nid oedd yn glir i'r cyfranwyr sut y gellid gwneud hyn mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion heb ystyried hyfywedd ariannol ysgolion unigol fel cyfanrwydd. Awgrymwyd y gallai fod yn fwy priodol i'r Comisiwn gytuno ar Gytundebau Deilliannau gydag awdurdodau lleol yn hytrach na Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.
- 8.38 Ynghyd â hyn, roedd rhywfaint o bryder na fyddai gan awdurdodau lleol yr adnoddau na'r arbenigedd, o leiaf yn y tymor canolraddol, i drafod ac wedyn rheoli perfformiad yn y ffyrdd y bydd Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn mynnu. Nid yw awdurdodau lleol wedi arfer â rheoli ac adrodd ar berfformiad ysgolion yn y ffordd y mae sefydliadau AU ac AB wedi ei wneud ers nifer o flynyddoedd. Bydd goblygiadau o ran adeiladu cynhwysedd i awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n symud at drefn Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.
- 8.39 Mae'r diffyg cynhwysedd o fewn awdurdodau lleol yn ei gwneud yn afrealistig disgwyl i drafodaethau Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau arwain at newidiadau mor bellgyrhaeddol ag addasiadau a reoleiddir.
- 8.40 Gwnaed y pwynt y dylai'r Comisiwn gael y pwerau i sicrhau tegwch i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn yr ystyr y dylai allu camu i mewn a'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnwys rhai cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed os yw'r niferoedd sy'n derbyn darpariaeth o'r fath yn isel ac, ym marn rhai darparwyr ac awdurdodau lleol, yn anhyfyw.

C50: Pa systemau adrodd ddylai fod yn ofynnol gan yr awdurdod lleol er mwyn dangos ei fod yn defnyddio'r cyllid a roddir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn effeithiol?

- 8.41 Roedd y C hwn yn cael ei weld fel un 'hynod o benodol' i ymgynghoriad technegol ynghylch rôl a ffurf corff rheoleiddio ôl-16. Roedd hyn yn adlewyrchiad o feysydd a chwestiynau eraill gorbenodol yn y ddogfen ymgynghori. Roedd rhai ofnau y gallai mynd i ormod o fanylder ar y cam hwn a fframio'r ddeddfwriaeth yn rhy dynn glymu dwylo'r Comisiwn unwaith y mae ar waith. Y farn gyffredinol oedd bod cwestiynau fel hwn yn rhywbeth i'r Comisiwn fynd i'r afael ag ef yn ystod ei ddyddiau cynnar / cyfnod sefydlu.
- 8.42 Er hynny, roedd cyfranwyr yn dadlau bod angen datgan yn glir o'r cychwyn beth yw diben unrhyw wybodaeth a gesglir. O'i defnyddio yn y ffordd iawn, gallai gwybodaeth am y ddarpariaeth a gyflwynir fod yn arf grymus iawn ar gyfer penderfynu sut y dylid datblygu darpariaeth. Nodwyd hefyd bod cyfoeth o wybodaeth eisoes yn cael ei gasglu am

ddefnydd effeithiol o gyllid gan ysgolion ac y dylid adeiladu ar hyn yn hytrach na bod y Comisiwn yn cychwyn o'r newydd.

- 8.43 Roedd elfennau allweddol o wybodaeth a nodwyd fel pethau a allai fod yn bwysig yn cynnwys:
- Niferoedd o ddysgwyr ar gyrsiau (yn hytrach na'r cyrsiau a gynigir)
 - Gwybodaeth am weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a rhwng ysgolion a sefydliadau AB, er enghraifft lle deuir â grwpiau at ei gilydd i astudio pynciau lleiafrifol.
 - Gwybodaeth hydredol am lwybrau a chyrchfannau dysgwyr unigol.
 - Gwybodaeth am hirhoedledd cyflogaeth unigolion, yn enwedig mewn swyddi o fewn sectorau neu feysydd blaenoriaeth, er enghraifft.
 - Dangosyddion ansawdd darpariaeth.
- 8.44 Roedd cyfranwyr yn pwysleisio'r angen am y fath hon o wybodaeth ar lefel ranbarthol yn ogystal â chenedlaethol fel sail ar gyfer gweithio partneriaeth / cydweithio rhwng darparwyr. Dadleuwyd hefyd y byddai gwybodaeth ranbarthol yn ddefnyddiol wrth atgyfnerthu'r rôl a chwaraeir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- 8.45 Un amod mewn agwedd gyffredinol gadarnhaol at y Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar agweddau o ddarpariaeth chweched dosbarth oedd na ddylai'r wybodaeth gael ei defnyddio i fwydo agenda o or-symleiddio, sef clustnodi darpariaeth sy'n ymddangos yn aneffeithlon heb ystyried y cyd-destun y cyflwynir y ddarpariaeth ynddo ee darpariaeth gyfrwng Cymraeg neu bynciau lleiafrifol mewn ardaloedd gwledig.
- 8.46 Nodwyd y bydd angen i'r Comisiwn drefnu cymorth i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol ddygydd mod â chyfundrefn adrodd sy'n newydd iddynt.

C51: A yw rôl y Comisiwn pan ddyfernir bod chweched dosbarth yn destun pryder yn briodol, neu a ddylai fod yn wahanol mewn rhyw ffordd?

- 8.47 Nodwyd bod trefniadau eisoes ar waith ar hyn o bryd ar gyfer ymdrin ag ysgolion sy'n achosi pryder. Maent yn cynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn. Bydd yn allweddol sicrhau bod y Comisiwn yn gydnaws â'r strwythurau a'r trefniadau presennol. Unwaith eto, pwysleisiwyd pwysigrwydd cydnabod chweched dosbarth fel rhan o strwythurau ehangach ysgolion.
- 8.48 Dadleuwyd y byddai gan y Comisiwn rôl gyfreithlon i'w chwarae lle bo ysgol wedi mynd yn groes i'w Chytundeb Rheoleiddio a Deilliannau (neu Gytundeb Deilliannau), gan fod y Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau yn eu hanfod yn cynrychioli contract (gyda chyllid ynghlwm) rhwng yr awdurdod lleol a'r Comisiwn. Yn wir, o gofio rhesymeg sefydlu'r Comisiwn gyda phwerau o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2005, roedd rhai'n credu nad oedd geiriad y ddogfen (y dylai'r

Comisiwn gael gwybod) efallai'n ddigon cryf. Awgrymwyd y byddai 'dylai ymwneud' yn eiriad mwy priodol.

- 8.49 Credai eraill y byddai paragraff 210 yn rhoi pŵer digonol i'r Comisiwn i ymateb i broblemau sy'n codi mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion, gyda pharagraff 222 yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle gallai problemau godi mewn perthynas ag elfen cyn-16 ysgol. O gymryd y dehongliad hwn o'r ddogfen ymgynghori, dadleuwyd y byddai'r rôl a gynigir yn briodol. Unwaith eto, roedd cyfranwyr yn dychwelyd at bwysigrwydd ystyried ysgolion yn eu cyfanrwydd (a'r goblygiadau i gynllunio cwricwlwm ymhellach i lawr ysgol) pe bai'r Comisiwn yn penderfynu dal cyllid chweched dosbarth yn ôl, fel y disgrifir ym mharagraff 210.

Q99: Sut y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio i gael effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

- 8.50 Dadleuwyd y dylai'r Comisiwn gael y pŵer i orfodi/cymell cyrff dyfarnu i ddatblygu adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg lle nad yw'r galw efallai'n ddigonol i'w gwneud hi'n hyfyw yn fasnachol i wneud hynny. Efallai y byddai'r Comisiwn yn gwneud hyn trwy Gymwysterau Cymru yn hytrach na'n aniongyrchol trwy gyrff dyfarnu.
- 8.51 Nodwyd bod uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg wedi arwain at ysgolion cyfrwng Saesneg mewn rhai rhannau o Gymru yn ceisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn digwydd ar hap yn unig, heb unrhyw strategaeth genedlaethol na rhanbarthol glir yn sail iddo. Nid oedd y cyfranwyr wedi'u hargyhoeddi y byddai hyn yn arwain at filiwn o siaradwyr Cymraeg gan na fyddai'n meithrin yn ddigonol y sgiliau a'r arferion angenrheidiol. Dadleuwyd y gallai fod angen i'r Comisiwn 'gymryd cam yn ôl' ac ystyried sut y gallai ysgolion fynd ati i ddatblygu'r sgiliau, ysgogiad a'r awydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd naturiol ymysg disgyblion. Mae angen 'dull gweithredu strategol gwirioneddol genedlaethol', o bosibl yn cynnwys buddsoddi mewn technoleg i hwyluso dulliau dibynadwy ac o ansawdd uchel o ddysgu o bell a allai o bosibl ymestyn ar draws ffiniau awdurdodau lleol.
- 8.52 Yn gysylltiedig â hyn, dadleuwyd bod angen cryfhau'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg mewn ysgolion (cyn-16 ac ôl-16) a bod angen helpu colegau i ddatblygu darpariaeth a fydd yn caniatáu cynnydd dysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd un cyfrannwr yn ofni mai'r cyfan y byddai dull cyffredinol ac unffurf o gynyddu swm addysgu cyfrwng Cymraeg yn ei wneud fyddai gwanhau ansawdd y ddarpariaeth.
- 8.53 Dadleuwyd hefyd fod angen gwneud mwy i hyrwyddo'r manteision o allu siarad Cymraeg i yrfaoedd unigolion yn y dyfodol, gyda negeseuon i'r perwyl hwn yn cael ei roi i ddisgyblion mewn addysg gynradd a thrwy addysg uwchradd i addysg drydyddol.

- 8.54 Dadleuwyd bod ehangu darpariaeth gyfrwng Cymraeg yn debygol o fod yn gostus, o leiaf yn y camau cynnar. Mae costau ychwanegol yn cynnwys, er enghraifft, cludo dysgwyr rhwng lleoliadau darparwyr, datblygu adnoddau, rhoi technoleg ar waith i hwyluso dysgu o bell sy'n well a 'chynadledda fideo'r 90au'. Mae angen gwneud darpariaeth i ysgwyddo costau ychwanegol os yw darparwyr am chwarae rhan wrth helpu Llywodraeth Cymru i wireddu ei huchelgais am filiwn o siaradwyr.

Cwestiynau Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Pa gostau neu arbedion ariannol yn eich barn chi a ALLAI ddeillio o'r diwygiadau arfaethedig hyn, yn y tymor byr ac yn yr hirdymor?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill y gellid eu teimlo ar draws gwahanol rannau o'r sector yn y tymor byr a'r hirdymor?

- 8.55 Roedd geiriad y C hwn yn awgrymu i rai fod man cychwyn Llywodraeth Cymru yn anghywir yn yr ystyr mai ei ystyriaeth gyntaf yw goblygiadau ariannol y diwygiadau a gynigir yn hytrach na'r manteision y byddai'r diwygiadau yn eu darparu i ddysgwyr. Ymddangosai hyn fel pe bai'n groes i'r egwyddorion arweiniol a gynigir ar gyfer fframwaith sicrhau a gwella ansawdd y Comisiwn.
- 8.56 Cydnabuwyd mai un o ddibenion canolog sefydlu Comisiwn yw creu system AHO sy'n integreiddio'n well ac yn fwy effeithlon: yn ei hanfod gwneud gwell defnydd o adnoddau neu 'gwneud i arian fynd ymhellach'. Roedd y cyfranwyr yn derbyn hyn fel egwyddor ganolog, ond yn rhybuddio yn erbyn ceisio arbedion ar draul ansawdd a mynediad at gyfleoedd dysgu perthnasol. Y gred oedd y bydd ar y Comisiwn 'eisiau gadael ei ôl' yn weddol gynnar yn ei oes, a'i bod yn ddigon posibl y gallai hyn ddigwydd yn ffurf 'rhesymoli'. Bydd angen i oblygiadau'r awydd hwn gan y Comisiwn i'w brofi'i hun gael eu hystyried yn ofalus o safbwynt buddiannau dysgwyr ac o ran gwerth yn hytrach na dim ond cost.
- 8.57 Nodwyd y gallai sefydlu Comisiwn olygu ychwanegu costau, yn enwedig os yw Llywodraeth Cymru yn methu â dirprwyo'n llawn y pwerau a gynigir, sef bod Llywodraeth Cymru'n creu 'haen arall o fiwrocratiaeth'.
- 8.58 Bydd sefydlu Comisiwn yn anochel yn golygu costau ychwanegol ac mae angen pwyso'r costau hyn hyn ofalus er mwyn sicrhau y gellir eu cyfiawnhau gan effeithlonrwydd a gaiff ei greu o fewn amser rhesymol. Hyd yn oed yn fwy hirdymor, bydd Comisiwn sy'n gweithredu'n iawn yn golygu costau, er enghraifft sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer llais y dysgwr nad ydynt yn bod ar hyn o bryd drwy holl faes AHO a chysoni trefniadau sicrhau a gwella ansawdd.

Materion eraill

- 8.59 Pwysleisiodd cyfranwyr yr angen hefyd am hyblygrwydd tua'r dyfodol er mwyn sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu wrth iddynt newid.
- 8.60 Dadleuwyd bod angen i ysgolion ddatblygu strwythur cynrychioliadol ac y dylai profiad myfyrwyr o gynrychiolaeth fod yn debyg ar draws ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Nodwyd y gallai hyn adeiladu ar ddatblygiadau fel seneddau ieuenctid cyn-16 ac ôl-16.
- 8.61 Dadleuwyd bod angen i Lywodraeth Cymru egluro'n llawn beth yw ei disgwyliadau mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru.
- 8.62 Roedd pryder y gallai addysg gyfrwng Cymraeg fynd ar goll mewn cyd-destun AHO ehangach. Dadleuwyd bod prinder darpariaeth Gymraeg ôl-16 mewn colegau AB a DSW, gyda chweched dosbarth ysgolion yn cynrychioli cadarnleoedd addysg Gymraeg ôl-16 (gan gynnwys addysg alwedigaethol) mewn llawer rhan o Gymru. Mae angen i AHO gyfrwng Cymraeg gael ei ddiogelu fel un o gonglfeini'r ymdrechion i gyraedd y targed 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.
- 8.63 Nodwyd bod llawer o ysgolion yn ymddangos fel pe na baent yn gwybod am yr ymgynghoriad presennol, gyda chyfranwyr unigol yn nodi nad oedd wedi bod yn eitem benodol ar agenda cyfarfodydd diweddar o grwpiau prifathrawon, er enghraifft. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd y 'pentyrrau' o ddogfennau ymgynghori y mae ysgolion wedi gorfod ymateb iddynt dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf. Nid oes gan ysgolion yr adnoddau i ymateb i ymgynghoriadau ar ben gwaitih y dydd: tystiolaeth o hyn oedd y gyfradd ymateb isel a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Awgrymwyd y gellid ymestyn y cyfnod ymgynghori: dywedodd yr hwylusydd y byddai Llywodraeth Cymru yn annhebygol o wneud hyn.
- 8.64 Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, nodwyd y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wrth gyflwyno'i hymateb, yn siarad dros 22 o awdurdodau lleol ac y dylid pwysoli ei hymateb i adlewyrchu ei rôl gynrychioliadol yn hytrach na chael ei gyfrif fel ymateb unigol yn unig.

9. Cynllunio a Chyllido

22^{ain} Mehefin 2018

9.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Colegau Cymru
- Prifysgol Abertawe
- Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Grŵp Llandrillo Menai
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Prifysgolion Cymru
- Partneriaeth Addysg Oedolion Cymru
- CCAUC

Pwyntiau cyffredinol a wnaed

- 9.2 Roedd cynrychiolwyr AU yn dychwelyd dro ar ôl tro at egwyddor ymreolaeth sefydliadol i sefydliadau AU. Gwnaed y pwynt fod y sector AU yn y DU yn 'hynod lwyddiannus' ac yn uchel ei barch ledled y byd, i'r graddau bod staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn 'heidio' i weithio ac astudio yn sefydliadau AU y DU. Dadleuwyd nad dim ond cynllunio ar gyfer y dyfodol (yn yr ystyr o ymateb i flaenoriaethau llywodraeth) mae sefydliadau AU yn ei wneud, ond 'dyfeisio'r dyfodol' hefyd trwy ymchwil. Dywedwyd na all sefydliadau sy'n rhoi pwyslais uchel ar ymchwil wahanu addysgu a hyfforddi oddi wrth yr ymchwil a gyflawnir.
- 9.3 Cafodd y farn hon o AU fel sector o lwyddiant cwbl ddiamwys ei herio, gydag un cyfrannwr yn awgrymu (yn foesgar iawn) efallai nad yw'r sector yn cyfrannu cystal ag y gallai at ddatblygu'r sgiliau technegol uwch sydd eu hangen ar ddiwydiant. Yn wir, awgrymwyd y gallai hyn fod wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynigion presennol ar gyfer creu'r Comisiwn.
- 9.4 Dadleuwyd bod yr amgylchedd AU yn amgylchedd cwbl wahanol i'r amgylchedd AB (ar y cyfan) a bod angen parchu hyn, neu beryglu'r 'wydd sy'n dodwy'r wyau aur'. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn rheoli elfen yn unig o'r cyllid sy'n llifo i sefydliadau AU, gyda'r rhan fwyaf yn cael ei gynhyrchu o incwm ffioedd a chyllid ymchwil. Mae sefydliadau AU yn wahanol hefyd i fathau eraill o ddarparwyr yn yr ystyr eu bod yn gyrff dyfarnu. Roedd cynrychiolwyr AU yn rhybuddio yn erbyn newid strwythurau heb ddeall ymarferoldeb y sefyllfa, gan ddisgrifio'r cynnig i greu Comisiwn fel 'symud cadeiriau o gwmpas'.
- 9.5 Nid yw hyn yn golygu na ddylai AU weithio mewn partneriaeth gyda llywodraeth a diwydiant. Yn wir, dadleuwyd mai un o feini prawf economi sy'n cynnig potensial ar gyfer twf yw ansawdd y cydweithio mewn partneriaeth rhwng llywodraeth, diwydiant a sefydliadau AU. Yn ei hanfod, fodd bynnag, nid oedd cynrychiolwyr AU yn derbyn y farn

fod cynllunio canolog y niferoedd o ddysgwyr sy'n dilyn llwybrau penodol yn gweithio'n effeithiol.

- 9.6 Roedd rhywfaint o drafodaeth o ddatblygiadau yn natur hyfforddiant prentisiaethau yn Lloegr, gan gynnwys cyflogwyr-ddarparwyr sy'n dylanwadu ar fanylebau technegol prentisiaethau a gwahanu prentisiaethau oddi wrth gymwysterau. Nid oedd hyn yn cael ei gweld fel rhywbeth da o angenrheidrwydd.
- 9.7 Nodwyd bod cyngor a chanllawiau ynghylch gwybodaeth sy'n ymwneud ag astudio/gyrfaoedd yn faes sydd ar goll yn y broses ymgynghori fel cyfanrwydd. Yn wir, y farn oedd bod rhy ychydig yn cael ei wneud ar hyn o bryd i annog pobl ifanc yng Nghymru i ddewis astudio ac aros yng Nghymru.
- 9.8 Roedd un cyfrannwr yn dadlau ei bod yn anodd ymdrin â chwestiynau sy'n ymwneud â swyddogaethau a phwerau posibl y Comisiwn heb ddeall yn gyntaf ddiben y Bil arfaethedig. Holwyd ai'r bwriad yw dirprwyo swyddogaethau Gweinidogion, a fyddai'n golygu y byddai'r prif gyfrifoldeb am swyddogaethau yn aros gyda Gweinidogion, neu ai'r bwriad yw trosglwyddo swyddogaethau a chyfrifoldebau i'r Comisiwn a fydd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i'r llywodraeth. Dadleuwyd y byddai'r ateb i'r C hwn yn penderfynu ar y graddau o fanylion mae angen i'r Bil eu cynnwys.
- 9.9 Byddai modd i bwerau a ddirprwywyd gael eu tynnu'n ôl gan Weinidogion ar unrhyw adeg, tra byddai angen deddfwriaeth bellach i newid neu i Weinidogion gymryd yn ôl bwerau a drosglwyddwyd. Roedd rhywfaint o drafodaeth ynghylch oblygiadau cyfreithiol 'trosglwyddo' (yn hytrach na dirprwyo) pwerau Gweinidogion, yn enwedig os oedd y Comisiwn am dorri amodau Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Galwodd un cyfrannwr am 'eglurder llwyr ynghylch statws cyfreithiol' y Comisiwn.

C19: A ddylai swyddogaethau Gweinidogion Cymru (sef dyletswyddau a phwerau) o dan adrannau 31, 33, a 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ddod i ben, ac a ddylai'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hynny neu swyddogaethau tebyg iawn iddynt?

- 9.10 Yn gyffredinol, yr hyn y cytunwyd arno fel egwyddor oedd, os oes Comisiwn am fod sy'n cyllido dysgu ar draws y sector AHO, yna ymddengys yn rhesymol y dylid tynnu'r pwerau hynny oddi wrth Lywodraeth Cymru a'u rhoi i'r Comisiwn. Wrth drosglwyddo'r pwerau hynny i'r Comisiwn, fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer gwerthuso ac atebolrwydd yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn gweithio mewn ffordd sy'n cyflawni amcanion y Llywodraeth. O ran chweched dosbarth ysgolion yn benodol, roedd y cyfranwyr yn daer y dylai'r Comisiwn, wrth ddefnyddio'r pwerau o dan y Ddeddf, barchu a gweithio o fewn fframwaith democrataidd ac iddo radd o atebolrwydd lleol.

- 9.11 Nodwyd, fodd bynnag, fod y Ddeddf yn rhoi llawer mwy o bwerau ymyrryd yn achos AB nag AU. Roedd cyfranwyr o'r sector AU yn daer dros sicrhau na fyddai'r pwerau fel maent yn ymwneud ag AU yn cael eu hymestyn i'r Bil sydd ar ddod ac na chaiff hanfodion ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd eu peryglu. Cydnabuwyd bod y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd sefydliadau AU, ond roedd cynrychiolwyr AU yn awyddus i sicrhau bod y bwriadau a fynegir yn y ddogfen ymgynghori yn cael eu hadlewyrchu yng ngeiriad y Bil pan gaiff ei ddrafftio. Roedd cynrychiolwyr AU yn cyfiawnhau eu hamheuron trwy esbonio na chynigir rhoi i'r Comisiwn yr holl swyddogaethau a drosglwyddwyd o EIWA i Lywodraeth Cymru yn 2005 ee ni chynhwyswyd adrannau 37-39. Mae'n dal i fod yn aneglur beth fydd yn digwydd mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn.
- 9.12 Roedd cynrychiolwyr AU yn rhybuddio yn erbyn dyfarnu pwerau i'r Comisiwn a allai rwystro sefydliadau AU rhag ymddwyn mewn ffyrdd sy'n eu galluogi hwy i gynhyrchu cyllid o ffynonellau heblaw llywodraeth (gan gynnwys ffioedd myfyrwyr, grantiau ymchwil, buddsoddiad sector preifat etc). Y farn yn y cyswllt hwn oedd bod CCAUC weithiau'n gweithredu fel llyffethair ar sefydliadau AU ar hyn o bryd.
- 9.13 Roedd cyfranwyr eraill yn herio'r syniad o sefydliadau AU y tu allan i gylch awdurdod y Comisiwn. Dadleuwyd y dylai'r Comisiwn allu gosod targedau i ysgolion, colegau AB, darparwyr DSW a sefydliadau AU fel ei gilydd, er enghraifft ar gyfer datblygu cymwyseddau technegol lle mae angen y rheini er mwyn cyflawni uchelgeisiau diwydiannol Llywodraeth Cymru.
- 9.14 Roedd un cyfrannwr yn gofyn beth oedd 'swyddogaethau tebyg iawn' o fewn geiriad y C i fod i'w olygu, ac a oedd disgwyl i'r cyfranwyr awgrymu beth allai swyddogaethau tebyg iawn fod.

C20: A ddylai Gweinidogion Cymru gadw rôl yn y broses o gynllunio, darparu a chyllido addysg a hyfforddiant 16-19 ac ôl-19? Os felly beth ddylai'r rôl honno fod?

- 9.15 Dadleuwyd y dylai Llywodraeth Cymru gadw 'rôl lefel uchel' mewn cynllunio AU, ond bod angen cynnal y berthynas hyd braich rhwng y llywodraeth a'r Comisiwn a rhwng y llywodraeth a'r darparwyr. Yn ei hanfod, ni ddylai Llywodraeth Cymru fod yn dweud wrth y Comisiwn pa fath o ddarpariaeth neu ymchwil y dylai fod yn ei gyllido. Gwnaed cyffelybiaeth â'r trefniant presennol lle mae Llywodraeth Cymru yn gosod 'cyfeiriad' bras i CCAUC trwy ei llythyr cylch gwaith, gan alluogi CCAUC wedyn i ddehongli'r cyfeiriad a'i ledaenu i sefydliadau. Teimlai eraill y byddai'n rhesymol i Lywodraeth Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i herio darparwyr a gosod targedau ar gyfer cyflwyno darpariaeth sy'n ymwneud â blaenoriaethau economaidd. Byddai hyn yn adlewyrchu'n agosach y dull 'micro' gor-fanwl o bosibl a ddefnyddir i gyllido sefydliadau AB ar hyn o bryd, lle caiff cyllidebau

colegau eu trafod ar sail y nifer o ddysgwyr ar gyrsiau ac sy'n ennill cymwysterau ar wahanol lefelau ac mewn meysydd blaenoriaeth.

- 9.16 Gan y bydd y rhan fwyaf o bell ffordd o'r cyllid sy'n llifo i'r Comisiwn yn deillio o Lywodraeth Cymru, y farn oedd y byddai'n afrealistig dychmygu y byddai Gweinidogion yn dyfarnu cyllid o'r fath heb amodau. Fodd bynnag, dadleuwyd na ddylai'r rôl hon ymestyn y tu hwnt i ddylanwadu ar y Comisiwn i ddylanwadu ar ddarparwyr neu ddarpariaeth unigol. Gallai cyfarwyddyd ar wahân gan Lywodraeth Cymru a chan y Comisiwn arwain at negeseuon cymysg a dryswch.
- 9.17 Nodwyd bod y rhan fwyaf o gyllid sy'n llifo i sefydliadau AU yn cael ei 'arwain gan fyfyrwyr' ac, felly, yn adlewyrchu dewis myfyrwyr. Mae'n rhaid i sefydliadau AU ymateb i ofynion myfyrwyr ac nid ydynt yn yr un sefyllfa â sefydliadau AB i ymateb i dargedau llywodraeth ar gyfer mathau penodol o ddarpariaeth. Os yw sefydliadau AU Cymru yn methu â chynnig cyrsiau sy'n apelio at fyfyrwyr, bydd y myfyrwyr hynny'n dewis astudio mewn sefydliadau AU y tu allan i Gymru. Dadleuwyd felly fod y syniad o ddilyn dull gweithredu cyson o gynllunio a chyllido pob categori o AHO, waeth pwy sy'n cynllunio a chyllido, yn gyfeiliornus. Mae eithriadau i'r ddadl hon, fodd bynnag, mewn perthynas â meddygaeth ac, i raddau llai, nyrsio, lle mae Llywodraeth Cymru'n rheoli'r niferoedd a gaiff eu recriwtio gan sefydliadau AU.
- 9.18 Er gwaethaf y ffaith fod ffioedd dysgu'n cynrychioli tua hanner incwm sefydliadau AU, teimlai rhai cyfranwyr y gallai ac y dylai'r Comisiwn ddefnyddio ffrydiau eraill, fel cyllid ymchwil craidd a chyllid grant arall fel ysgogiadau i annog sefydliadau AU i ymateb i flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru. Nid oedd cynrychiolwyr AU yn rhannu'r farn hon.
- 9.19 Roedd rhai yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd rhan mewn deialog â'r Comisiwn ynghylch ei blaenoriaethau economaidd a sut y bydd y Comisiwn yn llunio darpariaeth ddysgu i ymateb i anghenion sgiliau. Lle'r Comisiwn wedyn fydd trafod gyda darparwyr, gan gyfeirio at wybodaeth o'r farchnad lafur leol a rhanbarthol a gasglwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac eraill, ynghlch ffurf y ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion sgiliau yng nghydestun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- 9.20 Fel C atodol, gofynnwyd a all darparwyr sy'n symud o Loegr i Gymru gael eu cyllido gan y Comisiwn. Ysgogwyd y C gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i weithio gyda Phrifysgol Sheffield ac Airbus yn Sir y Fflint. Dealltwriaeth y cyfranwyr oedd na fydd y Comisiwn yn cyllido neb ond darparwyr cofrestredig sydd wedi eu lleoli, neu wedi eu lleoli i raddau helaeth, yng Nghymru.

C21: A ddylid creu'r un pwerau, fwy neu lai, ar gyfer y Comisiwn newydd â'r pwerau o dan adrannau 65 a 66 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ynghyd â'r pwerau yn adrannau 86 ac 87 o Ddeddf Addysg 2005?

- 9.21 Y farn oedd, ar y cyfan, y dylid creu'r un pwerau, heb eu newid. Unwaith eto roedd cynrychiolwyr AU yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal natur hyd-braich perthnas Llywodraeth Cymru â'r Comisiwn ac i'r Comisiwn barchu ymreolaeth sefydliadol. Nodwyd ymhellach y gall ceisio newid darpariaethau Deddf 1992 arwain at anawsterau technegol, a fel a ddigwyddodd gyda Deddf Addysg Uwch 2015 yng Nghymru. Yn ei hanfod, y farn oedd y bydd Deddf 1992 yn caniatáu graddau priodol o hyblygrwydd i'r Comisiwn, fel mae wedi'i wneud i CCAUC hyd yma, gan gannwys y potensial o roi'r pŵer i'r Comisiwn gyllido mathau eraill o ddarparwyr i gyflwyno darpariaeth AU.

C22: A ddylid disodli adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 â phŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer pob darpariaeth ôl-16? Oes yna elfennau penodol y dylid ystyried eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys fel rhan o'r pŵer newydd hwn?

- 9.22 Unwaith eto, roedd cyfranwyr AU yn pwysleisio pwysigrwydd cadw'r cymalau sy'n ymwneud ag ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd a gynhwysir o fewn Adran 68 o'r Ddeddf. Nodwyd hefyd fod yr amodau hyn wedi eu hatgynhyrchu yn Neddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 y DU. Heblaw am hynny, roedd cyfranwyr yn ymddangos yn fodlon gyda'r cynnig fel y'i mynegir uchod.
- 9.23 Nodwyd, fodd bynnag, fod Adran 68 o Ddeddf 1992 yn eithrio sefydliadau AU i bob pwrpas o ofynion bod eu staff yn athrawon cymwysedig, er bod hyn yn fwy o sylw nag o awgrym y dylid newid y sefyllfa.

C23: A ddylai Gweinidogion Cymru neilltuo elfennau penodol o fewn cyfanswm y grant sydd ar gael i'r Comisiwn ar sail y math o ddarpariaeth i'w gyllido?

C24: A ydych chi'n cytuno y dylid rhannu'r symiau a neilltuir ar lefel addysg bellach/addysg uwch er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Comisiwn, ond gan gydnabod ein bod yn cynnig y dylai cyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â chyllid addysg bellach gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd?

- 9.24 Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol y dylai Gweinidogion Cymru, mae'n debyg, neilltuo ar lefel-uchel a) oherwydd dyletswydd statudol i gyllido AB a b) i gydnabod atebolrwydd democrataidd gweinidogion, a hynny i raddau helaeth ar sail eu cyfrifoldebau statudol dros gyllido AB. Rheswm arall dros neilltuo ar linellau AU/AB fyddai i roi sicrwydd i'r

ddau sector ynghylch cyllido yn y dyfodol na fyddai un sector yn manteisio ar draul y llall.

- 9.25 Fodd bynnag, codwyd y C a fyddai neilltuo o'r fath yn cael ei wneud ar sail rhaglenni (ee prentisiaethau a phrentisiaethau gradd) neu sefydliadau (sef sefydliadau AU neu AB/darparwyr DSW). Dadleuwyd y bydd angen gradd o hyblygrwydd er mwyn sicrhau nad yw anawsterau'n codi o ran cyllido darpariaeth lle mae AB ac AU yn croesi'i gilydd, yn enwedig wrth i'r ffin rhwng AU ac AB ddod yn fwyfwy amwys. Yn wir, dadleuwyd mai rheswm da dros sefydlu Comisiwn yw herio'r systemau a'r strwythurau presennol. Awgrymwyd mai dewis arall fyddai i Lywodraeth Cymru neilltuo cyllid ar sail grwpiau oedran dysgwyr (felly'n rhoi sylw i ddyletswyddau statudol) neu ar sail lefelau dysgu.
- 9.26 Er yn derbyn bod rhywfaint o amwysedd rhwng AU ac AB (a chydabod y gallai hyn fod yn nod i rai), dadleuai un cynrychiolydd AU na ddylid colli golwg o'r ffaith fod y gwahaniaeth rhwng AU ac AB yn rhywbeth sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol.
- 9.27 Dywedodd cynrychiolwyr AU fod y rhan fwyaf o'r cyllid sy'n llifo o CCAUC (ac o'r Comisiwn yn y dyfodol) wedi'i ganolbwyntio ar bethau fel ymchwil, cyflwyno darpariaeth ran-amser ac ar ddarpariaeth sy'n ddrud i'w gyflwyno mewn ffordd hyfyw. Caiff y rhan fwyaf o ddarpariaeth brif-ffrwd AU ei gyllido trwy ffioedd dysgu.
- 9.28 Dros amser, gan dybio y bydd y Comisiwn a'r gymuned AHO yn cyrraedd graddau o aeddfedrwydd sy'n caniatáu trafod modelau cyflwyno, roedd rhai yn credu y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru gymryd agwedd fwy hyblyg at neilltuo. Dadleuwyd bod parhau i neilltuo cyllid ar linellau AU/AB yn yr hirdymor yn tueddu i atgyfnerthu 'seilos' presennol, llyffetheirio esblygiad y gymuned AHO a chyfyngu ar allu'r Comisiwn i gyflawni newid. Teimlai eraill y dylai'r cyfrifoldeb am ddyrannu lefel-uchel cyllid ddal i fod yn benderfyniad gwleidyddol am y dyfodol rhagweladwy, gan alluogi rhanddeiliaid i ddal Gweinidogion, yn hytrach na bwrdd y Comisiwn, i gyfrif am ganlyniad unrhyw benderfyniadau a wneir. Mae goblygiadau i hyn ynghylch a ddylai'r ddyletswydd i neilltuo cyllid gael ei chynnwys mewn statud, gyda barnau cymysg ynglŷn a ddylai neu beidio.
- 9.29 Fe wnaeth un cyfrannwr y sylw bod tanbeidrwydd y drafodaeth am y syniad o neilltuo yn dangos yr her sy'n wynebu'r Comisiwn o ran dod â'r sector AHO at ei gilydd.

C25: A ddylai fod yna bŵer ar gael i Weinidogion Cymru gyllido darpariaeth AHO yn uniongyrchol (gan gynnwys addysg uwch), ar ôl rhannu unrhyw gynigion o'r fath i ddechrau â'r Comisiwn, a lle mae budd mawr i'r cyhoedd o wneud hynny?

- 9.30 Roedd cytundeb helaeth y byddai Llywodraeth Cymru, trwy gadw pwerau i gyllido darpariaeth AHO yn uniongyrchol, yn tanseilio rôl y Comisiwn ac y byddai trwy hynny yn cael graddau amhriodol o reolaeth dros y Comisiwn. Holwyd hefyd pam y byddai ar Lywodraeth

Cymru angen osgoi Comisiwn sy'n cymryd barnau cyflogwyr trwy gyrff fel y Bwrdd Prentisiaethau a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac y dylai, felly, fod mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau ynghylch ffurf darpariaeth ddysgu.

- 9.31 Roedd cyfranwyr yn neilltuol o bryderus na ddylai Llywodraeth Cymru leihau'r cyllid a ddyranwyd i'r Comisiwn er mwyn cyllido darpariaeth yn uniongyrchol ei hun. Gwnaed y pwynt hefyd y bydd gan y Comisiwn drefniadau sicrhau a gwella ansawdd ar waith ac na ddylai Llywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa i osgoi'r trefniadau hynny trwy gyllido darpariaeth yn uniongyrchol.
- 9.32 Roedd un neu ddau o feysydd lle byddai angen i Lywodraeth Cymru feddwl yn ofalus ynghylch goblygiadau peidio â chadw pwerau cyllido, fodd bynnag, yn benodol meddygaeth a hyfforddi athrawon. Hyd yn oed yn yr achosion hyn er hynny, byddai'n well gan gyfranwyr i Lywodraeth Cymru gyfarwyddo (yn hytrach na gwahodd) y Comisiwn i gyllido mathau penodol o ddarpariaeth, yn hytrach na chyllido darpariaeth o'r fath yn uniongyrchol. Mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru gadw rhywfaint o bwerau gorfodi i allu gwneud hyn. Bydd hefyd angen ystyried sut i osgoi unrhyw fiwrocratiaeth diangen ac, o bosibl, anwadalwch ar ran y Comisiwn mewn sefyllfaoedd lle mae wedi cael ei orchymyn gan Lywodraeth Cymru i gyllido darpariaeth benodol.

C26: Ai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am gyllid a dderbynnir o ffrydiau cyllid ychwanegol, ar wahân i gyllid craidd?

- 9.33 Cydnabuwyd ei bod yn her cadw cyfrif o'r holl wahanol ffrydiau cyllid sy'n llifo i AHO ledled Cymru. Yn wir, awgrymwyd yn y gogledd yn ddiweddar y dylid sefydlu prosiect i fapio'r amrywiol brosiectau sydd ar waith yno a'r ffynonellau o gyllid sy'n eu cefnogi.
- 9.34 Y farn, fodd bynnag, oedd na fyddai'n ymarferol i'r Comisiwn gael gwybodaeth fanwl o gyllid mae darparwyr yn ei dderbyn o amrywiol ffynonellau ar wahân i'r brif ffrwd, heb sôn am fod yn gyfrifol amdano. Mae darparwyr yn tynnu arian o amryfal ffynonellau, gyda'r rhagolygon o arian yn dod yn gynyddol o ffynonellau llywodraeth y DU (ee y Gronfa Her Diwydiannol) wrth i Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (sy'n cael eu sianelu trwy law Llywodraeth Cymru) ddiflannu. Dadleuwyd hefyd y byddai ei gwneud yn ofynnol i amrywiaeth o ffynonellau posibl gael eu sianelu drwy'r Comisiwn yn golygu risg o arafu penderfyniadau a chynyddu biwrocratiaeth. Nodwyd, er enghraifft, fod cyllid o ffynonellau eraill yn lluosu bedair gwaith y grantiau a ddyrennir i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned gan Lywodraeth Cymru, ac y gallai'r Comisiwn gael ei lethu wrth geisio prosesu'r amrywiol arian o'r fath.
- 9.35 Yn ogystal, mae'r amodau sy'n gysylltiedig â ffrydiau cyllid y tu allan i'r brif ffrwd yn aml yn wahanol i'r rheini sydd ynghlwm â ffynonellau prif ffrwd ac yn caniatáu'r hyblygrwydd angenrheidiol wrth gyflwyno rhai ymyraethau sy'n ymwneud â sgiliau ee o fewn rhaglenni

cyflogadwydd. Gall dod â phrosiectau a gyllidir trwy'r ffynonellau allanol hyn o dan oruchwyliaeth y Comisiwn olygu eu bod yn destun holl amrediad gofynion cofrestru'r Comisiwn.

- 9.36 O safbwynt AU, byddai'n wallgofrwydd i'r Comisiwn gymryd cyfrifoldeb am bethau fel cyllid ymchwil.
- 9.37 Er hynny, barn y cyfranwyr oedd, lle gallai gweithredu gan y Comisiwn ychwanegu gwerth, creu effeithlonrwydd neu leihau biwrocratiaeth, dylai gael y pŵer i dderbyn/sianelu cyllid o ffynonellau y tu allan i'r brif ffrwd.
- 9.38 Dadleuwyd bod angen hefyd i gael mesurau diogelu ar waith i sicrhau nad yw cyllid cyhoeddus i AHO (gan gynnwys cyllid yn llifo o amrywiol adrannau Llywodraeth Cymru) yn llifo i ddarparwyr nad ydynt yn cydymffurfio â phrosesau sicrhau a gwella ansawdd y Comisiwn, sef y dylai pob darpariaeth AHO a gyllidir yn gyhoeddus fod yn destun yr un trylwyredd. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y byddai rhai sefydliadau sy'n erbyn arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar hyn o bryd yn ei chael hi'n anodd bodlon gofynion sicrhau a gwella ansawdd y Comisiwn ee sefydliadau trydydd sector a gwasanaethau ieuenctid sy'n gwneud gwaith gwerthfawr gyda grwpiau anodd. Nodwyd bod sefydliadau o'r fath yn chwarae rhan bwysig ym maes cyflogadwydd yn arbennig.
- 9.39 Er na chredid ei bod yn realistig disgwyl i bob cyllid o'r tu allan i'r brif ffrwd lifo trwy'r Comisiwn, y farn oedd y dylai'r Comisiwn, cyn belled â bod hynny'n ymarferol, gael gwybod am gyllid yn llifo o ffynonellau y tu allan i'r brif ffrwd i'r system AHO a defnyddio'i ddylanwad i sicrhau bod cronfeydd o'r fath yn cael eu hintegreiddio â chronfeydd prif ffrwd. Gallai, er enghraifft, gyhoeddi canllawiau yn disgrifio sut y dylai adrannau Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Comisiwn / ei hysbysu am weithgareddau AHO i'w cyllido o ffynonellau y tu allan i'r brif ffrwd. NI chredid, fodd bynnag, y dylai'r Comisiwn gael unrhyw bwerau statdol yn y cyswllt hwn.

C27: A ddylai fod gan y Comisiwn yr hyblygrwydd, yn ystod cyfnod trosglwyddo byr, i weithredu gwahanol fodelau cynllunio a chyllido ar draws pob math o ddarparwr, gan hyrwyddo ar yr un pryd brosesau alinio a chydgrynhoi wrth i'r Comisiwn aeddfedu?

- 9.40 Bydd y Comisiwn yn cael ei sefydlu ar adeg o ansicrwydd sylweddol wrth i'r DU dynnu allan o'r UE. Bydd hyn ag oblygiadau nid yn unig o safbwynt colli Cronfeydd Strwythurol Ewrop (sy'n cynrychioli ffynhonnell sylweddol o incwm i'r system AHO yng Nghymru), ond hefyd o safbwynt dirwasgiad economaidd sy'n debygol o ddilyn.
- 9.41 Yn wyneb y cefndir hwn, mae angen cymryd gofal yn ystod y broses o drawsnewid i sicrhau gradd o barhad er mwyn osgoi dadsefydlogi'r system AHO. Y farn oedd y byddai'n cymryd tua tair i'r bum mlynedd cyn i'r Comisiwn fynd i'r afael yn llawn â'i rôl. Roedd rhai cyfranwyr yn dadlau bod cloc y cyfnod pontio eisoes wedi cychwyn tician ac eraill

yn dadlau dros drefniadau pontio / cysgodi i lyfnhau'r pontio a chaniatáu gradd o barhad.

- 9.42 Does dim angen i drefniadau pontio gael eu sefydlu mewn statud, er y gallai Llywodraeth Cymru ddewis cyhoeddi canllawiau i'r Comisiwn yn pwysleisio'r angen i sicrhau sefydlogrwydd y system AHO yn ystod cyfnod pontio. Dylai, fodd bynnag, gael ei adael i'r Comisiwn benderfynu os yw am ddiwygio/cysoni modelau cyllido AHO, a sut a pha bryd i wneud hynny.

C28: A ddylai fod yna drefniadau trosglwyddo i sicrhau bod cyllid craidd i unrhyw sefydliad yn cael ei ddiogelu i ddechrau? Beth fyddai'n gam diogelu rhesymol?

- 9.43 Deallwyd bod C28 yn ymwneud yn bennaf â sefydliadau AB (yn wyneb y defnydd o'r geiriau 'cyllid craidd') ac wedi'i yrru gan bryderon gan rai sefydliadau ynghylch effeithiau negyddol posibl newidiadau 'interim' diweddar i fodel cyllido sefydliadau AB. Y farn oedd y gallai cyflwyno newidiadau pellach yn ystod dyddiau cynnar iawn y Comisiwn ddadsefydlogi'r system ac roedd rhanddeiliaid yn derbyn y fras yr angen i gyllid sefydliadol gael ei ddiogelu yn y tymor byr iawn. Nodwyd hefyd yn y cyd-destun hwn fod Gweinidogion wedi cyhoeddi 'datganiad bwriad' i weithio tuag at fodel cyllido tair blynedd i sefydliadau AB a chweched dosbarth ysgolion. Roedd hyn yn cael ei groesawu'n helaeth.
- 9.44 Yn y tymor canolig, fodd bynnag, y disgwyl oedd y bydd y tirwedd AB yn newid. Fel y nodwyd eisoes, lle'r Comisiwn fydd penderfynu sut i ddiwygio modelau cyllido AHO.

C29: A ddylai fod disgwyl i'r Comisiwn adolygu'n rheolaidd wybodaeth am yr ardoll brentisiaethau ac ystyried ffyrdd newydd o ddyrannu cyllid ar draws y system os nad ystyrir bod yr ardoll yn bodloni anghenion cyflogwyr yng Nghymru?

- 9.45 Roedd cyfranwyr o'r farn y dylai'r Comisiwn, wrth gwrs, ddiweddarau ei wybodaeth yn rheolaidd ynghylch yr ardoll brentisiaethau, ynghyd ag amrywiaeth o bolisiâu eraill ledled y DU ac yn rhyngwladol.
- 9.46 Nid oedd mor eglur i gyfranwyr, fodd bynnag, beth yn union a ofynnir yn ail ran C29. Os oedd yn gofyn a ddylai fod gan y Comisiwn y pŵer i symud i system dalebau debyg i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, yna roedd cyfranwyr o'r farn y dylai'r Comisiwn gymryd cyngor Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru.
- 9.47 Ni chredid, fodd bynnag, fod angen gosod darpariaeth yn y ddeddfwriaeth i'r Comisiwn fabwysiadu system dalebau nac unrhyw system arall ar gyfer cyllido prentisiaethau.

C30: A ddylai'r Comisiwn barhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio arlwy darparwyr dysgu?

- 9.48 Roedd cytundeb cyffredinol fod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rhan werthfawr wrth weithio gyda diwydiant a darparwyr i ddeall anghenion sgiliau rhanbarthol ac ystyried sut y gellid diwallu'r rhain, er nad ydynt i gyd yn gweithio mewn modd cyson. Cydnabuwyd hefyd eu bod yn cael eu cydnabod gan y llywodraeth fel cyfryngau i gynnwys cyflogwyr a chyfeirir atynt mewn amrywiaeth o ddatganiadau polisi diweddar gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn anstatudol, heb eu llywodraethu gan egwyddorion Nolan a heb fod yn debygol o fod â hirhoedledd y Comisiwn, a fydd yn cael ei sefydlu mewn statud.
- 9.49 Roedd consensws cyffredinol nad yw'n angenrheidiol gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol benodol i'r Comisiwn ymgynghori neu gydweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn benodol. Dadleuwyd mai endidau sy'n perthyn i'r dyddiau hyn yw'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a bod y tirwedd yn debygol o esblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn enwedig gyda dyfodiad Bargeinion Dinesig, Bargeinion Twf, byrddau economaidd etc. Er ei bod yn rhesymol a theg i Lywodraeth Cymru roi cyfrifoldeb ar y Comisiwn i ymgynghori â rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol a chydweithio â hwy, dylid gwneud hyn trwy ffyrdd heblaw sefydlu dyletswyddau o'r fath mewn statud.

C31: A ddylai'r Comisiwn allu dal yn ôl rhywfaint o'r gyllideb graidd ar gyfer pob sector, i'w ddyrannu ar sail yr argymhellion yn y cynlluniau sgiliau blynyddol?

- 9.50 Nodwyd ei bod wedi bod yn ofynnol i Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gymeradwyo cynlluniau cyflawni sefydliadau AB eleni, ond efallai na weithiodd y broses gystal â'r disgwyl oherwydd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod i gyllido ar sail cynlluniau cyflawni a gymeradwywyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- 9.51 Dadleuwyd bod cynlluniau sgiliau blynyddol yn tueddu i ganolbwyntio ar anghenion sgiliau ar y funud yn hytrach na chael llygad am anghenion yr economi mewn 10-20 mlynedd. Y farn hefyd oedd bod rhywfaint o'r wybodaeth sy'n sail i gynlluniau sgiliau blynyddol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol nad yw efallai yn gwbl ddbynadwy nac yn ddigon manwl i adeiladu darlun gwirioneddol o anghenion sgiliau.
- 9.52 Nid oedd fawr o awydd i gynlluniau sgiliau blynyddol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gael eu defnyddio fel sail ar gyfer dyrannu neu ddal cyllidebau craidd yn ôl. Yn hytrach, y teimlad oedd y dylai'r Comisiwn osod y sail y mae'n bwriadu ei defnyddio i ddyrannu cyllid, gyda chynlluniau sgiliau blynyddol yn cael eu cymryd fel un ffynhonnell o dystiolaeth i helpu rhoi arweiniad, ochr yn ochr â gwybodaeth o ffynonellau eraill. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i'r

Comisiwn gychwyn deialog gyda darparwyr er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth.

- 9.53 Y farn sicr oedd na ddylai pŵer i ddal cyllid craidd yn ôl ar sail argymhellion a nodir mewn cynlluniau sgililau blynyddol gael ei bennu mewn deddfwriaeth. Yn hytrach y farn oedd y gallai fod ar y Comisiwn eisiau 'blaenoriaethu' yn hytrach na 'dal yn ôl' ac y gellir cyflawni hyn trwy Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.
- 9.54 Fe wnaeth y ddadl am bwerau i ddal cyllidebau craidd yn ôl arwain at rybuddion fod angen cymryd gofal na ddylai'r ddeddfwriaeth sydd ar ddod beryglu dosbarthiad cyfrifo cenedlaethol sefydliadau AB a sefydliadau AU na'u staws fel elusennau.

C32: A yw'r cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system AHO yn ddigonol ac yn briodol?

- 9.55 Nid oedd cyfranwyr yn gwbl glir i ba gyfeiriad roedd y C hwn yn mynd ac roeddent yn ei gael yn anodd i'w ateb. Ar y naill law, dadleuwyd nad yw'r cynigion yn briodol a bod ynddynt y risg o beryglu statws ac annibyniaeth y sefydliadau y maent yn ceisio'u rheoli gan eu bod yn rhy benodol a haearnaidd. Ar y llaw arall, dywedwyd y gallai'r cynigion fod yn briodol, gan ddibynnu ar sut y cânt eu gweithredu a'r graddau y mae'r trefniadau sicrhau a gwella ansawdd a roddwyd ar waith yn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr AHO.
- 9.56 Gwnaed y pwynt fod C i Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae'n defnyddio'i dylanwad dros y Comisiwn. Yr awgrym yma yw y gall Gweinidogion ei chael yn anodd ildio awdurdod i'r Comisiwn, yn enwedig gan y byddant yn dal i fod yn atebol yn ddemocrataidd am ganlyniadau gweithredoedd y Comisiwn.

C33: Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system AHO yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

- 9.57 Fe wnaeth amryw o gyfranwyr dynnu sylw at ddiffyg gweledigaeth glir ar gyfer AHO yng Nghymru a diffyg strategaeth ar gyfer gwireddu'r weledigaeth honno. Roedd hyn yn cael ei weld fel rhywbeth anhepgor er mwyn rhoi sail resymegol dros sefydlu'r Comisiwn a sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Yn niffyg gweledigaeth a strategaeth glir, mae'r Comisiwn yn debygol o ddiweddu yn troi yn ei unfan yn ceisio dyfalu beth ddylai fod yn ei wneud. Y gred oedd y dylid ffurfio strategaeth AHO gan Weinidogion wrth ymgynghori (cydgynhyrchu) â rhanddeiliaid gan gynnwys darparwyr AHO – trwy broses debyg iawn i'r ymarferiad ymgynghori presennol. Byddai dull o'r fath yn sicrhau perchnogaeth y sector o'r strategaeth a'i gefnogaeth iddi.

- 9.58 Gan na ddaw'r Comisiwn i fodolaeth tan ar ôl tymor nesaf y Cynulliad, y farn oedd bod angen i bleidiau gwleidyddol wneud ymrwymïadau i gefnogi'r Comisiwn a darparu cyllid digonol i AHO yn eu manifestos.
- 9.59 Roedd cyfranwyr yn dadlau bod angen cyllid sefydlog er mwyn arwain at sefydliadau AHO gwydn ac effeithiol. Bydd llawer o hyn yn dibynnu ar faint o adnoddau fydd ar gael.

C99: Sut y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio i gael effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

- 9.60 Mae'r sector AB wrthi ar hyn o bryd yn datblygu 'model cyflwyno dwyieithog newydd' a fydd yn cymell sefydliadau i gyflwyno mwy o addysg ddwyieithog. Dadleuwyd y bydd angen i'r model(au) dyrannu cyllid a fabwysiedig gan y Comisiwn gynnwys rhyw fath o gymhellion sy'n cydnabod y gwaith ychwanegol sydd ynghlwm â datblygu a chyflwyno rhaglenni addysgu a dysgu dwyieithog.
- 9.61 Yn ogystal, mae angen i waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cynhwysedd ar draws y sector AHO gael ei blethu i mewn i fodelau cyllido. Dadleuau un cyfrannwr y dylai elfen o gyllideb y Comisiwn gael ei glustnodi i gefnogi gwaith y Coleg.
- 9.62 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gynllunio a datblygu gweithlu sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog. Gwnaed y pwynt fod problemau ar hyn o bryd wrth recriwtio ymarferwyr gyda sgiliau Cymraeg priodol, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol. Mae'r ddogfen ymgynghori yn aneglur ynghylch perthynas y Comisiwn â Chyngor y Gweithlu Addysg, sydd â chyfrifoldeb dros osod safonau a rheoleiddio staff yn y sector AB (yn ei ystyr ehangaf).
- 9.63 Nodwyd y bydd y Comisiwn yn destun Safonau'r Gymraeg ac y bydd gofyn iddo, felly, ystyried sut y bydd y polisiâu mae'n eu datblygu yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y Gymraeg. Awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol hefyd i'r Comisiwn adrodd ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn flynyddol.
- 9.64 Y farn oedd na fydd dim a gynigir ym mhennod 6 o'r ddogfen ymgynghorol yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, ond os penderfynir neilltuo cyllid, bydd angen ystyried yn ofalus effaith posibl gwneud hynny ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg / ddwyieithog.

Cwestiynau Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Pa gostau neu arbedion ariannol yn eich barn chi a ALLAI ddeillio o'r diwygiadau arfaethedig hyn, yn y tymor byr ac yn yr hirdymor? Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill y gellid eu teimlo ar draws gwahanol rannau o'r sector yn y tymor byr a'r hirdymor?

- 9.65 Roedd un cyfrannwr yn gweld sefydlu'r Comisiwn fel achos o 'symud y cadeiriau o gwmpas'. Dadleuwyd bod creu'r Comisiwn yn golygu'r risg o dynnu sylw oddi wrth bethau eraill ar adeg o newid sylweddol a

fydd yn ddiamheuol yn effeithio ar y system AHO. Fe wnaeth yr un cyfrannwr nodi nad oeddent erioed wedi cael profiad o ymarferiad ad-drefnu a oedd yn arbed arian.

- 9.66 Roedd cyfranwyr eraill rywfaint yn llai negyddol ynghylch y rhagolygon o sefydlu'r Comisiwn. Fodd bynnag, roeddent yn credu mai camarweiniol yw meddwl yn nhermau arbedion cost: bydd y Comisiwn yn cael ei greu gyda'r bwriad o fod iddo oes o 20 mlynedd a mwy a'i ddiben fydd ail-lunio'r system AHO a fydd yn ei dro yn arwain at well deilliannau. Yn wir, y gobaith oedd y byddai mwy yn cael ei wario ar AHO yn yr hirdymor, ond y byddai'r buddsoddiad a wnaed yn cynhyrchu gwell canlyniadau, osgoi dyblygu, sicrhau effeithlonrwydd a chynrychioli mwy o werth am arian.
- 9.67 Yn y cyd-destun hwn, nodwyd y bydd ail-lunio AHO fel y bydd mwy o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol technegol yn hytrach na chysiau academiaidd yn arwain yn anochel at gostau uwch y pen, oherwydd mai cyrsiau galwedigaethol technegol yn ddrutach i'w cyflwyno na'r mwyafrif o gyrsiau academiaidd. Er y byddai'r costau'n uwch, fodd bynnag, byddai dychweliad gweithlu â medrau technegol uwch i Gymru yn gorbwyso unrhyw gostau ychwanegol. O ran chweched dosbarth ysgolion yn benodol, bydd angen i'r Comisiwn sylweddoli graddau'r croes-gyllido rhwng chweched dosbarth ac elfennau cyn-16 o ddarparu.
- 9.68 Er nad oedd gwrthwynebiad i'r syniad o sefydlu'r Comisiwn, roedd cytundeb helaeth fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus a ellir sicrhau'r un deilliannau neu wireddu'r un weledigaeth heb fynd trwy'r broses hon, a allai fod yn gostus, o sefydlu trefn newydd. Er hyn, roedd yn cael ei dderbyn y gall fod angen sicrhau'r newid strwythurol fel arwydd o fwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio AHO a chyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd ei bod yn ymddangos bod nifer o 'cwangos' wedi egino'n ddiweddar.
- 9.69 Bydd angen ystyried costau sefydlu'r Comisiwn ee costau tarfu, costau rheoliadau TUPE, costau ad-leoli, costau recriwtio uwch-swyddogion etc. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y bydd y rhan fwyaf o staff y Comisiwn yn cael eu tynnu o'r sefydliadau presennol – yr un bobl yn gwisgo laniardau gwahanol!

Materion eraill:

- 9.70 Dadleuwyd hefyd y dylai'r Comisiwn, pan ddaw i fod, fod yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach nag i Weinidogion ac y dylai penodiad Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn gael eu cadarnhau gan y Cynulliad.
- 9.71 Gan dynnu ar brofiad yr ymgynghoriad hwn ac ymgynghoriadau eraill, dywedodd un cyfrannwr ei bod yn anodd rhagweld y sectorau AU ac AB yn gweithio i'r dangosyddion perfformiad tebyg, fel y rhagwelir gan Hazelkorn a Weingarten. Y gred oedd bod rhai rhanddeiliaid wedi eu ymwreiddio cymaint yn y gwahanol genadaethau, trefniadau

deddfwriaethol a methodolegau cyllido sy'n ymwneud â'r sectorau AU ac AB fel mai'r gorau y gellir gobeithio amdano eu bod yn gweithio tuag at dir canol cyffredin. Gall fod yn anodd hefyd i rai rhanddeiliaid dderbyn y newidiadau a gynigir yn haniaethol ac awgrymwyd bod angen i randdeiliaid o fewn y sector AHO weithio gyda'i gilydd ar brosiectau diffiniedig er mwyn ennyn eu hawydd am newidl. Gallai datblygu prentisiaethau gradd fod yn enghraifft o hyn.

- 9.72 Nodwyd mai gwael yw'r ddealltwriaeth o'r hyn a olygir gan AB yn ei gyd-destun ehangach. Y tueddiad yw cysylltu AB gyda cholegau AB yn hytrach na chydabod hefyd ei fod yn cynnwys chweched dosbarth ysgolion, DSW a DOyG yn ogystal. Mae angen pwysleisio'r gwahaniaeth hwn.
- 9.73 Neges allweddol a gododd o'r drafodaeth oedd bod angen cadw'r Bil yn gyffredinol, sef yn lefel-uchel. Bydd iddo fod yn or-fanwl yn llesteirio'r Comisiwn yn ddiweddarach.
- 9.74 Awgrymwyd y gellid, fel rhan o'r broses ymgynghori hon, llunio matrices yn nodi'r materion sydd angen eu cynnwys o fewn y Bil a'r rheini sydd wedi bod yn destun cwestiynau ymgynghori ond sy'n fwy gweithredol eu natur ac na ddylent, felly, ffurfio rhan o'r Bil. Byddai hyn yn helpu gwahanu'r grawn oddi wrth yr us.
- 9.75 Dadleuwyd y dylai Llywodraeth Cymru osgoi enwi sefydliadau eraill yn y ddeddfwriaeth. Y swyddogaethau a gyflawnir gan sefydliadau penodol sy'n bwysig ac nid y cyrff sy'n cyflawni'r swyddogaethau hynny.
- 9.76 Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y penderfynwyd pwy i'w gwahodd i'r amrywiol grwpiau gwaith.

C44: A ddylid ychwanegu, dileu neu newid rhywbeth o fewn yr egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer fframwaith ansawdd? A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion penodol ar sicrhau ansawdd chweched dosbarth ysgolion?

- 9.77 Y gred oedd y dylid ychwanegu egwyddor arall at y rhestr a gynigiwyd, sy'n mynegi'r disgwyliad y bydd unrhyw fframwaith ansawdd yn ystyried cynnydd a datblygiad yr unigolyn o ddysgu cyn-16 i mewn a thrwy ddysgu ôl-16. Yn ei hanfod, ni ddylai fframwaith ansawdd ôl-16 sefyll ar ei ben ei hun ar wahân i'r hyn sydd yn ei le ar gyfer y sector cyn-16 (Fframwaith Arolygu Cyffredin), ond cydnabod y 'genhadaeth genedlaethol' (cyn-16), rôl hunan-werthuso sefydliadau (o fewn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn) ac argymhellion yr Athro Weingarten.
- 9.78 Ystyriwyd yr hyn a oedd yn cael ei weld fel maes ar goll o'r egwyddorion a gynigir. Nid yw'n gwneud fawr o gynnwys i siarad am sicrhau ansawdd ôl-16 ar wahân i'r trefniadau cyn-16..

10. Y Comisiwn / Y Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

27^{ain} Mehefin 2018

10.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Prifysgol De Cymru
- Coleg Sir Benfro
- CCAUC
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Coleg Cambria

C4: A yw'r cyfrifoldebau y bwriedir eu dyrannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn o ran gwaith cynllunio strategol yn briodol?

- 10.2 Teimlai'r cyfranwyr yn gyffredinol fod y dyraniad cyfrifoldebau yn synhwyrol ac yn gyson â chyrff hyd-braich eraill. Os derbynnir yr egwyddor hyd-braich yn llwyr, yna teimlai'r cyfranwyr ei bod yn bwysig i'r Comisiwn newydd gael graddau gwirioneddol o annibyniaeth ac ymreolaeth. Yn gyffredinol, teimlent fod y cydbwysedd yno yn y rhaniad cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, ond ei bod yn bwysig wrth i'r cyfrifoldebau statudol gael eu cytuno nad oedd yn or-haearnaidd a'i bod yn bwysig caniatáu i'r Comisiwn newydd yr hyblygrwydd i addasu i ofynion newydd y dyfodol.
- 10.3 Mae elfen Ymchwil ac Arloesi'r Comisiwn yn bwysig, ac roedd rhywfaint o bryder fod yr ymgynghoriad technegol yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr, ond efallai fod angen cofio hefyd am ymchwil ac arloesi. O ran ymchwil ac arloesi hefyd, teimlai'r cyfranwyr y bydd gan y Comisiwn rôl wrth arwain datblygiadau polisi, er mai Llywodraeth Cymru fydd yn gosod y polisi yn y pen draw. O'r herwydd bydd angen sefydlu perthynas gref rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru – ond bydd hyn yn dibynnu ar bersonoliaethau yn hytrach na statud.
- 10.4 Pwynt cyffredinol arall a wnaed oedd bod anghysondeb rhwng y diffiniad cyfredol o AHO yn y ddogfen ymgynghorol dechnegol a'r ffordd y mynegir rôl y Comisiwn. Roedd cyfranwyr yn galw am fwy o gysondeb o ran sut byddai'r Comisiwn yn gweithredu ar draws y sector AHO er mwyn sicrhau bod ganddo awdurdod digonol.
- 10.5 Roedd y cyfranwyr yn cytuno ei bod yn anodd ymdrin â'r C hwn heb fod dim byd pendant a gweladwy yn ei le, ond bod angen adeiladu hyblygrwydd i strwythur a threfniadau llywodraethu'r Comisiwn. Nodwyd nad oedd gan Ddeddf 1992 a sefydlodd CCAUC ond 10 o baragraffau ar y mater hwn ac felly roedd perygl o ddod yn or-haearnaidd mewn ddeddfwriaeth a chreu problemau a heriau ar gyfer y dyfodol. Ni ddylai strwythur y Comisiwn gael ei gyfyngu gan ormod o

fanylder mewn statud, a dadleuwyd mai po leiaf o fanylder, y mwyaf hyblyg y bydd er mwyn ymateb i anghenion yn y dyfodol.

- 10.6 Teimlai'r cyfranwyr hefyd fod llawer o'r trafod wedi bod ynghylch y peirianwaith a sut y byddai'r Comisiwn yn cyflawni, heb weledigaeth yn ei lle, fel mae Argymhelliad 1. Hazelcorn yn awgrymu sydd ei angen. Dylai'r 'peirianwaith' ymateb i'r weledigaeth a dealltwriaeth o'r hyn y sefydlwyd y Comisiwn i'w gyflawni. Teimlai cyfranwyr fod trafod swyddogaethau a chyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu cyn hyn yn 'rhoi'r drol o flaen y ceffyl'.

C5: A yw'r cynigion ar gyfer delio â chyllid yn briodol, pe bai Llywodraeth Cymru yn atal ei chymeradwyaeth i'r cynllun strategol? Pa fesurau diogelu neu dros dro y dylid eu hystyried?

- 10.7 Unwaith eto roedd consensws cyffredinol ar y pwnc hwn gyda phawb ond un o'r cyfranwyr o'r farn os yw'r Comisiwn yn gorff hyd-braich gwirioneddol, yna mae geiriau fel 'dal yn ôl' ac 'ymyrraeth' yn awgrymu diffyg ymddiriedaeth gyffredinol o'r cychwyn a sail 'gorchymyn a rheoli' i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn. Dadleuwyd y byddai problem anferthol yn wir pe cyrhaeddid y pwynt hwn. Unwaith eto, nodwyd nad oedd unrhyw eiriad o'r fath yn Neddf 1992 ar gyfer sefydlu CCAUC.
- 10.8 Roedd cyfranwyr yn gyffredinol o'r farn nad oedd unrhyw angen i bennu hyn gan na ellid dychmygu y gallai sefyllfa o'r fath godi.
- 10.9 Teimlai un cyfrannwr nad oedd ond dwy scenario lle byddai'r math hwn o ddal cyllid yn ôl yn codi – naill ai nad oedd y cynllun strategol yn ddigon da neu nad oedd yn unol â disgwyliadau. Yn y naill achos neu'r llall, byddai'n codi'r C pam trosglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer AHO allan – hynny yw, os nad yw Llywodraeth Cymru yn ymddiried yn y Comisiwn i gyflawni, yna peidiwch â'i sefydlu yn y lle cyntaf! Yn gyffredinol, teimlad y cyfranwyr oedd os oedd y weledigaeth yn glir, yna nid oedd angen y graddau hyn o fanylder mewn statud ynghylch senarios o ddal cymeradwyaeth yn ôl.
- 10.10 Cytunai un o'r cyfranwyr â'r teimladau uchod ond daliai i deimlo bod angen i Lywodraeth Cymru roi sylw i bob sail a bod angen rhywbeth i amlinellu beth allai ddigwydd mewn sefyllfa o'r fath. O'r tri dewis a amlinellir ym mhara. 44, teimlid bod Dewis 1 (Gweinidogion Cymru'n cael y pwerau i gyllido'r sector AHO yn uniongyrchol am gyfnod cyfyngedig) â gormod o botensial i danseilio sefydliad cyfryngol. Roedd mwy o ffafriaeth i rywbeth o gwmpas Dewis 2 (cyllid craidd yn cael ei drosglwyddo i'r Comisiwn ond dal elfen o gyllid yn ôl hyd nes y cymeradwyir cynllun strategol). Fodd bynnag, teimlai rhai cyfranwyr y byddai angen gofal gan fod yr holl agwedd hon o'r ymgynghoriad yn awgrymu 'dydyn nhw ddim yn meddwl ei fod yn mynd i weithio'.

C6: Ar wahân i atal cymeradwyaeth i'r cynllun strategol, pa bwerau ymyrryd y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau ac yn bodloni telerau ei gynllun strategol?

- 10.11 Teimlai cyfranwyr y byddai gan Lywodraeth Cymru bŵer i amlinellu eu gofynion trwy eu llythyr cylch gwaith blynyddol, byddai ganddi bŵer i benodi (a newid) aelodau'r bwrdd a gallai glymu gofynion wrth gyllid. O'r herwydd, os oedd y Comisiwn i fod yn seiliedig ar drefn hyd-braich ac nid gorchymyn-a-rheoli, yna ni ddylai fod unrhyw ymyraethau ychwanegol yn ofynnol.
- 10.12 Unwaith eto, teimlad un cyfrannwr oedd er ei bod yn bwysig peidio â meicro-reoli, y gallai'n wir fod angen am bwerau mewn amgylchiadau penodol. Fe wnaeth un neu ddau o'r cyfranwyr gyfeirio at enghraifft ddiweddar Chwaraeon Cymru ac awgrymwyd y gellid dysgu o'r problemau yno er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu gweithredu. Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol fod hyn yn fater o reoli'r berthynas rhwng unigolion yn Llywodraeth Cymru ac unrhyw gorff a gyllidir yn allanol a bod y pwerau sydd eisoes ar waith (i benodi neu newid aelodau, gofynion cyllido a llythyr cylch gwaith) i gyd yn ddigonol.

C7: A fyddai cylch pum mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn neu a ddylid caniatáu elfen o hyblygrwydd?

- 10.13 Roedd cyfranwyr yn gyffredinol yn mynegi'r farn y dylai'r cynllun strategol ymdrin â'r weledigaeth a bennwyd gan y llywodraeth. Er bod blaenoriaethau llywodraeth yn newid, a bod yn rhaid newid cynlluniau strategol i ymateb i hynny, yn gyffredinol mae gweledigaeth yn rhywbeth cymharol hirdymor ac nid yw'n newid gyda phob rhaglen lywodraethu.
- 10.14 Mater arall a godwyd yw amseru. Er ei bod yn ymddangos yn synhwyrol ar bapur fod cynllun strategol yn cael ei gynhyrchu ar ôl i raglen lywodraethu gael ei chytuno bob pum mlynedd, mae'r realiti yn eithaf gwahanol. Roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys:
- Efallai na fyddai'r Comisiwn yn cael ei sefydlu ar y cychwyn yn unol â newid mewn llywodraeth ac felly byddai'r cynllun strategol pum mlynedd bob amser yn anghydamserol.
 - Er bod cylchoedd etholiadau yn bum mlynedd yng Nghymru ar hyn o bryd, gallant newid – er enghraifft roedd cylch 6 blynedd fel na fyddai'n gwrthdaro â'r etholiad cyffredinol.
 - Mae cysoni cynllunio strategol â chylchoedd etholiadau'r llywodraeth ynddo'i hun yn mynd yn groes i'r egwyddor hyd-braich.
 - Byddai gor-bennu ar y mater hwn yn llesteirio gallu'r Comisiwn i addasu a newid fel bo'r angen.

- Ni phennir tymhorau swyddi aelodau, sydd felly'n awgrymu hyblygrwydd i'r Comisiwn benderfynu, a dylai'r un peth fod yn wir am gylchoedd cynllunio strategol.

10.15 I gloi, roedd y mwyafrif o gyfranwyr o'r farn fod angen i gynlluniau strategol fod o leiaf dair blynedd yn gyffredinol ond na ddylent fod yn rhy hirdymor chwaith. Dylai'r weledigaeth lefel uchel gan y llywodraeth fod ar lefel weddol uchel a heb fod disgwyl iddi newid yn ddramatig dros amser. Ar sail ymarferol, cytunwyd y byddai'n anodd iawn i'r Comisiwn weithio pe bai hyd y cynlluniau strategol yn cael eu hysgrifennu mewn statud. Roedd pawb o'r cyfranwyr felly'n cytuno na ddylai gael ei bennu'n derfynol ac y dylai fod hyblygrwydd i'r Comisiwn benderfynu ar hyd y cynlluniau strategol.

C1: A yw'r fframwaith llywodraethiant arfaethedig yn briodol o ystyried cylch gwaith y Comisiwn newydd?

Aelodaeth

- 10.16 Yn wyneb ehangder y sector AHO, teimlai cyfranwyr fod fframwaith llywodraethu'r Comisiwn yn gorfod ymestyn ymhell. O ran i nifer o aelodau ar y bwrdd llywodraethu, roedd cyfranwyr yn cytuno'n fras mai tua 12-15 o aelodau fyddai'r nifer delfrydol.
- 10.17 Y teimlad oedd y byddai bwrdd o 9 o aelodau yn rhy ychydig o gofio cyfansoddiad y sector a'r angen i ymdrin â holl wahanol is-sectorau AHO. Ar y llaw arall teimlai'r cyfranwyr na ddylai'r bwrdd fod yn rhy fawr chwaith ac y byddai'n dod yn 'siop siarad' be bai'n fwy na 15.
- 10.18 Awgrymwyd hefyd y byddai angen i aelodau fod yn annibynnol o'r darparwyr dysgu a gyllidir.
- 10.19 Er bod yr holl gyfranwyr yn cytuno gyda'r rhestr o gynrychiolwyr y byddai eu hangen ar y bwrdd roedd teimlad y dylai cyfansoddiad y bwrdd, yn ogystal ag ystyried profiad yr unigolion o'u sectorau, sicrhau hefyd fod y matrices sgiliau hefyd yn gyflawn. Er enghraifft, o fewn aelodaeth y bwrdd, byddai cyfrifydd, cyfreithiwr, rhywun â phrofiad adnoddau dynol hefyd yn ddefnyddiol. Yn ei hanfod, roedd ar y bwrdd angen y gymysgedd iawn o arbenigedd technegol a phrofiad o'r sectorau.
- 10.20 Roedd ar un neu ddau o'r cyfranwyr hefyd eisiau sicrhau bod aelodau'r Bwrdd, os yw'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn pennu gweledigaeth Cymru ar gyfer AHO, yn deall agenda Cymru gan y gall hyn weithiau fod ar goll. Er enghraifft, mae gan fwrdd CCAUC nifer uchel o is-gangellorion o Loegr. Er hyn, gall fod yn anodd gall fod yn anodd cael hyd i aelodau annibynnol o'r bwrdd sy'n deall y cyd-destun heb fod ag unrhyw gysylltiadau â'r darparwyr dysgu perthnasol. Nid yw cael y cydbwysedd rhwng sensitifrwydd at yr agenda Cymreig a chynnal bwrdd gwirioneddol annibynnol yn hawdd! Fodd bynnag, bydd angen i'r Comisiwn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn bobl sydd â gwybodaeth ynghylch sut mae Cymru'n wahanol, yn enwedig wrth i fwy a mwy o amrywiaeth ddatblygu.

- 10.21 Er bod angen cael y sgiliau proffesiynol hyn a dealltwriaeth o gyddestun Cymru, unwaith eto roedd y cyfranwyr yn awyddus i gadw materion yn hyblyg ac nid oeddent yn meddwl y dylai'r statud orbennu ar y materion hyn.

Llais y Dysgwr

- 10.22 Cynhaliwyd trafodaeth arbennig ar yr awgrym presennol o 2 laisdysgwr ar y bwrdd. Teimlai'r cyfranwyr ei bod yn bwysig y gallai llais y dysgwr gyfrannu. Fodd bynnag, byddai'r Comisiwn yn sefydliad mawr a chymhleth a chodwyd pryderon nad oedd neilltuo dau o leoedd ar lefel y Bwrdd i ddysgwyr yn ddefnyddiol o anghenraid ar gyfer sicrhau llywodraethu effeithiol (ac amrywiaeth aelodaeth ar draws AHO) nac o anghenraid y lle iawn ar gyfer llais y dysgwr.
- 10.23 Roedd cyfranwyr yn deall ei bod yn wleidyddol bwysig i lais y dysgwr fod yn rhan o strwythur y Comisiwn ond ei bod yn yn profi'n anodd ar lefel sefydliad AU neu AB i sicrhau mewnbwn gan ddysgwyr ar lefel Bwrdd (yn enwedig gan fod dysgwyr yn tueddu i eistedd ar y Bwrdd am flwyddyn ar y tro). Roedd y cyfranwyr yn deall ei bod yn anodd cyflawni'r agwedd hon, ac yn awgrymu y gallai cael presenoldeb dysgwyr mewn cyfarfodydd Bwrdd fel sylwedyddion fod yn un ateb.
- 10.24 Cafwyd trafodaeth ynghylch UCM (fel y sefydliad mwyaf amlwg i ddarparu cynrychiolydd llais y dysgwr, er nad oedd yn gweithredu drwy holl sector AHO) ac awgrymodd y cyfranwyr na fyddai UCM ei hun yn dymuno bod yn aelod o'r bwrdd gan na fyddai efallai'n dymuno bod yn gysylltiedig â rhai o benderfyniadau Bwrdd y Comisiwn. Gallai fod yn fwy cysurus gyda rôl sylwedydd lle gallai ddylanwadu ond dal i gadw'i annibyniaeth.
- 10.25 Awgrymwyd y gallai'r sector DSW gael anhawster wrth sicrhau cynrychiolaeth trwy sefydliadau fel UCM a bod cael 2 o gynrychiolwyr dysgwyr ar ran yr amrywiaeth helaeth o ddysgwyr yn heriol, gyda rhai rhannau o'r sector mewn gwell sefyllfa nag eraill i gyfrannu.
- 10.26 Roedd consensws bras y dylai llais y dysgwr fod yn sylwedydd ond nid yn aelodau o'r Comisiwn. Awgrymwyd syniad arall hefyd ar gyfer llais y dysgwr: Gan nad oedd 2 lais dysgwr yn ddigon i gynrychioli'r sector, byddai fforwm Llais y Dysgwr yn well mecanwaith yn hytrach nag aelodaeth o'r Bwrdd.
- 10.27 Cytunwyd yn gyffredinol y gallai'r Comisiwn ddymuno rhoi cynnig ar amryw o wahanol fecanweithiau a cheisio gwahanol ffyrdd o sicrhau llais y dysgwr, ac y dylid felly adael i'r Comisiwn benderfynu (unwaith eto gan gadw hyn allan o status er mwyn cadw hyblygrwydd dewisiadau).

Pwyllgorau Statudol

- 10.28 Roedd consensws o amgylch y bwrdd y dylai fod cyn lleied â phosibl o bwyllgorau statudol. Dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn statudol ac o

bosibl y Pwyllgor Tâl. Roedd un neu ddau o'r cyfranwyr yn teimlo hefyd y dylai pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn statudol.

- 10.29 Gyda'r holl bwyllgor statudol eraill a restrisr, teimlai'r cyfranwyr yn gryf y dylid gadael i'r Comisiwn benderfynu.
- 10.30 Gwnaed pwynt mwy cyffredinol ynghylch y gwahaniaethau sylfaenol rhwng AB, AU, DSW, Dosbarthiadau Chwech etc ac y gallai fod yn werth ystyried y gallai fod yn well rhannu gwaith y Comisiwn yn ôl yr arbenigeddau hyn yn hytrach nag yn ôl swyddogaethau. Er enghraifft, byddai angen i Bwyllgor Ansawdd ymdrin â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn, sy'n gofyn am lawer yn nhermau arbenigedd!
- 10.31 Er y gallai cyfranwyr weld pam fod nifer o'r pwyllgorau statudol a restrir wedi'u cynnwys – ac yn teimlo y byddai angen pwyllgorau neu strwythurau eraill i ymdrin â'r swyddogaethau, mae perygl y byddai cael gormod mewn statud yn gwneud y Comisiwn yn or-fiwrocrataidd (sef y byddai'n gorfod ychwanegu pwyllgorau at y rhestr o rai statudol yn hytrach nag addasu pwyllgorau cyfredol yn ôl y gofyn). Un enghraifft a roddwyd oedd pwyllgor Profiad Myfyrwyr CCAUC sydd wedi newid 3-4 gwaith dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ran ei union gylch gwaith. Roedd angen i bwyllgorau fel agweddau eraill o'r Comisiwn fod yn addas ar gyfer newidiadau yn y dyfodol – a byddai cadw pethau'n hyblyg a heb or-bennu yn helpu yn hyn. Roedd y cyfranwyr yn credu'n sylfaenol y dylai Bwrdd y Comisiwn benderfynu strwythur pwyllgorau drostynt eu hunain.
- 10.32 Pwynt arall a wnaed, un roedd yr holl gyfranwyr yn cytuno ag ef, oedd ei bod yn bwysig rhoi i aelodau'r Bwrdd y pŵer i benderfynu ar strwythurau pwyllgorau i osgoi aelodau'r Bwrdd rhag bod â rhan rhy weithredol yn y gwaith o redeg y Comisiwn o ddydd i ddydd. Cytunai'r holl gyfranwyr ei bod yn bwysig fod llinell glir rhwng rôl y Prif Weithredwr a'r tîm gweithredu, a'r Cadeirydd ac aelodau'r bwrdd. Mae'n hanfodol y gellir dal y Prif Weithredwr a'r tîm SME yn atebol.

Penodi Prif Weithredwr

- 10.33 Pwynt arall a wnaed gan un o'r cyfranwyr oedd bod y ddogfen ymgynghorol dechnegol yn datgan ar hyn o bryd y dylai Llywodraeth Cymru benodi'r Prif Weithredwr. Er y gallai hyn fod yn wir am y penodiad cychwynnol, cyfrifoldeb y Comisiwn ddylai fod i benodi rôl y Prif Weithredwr wedyn er mwyn atebolrwydd i'r cyflogwr. Byddai penodiad y prif weithredwr gan y Comisiwn yn mynd wedyn at Weinidogion am gymeradwyaeth. Felly gall y trefniadau pontio fod yn wahanol i'r broses yn yr hirdymor.
- 10.34 Pwynt technegol arall a wnaed oedd y dylid cyfeirio at rôl Ysgrifennydd y Cwmni fel Ysgrifennydd y Bwrdd.

C3: A ydych chi'n cytuno y dylid gwneud Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru yn rhan o'r Comisiwn i gryfhau cysylltiadau rhwng y Comisiwn a chyflogwyr?

- 10.35 Roedd y cyfranwyr yn amau'r angen i fod mor benodol ynghylch Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru, gan nad oes gan fyrrdai o'r fath endid cyfreithiol ac felly gallent newid eu teitlau a'u cylchoedd gorchwyl yn y dyfodol. Cytunai'r cyfranwyr nad oedd yn gwneud synnwyr i 'gaethiwo' y Comisiwn trwy enwi'r cyrff hyn yn benodol yn y bil. Nid oeddent chwaith yn gweld angen i bennu pwyllgor statudol ar gyfer y maes hwn o gyfrifoldeb, gan ddewis cadw hyblygrwydd yn lle hynny.

C2: A ydych chi'n meddwl y dylai fod yna bwyllgor statudol o fewn fframwaith llywodraethiant statudol y Comisiwn i gefnogi'r Gymraeg a'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

- 10.36 Er bod y drafodaeth ynghylch cyfyngu ar bwyllgorau statudol yn berthnasol i'r C hwn hefyd, gyda chytundeb bras ymysg cyfranwyr, roeddent yn deall hefyd pam fod hwn wedi cael ei awgrymu fel pwyllgor statudol – i sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn statws ddigonol.
- 10.37 Roedd sicrhau rhyngweithio digonol gydag agenda'r Gymraeg a'r agenda darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried fel mater pwysig, a theimlai'r cyfranwyr yn enwedig fod angen mwy o wybodaeth ar y berthynas rhwng Comisiwn newydd y Gymraeg ac AHO – gyda gofyn am ddeialog barhaus gan fod Bil Comisiwn y Gymraeg yn mynd trwy'r broses ddeddfwriaethol.
- 10.38 Roedd y cyfranwyr yn unfrydol yn eu barn fod angen rhyw fath o drefniadau diogelu neu strwythurau er mwyn i AHO ryngweithio'n llawn â'r agenda cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd hyn o angenrheidrwydd yn golygu pwyllgor statudol – byddai ffurf neu strwythur arall yn gweithio – ac unwaith eto nid oedd angen i hyn cael ei ddisgrifio'n benodol ar y cam hwn.
- 10.39 Teimlai'r holl gyfranwyr fod angen i AHO ymwneud yn llawn ag agenda'r Gymraeg ac roeddent yn gobeithio na fyddai arnynt angen pwyllgor statudol fel rhywbeth wrth gefn i sicrhau hyn.

Y Gymraeg:

Ym mha ffordd y dylai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- **cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**
- **peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

- 10.40 Ar hyn o bryd, teimlai un cyfrannwr fod diffyg eglurder ynghylch y berthynas rhwng y Comisiwn, Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chomisiwn y Gymraeg – gan gynnwys diffyg eglurder a fyddai cyllid ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn dod drwy'r Comisiwn neu beidio. Nododd cyfrannwyr arall sut fod gan ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg gysylltiadau â dwy agenda – addysg a'r Gymraeg.
- 10.41 Y teimlad cyffredinol oedd bod gan AHO gyfle aruthrol i wneud gwahaniaeth gyda darpariaeth Gymraeg – yn enwedig gan fod gan lawer o'r is-sectorau fel chweched dosbarth, AB, DSW yn darparu'n bennaf ar gyfer myfyrwyr a dygwyr sy'n byw yng Nghymru, yn wahanol i AU. Teimlai amryw o gyfrannwyr fod sawl cyfle o dan y Comisiwn newydd:
- datblygu darpariaeth gyfrwng Cymraeg
 - cryfhau'r nifer o ddysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg ar ôl addysg orfodol
 - annog dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.
- 10.42 Fe wnaeth un cyfrannwr grybwyll y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – a'u cyfraniad pwysig mewn defnyddio a normaleiddio'r iaith o fewn yr agenda AHO hefyd.
- 10.43 I gloi, roedd rhywfaint o bryder ynghylch y diffyg gwybodaeth ddigonol ar y strwythurau a fyddai yn eu lle i gydnabod yr agenda addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Roedd cyfrannwyr o'r farn yr hoffent yn ddelfrydol weld cyfrifoldebau'r Comisiwn dros y Gymraeg yn cael eu hesbonio'n gliriach nag y maent ar hyn o bryd yn y ddogfen ymgynghorol dechnegol gan ei bod yn anodd gwneud unrhyw sylwadau manwl ar hyn o bryd.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Pa gostau neu arbedion ariannol fydd yn deillio o'r diwygiadau arfaethedig yn y tymor byr a'r tymor hir?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol ellid eu teimlo ar draws gwahanol rannau o'r sector yn y tymor byr a'r tymor hir?

- 10.44 Roedd cyfrannwyr yn derbyn y byddai costau pontio sylweddol ynglŷn â sefydlu'r Comisiwn newydd oherwydd bod cymaint o gymhlethdodau technegol ynghlwm â'r broses. Fodd bynnag, yn dilyn y pontio, roedd y cyfrannwyr yn gyffredinol obeithiol y byddai'r Comisiwn newydd yn fwy cost effeithiol.

- 10.45 Teimlai un cyfrannwr fod potensial i'r sefydliad drefnu ei hun yn fertigol ac wrth wneud hynny gydgrynhoi rhywfaint o'r 'peirianwaith polisi' sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws amryw o wahanol sefydliadau. Unwaith eto, y polisi o sicrhau hyblygrwydd i drefniadau llywodraethu oedd y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cost-effeithiolrwydd heb orfod cael strwythurau neu bwyllgorau dianghenraid a chostus yn eu lle.
- 10.46 O safbwynt y Bwrdd a strwythur yr is-bwyllgorau, y farn oedd mai po uchaf oedd y lefel, y gorau a fyddai o ran Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Roedd cyfranwyr yn bryderus y gall fod tueddiad cyffredinol mewn deddfwriaeth Gymreig i or-bennu ac roeddent yn obeithiol am ffordd synhwyrol o weithredu yn yr achos hwn.

Sylwadau i gloi a barnau ychwanegol

- 10.47 Mae'r neges allweddol a gafodd ei chyfleu gan gyfranwyr yn y grŵp ffocws hwn yn ymwneud â'r pwysigrwydd i'r Comisiwn newydd allu cynnal ymreolaeth hyd-braich oddi wrth Lywodraeth Cymru. Teimlai cyfranwyr ei bod yn bwysig y dylai'r fframwaith deddfwriaethol fod yn pennu 'beth' yn hytrach na 'sut'. Mewn geiriau eraill, ymatal rhag gormod o fanylder ar strwythur, a chanolbwyntio yn lle hynny ar y cyfrifoldebau y dylid dal y Comisiwn yn atebol amdanynt yn ei waith.
- 10.48 Roedd hon yn neges allweddol ar nifer o'r materion penodol a drafodwyd – llais y dysgwr, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru / Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru darpariaeth Gymraeg – cytunwyd bod angen cyd-drafod, ond nid oedd angen manylder ynghylch sut oedd sicrhau hyn.
- 10.49 Roedd ar gyfranwyr eisiau sicrhau y gallai'r fframwaith deddfwriaethol fod yn ddigon hyblyg i allu ei addasu yn y dyfodol heb ddim angen am is-ddeddfwriaeth maes o law. Yn yr ystyr hon, dylid osgoi unrhyw gyfeiriad at gyrff penodol mewn cyd-destun statudol.
- 10.50 Codwyd un pwynt arall yn ystod cwrs y drafodaeth, a hwnnw'n ymwneud ag enw arfaethedig y Comisiwn. Roedd pryder y gallai'r acronym presennol greu cyhoeddusrwydd drwg (ynghylch 'tyrcwn' a Chymru!). Yn lle hynny, awgrymwyd y dylid newid enw'r Comisiwn i'r Comisiwn Addysg ac Ymchwil.
- 10.51 Mae'r term 'Trydyddol' yn un anodd, ac mae'n sensitif yn wleidyddol, felly efallai y byddai'n well peidio â chael y gwir yn nheiti y sefydliad.
- 10.52 Awgrymwyd hefyd na ddylai'r enw newydd gael y gair Cymru ynddo – fel datganiad mwy hyderus.

11. Undebau a Cyngor Gweithlu Addysg Cymru

27^{ain} Mehefin 2018

11.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- NASUWT
- NEU
- NAHT
- NEU
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- UNISON TBC
- UCAC
- Undeb Prifysgolion a Cholegau
- Voice the Union
- NEU

Pwyntiau Allweddol

Chweched Dosbarth Ysgolion

- 11.2 Mynegwyd pryder ynghylch honiad y ddogfen ymgynghori fod y mwyafrif o ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn yn dweud y dylid trin chweched dobarth ysgolion fel rhan AHO [para 198], lle'r awgrymir mewn rhan arall o'r ddogfen fod mwy o amrywiaeth o ymatebion [sic]. Yn ogystal, nid y teimlad ymysg holl aelodau undebau oedd y dylid cynnwys dosbarthiadau chwech, a gofynnodd un ymatebydd a oedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn wedi cael eu hadolygu a'u hystyried, ac os felly, sut.
- 11.3 Roedd cryn feirniadaeth phryder yngylch y diffyg ymgynghori digonol gydag ysgolion ar y cynigion AHO, ac nad grwpiau fel y rhain oedd y fforwm delfrydol ar gyfer cynnwys ysgolion. Gallai cynhadleddau a oedd yn cael eu cynnal prun bynnag fod yn well syniad. Roedd angen hefyd i ddisgyblion a rhieni fod yn ymwneud mwy yn yr ymgynghoriad.
- 11.4 Awgrymwyd bod risg o chweched dosbarth ysgolion yn cael eu 'boddi' gan bopeth arall a gynigir fel rhan o gylch gwaith y Comisiwn. Mae hyn yn bryder gwirioneddol o gofio'r rôl bwysig mae Dosbarthiadau Chwech yn ei chwarae wrth gyflwyno AHO – yn benodol 70% o leoedd Safon Uwch.
- 11.5 Teimlai un cyfranogwr yr ymddangosau fod ysgolion wedi cael eu cynnwys 'fel ôl-ystyriaeth', nad oedd yn llenwi rhanddeiliaid ysgolion gyda hyder yng ngallu'r Comisiwn i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ysgolion.
- 11.6 Yn ogystal, awgrymwyd bod y drafodaeth yn y ddogfen ymgynghori ynghylch a ddylai statws elusennol fod yn ofynnol neu beidio i ddarparwyr allu derbyn cyllid cyhoeddus yn ymddangos yn 'wrthun' mewn perthynas ag ysgolion nad ydynt yn gallu cael statws elusennol.

- 11.7 Adroddwyd bod aelodau undebau wedi mynegi pryder am y newidiadau arfaethedig a'r risgiau ynglŷn â symudiad (canfyddedig) i system drydyddol. Awgrymwyd hefyd y gallai hyn arwain at ymestyn graddol a llechwraidd, gydag elfennau o'r cwricwlwm 14-16 hefyd yn cael eu 'llyncu' gan y sector trydyddol. Mae'r prif bryderon ynghylch lleihad mewn ansawdd gwasanaeth a cholli swyddi. Canlyniad posibl arall yw bod ysgolion yn cael eu symud allan yn gyfan gwbl o awdurdodaeth awdurdodau lleol – cafodd adroddiad Webb ei grybwyll fel tystiolaeth o'r honiad hwn.
- 11.8 Nodwyd hefyd ei bod yn gofyn llawer o ddosbarthiadau chwech i reoli'r diwygiadau hyn ochr yn ochr â'r holl newidiadau eraill a weithredir o fewn ysgolion.

Y broses ymgynghori

- 11.9 Roedd galw sylweddol am ymestyn y cyfnod ymgynghori. Mae undebau wedi canfod nad yw ysgolion ond prin yn gwybod am y broses a lle maent yn gwybod, nid oes ganddynt yr amser i ddarllen y ddogfen hirfaith. Yn ogystal, er mwyn deall o ddogfen ymgynghori yn llawn, mae'n angenrheidiol mynd yn ôl i ddarllen dogfennau eraill, megis adroddiadau Reid a Donaldson. Dywedwyd nad yw 'popeth ynghylch ymwneud ag ysgolion wedi bod yn iawn'. Dywedodd un cyfranogwr fod hyd yn oed y teitl [Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus] yn gamarweiniol.
- 11.10 Mynegwyd pryder penodol ynghylch rhai o'r sylwadau a wnaed gan Colegau Cymru a'r sector AB ynglŷn â'r diwygiadau [y tu allan i'r grwpiau ffocws], a beth fydd hyn yn ei olygu i ysgolion o safbwynt AB yn drechaf. Dadleuwyd yn erbyn y pwynt hwn gan gyfranogwr arall a ddywedodd fod pryderon hefyd o fewn y sector AB y gallai dosbarthiadau chwech, os deuant i gylch gwaith y Comisiwn, 'llyncu' y sector AB. Mae hyn yn codi o ganfyddiad fod AB wedi cael ei hepgor o brosesau eraill, megis adolygiad Donaldson. I ysgolion ac AB, mae'r ffaith fod y broses ymgynghori'n cael ei rhedeg gan yr is-adran AU o fewn Llywodraeth Cymru yn ychwanegu at yr amheuan a grybwyllwyd ynghylch yr ymrwymiad i'r sectorau gwahanol iawn hyn a'r dealltwriaeth ohonynt.
- 11.11 Mae ymwneud annigonol hefyd wedi bod gyda'r gweithlu ar y diwygiadau arfaethedig – mae'r hyn a wnaed wedi bod gyda chynrychiolwyr cyflogwyr y sectorau perthnasol, yn hytrach na'r gweithwyr cyflogedig.
- 11.12 Fel y nodwyd eisoes, mae'r ddogfen ymgynghori yn hirfaith ac mae llawer o'r cwestiynau nad ydynt yn berthnasol i rai o'r cyfranogwyr. Awgrymwyd bod perygl, os nad yw rhanddeiliaid yn dilyn y fformat o ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, y bydd eu hadborth yn cael ei golli yn y broses.
- 11.13 Yn ogystal, daeth yr ymgynghoriad hwn yn gyflym iawn ar ôl y Papur Gwyn, ac felly roedd cyfranogwyr yn gofyn faint o sylw a roddwyd i'w

sylwadau y llynedd. Awgrymwyd bod llawer o gwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad nad ydynt wedi cael eu hateb yn y ddogfen hon.

- 11.14 Er bod cwmpas yr ymgynghoriad yn eang, nid yw'r ddogfen ei hun mor fanwl â hynny, ac mae'n anodd gweld sut byddai'r Comisiwn yn gweithredu'n ymarferol a beth fyddai hyn yn ei olygu i'r gweithlu a rhanddeiliaid eraill. Er bod cydnabyddiaeth o'r angen i wneud y sector AHO yn symlach ac yn fwy ystyrlon, mae diffyg manylder ynghylch sut y gellid gwneud hyn ac, yn fwy penodol, sut y bydd y Comisiwn yn dyrannu cyllid.
- 11.15 Cafodd y ddogfen ymgynghori ei beirniadu hefyd am fethu â chyfleu'r 'weledigaeth' a nodwyd fel rhywbeth a oedd yn ofynnol i'r sector AHO o fewn adroddiad Hazelkorn.

Llywodraethu / atebolrwydd y Comisiwn arfaethedig

- 11.16 Nodwyd bod cefnogaeth i'r syniad o'r Comisiwn yn cael perthynas gydag awdurdodau lleol, ond roedd y cynnig i'r Comisiwn gael y grym i gau dosbarthiadau chwech presennol yn achos pryder sylweddol.
- 11.17 Nodwyd ei bod yn llawer gwell i awdurdodau lleol benderfynu ar leoliad dosbarthiadau chwech. Mae cymryd yr awdurdod i benderfynu oddi arnynt yn golygu bod diffyg atebolrwydd i gymunedau lleol dros gyfleoedd am ddysgu ôl-16. Gofynnodd un cyfranogwr i bwy y bydd y Comisiwn yn atebol, os oes ganddynt yr holl rym hwn.

Strwythur/aelodaeth y Comisiwn arfaethedig

- 11.18 Cafodd yr adnoddau (cyfyngedig) arfaethedig ar gyfer y Comisiwn hefyd eu mynegi fel pryder. Hyd yn oed gyda 15 o aelodau (gyda dau o'r rhain yn gorfod bod yn ddysgwyr), y farn oedd bod graddfa'r hyn roedd disgwyl iddynt ei wneud yn afrealistig, yn enwedig wrth ystyried yr holl bwyllgor – roedd y cyfranogwyr yn ansicr a fyddai'r pwyllgorau wedi'u ffurfio o aelodau craidd y Comisiwn neu bobl ychwanegol. Y pryder oedd y byddai'r briff gormodol a gynigir i'r Comisiwn yn arwain at flaenoriaethau rhai pethau penodol, gyda phethau eraill yn cael eu gadael ar ôl.
- 11.19 O ran aelodaeth, awgrymwyd bod angen cynnwys aelod o undeb, i gynrychioli llafur wedi'i drefnu. Yn ogystal, mae angen cynrychioliaeth o chweched dosbarth ysgolion, AB ac AU.
- 11.20 Roedd teimlad hefyd bod rhai o swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn nad ydynt yn cydweddu â chyllid a sicrhau ansawdd – a oedd yn cael ei ddehongli fel y prif sail resymegol dros y Comisiwn – er enghraifft, ymchwil a chyllid myfyrwyr.
- 11.21 Roedd cyfranogwyr yn bryderus hefyd y byddai aelodau'r Comisiwn yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Dewis a oedd yn cael ei ffafrio'n fwy fyddai cael cynrychiolwyr neu enwebeion etholedig. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ar gyfer y Comisiwn.

- 11.22 Roedd pryder hefyd ynghylch aelodaeth wedi eu ffurfio o'r 'un hen bobl', yn wyneb y risg eu bod o ganlyniad yn colli cysylltiad â'r sector, tra bod pobl eraill, a allai fod yn addas, yn ymddieithrio o'r Comisiwn.
- 11.23 Mae angen trosiant iach a phroses gadarn a thryloyw ar gyfer newid aelodaeth y Comisiwn.

Anghysondebau mewn mesurau atebolrwydd / dyletswyddau

- 11.24 Roedd rhywfaint o drafodaeth ynghylch cynnwys Cyngor y Gweithlu Addysgu yn y grŵp hwn – nid oedd yn cael ei weld fel rhywbeth negyddol – fodd bynnag, nodwyd ei fod yn codi'r C o ddyletswydd 'anghytbwys' yn cael ei gosod ar rai sefydliadau: yn achos Cyngor y Gweithlu Addysg, nid ydynt yn gyfrifol am gofrestru'r gweithlu AU. Yn yr un modd, mae Estyn yn arolygu ysgolion ond nid yw'n eglur a fyddant yn arolygu AB yn y dyfodol. Honnwyd bod 'llawer' o enghreifftiau o fesurau atebolrwydd a chyfrifoldebau 'anghytbwys', ac nad yw'r Comisiwn arfaethedig yn ymdrin â hyn.

Dyblygu a chystadleuaeth mewn darpariaeth AHO

- 11.25 Roedd cyfranogwyr yn galw am eglurder ynghylch diffiniad 'dyblygu' a 'chystadleuaeth' yn y cyd-destun hwn. Gwnaed y pwynt y gallai galluogi dysgwyr i gael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd da sy'n agos adref gael ei beryglu gan bwyslais ar leihau dyblygu. Wrth ddiffinio dyblygu bydd angen rhoi sylw i ardaloedd gwledig a'r effaith a gaiff ar deithio i ddysgu. Gwnaed cyfeiriad at adroddiad gan Sefydliad Bevan ar deithio i ddysgu.
- 11.26 Nodwyd nad yw cael 'economi gymysg' wirioneddol o ddarpariaeth yn wir ym mhob ardal ar hyn o bryd – er enghraifft Blaenau Gwent a Merthyr. Mae'n well gan lawer o ddysgwyr leoliad chweched dosbarth ond nid ydynt bob amser yn gallu ei gael.
- 11.27 Gwnaed y pwynt fod AU yn sector wedi'i farchnadeiddio ac felly trwy ddiffiniad fe fydd dyblygu. Nodwyd hefyd fod gwrthdaro rhwng yr angen am ymreolaeth (fel y gelwir amdano gan AU ac academyddion), ac egwyddor cydweithio a chydweithredu i osgoi dyblygu.
- 11.28 Roedd rhywfaint o gefnogaeth i broses gynllunio fwy effeithiol ar gyfer pa ddarpariaeth sydd ar cael a chydabyddiaeth ei bod yn bwysig galluogi dysgwyr i wneud y cyrsiau mae arnynt eisiau eu gwneud ar un llaw, ond ei bod yn allweddol hefyd fod yr hyn a gynigir yn berthnasol i'r hyn sydd ar gael neu mae galw amdano ar y lefel nesaf – sef, bod angen am gynllunio strategol yn y ddarpariaeth sydd ar gael.

Cytundebau deilliannau

- 11.29 Risg canfyddedig cytundebau deilliannau yw y gall cyllid yn y dyfodol fod yn ddibynnol ar ddeilliannau, a bod hyn yn creu risg y cymerir cyllid ymaith os yw darparwyr yn gwneud yn wael. Byddai hyn wedyn yn anfanteisio dysgwyr yn y dyfodol.
- 11.30 Awgrymwyd bod cytundebau deilliannau 'yn colli pwynt addysg' a'i bod yn bwysig fod y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn ailystyried pam a sut y maent yn mesur deilliannau ac yn diffinio 'ansawdd'. Mae angen ystyried gwerth addysg ynddo'i hun ac ni ddylai dyrannu cyllid gael ei yrru'n gyfan gwbl gan 'syniad rhywun o fylchau mewn sgiliau'. Mae'n bwysig cynnig amrywiaeth o gyrsiau er mwyn cynnwys cymaint o ddysgwyr ag sy'n bosibl [roedd hyn yn gwrth-ddweud y pwynt a wnaed yn gynharach am yr angen i ddarpariaeth gael ei gynllunio a'i seilio ar asesiad strategol o angen].
- 11.31 Roedd teimlad fod y term 'cytundeb deilliannau' yn estron iawn (fel llawer o'r eirfa yn y ddogfen) a chafodd ei gyffelybu i 'fesurau atebolrwydd'. Fe'i disgrifiwyd fel 'ruthro'n fyrbwyll' i'r hyn mae ar Lywodraeth Cymru ac eraill eisiau ei wneud o safbwynt atebolrwydd i ysgolion.
- 11.32 Awgrymwyd bod perygl o ddrysu rhwng 'deilliannau' ac 'allbynnau'. Rhoddwyd yr enghraifft o ddysgwyr sy'n mynd allan ar brofiad gwaith ac sy'n diweddu trwy adael y rhaglen o ddysgu cyn cwblhau oherwydd eu bod wedi cael cynnig swydd – er bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol i'r dysgwr, byddai'n cael ei weld fel canlyniad negyddol i'r darparwr.
- 11.33 Yn yr un modd, mae angen i'r Comisiwn ystyried sut y byddai'n ymdrin â dysgwyr sy'n symud rhwng sefydliadau a sectorau, sydd â modelau cyllido gwahanol iawn ar hyn o bryd. Gall hyn arwain at effaith negyddol ar y sefydliad yn colli dysgwr. Mae sefydlu'r Comisiwn yn gyfle da i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- 11.34 Fe wnaeth un cyfranogwr nodi y credir bod yr is-adran ysgolion o fewn Llywodraeth Cymru yn deall yn well sut i fesur llwyddiant yn y sector ysgolion, a bod adroddiad Donaldson yn deall y cysyniad o fesur gwerth darpariaeth – ond nad yw hyn yn wir yn y ddogfen ymgymghorol hon.

Gweithlu

- 11.35 Gwnaed y sylw fod yr adran ar y gweithlu yn y ddogfen yn 'teimlo fel atodiad' ac er ei bod yn ddealladwy y dylai'r Comisiwn ganolbwyntio ar ddysgwyr ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'n bwysig cael cefnogaeth y gweithlu er mwyn gweithredu'r diwygiadau. Mae risg gwirioneddol yn yr angen i gadw staff.
- 11.36 Yn ogystal, mae gan Gyngor y Gweithlu Addysgu eisoedd gylch gwaith a nodir mewn deddfwriaeth ar gyfer safonau addysgu yn y sectorau AB a DSW, a recriwtio i'r proffesiwn a'r sectorau lle maent yn rheoleiddio. Mae risg y gall y cynnig hwn o bosibl ddyblygu swyddogiaeth a gyflawnir eisoedd, neu a allai o leiaf gyfrannu at

gymhlethdod a dryswch pellach yn y sectorau. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid datblygu safonau proffesiynol a'r rheini wedi eu 'percheneogi' gan y corff proffesiynol (fel yn achos llawer o awdurdodaethau a phroffesiynau eraill), ac yn achos y sectorau AB a DSW gallai Cyngor y Gweithlu Addysg wneud hyn. Awgrymwyd y byddai datganoli cyfrifoldeb am safonau i gorff cyllido / sicrhau ansawdd yn anghyson. Byddai gofyn am sail resymegol gryfach ar gyfer unrhyw newid o'r fath er mwyn iddo gael ei ddeall a'i dderbyn.

- 11.37 Mae angen mwy o gydraddoldeb rhwng Datblygiad Proffesiynol Parhaus a safonau proffesiynol o fewn ysgolion ac o fewn AB. Awgrymwyd y gallai'r broses ymgynghori fod yn gyfrwng ar gyfer ailagor y drafodaeth hon.
- 11.38 Roedd un cyfrannwr yn feirniadol o'r ffaith fod undebau wedi cael eu hepgor o'r rhestr o randdeiliaid ym mharagraff 190 [Byddai'r strategaeth yn cael ei datblygu a'i gweithredu mewn ymgynghoriad â darparwyr dysgu a chan weithio'n agos â phartneriaid megis Cyngor y Gweithlu Addysg, asiantaeth addysg uwch newydd y DU, a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol newydd], o gofio eu bod yn cynrychioli'r gweithlu.

Cwmpas y diwygiadau

- 11.39 Roedd cyfranwyr yn cydnabod yr her o ddod â sector ôl-16 amrywiol a digyswllt iawn at ei gilydd ac awgrymwyd y gallai fod yn synhwyrol cyflwyno rhywbeth llai uchelgeisiol na'r hyn a gynigir. Gallai'r diwygio fod yn digwydd fesul cam o safbwynt dod â'r gwahanol sectorau i mewn neu ddod â gwahanol feysydd (ee atebolrwydd, llywodraethu, cyllid). Yr hyn sydd ei angen yw cytuno ar y camau sydd ynghlwm â chyrraedd cydlyniaeth lawn.
- 11.40 Teimlai un cyfrannwr fod angen mwy o eglurder ynghylch beth mae'r diwygiadau'n ceisio'i gyflawni (mynd yn ôl at y syniad o fod angen 'gweledigaeth') gan nad yw'n ddigon gadael i berthnasoedd dyfu'n organig a deddfu wedyn.
- 11.41 Bydd yn bwysig hefyd sicrhau rhai enillion cyflym er mwyn cael cymeradwyaeth.
- 11.42 Roedd pob sector yn bryderus ynghylch un sector penodol yn tra-arglwyddiaethu.

Pwyntiau eraill

- 11.43 Fe wnaeth cyfranwyr fynegi cefnogaeth i gydweithio ar draws sectorau ond teimlent y byddai'n well i hyn ddigwydd o dan awdurdodau lleol.
- 11.44 Roedd un cyfrannwr yn amau sail resymegol y cyfeiriad at Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

- 11.45 Fe wnaeth cyfrannwr arall fynegi pryder y gallau creu corff newydd gymryd arian i ffwrdd o weithredu rheng flaen.
- 11.46 Nodwyd bob angen cymryd camau i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei gynnal trwy gydol y broses o newid.
- 11.47 Mynegwyd pryder ynghylch teneuo darpariaeth a'i gwneud yn 'benodol ar gyfer Cymru', fel nad yw'n berthnasol y tu allan i Gymru, ac felly'n cyfyngu ar botensial dysgwyr i ddatblygu.
- 11.48 Mynegwyd pryder ynghylch tryloywder lefelau tâl o fewn AU: credid bod model tâl yr Alban yn llawer mwy tryloyw.
- 11.49 Fe wnaeth cyfranwyr nodi ofn hefyd ynghylch awdurdodau leol yn gallu 'brigdorri' mwy o gyllid sy'n mynd i ddosbarthiadau chwech nag oedd yn digwydd gynt.
- 11.50 Roedd pryderon ein bod yn dal i ddisgwyl am weledigaeth a chyfeiriad strategol y cytunwyd arnynt a bod y sector AHO yn ddibynnol ar hyn er mwyn cyflawni'r diwygiadau. Y risg yw os ydynt yn mynd ymlaen gyda'r diwygiadau heb weledigaeth yna naill ai bydd y diwygiadau'n cael eu cyflwyno mewn modd digyswllt neu byddant yn cael eu dal yn ôl neu eu gwanhau.
- 11.51 Nid yw'n glir eto sut fath o lywodraethu fydd yn digwydd mewn ysgolion gan eu bod yn disgwyl canlyniad yr ymgynghoriad ers y llynedd.
- 11.52 Byddai undebau wedi gwerthfawrogi cyfle i gyflwyno cwestiynau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Y Gymraeg

- 11.53 Roedd un cyfrannwr yn holi am berthnasedd nod Cymraeg 2050 (yn wyneb cyflymdra'r cynnydd mewn technoleg a bydd mae hyn yn debygol o'i golygu o ran technoleg cyfieithu) a dywedodd ei bod yn bwysig fod brîff y Comisiwn yn ddigon hyblyg i ystyried unrhyw newidiadau polisi ehangach ynglŷn â'r Gymraeg.
- 11.54 Y peth allweddol yw sicrhau bod y Comisiwn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen gyda'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ei bod yn bwysig fod hyn yn ddibynnol ar os mai dyma sydd arnynt eisiau ei wneud – dylai'r cyfan fod ynglŷn â dewis dysgwyr, yn hytrach na mynnu cynnydd mewn darpariaeth gyfrwng Cymraeg.
- 11.55 Mae chweched dosbarth ysgolion yn aml yn gryf iawn ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, ac mae angen amddiffyn hyn ac adeiladu arno gan fod cyfle'n dal i fod i gynyddu'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 11.56 Mae angen am fwy o eglurder ynghylch rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn benodol a fydd yn cael ei gyllido gan y Comisiwn a pha mor bell y bydd yn annibynnol o'r Comisiwn.
- 11.57 Mater arall yw pwysigrwydd cadw siaradwyr Cymraeg sy'n cyflawni'n uchel yng Nghymru, ac mae angen i'r Comisiwn feddwl yn fwy

uchelgeisiol, y tu hwnt i ganolbwyntio ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ynddi'i hun, ond ar bethau fel datblygu ysgol filfeddygon ac ysgolion meddygol ychwanegol yng Nghymru.

- 11.58 Mae'r Gymraeg yn fater pwysig hefyd o safbwynt cynllunio gweithluoedd ac mae recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg yn her. Mae hefyd y broblem gysylltiedig ynghylch y nifer cyfyngedig o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cipio gan y sefydliadau gorau.
- 11.59 I grynhoi, mae angen mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr hyn a ofynnir gan y sector AHO o safbwynt cyrraedd targed 2050.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 11.60 Mae angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ystyried:
- Costau penodol y corff ei hun yn ei holl weithredoedd
 - Y costau ehangach ynghylch penderfyniadau y gallai'r corff eu gwneud a beth mae hyn yn ei olygu i'r sector.
 - A oes arnom angen corff neu beidio – a ellid cyflawni'r amcanion heb sefydliad newydd? (Rhoddwyd yr enghraifft o'r Alban yn rhoi'r gorau i'w Bil Addysg ar y sail y gallent fod wedi gwneud pethau'n gyflymach o fewn strwythurau presennol).
 - Costau mwy hirdymor pethau fel cydweithio, sy'n aml yn cael ei farnu fel rhywbeth cost-niwtral, er ei fod yn golygu pethau fel mynychu cyfarfodydd, sydd yn ei dro yn gofyn am gyflenwi gan staff.
 - Costau teithio sy'n gysylltiedig â symud staff a dysgwyr (gan roi sylw i ffactorau fel ffyrdd gwledig/tagfeydd ar ffyrdd, a fydd yn arwain at amrywio lleol).
 - Effaith yr holl newid hwn ar awdurdodau lleol – mae'n hanfodol fod y diwygiadau AHO yn osgoi creu cymhellant o awdurdodau lleol gael gwared ar Ddosbarthiadau Chwech.
 - Yr effaith ar lwyth gwaith ysgolion – nid yw dweud y bydd yr holl fiwrocratiaeth yn mynd i'r awdurdodau lleol yn realistig, gan y byddant yn anfon hyn ymlaen at ysgolion.
- 11.61 Nodwyd bod i'r Comisiwn, os bydd yn gwneud popeth y mae'r ddogfen ymgynghori'n ei ddweud y bydd yn ei wneud, y potensial o fod yn gostus iawn.
- 11.62 Fe wnaeth un cyfrannwr nodi'r angen i osgoi'r sefyllfa a ddigwyddodd gydag Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol lle na ystyriwyd pob agwedd o'r agenda Anghenion Dysgu Ychwanegol ac o ganlyniad barnwyd bod yr holl broses yn ddiffygiol.

12. Asesiadau Effaith Rheoleiddiol

29^{fed} Mehefin 2018

12.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- CCAUC
- Colegau Cymru
- Prifysgolion Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Estyn
- Llywodraeth Cymru

Pwyntiau cyffredinol

- 12.2 Roedd rhai cyfranwyr wedi cael profiad o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol o'r blaen ac yn croesawu'r ymrwymiad i ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses Asesiad Effaith Rheoleiddiol hon.
- 12.3 Bydd yn bwysig ystyried y costau ar draws Llywodraeth Cymru, y corff newydd arfaethedig ac ar draws y sector.
- 12.4 Fe wnaeth un cyfrannwr nodi bod canllawiau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn datgan fod yn rhaid i asesiad effaith gael ei roi yn ei gyd-destun. Er mwyn gwneud hyn, mae angen inni egluro pam y gwnaed y penderfyniad i reoleiddio fel hyn. Awgrymwyd bod y rhesymau'n cynnwys:
- Diffyg yn y farchnad: mae angen inni fod yn ddiamwys ynghylch sut mae'r sefyllfa bresennol yn methu a pham fod angen inni greu gwell system i bawb. Rhaid i hyn cael ei adnabod a'i ddeall er mwyn cyfiawnhau ymyrraeth a newid. Honnwyd bod y datganiad clir fod y system bresennol yn methu â diwallu anghenion dysgwyr 16 i 19 oed ar goll o'r ddogfen ymgynghori.
 - Diffyg tegwch a symudedd cymdeithasol: mae angen inni ystyried a fydd y cynigion yn gwella tegwch mynediad a chyrhaeddiad. Bydd hyn yn cynnwys pethau fel diwallu gofynion ynglŷn â'r Gymraeg a chydraddoldeb rhwng y rhywiau.
 - Methiant yn y fframweithiau rheoleiddio presennol (fel y nodwyd yn adolygiadau Reid a Donaldson).
- 12.5 Mae'n bwysig bod yn gwbl glir ynglŷn â'r tri datganiad uchod, er mwyn cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn effeithiol.
- 12.6 Nodwyd bod Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar wedi cynnal adolygiad o effeithiolrwydd tystiolaeth a gyflwynir fel rhan o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol [Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth], a nododd bryderon allweddol gan gynnwys:

- Yn aml, nid yw digon o ddewisiadau yn cael eu hystyried a'u costio
 - Nid yw costau'n cael eu rhagamcanu dros gyfnod digonol o amser
 - Yn aml, ni chanolbwyntir digon ar gostau cymdeithasol ac anariannol
- 12.7 Gwnaed y pwynt felly ei bod yn hanfodol bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried ystod o ddewisiadau ar gyfer diwygio AHO, er y dywedodd un cyfrannwr fod y pwyslais yn 'dechnegol' ar opsiwn 6(a). Gwrthodwyd y pwynt hwn gan gyfrannwr arall fodd bynnag a oedd yn mynegi angen am 'gymryd gofal' dros wneud 6(a) fel y safle tybiedig ac y gallai fod yn bosibl mynd i'r afael â rhai o'r problemau a nodir uchod (diffyg yn y farchnad, annhegwch etc) trwy'r systemau presennol – sef na ddylem daflu asedau presennol ymaith.
- 12.8 Fel gyda rhai grwpiau eraill, gwnaed y pwynt ynghylch diffyg 'gweledigaeth' glir ar gyfer y sector AHO a'r angen am eglurder ynghylch beth mae'r diwygiadau'n ceisio'u cyflawni. Dim ond wedyn y gellir cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn holistaidd. Nodwyd bod angen i Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r diwygiadau fod yn asesu effeithiau yn erbyn deilliannau clir – rhywbeth nad oes gennym eto heb weledigaeth.

Costau neu arbedion ariannol tebygol o'r diwygiadau

- 12.9 Yr her wrth ragamcanu effeithiau ariannol tebygol yw nad yw'r cynigion eu hunain yn ddigon manwl.
- 12.10 Bydd yn bwysig ystyried y goblygiadau o ran cyfraith cystadleuaeth mewn perthynas â darpariaeth AU a'r effaith ar gystadleuaeth i brifysgolion, fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth yn ysgogi nac yn gorfodi gofynion cydweithio ar ddarparwyr – er enghraifft rhannu gwybodaeth fasnachol – a allai'n anfwriadol orfodi ymddygiad cydgynllwyngar ac felly'n torri cyfraith cystadleuaeth.
- 12.11 Mae'n hanfodol hefyd nodi'r effaith bosibl yn glir a thryloyw – ac yn llawn. Mae angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ganolbwyntio ar y costau i randdeiliaid gan fod y rhain yn debygol o fod yn sylweddol a'r rhai mwyaf anodd eu hamcangyfrif.
- 12.12 Er enghraifft, os gwneir newidiadau sylweddol i gyfundrefnau arolygu a sicrhau ansawdd, bydd yn hanfodol ystyried y rhain wrth asesu'r costau rhagamcanol.
- 12.13 Mae angen inni hefyd ffactoreiddio costau cyfleoedd posibl, megis y rheini sy'n gysylltiedig â'r swm o amser y bydd yn ei gymryd i'r sectorau weithio drwy'r newidiadau arfaethedig. Bydd Brexit hefyd yn golygu costau cyfleoedd eraill i'w hystyried.
- 12.14 O ran y cohort 16-19, bydd yn bwysig edrych ar y newidiadau mewn costau unedau, sef a yw'n rhatach rhoi dysgwyr trwy gwrs mewn

dosbarthiadau mwy – gan dybio mai dyma sy'n digwydd trwy resymoli a lleihau dyblygu.

- 12.15 Mae angen inni hefyd ystyried costau cymharol llwybrau academiaidd a llwybrau galwedigaethol a sut y gallai'r diwygiadau effeithio ar hyn.
- 12.16 Mae effeithiau'r diwygiadau ar costau lleoliadau profiad gwaith yn ffactor arall i'w ystyried – gallai hyn fod yn gost neu'n arbediad.
- 12.17 Mae costau'n debygol o fod yn gysylltiedig ag uno gwahanol systemau adnoddau dynol lluosog.

Effeithiau cadarnhaol neu negyddol tebygol eraill y diwygiadau

- 12.18 Awgrymwyd y gallai fod yn briodol ystyried yr effaith mae'r diwygiadau'n ei gael ar ddewis cyrsiau (o ganlyniad i, er enghraifft, gwell gwybodaeth gyrfaoedd, mwy o ddewis ar gael) a lleihad yn y nifer o fyfyrwyr sy'n cymryd y cyrsiau anghywir ac wedyn yn gadael cyn cwblhau – gellid pennu hyn hefyd fel arbediad ariannol.
- 12.19 Mae effaith y diwygiadau ar bobl dan anfantais (ee y rheini o wahanol gefndiroedd cymdeithasol/ethnig neu gydag anableddau) yn rhywbeth sydd angen ei ystyried gan nad yw'r system yn gynhwysol ac mae angen i hyn newid. Felly, mae angen inni archwilio:
 - Beth sydd angen ei wneud i wneud y system yn fwy cynhwysol;
 - Faint fydd hyn yn ei gostio.
- 12.20 Yn ogystal â'r rhanddeiliaid amlwg (dysgwyr, darparwyr, cyflogwyr) mae rhanddeiliaid ehangach y gallai'r diwygiadau effeithio arnynt, megis rhieni (o safbwynt darparu cymorth ariannol) ac ysgolion cynradd (os bydd rôl a chylch gwaith Estyn yn newid).
- 12.21 Bydd angen hefyd i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ystyried y canfyddiadau o asesiadau effaith ehangach, er enghraifft Asesiad Effaith Amgylcheddol, asesiad effaith ar y Gymraeg ac asesiad effaith ar gydraddoldeb gan y gall rhai o'r rhain fod â chostau'n codi ohonynt.

Barnau ar y dystiolaeth a gynigir ar gyfer asesu costau, arbedion, buddion ac effeithiau eraill

- 12.22 Cafodd y fethodoleg a amlinellwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei disgrifio fel 'hynod o gynhwysfawr', ond yng nghydestun y ddogfen ymgynghori, mae'n anodd ei harfarnu mewn modd ystyrlon. Awgrymwyd bod hyd y ddogfen ymgynghorol yn 'anferthol', yn llethu rhywun â gwybodaeth, ac os mai'r cyfan a wneid fyddai cronni gwahanol elfennau'r cynnig, byddai'r costau yn 'ddiystyr'.
- 12.23 Mae angen inni felly fod yn glir ynghylch pa elfennau o'r cynigion cyffredinol y gellir eu gwahanu, er mwyn trefnu dull gweithredu ystyrlon ar gyfer Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Hyd yma, ni fu proses o resymoli, cymedroli a chysoni gwahanol elfennau'r diwygio – ac mae angen i hyn gael ei wneud cyn penderfynu'n derfynol ar ddull gweithredu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

13. Ymchwil ac Arloesi

27^{ain} Mehefin 2018

13.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Prifysgolion Cymru
- TWI
- Admiral Group
- CCAUC
- CCAUC
- Colegau Cymru

Sylwadau Cyffredinol:

- 13.2 Codwyd rhai pryderon cyffredinol am y bennod ar Ymchwil ac Arloesi. Teimlai cyfranwyr ei bod yn weithredol iawn ac yn gyfredol iawn ei natur – yn trafod syniadau a chysyniadau diweddar yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn statud fel egwyddorion allweddol ar gyfer ymchwil a datblygu yn y dyfodol.
- 13.3 Teimlai'r cyfranwyr hefyd fod llawer o adrannau'n gwrth-ddweud ei gilydd ac yn gyffredinol roeddent ychydig yn ddryslyd ynghylch beth oedd y bennod yn ei hamlinellu mewn gwirionedd wrth gynnig ffordd ymlaen. Roeddent hefyd yn mynegi peth rhwystredigaeth gyda'r cwestiynau eu hunain ac yn crybwyll eu bod yn ei chael hi'n anodd, hyd yn oed gydag ymatebion ysgrifenedig eu sefydliad eu hunain, a) deall yn ddigon clir beth oedd yn cael ei gynnig er mwyn gallu gwneud sylwadau llawn arno a b) gwybod pa sylwadau y dylid eu mynegi o dan pa gwestiwn.
- 13.4 Yn benodol, teimlai'r cyfranwyr fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng C57 a C59 a bod hefyd risg bod rhai materion eraill a oedd yn haeddu trafodaeth nad oeddent wedi'u cynnwys o dan unrhyw gwestiwn.

C57: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig cyffredinol a strwythur manwl Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn? Eglurwch pam.

- 13.5 Yn gyntaf, trafodwyd yr egwyddor o sefydlu Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn. Roedd cyfranwyr yn croesawu'r elfen Ymchwil ac Arloesi gref yn y ddogfen, ond hoffent weld Llywodraeth Cymru yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol i'r Comisiwn a lle Ymchwil a Datblygu yng Nghymru (ac o fewn y cyd-destun hwnnw). Teimlai'r cyfranwyr fod angen i'r uchelgais o sefydlu'r Comisiwn ac Ymchwil a Datblygu Cymru gael ei chrynhof mewn gweledigaeth – gyda chydabyddiaeth glir o bwysigrwydd y sail ymchwil a datblygu o fewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn benodol. Credai'r cyfranwyr hefyd y dylai fod y weledigaeth hon ynghylch lle ymchwil yng Nghymru yn ymwneud â sut y gall fod yn gystadleuol yn fyd-eang (yn enwedig wrth edrych ar y cynnydd yng nghyllid UKRI a

Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddiweddar): ‘Mae angen ini fod yno a bod yn gystadleuol’.

- 13.6 Mae Adolygiad Reid yn dadlau’r achos dros hyn ac yn rhoi amlinelliad o sut y gellid ei gyflawni – o ran cefnogi a chyllido Ymchwil ac Arloesi ac wrth amlinellu rôl sefydliadau addysgu bellach, ac roedd consensws cyffredinol ymhlith cyfranwyr fod argymhellion Adolygiad Reid yn synhwyrol ac y dylid eu gweithredu.
- 13.7 Yn ogystal, roedd cynrychiolwyr o’r sector sefydliadau addysg uwch yn enwedig yn awyddus fod Ymchwil ac Arloesi Cymru’n cael ymreolaeth a rhyddid i adeiladu sail ymchwil gystadleuol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, gyda rhai o’r manylion yn y cynigion Ymchwil ac Arloesi, roedd pryder y byddai Gweinidogion yn gweithredu gormod o ddylanwad ar yr hyn a ddylai fod yn sefydliad hyd-braich, i orchymyn gwaith Ymchwil ac Arloesi.
- 13.8 Mae’r agweddau ‘Ymchwil’ ac ‘Arloesi’ yn haeddu statws cyfartal gyda ‘gweithredu gwybodaeth mor bwysig â’i gael’ yn ôl un cynrychiolydd, a dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru allu meithrin perthynas gydag amrywiaeth o sefydliadau sy’n gwelthio mewn ymchwil ac mewn arloesi. Er bod Ymchwil ac Arloesi yn ategu ei gilydd, roedd y cynrychiolwyr yn dadlau bod angen egwyddorion clir ynghylch sut i ymdrin â’r ddwy swyddogaeth sydd mor bwysig â’i gilydd wrth adeiladu economi lwyddiannus yng Nghymru.
- 13.9 Roedd sefydlu Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn yn cael ei ddisgrifio fel strwythur clir y gallai sefydliadau ei ddeall a chysylltu ag ef, felly roedd y cynrychiolwyr yn eithaf cefnogol o hyn, ond roedd ar un ohonynt eisiau eglurder ar y lefelau o gyllid y gallai Ymchwil ac Arloesi Cymru ei weinyddu, a’r rhaniad rhwng ymchwil ac arloesi.
- 13.10 O ran y cynigion mwy manwl ar Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn fel pwyllgor statudol, roedd hyn yn cael ei gefnogi’n gyffredinol, gyda chynrychiolwyr SAU yn teimlo bod hyn yn rhoi sylw i rai o’u pryderon blaenorol ynghylch llywodraethu Ymchwil ac Arloesi Cymru. Er bod y sector AB yn cytuno â’r dull tair ochrog o bennu aelodaeth Ymchwil ac Arloesi Cymru (1/3 AU/AB; 1/3 Busnes a 1/3 cyrff cyhoeddus), roedd gan y sector AU fwy o bryderon ynghylch hyn. Roeddent yn amlinellu sut y byddai ar y pwyllgor statudol Ymchwil ac Arloesi Cymru angen amrywiaeth helaeth o arbenigedd a gallai’r dull tairochrog o weithredu osod ‘seilos neu lwythau’ o fewn Ymchwil ac Arloesi Cymru. Byddai’n well gan y sector AU weld mwy o hyblygrwydd yn yr aelodaeth a cheisio penodi unigolion gydag amrywiaeth helaeth o brofiad yn hytrach na dull a oedd yn awgrymu eu bod yno fel cynrychiolwyr sectorau. Roedd cyfranwyr eraill yn cytuno y dylai aelodaeth Ymchwil ac Arloesi Cymru gael ei benodi gan Weinidogion neu hyd yn oed y Cynulliad yn hytrach na chan sectorau, a’i bod yn bwysig nad oes unrhyw ffafriaeth i unrhyw sector yn y rolau. Yn yr un modd, teimlai amryw o’r cynrychiolwyr fod persbectif allanol o’r tu allan i Gymru yn bwysig, yn enwedig o ran Ymchwil, sy’n gweithredu ar sail y DU gyfan: ‘mae angen inni osgoi

seilos – ac mae gormod o fanylder yn yr aelodaeth fel mae'n sefyll ar hyn o bryd'.

- 13.11 Roedd cynrychiolwyr diwydiant yn cytuno bod angen i aelodaeth Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn brofiadol, yn arbenigwyr a gyda phersbectif byd-eang. Roedd angen cynrychioli barnau diwydiant hefyd, a themlent ei bod yn bwysig na ddylai pawb o'r personél ar Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn unigolion nad oedd erioed wedi gweithio'r tu allan i'r amgylchedd academiaidd neu wleidyddol.
- 13.12 Dywedodd cynrychiolwyr hefyd y gall fod yn anodd iawn penodi'r bobl berthnasol i'r math hwn o bwyllgor Ymchwil ac Arloesi oherwydd y gronfa fach o bobl yng Nghymru sydd â'r cefndir a'r arbenigedd perthnasol. O ganlyniad, roedd angen i'r ddeddfwriaeth fod yn ddigon hyblyg i addasu – roedd hyn yn neilltuol o bwysig yn y sefyllfa bresennol lle nad yw cwrpas gwirioneddol Ymchwil ac Arloesi Cymru yn eglur, a gallai newid dros amser.
- 13.13 Roedd un neu ddau o'r cynrychiolwyr yn bryderus iawn hefyd gyda'r syniad o Gadeirydd Ymchwil ac Arloesi Cymru yn Is-Gadeirydd y Comisiwn. Os yw'r Is-Gadeirydd wedyn yn dod yn Gadeirydd y Comisiwn bob blwyddyn, yna byddai Ymchwil (a phrofiad AU) yn tra-arglwyddiaethu'n ormodol ar y Comisiwn ac nid oedd hyn yn ffordd synhwyrol o weithredu.
- 13.14 Roedd y cyfranwyr yn bryderus bod amodau yn y bennod hon na fyddai gan Ymchwil ac Arloesi Cymru y 'rhyddid a'r ymreolaeth' y dylid ei ddarparu i sefydliad hyd-braich gwirioneddol – yn enwedig ar adeg pan fo llawer yn digwydd mewn Ymchwil ac Arloesi yn y DU a bod angen i unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol am hyn fod yn wynebu tuag allan. Cododd amryw o gynrychiolwyr bryderon ynghylch:
- Yr amod na all Ymchwil ac Arloesi Cymru gydag adrannau llywodraeth y DU oni bai bod Gweinidogion Cymru'n rhoi caniatâd
 - Y gofyniad am gymeradwyaeth Gweinidogion am lawer o benderfyniadau cyllid
 - Gormod o fanylion yn y ddogfen yn cyfeirio at y sefyllfa bresennol (ee cyfeiriad at gael cyllid fel y gronfa bosibl, Cronfa Dyfodol Cymru) na fydd o angenrheidrwydd yn goroesi mewn fframwaith deddfwriaethol ac felly na ddylid ei henwi.
 - Yr amodau y byddai'n rhaid i Brifysgolion ddangos sut maent yn cysoni ymchwil gyda hyfforddiant a chysiau er mwyn cael at gyllid. Er nad oedd unigolion yn anghytuno â hyn fel egwyddor/cysyniad, roeddent yn bryderus y byddai ei bennu fel gofyniad er mwyn cael cyllid, yn wahanol i'r hyn mae Prifysgolion Lloegr yn gorfod ei wneud am gyllid UKRI, yn ei wneud yn gae chwarae mwy anwastad fyth i Sefydliadau Addysg Uwch Cymru.
 - Rhywfaint o ddryswch yn iaith y ddogfen ac wrth gyfuno'r drafodaeth ynghylch sefydlu'r Comisiwn/ Ymchwil ac Arloesi Cymru gyda'r agweddau gweithredu a nodir yn Adolygiad Reid.
- 13.15 Roedd rhywfaint o anghytundeb rhwng cynrychiolwyr diwydiant a chynrychiolwyr AU. Teimlai cynrychiolwyr diwydiant nad oedd

Prifysgolion yn gwneud digon i gydweithio gydag AB ac nad oedd yr amgylchedd presennol yn annog y cydweithio hwn yn ddigonol. Teimlai cynrychiolwyr AU ar y llaw arall mai'r holl ethos y tu ôl i Gomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru oedd dod ag AB ac AU at ei gilydd, a'r manteision y fyddai'n deillio yn sgil hynny.

- 13.16 Roedd ar y cyfranwyr eisiau i Ymchwil ac Arloesi Cymru sicrhau meithrin agwedd 'tu allan i seilo' tuag at gyllid a sut y caiff ei ddyrannu. Unwaith eto, fe wnaeth y cyfranwyr ailadrodd pwysigrwydd pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru a'r angen i sicrhau digon o unigolion gyda chefnidir cryf iawn mewn cyllid ymchwil i roi cyngor i'r Comisiwn. Dylai llais diwydiant ac nid lleisiau academiaidd yn unig fod yn rhan o'r pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru.

C58: A ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael cwmpas mor eang o ran cyllid er mwyn gallu cyllido'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd, hyd yn oed os yw ei gwmpas yn fwy cyfyng yn ei weithrediad terfynol, h.y. a ddylai gael hyblygrwydd o'r fath? Eglurwch pam.

- 13.17 Roedd y cyfranogwyr yn gyffredinol yn ei chael yn anodd deall beth a gynnigir o ran cwmpas Ymchwil ac Arloesi Cymru yn cael teimlo bod y cynigion yn y bennod hon ynghylch hyn yn dryslyd ac yn anghyson drwyddynt draw, gyda'r iaith, ar adegau yn eithaf dirmygus.
- 13.18 Roedd rhai o'r pryderon yn cynnwys:
- Agweddau helaeth o gyllid Ymchwil ac Arloesi yn ymddangos fel petaent 'o fewn y cwmpas' ond nid ei weithrediad.
 - Dywed y bennod fod ymchwil lechyd allan o'r cwmpas, ond wedyn mae'n cynnwys sefydliadau fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel aelodau posibl o Ymchwil ac Arloesi Cymru a derbynwyr cyllid posibl.
 - Gallai cyllid arloesi fod y fewn Ymchwil ac Arloesi Cymru, neu'r tu allan neu dipyn o'r ddau – dywed argymhelliad Reid fod angen eglurder diben ar gyfer hyn.
- 13.19 Yn gyffredinol, teimlai'r cynrychiolwyr y dylai cwmpas Ymchwil ac Arloesi Cymru ddilyn y weledigaeth/strategaeth, a heb weledigaeth o'r fath ar waith yna roedd yn anodd gwybod beth ddylai fod o fewn y Comisiwn a beth ddylai aros y tu allan.
- 13.20 Teimlai'r cynrychiolwyr hefyd fod pwerau ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru i benderfynu, yn ôl eu mympwy bron, lle dylai amrywiol agweddau o Ymchwil ac Arloesi fod, a bod angen ymreolaeth. Dylid gallu adolygu swyddogaethau Ymchwil ac Arloesi Cymru o bryd i'w gilydd, ond dylai fod mwy o eglurder a pharhad o safbwynt y cwmpas: 'Dylid rhestru swyddogaethau Ymchwil ac Arloesi Cymru mewn statud fel bod ei gyllidebau yn glir ac y gall fod llinellau atebolrwydd clir ar gyfer gwariant'.
- 13.21 Roedd un cynrychiolydd yn awyddus i nodi y gall Ymchwil gymryd degawdau yn aml ac na ddylid newid y canolbwyntio a'r strategaeth

yn rheolaidd: 'Er bod sawl ymgais yma i wneud hwn yn gorff hyd-braich, maent yn debycach i freichiau T-rex yn chwifio o gwmpas heb unrhyw ddiben' (!) Teimlai'r cynrychiolwyr fod hyn yn mynd i wraidd y drafodaeth ar gwmpas a'i bod yn rhy amwys ar hyn o bryd, a bod yr hyn a ddisgrifir fel cwmpas yn swnio'n llai fel hyd-braich ac yn fwy fel rheolaeth Gweinidog. Roedd cynrychiolwyr yn gryf o'r farn fod perygl o wneud Ymchwil ac Arloesi Cymru yn ddarostyngedig i reolaeth Gweinidogion. Yn y cyswllt hwn, nododd un cynrychiolydd fod Egwyddor Haldane, sef sicrhau mai arbenigwyr oedd yn penderfynu ar gyllido ymchwil, yn 150 mlwydd oed, ond y byddai Gweinidogion bob amser yn gwyro tuag at atebion mwy tymor byr.

- 13.22 O safbwynt ymarferol hefyd, teimlai'r cyfranwyr y byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru yn dod yn araf ac anhyblyg iawn i ymateb pe byddai'n rhaid i gyllid dderbyn cymeradwyaeth Gweinidogion bob amser. Gyda chyllid arloesi yn enwedig, mae bod yn gyflym a sionc yn hanfodol er mwyn aros yn gystadleuol.
- 13.23 Teimlai'r rhai a oedd yn bresennol fod y diffyg eglurder ynghylch cwmpas arfaethedig y cyllido yn ei gwneud yn amhosibl gwneud sylwadau manylach arno ar y funud. Yn lle hynny, roedd arnynt eisiau gweld sut y byddai cwmpas clir i Ymchwil ac Arloesi Cymru o fudd i'r gymuned Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru. Yn gyffredinol, teimlai'r cynrychiolwyr fod angen i Lywodraeth Cymru gadw'r gallu i gyllido arloesi mewn perthynas â datblygu economaidd a'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth – ac y dylai Gweinidogion gael trosolion byr i gyllido gweithgareddau o'r fath yn ôl eu disgrisiwn.
- 13.24 Dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru/ y Comisiwn gael cyfrifoldeb dros gynllunio strwythurol mwy hirdymor o ymchwil ac arloesi gyda chwmpas addysg/hyfforddiant clir. Roedd dau gyfrannwr yn bryderus na ddylai'r cwmpas fod yn rhy lydan a rhy fawr – gallai ddiweddu fel anghenfil pe bai'r holl gyfrifoldebau Ymchwil ac Arloesi yn cael eu rhoi i'r Comisiwn.
- 13.25 Roedd rhai cynrychiolwyr yn amau a ddylai'r Comisiwn / Ymchwil ac Arloesi Cymru gael / a fyddai arnynt eisiau y pŵer i gyllido sefydliad masnachol i gyflawni ymchwil 'budd y cyhoedd'. Teimlent hefyd fod llawer o'r hyn a allai o fod o fewn y cwmpas posibl ar hyn o bryd yn gyfrifoldebau Adran Addysg a Hyfforddiant Llywodraeth Cymru yn hytrach nag Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru, ac y byddai hyn yn cyfyngu ar allu'r Adran Addysg a Hyfforddiant i gyflawni ei blaenoriaethau yn y dyfodol.
- 13.26 Roedd cyfranwyr yn dadlau bod y Comisiwn yn cael ei sefydlu ar gyfer cyfrifoldebau AHO ac y byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru yn gorff statudol o fewn y Comisiwn, unwaith eto gyda phwyslais ar AHO.
- 13.27 Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd a lansiwyd yn ddiweddar yn rhoi pwyslais clir ar arloesi, gyda'r cyllid yn cael ei osod yn glir o fewn strwythurau Adran Addysg a Hyfforddiant Llywodraeth Prydain. Mae'r bennod hon yn awgrymu nad yw hyn wedi'i benderfynu eto ac y gallai llawer o'i swyddogaethau Ymchwil ac Arloesi fod o fewn AHO. Roedd

cyfranwyr yn dadlau 'os yw popeth yn mynd i mewn i'r Comisiwn, bydd angen llawer iawn o adnoddau arno'.

- 13.28 Roedd cyfranwyr yn cytuno bod angen i Lywodraeth Cymru benderfynu lle dylai ei strategaeth Ymchwil ac Arloesi eistedd, ac os oedd arnynt eisiau iddo fod o fewn AHO, yna roedd angen i'r llinellau / ffiniau fod yn glir: 'rhaid inni gael gweledigaeth polisi, ac yna gallwn ddeall beth sy'n digwydd'.
- 13.29 Mae'r sector AU yn holi sut y caiff ymchwil 'er budd y cyhoedd' ei ddiffinio ac yn dadlau y dylid cynnwys rhywfaint o'r cyllid SMART yn hyn. Roeddent yn awyddus hefyd i nodi bod llawer o reolau a rheoliadau ynghlwm wrth gyllid Sefydliadau Addysg Uwch ar hyn o bryd er mwyn sicrhau uniondeb ymchwil (ee concordatau ar gyfer ymchwil ar budd y cyhoedd).
- 13.30 Teimlai'r sector AU fod gormod o fanylder yn y gyffredinol yn y bennod hon 'mae angen dileu unrhyw beth a ysgrifennwyd ar gyfer nawr – unrhyw beth sy'n rhy benodol o ran amser' a bod angen meddwl rhywfaint am gwmpas Ymchwil ac Arloesi Cymru fel y gallai, yn ei ffordd hyd-braich o weithredu, fod yn wirioneddol rymus fel y gellid cyflawni buddion clir i gynhyrchiant yng Nghymru o ganlyniad i fuddsoddiad mewn Ymchwil ac Arloesi.
- 13.31 Roedd y cyfranogwyr yn hapus gyda'r ddyletswydd gyffredinol i ymgynghori, ond unwaith eto nid oedd angen y rhestr o sefydliadau – a dylai hyn fod yn benderfyniad gweithredol i'r Comisiwn / Ymchwil ac Arloesi Cymru.
- 13.32 Teimlai'r cynrychiolwyr o'r sector AU hefyd fod ymchwil yn y celfyddydau / gwyddorau cymdeithasol yn cael ei esgeuluso'n gyffredinol o'r drafodaeth, gyda'r prif bwyslais ar ymchwil gwyddonol. Mae AU yn cyllido ymchwil da ar sail y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, ac roedd angen i hynny fod yn glir.
- 13.33 Er bod y dull cyllido a amlinellir yn y bennod yn seiliedig ar yr argymhellion yn Adolygiad Reid (a theimlai'r cynrychiolwyr fod Reid yn cynnig ateb meddylgar a da i Gymru), roedd dryswch ynghylch pam fod angen i'r dull cyllido fod yma o gwbl, gan mai mater i'r Comisiwn / Ymchwil ac Arloesi Cymru i'w gynnwys yn eu cynllun strategol yw hwn, ac nid rhywbeth i'w gynnwys mewn fframwaith deddfwriaethol y bydd angen iddo barhau am ddegawdau.
- 13.34 I grynhoi, roedd y cynrychiolwyr yn bryderus ynghylch diffyg eglurder o safbwynt cwmpas Ymchwil ac Arloesi Cymru ac yn bryderus hefyd fod yr hyn a ddisgrifir yn llai annibynnol a heb fod yn rhoi'r ymreolaeth i Ymchwil ac Arloesi Cymru weithio gydag eraill a gwneud penderfyniadau'n gyflym a chlr. Teimlent fod angen gwaith pellach ar y drafftio cyn y gallai hyn ddod yn glir mewn deddfwriaeth, ond er eu bod yn disgwyl i Weinidogion gael barn ar flaenoriaethau gwariant ymchwil, roeddent yn gytŷn nad oeddent yn disgwyl i Weinidogion gael pwerau o'r fath dros benderfyniadau cyllido penodol.

C59: A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru, a'r berthynas â'r rheini sy'n derbyn cyllid a'r gymuned ymchwil ac arloesi? Eglurwch pam.

- 13.35 Gan fod y cwestiynau blaenorol yn ymddangos fel petaent yn ymdrin â'r perthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru, mae'r ymatebion sydd yma yn canolbwyntio ar y berthynas gyda derbynwyr cyllid a'r gymuned Ymchwil ac Arloesi.
- 13.36 Fe wnaeth y cynrychiolwyr fynegi pryderon gyda'r rhestr o'r 'rheini a ddylai gael y cyllid yn bennaf' a amlinellir ym mharagraff 300 gan ei bod yn cynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (er bod Iechyd allan o'r cylch gwaith) a hefyd 'Eraill' nad yw'n gwneud synnwyr ei gynnwys.
- 13.37 Ni theimlai'r cynrychiolwyr fod angen rhestr mor benodol mewn statud, a hefyd 'os ydych yn cyllido'r rhain i gyd byddai arnoch angen lefel gymesur o gyllid'.
- 13.38 Roedd hon yn un enghraifft o lle teimlai'r cynrychiolwyr fod diffyg eglurder yn y ddogfen – gan ei bod yn ymddangos bod rhai adrannau fel pe baent yn cefnogi argymhellion Adolygiad Reid, ac wedyn adrannau eraill, fel hon, yn rhestru sefydliadau y tu allan i gylch gwaith/cwmpas sefydliad sy'n canolbwyntio ar AHO.
- 13.39 Trafodwyd y tri modd cyllido a amlinellir yn y Bennod hon. Unwaith eto, nid oedd y cynrychiolwyr yn teimlo bod angen y graddau hyn o fanylder gweithredol mewn statud. Byddai moddau cyllido yn cael eu cytuno gan y Comisiwn / Ymchwil ac Arloesi Cymru fel rhan o gynllun strategol.
- 13.40 Roedd y cynrychiolwyr yn teimlo y gallai'r ddeddfwriaeth ymrwymo i rai o'r egwyddorion a nodir, fel cymorth deuol, ond cytunent yn gyffredinol nad oedd angen i raddau'r manylder o safbwynt moddau cyllido fod yno, a'u bod yn ddryslyd ac yn rhy benodol.
- 13.41 Cafodd y paragraffau sy'n cyfeirio at 'gydbwysedd o ran cyllid' eu disgrifio fel 'naratif nad yw'n ddim help' sy'n ymddangos fel petai'n awgrymu bod cyllid sy'n gysylltiedig ag ansawdd yn cael ei ddefnyddio bob yn ail â'r term cyllid a ysgogir gan chwilfrydedd, ac mae hyn yn sylfaenol anghywir. Roedd yr adran hon hefyd fel petai'n awgrymu 'brwydr' rhwng cyllid cysylltiedig ag ansawdd a chyllid 'a ysgogir gan her' ac mae hyn yn gamarweiniol. Aeth rhai cyn belled â'i ddisgrifio fel 'braidd yn dramgwyddus' ar y gwaethaf ac yn ddirmygus ar y gorau. Fe wnaeth y cynrychiolwyr fynegi pryder am y ffordd y cafodd ei ysgrifennu a dealltwriaeth swyddogion Llywodraeth Cymru o ddiben ymchwil cysylltiedig ag ansawdd a gyllidir.
- 13.42 Unwaith eto, cytunwyd nad oedd angen o gwbl am y mathau hyn o baragraffau mewn statud.
- 13.43 I grynhoi, teimlai'r cynrychiolwyr mai ymchwil ac arloesi a oedd yn cefnogi cyflwyno addysgol ddylai fod y prif ddiben dros ei gynnwys ar

sail statudol yn y Comisiwn – ac mae'n debygol mai dyma oedd nod Llywodraeth Cymru, ond nad oedd yr eglurder yno ar hyn o bryd.

- 13.44 Roedd angen wedyn rhoi'r awdurdod i'r Comisiwn 'wneud yr hyn y gall ei wneud yn dda', a byddai hyn yn cynnwys peidio â phennu ar y pwynt hwn sut y caiff cronfeydd eu dyrannu.
- 13.45 Codwyd mater penodol ynghylch Sêr Cymru II – ar hyn o bryd mae'r bennod ar Ymchwil ac Arloesi yn awgrymu na ddylai hyn cael ei gynnwys o dan y Comisiwn newydd, ond teimla'r sector AU y dylai.
- 13.46 Yn ogystal, gofynnodd un cynrychiolydd wedyn am rwydaith Seren ac a fyddai yng nghwmpas y Comisiwn newydd gan ei fod yn gweithredu'n bennaf o fewn AHO.
- 13.47 Teimlai'r cynrychiolwyr yn gyffredinol fod y bennod hon yn fwy cymhleth na llawer o'r lleill yn y ddogfen ymgynghori a bod cyfleoedd gwych i'r Comisiwn newydd o ddod â chymorth Ymchwil ac Arloesi at ei gilydd, ond bod y diffyg eglurder ar y dull a gynigir yn achosi anawsterau ar hyn o bryd.

Y Gymraeg: Ym mha ffordd y dylid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

peidio â chael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

- 13.48 Ni theimlai'r cynrychiolwyr y gallent wneud unrhyw sylwadau manwl ar hyn oherwydd y dryswch ynghylch beth oedd yn cael ei fynegi. Roeddent yn teimlo'n gyffredinol hefyd fod unrhyw faterion a oedd ganddynt i'w codi ynglŷn â'r Gymraeg yn gyffredinol eisoes wedi cael eu codi mewn grwpiau ffocws blaenorol ac nad oedd angen trafod hyn eto ar hyn o bryd.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Pa gostau neu arbedion ariannol fydd yn deillio o'r diwygiadau hyn yn y tymor byr a'r hirdymor?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill ellid eu teimlo ar draws gwahanol rannau o'r sector yn y tymor byr a'r hirdymor?

- 13.49 Unwaith eto, teimlai'r cynrychiolwyr fod hyn wedi cael ei drafod yn fanwl iawn, yn rhannol oherwydd bod rhai wedi bod yn y grŵp ffocws penodol ar Asesiad Effaith Rheoleiddiol y bore hwnnw.
- 13.50 O ran Ymchwil ac Arloesi, roedd perygl fod llawer o adnoddau'n cael eu treulio ar hyn o bryd wrth 'edrych at i mewn' a thrafod prosesau a strwythurau. Roedd llawer o ddatblygiadau, sy'n digwydd yn gyflym mewn Ymchwil ac Arloesi ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ar hyn o bryd, ac roedd pryder fod adnoddau Llywodraeth Cymru'n cael eu dal yn ôl ar hyn o bryd. Roedd pryder

nad oedd Cymru'n gwneud yr enillion polisi y dylai fod yn eu gwneud, a rhybuddiwyd na ddylai'r broses ymgynghori ar gyfer sefydlu'r Comisiwn AHO newydd 'fod yn esgus dros laesu dwylo'.

- 13.51 Yn y pen draw, roedd y cynrychiolwyr yn dymuno gweld mwy o arian yn cael ei wario ar Ymchwil ac Arloesi yng nghyd-destun AHO, ond heb wybod pa fodel y byddai'r Comisiwn yn ei ddilyn yn y pen draw na beth fyddai cwrdd Ymchwil ac Arloesi Cymru, roedd yn anodd iawn gwybod y gost. Nid oedd ar y cynrychiolwyr eisiau colli'r sgiliau a'r arbenigedd sydd yn y system ar hyn o bryd.
- 13.52 Syndod i'r cyfranwyr oedd darganfod mai cylch gwaith dau unigolyn yn unig yw Ymchwil ac Arloesi o fewn CCAUC, ac er mwyn gweithredu Ymchwil ac Arloesi o fewn y Comisiwn AHO newydd yn ddigonol, yna byddai angen staff sylweddol i gyflawni'r holl gwmpas posibl a amlinellwyd.
- 13.53 Byddai angen ehangu staff hefyd i ymateb a dal i fyny â'r cyfleoedd sydd mewn Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a byddai angen i lawer o argymhellion Adolygiad Reid ar gyfer cyllido arloesi gael eu gwireddu hefyd.

Sylwadau i gloi a barnau ychwanegol

- 13.54 Roedd y cynrychiolwyr yn gyffredinol yn croesawu'r broses ymgynghori ac wedi canfod bod y grwpiau ffocws eisoes yn peri iddynt gydweithredu â phartneriaid a sefydliadau newydd ac yn gwneud iddynt feddwl.
- 13.55 Roeddent yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru feddwl am sut y byddai'r Comisiwn yn cael ei sefydlu – a oedd popeth am gael ei wneud ar unwaith neu a ddylai fod yn broses esblygu.
- 13.56 Yn olaf, codwyd mater yr acronym Saesneg TERCW unwaith eto – gyda 'ERC' yn cael ei ffafrio'n llawer mwy fel enw i'r Comisiwn.

14. Digwyddiad i Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr - De Cymru

4^{ydd} Gorffennaf

- 14.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi barnau'r tri a gymerodd ran yn y digwyddiad i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Barnau cyffredinol

- 14.2 Roedd y cyfranwyr yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru i sefydlu endid newydd, sengl a fyddai â chyfrifoldeb dros y cyfan o addysg ôl-orfodol. Yn benodol credid y byddai hyn yn arwain at gael darpariaeth addysg a sgiliau o fewn 'un lle' ac y byddai'n arwain at fwy o dryloywder i gyflogwyr.
- 14.3 Sylwyd bod cylch gwaith arfaethedig aelodaeth y Comisiwn yn debyg i un Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn yr ystyr bod y meysydd a gynhwysir yn cysylltu'n dda â'i gilydd.
- 14.4 Sylwyd bod y cynigion yn 'holl gwmpasog' ac yn ymdrin â thiriogaeth sylweddol ond eu bod er hynny yn brin o fanylion ynghylch gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth sgiliau ac addysg. Y farn oedd bod natur y cynigion yn ymdrin â 'mecaneg' y ddarpariaeth yn hytrach na chynnwys y ddarpariaeth. Sylwyd hefyd y gallai fod perygl i'r cynigion gael eu 'glastwreiddio' o ganlyniad i'r broses ymgynghori.

Goblygiadau'r cynigion i gyflogwyr

- 14.5 Sylwodd y cyfranwyr fod y ddogfen ymgynghori yn 'eithaf technegol' ei natur, ac o ganlyniad barnwyd nad oedd yn neilltuol o berthnasol na threuliadwy i gyflogwyr. Yn yr ystyr hon dadleuwyd y byddai cyflogwyr yn elwa o dderbyn nodyn briffio cryno wedi ei addasu ar gyfer cyflogwyr, gan ychwanegu y byddai'r pecyn cyfathrebu (a gylchredwyd yn y digwyddiad) yn addas. Yng ngoleuni'r anawsterau o sicrhau presenoldeb cyflogwyr yn y tri digwyddiad i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr awgrymwyd hefyd y gallai fod yn werth i Lywodraeth Cymru ystyried mynd i gyfarfodydd rhwydweithio sy'n digwydd eisoes, fel rhai'r Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol / Partneriaethau Bargaen Ddinesig. Byddai'r cyfranwyr yn croesawu hefyd gael eu diweddaru am ddatblygiadau dros amser gan Lywodraeth Cymru, gan awgrymu y gellid rhoi diweddariadau i gyflogwyr ar gerrig milltir allweddol o fewn y broses.
- 14.6 Roedd un cyflogwr o'r farn nad oedd y ddogfen ymgynghori yn neilltuol o berthnasol iddyn nhw oherwydd ei bod yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â phrosesau yn hytrach nag ar weledigaeth Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn ar gyfer darpariaeth sgiliau ac addysg. Fe wnaeth un arall, a oedd wedi dosbarthu'r ddogfen

ymgynggori i'w aelodaeth o gyflogwyr, y sylw nad oedden nhw chwaith yn meddwl ei bod yn berthnasol iddyn nhw yn wyneb y pwyslais ar ddarparwyr dysgu a'u perthynas gyda'r Comisiwn. Penderfynodd y cyflogwyr hyn na fyddent yn ymateb yn ffurfiol i'r ymarferiad ymgynghori o ganlyniad.

- 14.7 Roedd un cyflogwr o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar eu busnes na'u gweithlu gan eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparwyr dysgu seiliedig ar waith a oedd yn ymateb i'w hanghenion. Nid oeddent o'r farn y byddai dim o'r newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar y darparwr dysgu seiliedig ar waith rhag diwallu eu gofynion yn y dyfodol.

Diwygiadau arfaethedig i brentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith

- 14.8 Credai cyfranwyr mai Llywodraeth Cymru ddylai benderfynu ar ddyraniad cyllid ar gyfer y gwahanol fathau o ddarpariaeth (megis AU, AB a DSW) yn unol â'i pholisïau strategol, ond y dylid dyfarnu digon o hyblygrwydd i'r Comisiwn allu symud cyllid ar draws y penawdau cyllideb hyn er mwyn ymateb i gyfleoedd ac anghenion. Er hyn, dywedodd cyfranwyr fodd bynnag y byddai'n bwysig i'r Comisiwn allu gweithredu ar draws ffiniau sectorau yn yr ystyr na ddylai unrhyw weithio seilo ar draws AU ac AB er enghraifft gael ei annog yn y ffordd y byddai'r Comisiwn yn cael ei ariannu. Nodwyd bod y gwahaniaeth rhwng darpariaeth AB ac AU wedi dod yn llai eglur dros y blynyddoedd diwethaf a bod angen i strwythur y Comisiwn adlewyrchu hyn.
- 14.9 Roedd un pwynt pwysig a godwyd gan gyfranwyr yn ymwneud â'r angen i'r Comisiwn ystyried sut mae'n cyllido darpariaeth dysgu. Byddai'r cyfranwyr yn croesawu symudiad tuag at ddeilliannau cyllid fel y cyrchfannau gyflogaeth a sicrhawyd gan ddysgwyr, yn hytrach na model cyllido a oedd yn gwobrwyo 'tinau ar seddau'.
- 14.10 Dadleuai'r cyfranwyr yn gryf fod diffyg cyfatebiaeth sgiliau ar hyn o bryd rhwng anghenion cyflogwyr a'r sgiliau a'r cymwysterau sydd ar gael ymysg y rheini sy'n gobeithio ymuno â'r gweithlu, rhywbeth y dylai'r Comisiwn fynd i'r afael ag ef. Nodwyd amryw o enghreifftiau gan gynnwys diffyg dysgwyr a myfyrwyr peirianeg a gor-gyflenwad o unigolion yn cymhwyso gyda chymwysterau'n ymwneud â ffitrwydd. Awgrymwyd mai'r brif broblem yw diffyg diddordeb ac awydd ymysg disgyblion wrth adael ysgol i ymuno â rhai o'r proffesiynau hyn a dan-wasanaethir a bod darparwyr dysgu yn ei chael yn anodd recriwtio i'r cyrsiau hyn. Awgrymwyd felly fod angen ymdrechion pellach i gysylltu'r sector AHO ag addysg prif-ffrwd er mwyn ceisio annog pobl ifanc i ddilyn gyrfaedd o fewn galweddiaethau sy'n anodd recriwtio iddynt.
- 14.11 Nodwyd bod cyflogwyr â'u bryd ar recriwtio unigolion cytbwys ac amryddawn sy'n llawn brwdfrydedd i weithio. Sylwyd bod llawer o raddedigion ar hyn o bryd wedi'u dadrithio wrth adael y brifysgol ac yn

methu â sicrhau swyddi lefel graddedigion tra bod eraill yn teimlo bod ganddynt hawl i swydd lefel graddedigion.

- 14.12 Roedd y grŵp o'r farn hefyd y byddai gan y Comisiwn rôl bwysig wrth sicrhau y byddai cyflenwad digonol o ddarpariaeth seiliedig ar waith o safbwynt daearyddol ledled Cymru. Gwnaed y sylw gan un cyfrannwr fod diffyg darpariaeth ar hyn o bryd mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys Powys a Ceredigion) ond y gallai'r Comisiwn yrru datblygiad darpariaeth ar-lein er mwyn sicrhau bod gan weithwyr cyflogedig fynediad teg at ddarpariaeth lle bynnag roeddent yn byw neu weithio.
- 14.13 Ystyriodd y grŵp sut byddai gwaith y Comisiwn yn cael ei gysoni â gwaith Cymwysterau Cymru. Roedd y cyfranwyr yn holi a oedd angen gwahanu'r gwaith cynllunio a chyllido'r ddarpariaeth (rôl y Comisiwn) odddi wrth ddatblygu fframweithiau (a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd) a pharatoi cymwysterau (a gyflawnir gan Cymwysterau Cymru). Holodd un cyfrannwr a oedd yn rhesymegol cael dau wahanol gorff yn gyfrifol am y gwahanol elfennau hyn neu a ddylai'r Comisiwn ddod yn gyfrifol am gynllunio a chyllido darpariaeth yn ogystal â datblygu cymwysterau a fframweithiau, ond gyda ffiniau clir a threfniadau llywodraethu priodol. Byddai'r cyfranwyr yn sicr yn croesawu mwy o eglurder ar y mater hwn ac roeddent yn dadlau'r achos dros gael endid sengl gyda chyfrifoldeb am bob elfen: 'pam na allwch chi gael endid sengl ar gyfer y rhain i gyd – pam fod angen iddyn nhw fod ar wahân?'
- 14.14 O ran yr ardoll brentisiaethau, dywedodd un cyflogwr nad oeddent yn cytuno â hi o angenrheidrwydd gan nad yw'n cynnig unrhyw hyblygrwydd iddynt. Nodwyd bod yn ofynnol iddynt dalu'r ardoll hon boed nhw'n defnyddio darpariaeth prentisiaethau neu beidio. Dadleuwyd ymhellach gan y cyflogwr hwn fod cyfnod prentisiaeth o ddwy flynedd yn annigonol i hyfforddi gweithiwr a'u bod (ynghyd â chyflogwyr mawr eraill) yn cynnig prentisiaethau pedair blynedd i'w gweithwyr a fydd yn arwain at gymhwyster HNC. Maent yn cyllido dwy flynedd olaf y brentisiaeth hon yn uniongyrchol eu hunain ac mae'r cymhwyster yn mynd y tu hwnt i set safonau'r fframweithiau presennol. Rhybuddiwyd bod perygl fod prentisiaethau'n cael eu hystyried gan wleidyddion fel y 'gair hudol' newydd yn yr un modd ac y cefnogwyd graddau tua deng mlynedd yn ôl yn hytrach na chymwyster ystyrlon a buddiol.

C3: A ydych chi'n cytuno y dylid gwneud Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru yn rhan o'r Comisiwn i gryfhau cysylltiadau rhwng y Comisiwn a chyflogwyr?

- 14.15 Roedd cyfranwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, gan ychwanegu ei bod yn rhesymegol i gyfrifoldebau'r ddau Fwrdd hyn cael eu cymryd i gylch gwaith y Comisiwn. Roedd y cyfranwyr yn dadlau y byddai'r cynnig hwn yn cryfhau cylch gwaith y Comisiwn ac yn galw ar i'r pwyllgor a fyddai'n cael ei sefydlu fod â chynrychiolaeth briodol.

C16: Pa wybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sydd â Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd y dylai'r Comisiwn ei rhyddhau i'r cyhoedd?

- 14.16 Roedd cyfranwyr yn croesawu'r ffaith y byddai sefydlu'r Comisiwn yn caniatáu i wybodaeth a data am ddarparwyr dysgu a oedd yn gweithredu mewn AU, AB a darpariaeth seiliedig ar waith gael eu cyhoeddi mewn un lle. Byddai dod â'r data at ei gilydd mewn un lle yn ei gwneud yn llawer haws i gyflogwyr gael ato a'i ddeall – ar hyn o bryd mae'n anodd i gyflogwyr allu adnabod pa ddarpariaeth sydd ar gael ar draws AB, AU a DSW gan eu bod yn gorfod chwilio amdano o sawl gwahanol ffynhonnell. Dadleuwyd hefyd y dylai'r Comisiwn sicrhau bod data ar ddarpariaeth a deilliannau dysgwyr ar gael yn llawer mwy prydlon. Esboniodd un cyfrannwr eu bod ar hyn o bryd yn dibynnu ar ddata sy'n ddwy flynedd oed fel sail ar gyfer eu cynllun rhanbarthol.
- 14.17 Yng ngoleuni sylwadau blaenorol am yr angen i gyllido darpariaeth ar sail deilliannau, roedd cyfranwyr o'r farn y byddai'n holl bwysig fod y Comisiwn yn cyhoeddi data ar gyrchfannau cyflogaeth dysgwyr gan y byddai hyn yn helpu arwain y penderfyniadau a wneir gan ddarpar ddysgwyr ac yn hysbysu cyflogwyr ar y nifer o ddysgwyr sy'n cael gwaith yn eu sector. Yn wir, awgrymwyd y dylai'r Comisiwn ailedrych ar y math o ddata a gaiff ei gyhoeddi a symud tuag at gyhoeddi gwybodaeth ar ddeilliannau dysgwyr gan gynnwys cymwysterau dysgwyr, camu ymlaen i ddysgu pellach a chamu ymlaen i waith cyflogedig.

C30: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn barhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio arlwy darparwyr dysgu?

- 14.18 Efallai nad oedd yn syndod fod y cyfranwyr, drwy fod dau ohonynt yn cynrychioli Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, yn cytuno â'r cynnig hwn. Dadleuwyd bod y Partneriaethau'n cynrychioli llais torfol cyflogwyr a fyddai'n sicrhau y gellid briffio'r Comisiwn yn gywir ar anghenion cyflogwyr. Y farn oedd bod y cynlluniau rhanbarthol a gynhyrchwyd gan Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ddogfennau ac iddynt sail da o dystiolaeth ac ymchwil a allai lywio gwaith y Comisiwn.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 14.19 Nid oedd y cyfranwyr yn meddwl y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau nac arbedion uniongyrchol i gyflogwyr, gan fod y diwygiadau'n rhai technegol eu natur. Y farn oedd ei bod yn amhosibl rhagweld a fyddai'r diwygiadau'n cael unrhyw effaith ar ffioedd uwch am brentisiaethau yn y dyfodol.

Nodweddion gwarchodedig a'r iaith Gymraeg

- 14.20 Ni chynigiwyd unrhyw argymhellion penodol gan y grŵp ar sut y gellid llunio'r polisi arfaethedig neu ei newid er mwyn cael unrhyw effeithiau ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y grŵp o'r farn yn hytrach nad oedd gymaint o alw am hyfforddiant seiliedig ar waith Cymraeg o safbwynt cyflogwyr. Dywedodd un cyflogwr mai eu hiaith gyfathrebu corfforaethol fel busnes rhyngwladol oedd Saesneg ac nad oedd unrhyw fudd masnachol iddynt fel busnes fynnu darpariaeth hyfforddiant Cymraeg. Rhagwelid y byddai'r galw am ddarpariaeth Gymraeg yn dod yn hytrach gan gyflogwyr sector cyhoeddus a dysgwyr eu hunain (o ganlyniad i niferoedd uwch yn derbyn addysg gyfrwng Cymraeg). Yn olaf, awgrymwyd y byddai'n briodol canolbwyntio ymdrechion i ddatblygu darpariaeth seiliedig ar waith Gymraeg ar draws rhai sectotrau blaenoriaeth allweddol megis gofal cymdeithasol, lletygarwch ac amaethyddiaeth.

15. Sicrwydd Ariannol a Llywodraethiant

4^{ydd} Gorffennaf 2018

15.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Prifysgolion Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Prifysgol Abertawe
- CCAUC
- Colegau Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Prifysgol Aberystwyth

C60: A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi pwerau statudol penodol i'r Comisiwn newydd mewn perthynas â sicrhau rheolaeth ariannol, cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant darparwyr AHO?

15.2 Roedd cytundeb ei bod yn debygol y dylid rhoi pwerau statudol i'r Comisiwn, yn enwedig o ran egwyddorion lefel-uchel, ond roedd cwestiynau sylfaenol ynghylch:

- Natur y pwerau;
- y deilliannau a ddeisyfir;
- canfyddiad o ddiffyg manylder yn y cynigion;
- a ddylai deddfwriaeth fod yn gorchymyn polisi a'r;
- priodoldeb o safbwynt cyflawni deilliannau megis sector cynaliadwy.

15.3 Siaradodd un cyfrannwr am yr angen i ddeall natur y pwerau arfaethedig – gwybod beth ydynt cyn trafod sut y cânt eu gweithredu. Iddyn nhw, y gair allweddol oedd sicrwydd, a'r angen i wahaniaethu rhwng hyn a rheolaeth. Roedd teimlad bod angen canolbwyntio sylw ar wario arian cyhoeddus ac anghenion myfyrwyr a chynigiwyd mai dyma ddylai benderfynu pa bwerau ddylai fod yn gysylltiedig â gweithgareddau'r Comisiwn.

15.4 Gwnaed y pwynt fod sefydliadau addysg bellach eisoes yn amlwg gysylltiedig â'r Llywodraeth, ond na ddylid rhoi cynigion ar waith i gau'r bwlch hwnnw, a siaradodd un cyfrannwr am ei ofnau o "geffyl Troea" o reolaethau a mesurau a allai wneud hyn.

15.5 Roedd rhywfaint o drafodaeth ynghylch rôl y Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, a risg y gallent fod yn rhy haearnaidd i ganiatáu cydbwysedd pragmataidd rhwng sicrwydd a hyblygrwydd. Y teimlad oedd y dylai'r agweddau rheoleiddiol fod yr un fath â chofrestru, gyda'r Comisiwn yn cael ei adael i ddiffinio agweddau'r deilliannau. Cafodd y model ei ddisgrifio fel "optio i mewn a derbyn rheolaeth

reoleiddiol”, ond nodwyd bod y lefalau uchaf o risg ymysg y rhai nad oedd yn optio i mewn. Roedd ofn bod y rheini sy’n dod i mewn i’r system yn wynebu graddau o reoleiddio a allai weithio yn erbyn buddiannau myfyrwyr.

- 15.6 Roedd cynrychiolydd o’r sector AU yn cydnabod bod ar y Comisiwn angen y pwerau i weithio a’i bod yn hanfodol rheoleiddio i’r safonau uchaf – ond y teimlad oedd bod hyn eisoes yn digwydd yn eu sector, felly roedd yn anodd gweld lle’r oedd angen newid. Roedd galwad am wahaniaethu rhwng darparwyr sy’n sefydliadau sector cyhoeddus a’r rheini nad ydynt (o dan Ddeddf Cymru 2017, nid yw prifysgolion). Dylid cydnabod hefyd fod cyllid bellach yn cyfrif am gyfran is o gyfanswm incwm darparwyr a bod hyn â goblygiadau i gwmpas pwerau’r Comisiwn. Er enghraifft, ni chyfrifir grantiau a chymorth i fyfyrwyr fel cyllid mewn cyd-destunau eraill.
- 15.7 Mynegodd y cyfranwyr barodrwydd i roi sylwadau a chynigasant help os oedd angen i ddrafftio trefniadau – o bosibl gan ystyried profiad o Seland Newydd. (Fel enghraifft, adroddwyd sut oedd Seland Newydd wedi cyflwyno dull cyfunol o fonitro ariannol ar draws sectorau, ond gyda 600 o gyrff cymwys i ymdrin â nhw roedd y broses wedi dod yn anhylaw). Roedd hyn yn adleisio pryder y gallai’r nifer mawr o ddarparwyr yng Nghymru fod yn brawf llym o’r model a nodwyd bod Lloegr wedi symud at ddull seiliedig ar risg. Y teimlad oedd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o leiaf o oblygiadau dull o’r fath o ran adnoddau.
- 15.8 Ar nodyn gwahanol, cynigiwyd y dylai’r Comisiwn gael rôl mewn gweithredu ar weledigaeth Llywodraeth Cymru mewn ystyr ragweithiol a phheidio â chanolbwyntio’n gyfan gwbl ar reoli a delio gyda methiant.

C61: A ydych chi’n cytuno y dylai pob darparwr AHO fod yn ddarostyngedig i egwyddorion tebyg o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant? A ddylai’r Comisiwn allu cymhwyso trefniadau a gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau neu gategorïau o ddarparwyr AHO?

- 15.9 Yn gyffredinol, teimlai’r cyfranwyr y dylai fod egwyddorion tebyg o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant i bob darparwr, ond y byddai’n rhaid cael gwahanol drefniadau yn ymarferol. Roedd neges glir na ddylid seilio pwerau statudol ar ddull ‘un maint ar gyfer pawb’ ac y dylid cymryd barn seiliedig ar risg, am amryw o resymau:
- i gyfrif am wahaniaethau cyfreithiol yng nghyfansoddiad sefydliadau darparu – rhywbeth y dywedwyd y caiff ei gydnabod yn y ddogfen;
 - er mwyn osgoi baich diangen ar ddarparwyr;
 - i gynnal cystadleurwydd â phrifysgolion Lloegr;
 - i gyfrif am gynnwys dosbarthiadau chwech / awdurdodau lleol a i ymdrin â chontractau gyda sefydliadau addysg uwch a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Y teimlad oedd bod rhai llinellau aneglur rhwng y categorïau hyn, gan y gallai un darparwr gyflwyno o dan

amryw o feysydd. Awgrymwyd felly mai deilliannau yw'r ystyriaeth bwysicaf, yn hytrach na sectorau.

- 15.10 Ymhelaethwyd ar y pwynt hwn gan ddarparwr AB a deimlai y byddai'n anodd gwahaniaethu rheoleiddio yn ôl sector, gan fod AB yn cynnwys amryw o feysydd cyflwyno gwahanol. Cynigiwyd bod angen symleiddio'r ystod o sicrwydd seiliedig ar ddarpariaeth; gan gymryd y gorau o'r modelau sy'n bod eisoes ac osgoi dyblygu.
- 15.11 Nodwyd y byddai gweinyddu contractau yn digwydd o dan amodau'r contract – felly roedd y cynnig yn defnyddio dull “belt and braces and pieces of string”.

C62: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Comisiwn arfaethedig i gyhoeddi cyfres ffurfiol o ofynion ac amodau yn ogystal â darparu canllawiau i ddarparwyr a chyngor ar arfer da?

- 15.12 Roedd ar yr holl gyfranwyr eisiau gweld mwy o fanylion o'r gofynion ffurfiol cyn gwneud sylwadau manwl ar y C hwn. Roedd rhywfaint o drafodaeth am y graddau o ffurfioldeb a'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch beth sy'n rhaid cydymffurfio ag ef a beth sy'n disgyn i'r categori ymgynghorol.
- 15.13 Ar y cyfan roedd cefnogaeth i fodel hybrid fel a ddisgrifiwyd, ond gyda'r rhybudd o angen gwirioneddol am eglurder ar y broses, am gydbwysedd gofalus ac am bwysleisio'n glir egwyddorion sicrwydd. Byddai cyfres rhy eang o bwerau yn galluogi'r Comisiwn i osod rheoliadau mewn bron i unrhyw gyd-destun. Gallai fod rôl i gyrff cyfryngol gynnig cyngor ac enghreifftiau o'r arferion gorau.

C63: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, ac y dylai'r ddeddfwriaeth bennu fframwaith bras ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant a rhoi disgresiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei ofynion o fewn y fframwaith hwn?

- 15.14 Ydym – mae hyn yn gofyn lwybr canol; er y dylid diffinio ffiniau cyn newidiadau deddfwriaethol. Mae'r term “fframwaith bras” yn rhy llac i ddibenion deddfwriaeth.
- 15.15 Roedd rhywfaint o nerfusrwydd o ran y risg o ailddosbarthiad ONS o sefydliadau a'u statws elusennol, pe baent wedi eu clymu'n rhy agos at weithredu ar bolisi llywodraeth. Y farn oedd ei bod yn hanfodol y dylai gyrff llywodraethu sefydliadau fod yn gyfrifol am roi cyfeiriad strategol. Gall fod angen adolygu cymysgedd sgiliau gyrff llywodraethu yng ngoleuni hyn.

C64: Ydych chi'n cytuno:

y dylid rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â darparwyr AHO ac unrhyw bersonau eraill y mae eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

y dylai Gweinidogion Cymru allu darparu canllawiau i'r Comisiwn ar ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a llywodraethiant ac y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn dalu sylw i'r canllawiau hyn?

y byddai'r gofynion uchod yn ddigonol i sicrhau nad yw trefniadau'r Comisiwn ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn mynd y tu hwnt i'r cwmpas bwriedig? A oes angen unrhyw fesurau diogelu eraill?

- 15.16 Yn gyffredinol, roedd cytundeb gyda'r egwyddorion a ddisgrifir yma. Roedd dyletswydd glir i ymgynghori gyda darparwyr (er mwyn osgoi'r risg o adolygiad barnwrol) a derbyn cyngor a barn gan y Llywodraeth. Yn ddelfrydol, y teimlad oedd y dylai hyn ddatblygu lif o gyd-drafod dwy-ffordd, i alluogi darparwyr i roi adborth i'r cyngor a'r canllawiau.
- 15.17 Roedd rhywfaint o drafod ynghylch beth ddylai fynd i ddeddfwriaeth neu y dylid ei ddatblygu'n ddiweddarach. Roedd teimlad y dylid cymryd gofal i gynnal gradd o hyblygrwydd, fel bod y Comisiwn yn gadw'r potensial i newid ei ganllawiau. Felly dylai hyn fod ar lefel uchel o safbwynt manylder mewn statud, gyda'r posibilrwydd o ddiwygio'r manylion. Nid yw'r rheolaeth ariannol bresennol yn ddigon hyblyg i ymdrin â newidiadau cyd-destunol ar fyr rybudd.
- 15.18 O safbwynt canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, roedd teimlad bod angen deall mwy ynghylch beth yn hollol fyddai'r canllawiau a'r diffiniad o "talw sylw". Gallai fod mwy o rôl i ofyn am ganllawiau gan Gynulliad Cenedlaethol ar yr hyn roedd arnyn nhw ei eisiau ac i'r Comisiwn dalu sylw i hyn.
- 15.19 Roedd pryderon ynghylch a oedd y cynigion yn darparu diogelu digonol – gydag un cyfrannwr yn awgrymu y byddai gwirio a chydbwyso annigonol yn eu lle heb fanylion pellach. Y teimlad oedd bod angen penderfynu beth sy'n briodol o fewn corff y Bil, nid yn ôl disgrisiwn Gweinidogion. Awgrymwyd y gall fod angen cynnwys rhai trefniadau craffu allanol.

C65: A oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon ynghylch y cynnig bod y Comisiwn yn gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr AHO, yn cynnal adolygiadau sicrwydd rheolaidd, ac yn mynd i mewn i eiddo ac edrych ar ddogfennau neu ddeunyddiau, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

- 15.20 Roedd cytundeb gyda'r cynnig i sicrhau gwybodaeth fel bo'r angen i ddarparu sicrwydd. Roedd disgwyliad bod y Comisiwn yn

gweithredu'n rhesymol ac mewn ymateb i bryderon cyfreithlon yn y cyd-destun hwn. Awgrymwyd gan un cyfrannwr fod y cyfeiriad at fynd i mewn i eiddo yn teimlo braidd yn llym, er i un cynrychiolydd AB ddweud fod trefniadau tebyg eisoes ar waith yn eu sector a bod cyfiawnhad dros ddisgwyl hawl mynediad pan fod symiau sylweddol o arian cyhoeddus yn y fantol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod angen i hyn fod er mwyn sicrwydd ac nid at ddibenion eraill.

C66: A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn amrywiaeth o bwerau ymyrryd er mwyn ymdrin â methiant i gydymffurfio â gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

- 15.21 Bydd ar y Comisiwn angen pwerau addas ynghylch sicrwydd, mewn achosion lle adnabuwyd risgiau. Roedd ar gyfranwyr eisiau gweld dull cytbwys – gyda phwerau'n ddigon cadarn i amddiffyn buddiannau dysgwyr, y defnydd o gyllid cyhoeddus ac uniondeb sefydliadol. Roedd pryderon ynghylch y defnydd o bwerau mewn perthynas â dosbarthiadau chwech ysgolion ac a ellid gweithredu cosbau ar gyrrff llywodraethu ysgolion, pan fo'r brif berthynas ariannu gydag awdurdodau lleol.

C67: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu pwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac y dylid galluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch arfer y pwerau hynny?

- 15.22 Nid oedd cyfranwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, gan gredu y gallai fod yn mynd yn groes i drosglwyddo cyfrifoldebau o Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn. Roedd cadw pwerau yn cael ei weld fel adlewyrchu'r arferion presennol yn hytrach na gweledigaeth ar gyfer ffordd newydd o weithio.

C68: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo rôl Prif Reoleiddiwr Elusennau ar gyfer sefydliadau addysg bellach i'r Comisiwn arfaethedig? Beth yw eich barn ynglŷn â'r cynnig i gadw'r gofyniad presennol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gofrestru â'r Comisiwn Elusennau?

- 15.23 Roedd cytundeb gyda'r cynnig hwn – gyda chonsensws ei fod yn gwneud synnwyr i'r Comisiwn fod yn rheoleiddiwr sefydliadau addysg bellach. Gwnaed y sylw fod statws elusennol wedi bod yn ddefnyddiol wrth gadw ymreolaeth ymysg sefydliadau addysg uwch. Roedd, fodd bynnag, rai pryderon ynghylch sut y gallai'r ddeddfwriaeth fod yn cael ei drafftio.
- 15.24 Nodwyd bod dyletswydd gan CCAUC ar hyn o bryd i sicrhau nad yw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â gofynion elusen (neu yn wir yn gorfodi sefydliadau i wneud hynny). Dywedwyd bod y Comisiwn

Elusennau fel y rheoleiddiwr yn darparu gwirio a chydbwysu ac y gallai unrhyw resymoli arwain at ofyn i'r Comisiwn weithredu fel "postiar a chiper".

- 15.25 Cydiwyd yn y pwynt gan gynrychiolwyr AB, a allai ddeall y tensiynau posibl a allai godi pe bai'r Comisiwn yn cymryd y rôl ddeuol hon. Fodd bynnag, roedd cael un gyfres o ffurflenni'n ymddangos fel petai'n symlach, ac felly efallai y byddai'n werth y risg.

Cwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg

- **Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:**
- **cael effeithiau positif neu gael effeithau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;**
- **peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- 15.26 Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yng nghydestun y drafodaeth hon.

Cwestiynau ynghylch Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Pa gostau neu arbedion ariannol yn eich barn chi a fydd yn deillio o'r diwygiadau arfaethedig hyn, ym mhob un o wahanol rannau'r sector ac yng Nghymru, yn y tymor byr (wrth i'r newidiadau ddod i rym) ac yn yr hirdymor?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill y gellid eu teimlo ar draws gwahanol rannau o'r sector yn y tymor byr a'r hirdymor?

- 15.27 Pwysleisiodd un o gynrychiolwyr y sector AU ei bod yn bwysig peidio â chaniatáu i unrhyw newidiadau effeithio ar hyder buddsoddwyr mewn sefydliadau. Roedd hyn yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol i sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei ddyrannu i wneud newidiadau'n effeithiol, gydag enghraifft ELWa yn cael ei roi fel sefydliad a oedd wedi cael ei ariannu'n annigonol i gyflawni newid trawsffurfiannol yn ogystal â chyflawni swyddogaethau arferol o ddydd i ddydd. Gan adeiladu ar hyn, awgrymwyd y gallai buddsoddiad o'r cychwyn sicrhau y byddai llai o ddefnydd o'r amrywiaeth o bwerau rheoleiddio newydd.
- 15.28 Roedd sylw hefyd y gallai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ofyn am lawer iawn o adnoddau i'w rhoi ar waith gan fod pob un yn gytundeb a drafodwyd rhwng y Comisiwn a darparwr. Dadleuwyd a allai fod ateb mwy cost-effeithiol i sicrhau cytundeb. Crybwyllwyd y model yn yr Iseldiroedd fel enghraifft o pa mor drafferthus y gallai hyn fod.

- 15.29 Bydd angen i'r holl ddarparwyr fabwysiadu / addasu system reoli gwybodaeth i fod yn gydnaws â'r gyfundrefn newydd. Roedd awgrym y gallai'r gyfundrefn newydd adeiladu ar systemau CCAUC, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cynhwysedd presennol – math o fodel CCAUC+.

16. Prentisiaethau

6^{ed} Gorffennaf 2018

16.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- CCAUC
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- TATA Steel
- FSB
- Prifysgolion Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Estyn
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Prifysgol Caerdydd
- City & Guilds
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- TSW
- ECITB
- Dwr Cymru
- Educ8training
- Comisiwn y Gymraeg
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cymwysterau Cymru

Q53: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn chwarae rôl ganolog o ran datblygu Prentisiaethau yng Nghymru? Yn benodol, a ddylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i gyhoeddi Llwybrau Prentisiaeth yn ogystal â Thystysgrifau Prentisiaeth?

- 16.2 Roedd cytundeb gyffredinol y dylai'r Comisiwn chwarae rôl ganolog o ran datblygu Prentisiaethau; fodd bynnag, y thema allweddol yn rhedeg drwy'r holl sesiwn oedd bod y system Prentisiaethau yn gofyn am ddiwygio ar frys a bod angen i hyn ddigwydd cyn yr amserlen debygol ar gyfer sefydlu'r Comisiwn.
- 16.3 Mae'r system Prentisiaethau presennol yn hirfaith. Mae'n cymryd yn rhy hir i drosi safonau yn fframweithiau. Mae'n her neilltuol trosi safonau Lloegr yn fframweithiau Cymreig, sy'n arbennig yn achosi rhwystredigaethau i ddarparwyr trawsffiniol.
- 16.4 Y farn oedd y gallai'r Comisiwn chwarae rhan mewn gwella effeithlonrwydd yn y broses. Nodwyd fodd bynnag bod y Sefydliad Prentisiaethau (IfA), [y corff o dan nawdd adran addysg Lloegr sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd safonau prentisiaethau ac sy'n cynghori'r llywodraeth ar gyllid ar gyfer pob safon yn Lloegr] wedi wynebu

anawsterau o safbwynt yr amser mae'n ei gymryd i gael y safonau wedi eu cymeradwyo. Yr her arall i Loegr oedd nad oedd y strwythur hwn yn ei le pan gychwynnodd y diwygiadau i Brentisiaethau ac felly cymerodd yr IfA gyfrifoldeb am dirwedd oedd yn esblygu. Awgrymodd un cyfranogwr fod hyn yn ddadl dros gael y strwythurau yn eu lle yn gyntaf (sef y Comisiwn) cyn gwneud newidiadau mawr i'r system Prentisiaethau; fodd bynnag roedd hyn yn groes i farn y mwyafrif yn y grŵp, sef bod angen newid ar fwy o frys. Awgrymodd un cyfranogwr ein bod yn annhebygol o gael Comisiwn wedi'i sefydlu ac ar waith am 3-5 mlynedd, ac felly os ydym yn derbyn y bydd gan y Comisiwn ran allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu'r system Prentisiaethau, yna mae hynny'n golygu derbyn na fydd dim yn digwydd am beth amser.

- 16.5 Adroddwyd nad oedd gan Gyrff Dyfarnu ddim gwrthwynebiad cryf i'r Comisiwn ond arnynt angen eglurder ar bwy fydd yn datblygu a chymeradwyo'r fframweithiau.
- 16.6 Adroddwyd hefyd na fydd gan Cymwysterau Cymru ddim gwrthwynebiad i'r Comisiwn fod â rôl, er y bydd yn holl bwysig ystyried y berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a'r corff newydd gan fod risg o rolau'n gorgyffwrdd.
- 16.7 Cytunwyd bod angen diamheuol am gorff i edrych ar Brentisiaethau a bod angen gofyn dau gwestiwn allweddol fel rhan o'r broses ymgynghori:
 - Pa egwyddorion fydd angen eu pennu yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas â Phrentisiaethau?
 - Beth ddylai'r Comisiwn ei wneud wedyn mewn perthynas â Phrentisiaethau?
- 16.8 Y farn oedd y gallai'r ymgynghoriad technegol fod yn rhy fanwl a haearnidd ar y cam hwn o ran yr hyn a gynigir mewn perthynas â Phrentisiaethau.
- 16.9 Gwnaed cymhariaeth gyda sefydlu Cymwysterau Cymru, lle mai cyfyngedig oedd y manylion a nodwyd yn y ddeddfwriaeth o ran sut y byddai'r sefydliad yn gweithredu.
- 16.10 Un o'r rhesymau pam fod y system Prentisiaethau yng Nghymru mor araf yw bod y corff Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW) yn rhy haearnidd. Mae'n bwysig osgoi gwneud y camgymeriad hwn eto, trwy roi mewn cyfraith, ddeddfwriaeth sydd wedyn yn rhwymo.
- 16.11 Mae angen i'r ddeddfwriaeth fod yn ddigon agored i alluogi'r Comisiwn i fod yn hyblyg i anghenion cyflogwyr ac economi Cymru a mabwysiadu'r system Prentisiaethau i ymateb i newidiadau anrhagweladwy yn y cyd-destun ehangach.
- 16.12 Er enghraifft, awgrymwyd peidio ag enwi sefydliadau penodol yn y ddeddfwriaeth (er enghraifft y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol) gan y gall y ddeddfwriaeth barhau 30-40 mlynedd, ac felly mae angen hyblygrwydd o safbwynt pwy / pa gorff syn cyflawni'r rolau o weithio gyda'r Comisiwn.

- 16.13 Nodwyd mai'r flaenoriaeth yw dirymu amodau Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (ASCL) 2009 er mwyn galluogi Cymru i gymryd perchnogaeth o'i Phrentisiaethau, ac i weithredu'n gyflymach ar ddatblygu fframweithiau.
- 16.14 O ran cwrdd y system newydd, awgrymwyd na allwn fforddio system sy'n cyflwyno pob prentisiaeth i bob prentis – yn benodol, ni all Cymru fforddio swyddogaeth IfA – ac felly mae angen inni gydnabod angen i fabwysiadu elfennau o Loegr, lle mae bylchau yn system Cymru. Awgrymwyd bod angen cymryd gofal wrth fynd yn gyfangwbl yn ein ffordd (sef Cymru) ein hunain wrth ddatblygu system Prentisiaethau gan y gall fod yn well benthycu elfennau o rywle arall (sef Lloegr). Cytunwyd yn gyffredinol fod ar Gymru angen sy'n gweithredu'n llawn a all gymeradwyo ei fframweithiau ei hun sy'n addas i anghenion economi Cymru. Rhaid i unrhyw beth a gaiff ei fabwysiadu o Loegr fod y rhannau gorau o system Lloegr a'r hyn sy'n hysbys ei fod yn gweithio'n dda. Nodwyd bod llawer o densiwn rhwng Ofqual, DfE ac IfA yn Lloegr a bod angen osgoi hyn yng Nghymru.
- 16.15 Gwnaed y sylw mai'r bwriad a nodir yn y ddogfen ymgynghori yw y bydd y Comisiwn yn defnyddio Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu'r system Prentisiaethau, ond mewn gwirionedd mae mwy o ofyn am y cyngor hwn gan y rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cymwysterau. Gwnaed y pwynt mai'r cyfan yw Prentisiaeth yw fframwaith ar gyfer y cymwysterau sy'n sail iddo. Nid oes angen am gorff arall i oruchwylio'r cymwysterau gan fod Cymwysterau Cymru gennym eisoes. Awgrymwyd mai'r cymwysterau yw elfen fwyaf 'allweddol' y fframweithiau, gan mai dyma sy'n ffurfio'r elfen a gyllidir.
- 16.16 Er hynny, gan mai Prentisiaethau yw'r unig 'ffurf o ddysgu' a fydd yn croesi pob sector a sefydliad [sic], barnwyd ar draws y grŵp ei bod yn briodol i Brentisiaethau gael eu goruchwylio gan y Comisiwn.

C 54: Pa elfennau o'r system brentisiaethau bresennol sy'n gweithio'n dda ac y dylid eu cadw, a lle y gellir ei gwella drwy gael gwared ar gymhlethdod a gofynion statudol beichus?

Pwyntiau cyffredinol

- 16.17 Awgrymwyd bod cyfradd lwyddiant o 83% yn rhywbeth cadarnhaol ac na ddylid ei golli mewn unrhyw newid i'r ffordd y cyflwynir Prentisiaethau. Nid yw seilwaith Prentisiaethau yn dda gan ei fod yn rhy araf a'r prosesau yn rhy llafurus; fodd bynnag, mae gwaith cyflwyno rheng flaen Prentisiaethau yn rhagorol. Fodd bynnag, ailadroddwyd y pwynt na allwn arall saith mlynedd [sic] i gael corff newydd i symud ymlaen gyda gwella'r seilwaith, sydd 'wedi torri'.
- 16.18 O ran gofal cymdeithasol, nodwyd bod y fframwaith Prentisiaethau yn hanfodol ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu a'r hyn y mae darparwyr yn ei gyflwyno fel rhan o'r fframwaith Prentisiaethau i ddiwallu anghenion

cyflogwyr. Y diffyg cyflymder a hyblygrwydd wrth gymeradwyo fframweithiau yw'r hyn sydd angen ei wella, gan fod bylchau yn yr hyn sydd ar gael. Y flaenoriaeth yw bodloni gofynion 'helaeth' Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru ac mae hyn yn arafu pethau. Yn lle hynny, mae angen i'r pwyslais fod ar sicrhau bod y fframweithiau ar gael, a gall hyn olygu cymryd cymwysterau o Loegr, lle mae bylchau yn yr hyn sydd ar gael yma. Nodwyd bod saith o sefydliadau yn chwarae rhan wrth drosi anghenion hyfforddiant cyflogwr yn gymhwyster, ac mae angen iddo fod yn llawer cyflymach.

- 16.19 Agwedd arall o'r system bresennol y credid ei bod yn achosi problem yw'r ffaith mai cymwysterau yn unig mae Llywodraeth Cymru yn eu cyllido, ac nad cymwysterau yw hanfod pob Prentisiaeth. Yn Lloegr, ar y llaw arall, gall Prentisiaid weithio tuag at safonau sy'n seiliedig ar gymwysterau a safonau nad ydynt yn seiliedig ar gymwysterau.

Comisiynu/contractio

- 16.20 Cafodd y model contractio presennol ei ddisgrifio fel 'hunllef' ac awgrymwyd y byddai model comisiynu, yn seiliedig ar ffyrdd priodol o fesur ansawdd yn gweithio'n well. Ar hyn o bryd, gall darparwyr dderbyn eu contract ac yna gall pethau newid – er enghraifft cyflogwr newydd yn symud i'r ardal – ac mae'r darparwr yn gaeth gyda'r contract y cytunwyd arno nad yw efallai yn diwallu anghenion yr economi leol. Mae contractio hefyd yn ddull tymor byr a beichus o safbwynt ail-dendro. Mae hyn yn rhoi swyddi mewn perygl ac yn arwain at darfu ar y darparwyr. Nid yw'r system bresennol felly yn ffafriol ar gyfer ansawdd uchel. Byddai model comisiynu yn rhoi i ddarparwyr y sefydlogrwydd mae arnynt ei angen. Nodwyd bod arnom angen egluro'r math o berthynas y byddai'r Comisiwn yn ei gael gyda darparwyr. Nodwyd Gogledd Iwerddon fel enghraifft o lle mae model comisiynu ar gyfer Addysg Bellach a model tendro ar gyfer darparwyr hyfforddiant preifat. Y farn oedd bod arnom yng Nghymru angen cae chwarae gwastad i bob darparwr, waeth beth fo'r sector.
- 16.21 Roedd un cyfranogwr yn bryderus ynghylch y cyfeiriadau at statws elusen yn y ddogfen ymgynghori, a fyddai'n cau allan ddarparwyr DSW. Awgrymwyd bod angen gosod safonau y cytunwyd arnynt i ddarparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth a gyllidir (ee sefydlogrwydd ariannol, ansawdd etc) ac unwaith y'u gosodir, y dylai'r safonau hyn fod yr un gofynion i'r holl ddarparwyr yn yr holl sectorau, boed hwy â statws elusennol neu anelusennol. Awgrymwyd y gallai datganiad o fudd y cyhoedd hefyd fod yn ofniad.

C55: A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r trefniant bod Gweinidogion Cymru'n pennu'r gofynion lefel uchel ar gyfer gweithredu'r system brentisiaethau yn y modd a gynigir ar hyn o bryd drwy Fanyleb Brentisiaethau Cymru?

- 16.22 Nodwyd os gall Llywodraeth Cymru orfodi'r Comisiwn i gydymffurfio â'u safonau, bydd yn holl bwysig sicrhau bod Manyleb Brentisiaethau Cymru'n ddigon clir ac yn osgoi manylder haearnaidd y corff Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru.
- 16.23 Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch y syniad o Lywodraeth Cymru'n pennu sectorau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth a gyllidir. Ar y llaw arall, rhywbeth arall a nodwyd oedd os yw meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar argymhellion gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, yna dylai hyn gyfateb â blaenoriaethau'r Comisiwn.
- 16.24 Awgrymwyd bod datblygu manylion Manyleb Prentisiaethau Cymru ar y cam hwn yn annoeth a dianghenraid. Y cyfan sydd angen ei ddweud yn y ddeddfwriaeth yw y bydd gan y Comisiwn yr awdurdod i gymeradwyo fframweithiau Prentisiaethau. Ni ddylem sefydlu'r Fanyleb yn y ddeddfwriaeth gan mai dyma oedd y camgymeriad a wnaed gyda Phennu Safonau Prentisiaethau i Gymru. Prun bynnag, os yw'r ddeddfwriaeth i ddweud y byddai Llywodraeth Cymru gosod cyfeiriad ar sectorau blaenoriaeth, y bydd ganddi lythyr cylch gwaith at y Comisiwn ac y bydd yn gyfrifol am benodi aelodau, bydd ganddynt ddylanwad sylweddol dros y Comisiwn prun bynnag ac felly nid oes angen pennu Manyleb Prentisiaethau Cymru yn derfynol ar y cam hwn.
- 16.25 Nodwyd bod gan Gymwysterau Cymru restr o gymwysterau blaenoriaeth a gytunir ar y cyd rhyngddynt a Gweinidogion Cymru, ac y gellid datblygu cynllun 'hanner-ffordd' tebyg i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn mewn perthynas â Phrentisiaethau.
- 16.26 Awgrymwyd bod y siart llif arfaethedig ar gyfer y dyfodol yn ymddangos yn fwy cymhleth na'r model presennol. Holwyd pam fod angen am dri chorff i gyflawni rôl ymgynghorol [Bwrdd Ymgynghori ar Brentisiaethau Cymru, arbenigwyr sector yn ymwneud yn ffurfiol â chyflogwyr a phwyllgor ymgynghori statudol]. Gwnaed y pwynt mai po fwyaf o baneli a sefydlir y mwyaf o waith gweinyddol a biwrocratiaeth mae hynny'n ei olygu. Roedd rhywfaint o drafod ynghylch pa mor gynrychioliadol oedd y cyrff arfaethedig hyn, gan nad yw'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn tueddu i fod yn gynrychioliadol o gyflogwyr yng Nghymru ac y bydd yn bwysig rhoi llais i gwmnïau bach a chanolig. Cafodd hyd yn oed y broses arloesol yn Lloegr ei beirniadu am fod o dan reolaeth a dylanwad cyflogwyr mawr. Er nad oes mwyach gynhwysedd y Cynghorau Sgiliau Sector, bydd yn dal i fod yn hanfodol gwneud y gwaith caled o siarad gyda chyflogwyr. Awgrymwyd bod y siart llif yn ceisio ffurfioli pethau'n ormodol ar y cam hwn ac er mwyn hwyluso hyblygrwydd, mae'n angenrheidiol dweud y bydd y Comisiwn yn gweithio gyda chyflogwyr i arwaith datblygiad fframweithiau.

Cynnwys Prentisiaethau

- 16.27 Mynegodd un cyfranogwr fod yn well ganddo gymwysterau integredig o fewn y fframwaith Prentisiaethau a chyngorodd yn erbyn gwahaniaethu rhwng cymwysterau galwedigaethol a thechnegol o fewn Manyleb Prentisiaethau Cymru. Arweiniodd hyn at beth trafod ynghylch yr heriau o adnabod y fecanwaith orau ar gyfer asesu. Roedd cytundeb cyffredinol na ddylai Llywodraeth Cymru bennu'n derfynol sut y dylai Prentisiaethau fod a pha fodelau asesu y dylid eu defnyddio. Dylid ei adael ar lefel weddol uchel yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu ar gyfer addasu yn y dyfodol. Mae angen trafodaeth ar wahân i hon ynghylch strwythur y fframwaith Prentisiaethau. Yn ogystal, awgrymwyd bod angen i'r drafodaeth hon ddigwydd cyn sefydlu'r Comisiwn, a bod angen i Lywodraeth Cymru gychwyn y broses o ddileu Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ar unwaith.

Rôl Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru

- 16.28 Holwyd beth fyddai rhan y Bwrdd Cyngori hwn yn y tirwedd arfaethedig ar gyfer Prentisiaethau yn y dyfodol. Dywedodd un cyfranogwr, hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cyngori, fod y Bwrdd yn dal yn newydd iawn ac felly ei bod yn anodd bod â barn ynghylch a yw'n symud i'r Comisiwn neu beidio gan nad ydynt yn glir eto ynglŷn â'i swyddogaeth bresennol. Cytunwyd na ddylai'r Bwrdd, beth bynnag fydd ei rôl, fodloni ar fod yn grŵp atodol neu docenistaidd o gyflogwyr, ond bod angen iddo gael yr adnoddau digonol er mwyn cyflawni'r swyddogaeth a fwriadwyd ar ei gyfer. Dylai hefyd gael cylch gorchwyl a set o egwyddorion clir.

Rôl cyrff eraill

- 16.29 Gofynnodd un cyfranogwr sut y disgwylir i'r berthynas rhwng Cyswllt Ffermio a'r Comisiwn weithio, gan fod Cyswllt Ffermio – neu ei olynydd, ar ôl Brexit – yn debygol o fod y tu allan i'r Comisiwn ond ei fod yn bwydo i Brentisiaethau. Yn yr un modd, holwyd am ddyfodol Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, o safbwynt beth sy'n digwydd i elfen 'cyflogadwydd' y Bwrdd hwn os yw'n symud i mewn i'r Comisiwn.

Pwyntiau cyffredinol/materion/pryderon ynghylch y diwygiadau arfaethedig i Brentisiaethau

Llwybrau neu fframweithiau

- 16.30 Ni chafwyd llawer o gymeradwyaeth i'r syniad o newid o fframweithiau i lwybrau. Disgrifiwyd hyn fel 'newid er mwyn newid' a gallai achosi dryswch, gan fod gan y term llwybr ystyron eraill mewn addysg.

Ymwneud â Chyflogwyr

- 16.31 Mynegwyd pryder ynghylch diffyg ymwneud yn ddigonol â chyflogwyr fel rhan o'r broses ymgynghori, yn enwedig cyflogwyr yn y sector gofal, lle caiff cymaint o Brentisiaethau eu cyflwyno. Dywedwyd bod angen i Brentisiaethau fod ar gyfer cyflogwyr ac y gall fod yn anodd sicrhau eich bod yn ymwneud â'r math iawn o gyflogwyr gan mai gwlad o gwmnïau bach a chanolig yw Cymru. Ymatebodd cyfranogwr arall trwy ddweud mai mater i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ar y partneriaethau. Awgrymwyd fod angen strategaeth ymwneud â chyflogwyr ac y gallai fod yn angenrheidiol meddwl o'r newydd gan nad yw trafodaethau bord gron efallai'n addas i bob cyflogwr.
- 16.32 Gwnaed y pwynt fod prifysgolion eisoes yn dda am siarad gyda chyflogwyr am eu hanghenion hyfforddiant, ac yng nghyd-destun y Prentisiaethau Gradd newydd, mynegwyd pryder a yw'r Comisiwn yn ddigon hyblyg i alluogi prifysgolion (a darparwyr eraill) i ymateb yn gyflym i anghenion cyflogwyr. Ar hyn o bryd, er bod cyflogwyr yn dod i'r sector Addysg Uwch gyda'r cymwysterau mae arnynt eu hangen, mae sefydliadau addysg uwch yn gaeth gan na allant gyflwyno'r cymwysterau Lefel 6 a 7 mae ar gyflogwyr eu heisiau. Ar Lefel 5 ac yn is, mae'r un faint o angen am gyfrwng i drosglwyddo gwybodaeth am anghenion cyflogwyr i'r rheini sy'n datblygu'r cymwysterau.
- 16.33 Nodwyd bod y Cynghorau Sgiliau Sector, a oedd i fod yn gyfrifol am ymwneud â chyflogwyr, wedi cael eu gwanhau, a bellach y peth agosaf sydd gennym yng Nghymru i ffynonellau ystyrlon o dystiolaeth o anghenion cyflogwyr yw'r adolygiadau Sector a gyflawnir gan Gymwysterau Cymru; fodd bynnag, mae'r rhain yn cymryd llawer o amser ac adnoddau.
- 16.34 Cyfeiriwyd at y grwpiau 'Trailblazer' yr IfA fel ffordd wych o ddatblygu safonau prentisiaethau newydd gan eu bod yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac wedi arwain at ddatblygu llawer o safonau newydd. Dywedodd un cyfranogwr fod angen i Brentisiaethau Gradd gyfateb yn fanwl ag anghenion cyflogwyr ac nid yn bethau i'w 'cymryd oddi ar y silff'.
- 16.35 Nodwyd bod Dŵr Cymru, er yn sefydliad mawr mewn termau Cymreig, yn weddol unigryw ac felly mae angen wedi bod iddo edrych dros y ffin ar ddatblygiad cymwysterau yn Lloegr gan nad yw'r cymwysterau unswydd mae arnynt eu hangen ar gael yng Nghymru – cyfeiriwyd at hyn fel tystiolaeth fod cwmnïau mawr hefyd yn ei chael yn anodd o safbwynt cael mynediad at fframweithiau perthnasol.

Canolbwyntio ar gyflogwyr neu ddysgwyr

- 16.36 Nodwyd sawl gwaith yn ystod y grŵp fod angen inni roi dysgwyr yn gyntaf wrth esblygu'r system Prentisiaethau a bod angen inni osgoi dull sy'n gwneud popeth er mwyn y cyflogwyr. Dylai cael Comisiwn sy'n cynnwys cynrychiolaeth dysgwyr helpu i wella llais y dysgwr o fewn y system Prentisiaethau. Yn benodol, mae angen sicrhau y bydd

[yn dal i fod] system yn ei lle sy'n cefnogi prentisiaid y mae eu cyflogwyr yn mynd yn fethdalwyr.

- 16.37 Teimlais eraill yn y grŵp fodd bynnag fod Prentisiaethau ar gyfer cyflogwyr ac mai cyflogwyr yw'r prif gwsmer. Mae prentisiaid yn unigolion cyflogedig ac felly maent yn unigryw o gymharu â dysgwyr eraill.

C99: Effeithiau ar y Gymraeg

- 16.38 Cychwynnodd y drafodaeth hon gydag awgrym fod sefydlu'r Comisiwn, wrth fod darparwyr yn gorfod cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyma sydd ar ddysgwyr ei angen, yn annhebygol o gael unrhyw effaith. Cafodd ehangu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i Addysg Bellach a WBL ei gymeradwyo.
- 16.39 Adroddwyd bod ymchwil diweddar gan y Coleg wedi dangos nad oes gan ddysgwyr safbwyntiau cryf ar y Gymraeg ac y gallai fod mwy o hyrwyddo rhagweithiol ar wneud pethau yn y Gymraeg. Mae'r nifer o ddysgwyr a chyflogwyr sy'n gwbl rugl yn y Gymraeg yn isel, fodd bynnag mae gan lawer ryw lefel o sgil ac felly dylai'r pwyslais bellach fod ar wthio'r defnydd achlysurol o'r Gymraeg mewn AB a DSW. Mae cyflogwyr sector cyhoeddus a sector preifat yn aml yn chwilio am ryw lefel o allu i ymdrin â chwsmeriaid yn y Gymraeg ac felly mae er budd iddynt fod darparwyr AB a DSW yn helpu cyflogwyr i ddiwallu'r anghenion hyn. Bydd yn bwysig sicrhau bod y gofynion statudol ar y Comisiwn yn cefnogi'r hyn a wneir ynglŷn â'r Gymraeg. Awgrymwyd y byddai'n fanteisiol, yn yr un modd ag mae gofyniad i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg prif amcanion Cymwysterau Cymru [yn benodol, 'y buddioldeb o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'] cael rhyw fath o ddatganiad lefel uchel fel hyn i'r Comisiwn.
- 16.40 Bydd yn bwysig fod y Comisiwn yn rhoi sylw dyledus i annog Cymraeg sgysiol mewn DSW ac AB ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd dwyieithog neu led-ddwyieithog i ddysgwyr. Mae angen bod yn fwy blaengar yn y ffordd y caiff y defnydd o'r Gymraeg ei fonitro a'i gofnodi, sy'n symud y tu hwnt i gategoreiddio deuaidd o 'siaradwr Cymraeg' neu 'berson di-Gymraeg' ond sy'n cydnabod graddfa o allu.
- 16.41 Nodwyd hefyd fod y Gymraeg yn rhan o hunaniaeth Cymru a bod hyn yn werthfawr i rai cyflogwyr sy'n gweithio'n rhyngwladol, o safbwynt marchnata'r ased 'gwnaed yng Nghymru'. Mewn sectorau eraill (ee iechyd a gofal cymdeithasol) mae'n sgil angenrheidiol, ac felly gan fod Prentisiaeth yn fframwaith seiliedig ar sgiliau a chymwyseddau, dylid ei ffactoreiddio i mewn i'r gofynion. Mewn sectorau eraill, er enghraifft, dur, nid yw'n sgil angenrheidiol. Awgrymwyd y dylai'r Comisiwn adeiladu ar hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil ac wedyn canolbwyntiau ar ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth gyfrwng Cymraeg mewn meysydd lle mae'n sgil angenrheidiol.
- 16.42 Arweiniodd y pwynt hwn at rybudd gan un cyfranogwr a nododd fod y Gymraeg hefyd yn hawl ac y dylai fod yr hawl gan Prentisiaid i gwblhau eu Prentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, boed y Gymraeg

yn cael ei chanfod fel sgil gan y cyflogwr neu beidio. Ar hyn o bryd, mae'n hysbys nad yw'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg bob amser ar gael. Yn ogystal, hyd yn oed os yw'r cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw hyn bob amser yn golygu y manteisir arnynt ac felly mae arnom angen dulliau mwy arloesol o wneud y ddarpariaeth yn fwy gweladwy. Rhan o hyn yw dangos gwerth sgiliau Cymraeg i ddysgwyr.

- 16.43 Y pwynt olaf ar y Gymraeg oedd – fel gyda chymaint o elfennau eraill o drafodaeth y grŵp hwn – nad oes ond angen i gynnwys gofyniad statudol yn y ddeddfwriaeth fod y Comisiwn yn cefnogi ac yn annog y Gymraeg, ac y dylai Llywodraeth Cymru osgoi bod yn rhy benodol ynghylch y manylion.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 16.44 Awgrymwyd nad yw'n bosibl gwneud unrhyw fath o ddadansoddiad costau hyd nes bydd mwy o eglurder ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau i'r Comisiwn. Dywedodd un cyfrannwr fod unrhyw newid sylweddol fel arfer yn golygu cost. Yn ogystal, ni ddylem fod yn cychwyn ar y broses hon o ddiwygio'r sector AHO gyda'r nod o arbed arian. Dylai fod ynghylch gwneud y sector yn fwy effeithiol a lleihau dyblygu, ac nid cael ei ganfod fel ymarferiad arbed arian.
- 16.45 Awgrymwyd y gallai'r diwygiadau, os ydynt yn arwain at weithredu cyflymach gan y sector AHO, arwain at fuddion economaidd ymhen amser.
- 16.46 Un budd an-ariannol a allai fod fyddai gwell rhyngwyneb rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a datblygiad llwybrau cynnydd.
- 16.47 O ran prentisiaethau, gallai gael canlyniadau cadarnhaol neu negyddol. Mae risg o Brentisiaethau yn mynd 'ar goll' gan eu bod yn rhan o sefydliad mwy; fodd bynnag, gallai sefydlu'r Comisiwn greu cyfle hefyd i godi statws Prentisiaethau. Gallai hyn yn ei droi arwain at fuddion cymdeithasol pobl yn symud ymlaen i swyddi sy'n talu'n uwch a mwy o symudedd cymdeithasol, ochr yn ochr â'r buddion economaidd i'r wlad fel cyfanrwydd o gael gweithlu â sgiliau uwch.

Pwyntiau i grynhoi

- 16.48 Dywedodd un cyfrannwr fod adroddiad Hazelkorn wedi argymhell sefydlu corff a datblygu strategaeth ar y sector AHO, ac er bod llawer o siarad wedi bod am y 'corff' nid oes cymaint o drafodaeth wedi bod am y strategaeth. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd ateb llawer o'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori heb wybod y cyfeiriad strategol a gynigir. Heriwyd y pwynt hwn gan gyfrannwr arall fodd bynnag, a ddywedodd fod perygl os ydym yn datblygu a deddfwriaethu strategaeth fel rhan o'r broses hon, y gallai rwystro'r hyn y mae'r Comisiwn yn ei wneud yn y dyfodol.

- 16.49 Fe wnaeth cyfarnwyr nodi anghydbwysedd cynrychiolaeth sectorol yn y grŵp, gyda llawer o gynrychiolwyr addysg uwch a niferoedd annigonol o addysg bellach.

17. Asesiadau Effaith

9^{fed} Gorffennaf 2018

17.1 Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol yn y gweithdy:

- Chwarae Teg
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Eyst
- Cerdyn Coch Cymru
- Coleg Castell-nedd Port Talbot
- Chwaraeon Anabledd Cymru

Cyffredinol

- 17.2 Fel pwynt cyffredinol, roedd y cyfranwyr yn ei chael yn anodd amsugno'r holl ddogfen ymgynghorol i'r diben o ymateb i faterion cydraddoldeb. Roedd y mwyafrif wedi edrych drwyddi'r frysiog, ond roedd yn anochel fod pwyslais ar faterion mwy cyffredinol, ynghyd ag awydd i chwarae rôl barhaus mewn perthynas â materion mwy penodol.
- 17.3 Roedd ymatebwyr yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch y cynigion yn yr ystyr bod unrhyw beth sy'n dod â mwy o gydlyniaeth i'r broses o gynllunio a chyllido yn ddefnyddiol. Fe wnaeth un darparwr y pwynt fod cyfnodau hirach o gyllido yn ddefnyddiol er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth orau i bob dysgwr. Roedd teimlad fod y ddarpariaeth bresennol o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a chysiau sylfaen yn rhy ymatebol mewn llawer o achosion ac roedd mwy o amser cynllunio'n cael ei weld fel rhywbeth arbennig o ddefnyddiol i ddiwallu gofynion y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mynediad at ddysgu a chyflogaeth

- 17.4 Roedd teimlad bod gan y Comisiwn gyfle i weithredu i flaenoriaethu materion yn ymwneud â mynediad, gan ddefnyddio ei rôl ambarél i ddod â sectorau at ei gilydd i wella cyfathrebu a mynediad (sef rôl galluogi a rôl annog).
- 17.5 Roedd canfyddiad fod gadael cyn cwblhau cyrsiau yn fwy o broblem ymysg dysgwyr o grwpiau gwarchodedig na dysgwyr yn gyffredinol. Roedd gan un o'r rheini a oedd yn bresennol brofiad o gefnogi ac asesu a theimlai y dylid cydnabod gwerth cefnogaeth barhaus fel rhywbeth allweddol er mwyn osgoi gadael cyrsiau ymysg grwpiau gwarchodedig.
- 17.6 Gwnaed y pwynt fod angen inni ystyried amrywiaeth o fewn amrywiaeth a pheidio â dibynnu ar gategoriâu bras o ddysgwyr wrth ddyfeisio strategaethau. Dylai'r dulliau o weithredu fod ar sail cynllunio yn ôl gallu unigolion.

- 17.7 Awgrymodd cynrychiolydd dysgu seiliedig ar waith fod llawer o ddysgwyr nad ydynt yn gwybod am gyfleoedd i drosglwyddo neu gamu ymlaen i ddarpariaeth arall, ac y byddai dull sy'n darparu cysondeb rheoleiddio ac asesu yn helpu yn y cyswllt hwn. Roedd cytundeb cyffredinol fod dysgwyr du ac o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl wedi eu tan-gynrychioli mewn prentisiaethau, ynghyd â merched mewn pynciau STEM, ac y byddai cynllunio mwy hirdymor yn galluogi darparwyr dysgu i adeiladau perthynas fwy effeithiol a chydweithredol gyda chyflogwyr.
- 17.8 Roedd cynrychiolwyr Addysg Uwch yn cydnabod bod graddedigion ifanc du yn llai llwyddiannus na'u cyfoedion sydd â chymwysterau tebyg wrth sicrhau swyddi o safon ac y gallai'r sector wneud mwy i fynd i'r afael â hyn. Cyfeiriwyd at waith mewn lleoedd eraill a oedd wedi edrych ar y ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i swyddi a chydabuwyd bod angen i'r Comisiwn sicrhau bod pob sector yn gweithio i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth wrth gwblhau dysgu, yn ogystal â mynediad cychwynnol at ddarpariaeth.

Dilyniant

- 17.9 Croesawyd cylch gwaith pob-oedran (ôl-16) y Comisiwn, ynghyd â chydabyddiaeth o'r angen i sicrhau mynediad at ddarpariaeth i bob oedran o ddysgwr; gan amlygu llwybrau ar draws pob sector o ddarpariaeth.
- 17.10 I fyfyrwyr yn gyffredinol, teimlai un cyfrannwr fod angen i bobl ifanc gael eu helpu i sylweddoli'n well beth yw goblygiadau dewisiadau yn 14+ oed.

Aelodaeth y Comisiwn

- 17.11 Roedd rhai pryderon ynghylch aelodaeth arfaethedig y Comisiwn a'i allu i fod yn gynrychioliadol o grwpiau gwarchodedig yn ogystal â sectorau darparwyr.

Mynediad a chefnogaeth mewn Dosbarthiadau 6

- 17.12 Roedd rhywfaint o bryderon ynghylch gofynion mynediad ar wahân ar gyfer chweched dosbarth ysgolion, yn wyneb yr angen i sicrhau y dylid grymuso pob dysgwr i gymryd pa bynnag lwybr a ddewisant. Pwysleisiwyd bod tybiaeth o gymorth ar gael mewn dosbarthiadau chwech nad yw o anghenraid yno yn ymarferol.

Materion rhywedd

- 17.13 Teimlai un cyfrannwr fod diffyg ymdriniaeth o safbwynt rhywedd wrth edrych ar faterion o fewn y ddogfen. Adroddwyd bod helaethu cyfranogiad i ferched yn her – yn enwedig o ran cynnal parhad llwybr y dysgwr.

Staff Addysgu

- 17.14 Roedd trafodaeth ynghylch nodweddion staff addysgu yng nghydestun cydraddoldeb. Er enghraifft, nodwyd bod tri y cant o athrawon yng Nghymru'n dod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig, ac felly gallai myfyrwyr fod yn brin o fodelau rôl yn y cyswllt hwn. Nid oedd consensws ynghylch a ddylid gosod cwotâu ar gyfer amrywiaeth ymysg staff addysgu, gydag un cyfrannwr yn dweud bod graddfa'r her ddiwylliannol mor fawr fel y gellid ystyried cwotâu – er nad ydynt yn cynnig arf hudol – er mwyn creu newid sylfaenol mewn amrywiaeth.
- 17.15 Dywedodd cynrychiolydd dysgu seiliedig ar waith mai eu prif bryder oedd darganfod staff a oedd yn gymwys i gyflawni gofynion eu swydd a bod cael staff sy'n gallu siarad Cymraeg, er enghraifft, yn ychwanegu haen newydd o her. Byddai cwotâu yn peri anawsterau i lawer a oedd yn bresennol. Fodd bynnag, y teimlad oedd, fod darparwyr, yn gyffredinol, wedi dod yn fwy llwyddiannus wrth gysylltu dysgwyr sy'n siarad Cymraeg mewn DSW ag amgylcheddau lle siaredir Cymraeg.

Cyflogwyr

- 17.16 Cafodd y berthynas â chyflogwyr ei thrafod o safbwynt yr angen i sicrhau bod amrywiaeth helaeth o weithwyr cyflogedig yn cael eu cynnwys ar ôl dysgu ac y dylid herio cyflogwyr i ddarparu mynediad i weithwyr anabl. Gwnaed y pwynt y dylai sefydliadau addysg uwch yn benodol fynd y tu hwnt i gyfeirio gadawyr at gyflogwyr "brandiau mawr" a deall y buddion o weithio o fewn sefydliad llai. Roedd teimlad cyffredinol y dylai'r Comisiwn annog mwy o gydweithio rhwng cyflogwyr a darparwyr.

Materion gwledig

- 17.17 Roedd mynediad at ddewis yn cael ei weld fel yr her fwyaf mewn rhannau gwledig o Gymru – er enghraifft mewn ardaloedd lle'r oedd cyfyngiadau mewn dewisiadau trydyddol neu fynediad at addysg uwch.
- 17.18 I ddarparwyr, mae darpariaeth yn fwy costus mewn ardaloedd gwledig er y gellir llinaru hyn i ryw raddau trwy ddysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol, cyn belled â bod gan fyfyrwyr fynediad at y dechnoleg berthnasol. Gall cymorth i fyfyrwyr hefyd fod yn fwy anodd ei ddarparu dros ardal wledig denau ei phoblogaeth.

Hawliau plant

- 17.19 Codwyd y materion sy'n ymwneud â phlant yn gadael gofal, gan y gall y pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion fod yn straen. Siaradodd un cyfrannwr am bobl ifanc tua 22 oed yn "disgyn oddi ar

glogwyn" o safbwynt cymorth. Y teimlad oedd y gallai prentisiaethau gynnig ateb i rai o'r grŵp hwn.

- 17.20 Dywedwyd bod diweddu cymorth myfyrwyr ar 25 oed i ddysgwyr seiliedig ar waith yn arwain at adael cyrsiau cyn cwblhau.
- 17.21 Dywedwyd nad oedd unrhyw gyfeiriadau at Iaith Arwyddion Prydain yn y ddogfen.

Materion ynglŷn â'r Gymraeg

- 17.22 Roedd creu'r Comisiwn yn cael ei weld fel cyfle i rannu adnoddau sydd eisoes yn bod – er enghraifft rhwng AB ac AU.
- 17.23 Mae'n dal i fod prinder o gymwysterau ar gael yn y Gymraeg ac mae angen i lawer o sefydliadau ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus i staff er mwyn sicrhau cynrychiolaeth yn y Gymraeg. Mae costau cyfieithu hefyd yn broblem ac ni ellid disgwyl i siaradwyr Cymraeg weithredu fel cyfieithwyr deunyddiau cyrsiau i'w cyflwyno.
- 17.24 Awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar yrru'r Gymraeg y tu hwnt i'r lefel orfodol i AHO.

Cyfathrebu a chyd-drafod yn y dyfodol

- 17.25 Roedd pawb o'r rheini a oedd yn bresennol yn awyddus i gael eu cynnwys ar ddatblygu cynigion ymhellach, fel proses barhaus – o bosibl rhwydwaith o ymarferwyr. Yn wyneb maint y ddogfen ymgynghori a natur trawsbynciol yr asesiad effaith, awgrymwyd y dylid rhoi cyfle i gyfranwyr ymateb i'r dogfennau asesiadau effaith, gan ei bod yn anodd ymateb i'r hyn a ganfyddid fel diffyg manylion.
- 17.26 Awgrymodd un person y byddai'n fanteisiol cynnwys y Gwasanaeth Carchardai mewn trafodaethau.
- 17.27 Yn ddiweddar, dywedwyd ei bod yn holl bwysig cael y broses yn iawn a bod perygl i'r asesiad effaith gael ei weld fel rhywbeth atodol. Mae angen iddo fod yn heriol ac yn esblygu'n barhaus; gan wreiddio cydraddoldeb ym mhob maes o gylch gwaith y Comisiwn.
- 17.28 Byddai'n well gan y mwyafrif o'r rheini a oedd yn bresennol gael eu cysylltu ag e-bost.

18. Digwyddiad i Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr – Canol Cymru

11^{eg} Gorffennaf 2018

- 18.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi barnau'r ddau gyfrannwr a gymerodd ran yn y digwyddiad i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a gynhaliwyd yn y Drenwydd.

Ymatebion i'r cynigion

- 18.2 Roedd y ddau gyflogwr yn croesawu'r cynnig i sefydlu Comisiwn newydd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros y sector AHO. Y gobaith oedd y byddai'r datblygiad hwn yn symleiddio'r ddarpariaeth ac yn datblygu cynnig mwy cyson i gyflogwyr a'u gweithlu. Roedd y ddau gyflogwr yn croesawu'r rhagolygon y byddai'r ddarpariaeth yn canolbwyntio mwy ar ddysgwyr yn y dyfodol ac yn awgrymu y gallai'r Comisiwn chwarae rhan hanfodol mewn gwella ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt.
- 18.3 Fe wnaeth un cyflogwr nodi eu bod yn derbyn negeseuon sy'n gwrth-ddweud ei gilydd gan sefydliadau AB ac AU ynghylch darpariaeth DSW ar hyn o bryd a bod sefydlu Comisiwn newydd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r dryswch hwn a sicrhau mwy o gysondeb ar draws Cymru.
- 18.4 Fe wnaeth un cyflogwr y sylw hefyd fod anghydbwysedd ar hyn o bryd yn y cyllid sydd ar gael i'r sectorau AB ac AU, gyda'r sector AB wedi cael eu 'gwasgu allan' dros y 15 mlynedd ddiwethaf, a'i fod yn gobeithio y gallai'r Comisiwn fynd i'r afael â hyn.

Y ddarpariaeth bresennol

- 18.5 Roedd y ddau gyflogwr yn ymwneud yn helaeth â phrentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith. Mae'r ddau'n cymryd prentisiaid peirianeg. Roedd un cyflogwr wedi gosod targed iddo'i hun o recriwtio 10 o brentisiaid eleni tra bod y llall ar hyn o bryd yn cyflogi 46 o brentisiaid ac yn bwriadu cyflogi cyfanswm o 54 ym mis Medi.
- 18.6 Mae un cyflogwr yn diffinio prentisiaeth fel rhaglen bedair blynedd, yn hytrach na'r rhaglen ddwy flynedd a bennir yn y Fframwaith Prentisiaethau. Yn eu hachos hwy maent yn cyflogi prentisiaid sy'n dilyn rhaglen gyn-prentisiaeth lawn-amser o ddysgu mewn sefydliadau AB am y flwyddyn gyntaf cyn cymryd rhan wedyn mewn rhaglen dair blynedd bellach o ddarpariaeth wrth weithio yn y busnes. Disgwylir i brentisiaid gyrraedd cymhwyster HNC o leiaf ar ddiwedd y cyfnod pedair blynedd hwn.
- 18.7 Fe wnaeth y cyflogwr, ar sail eu profiad o gydweithio â dau ddarparwr dysgu, fynegi pryder ynghylch y gwahaniaethau sylweddol mewn dull ac ansawdd a gynigir gan y ddau. Y farn oedd bod un darparwr dysgu

yn cynnig gwasanaeth eithriadol o dda i'r cyflogwr a'r gweithlu gan eu bod (yn wahanol i'r darparwr arall) yn:

- ymweld â'r cyflogwr i gofrestru dysgwyr ar y safle yn lle eu bod yn gorfod teithio i gampws y darparwr
- cyflwyno rhaglen o derfynau amser darparu ac asesu mewn da bryd cyn cychwyn y flwyddyn academiaidd (felly'n dangos parch i anghenion y dysgwr)
- cyd-drafod mewn deialog reolaidd â'r cyflogwr ynghylch y ddarpariaeth er mwyn sicrhau yr ymatebir i adborth mewn darpariaeth yn y dyfodol, ee roedd y cyflogwr wedi gallu rhoi adborth yn ddiweddar fod y ddarpariaeth wedi canolbwyntio'n ormodol ar beirianeg electronig
- darparu adroddiadau cynnydd misol ar bob prentis (gan gynnwys presenoldeb, ymdrech a llwyddiant).

- 18.8 Y farn oedd bod prosesau archwilio ac arolygu anaddas yn golygu nad oedd unrhyw wendidau mewn darpariaeth yn cael eu hadnabod a'u hadrodd – yn y ddau achos roedd y cyflogwr yn sylweddoli bod y ddau ddarparwr dysgu'r roedd wedi gweithio gyda hwy wedi derbyn adroddiadau arolygu da gan Estyn er bod problemau o safbwynt ansawdd y ddarpariaeth mewn un achos, ac felly roedd yn amau cylch gwaith ac ansawdd y broses arolygu.
- 18.9 Dywedodd un cyflogwr fod darpariaeth weddol dda ar gyfer prentisiaethau lefelau is (hyd at Lefel 2) mewn meysydd fel peirianeg sylfaenol ac iechyd a diogelwch, ond bod cael hyd i ddarpariaeth prentisiaethau lefel uwch yn llawer anoddach. Dywedodd y cyflogwr hwn, a deimlai fod gan eu busnes anghenion hyfforddiant peirianegol penodol iawn ac anarferol, eu bod yn ei chael hi'n anodd cael fframweithiau prentisiaethau i ddiwallu eu hanghenion. Yn eu hachos hwy maent yn manteisio ar ddarpariaeth prifysgol yng ngogledd Cymru sy'n cyflwyno cyrsiau Gradd Sylfaen Peirianeg i safon gradd yn ogystal â darparwr o'r tu allan i Gymru sy'n cynnig prentisiaethau sy'n caniatáu i'w gweithlu ennill cymwysterau HNC.
- 18.10 Mae'r cyflogwr hwn yn ei chael hi'n anodd hefyd cael tiwtoriaid arbenigol allanol sy'n gallu cyflwyno'r hyfforddiant mae arnynt ei angen, ac roedd hyn wedi gwaethygu'n ddiweddar pan adawodd un tiwtor cwrs ei swydd mewn prifysgol yng ngogledd Cymru. Esboniodd y cyflogwr arall, wrth ymateb i'r profiad hwn, eu bod yn cydweithio'n agos ag un coleg AB i gyd-gyflwyno modiwl penodol roeddent ei angen ar offer peirianegol. Yn yr achos hwn roedd y cyflogwr wedi darparu'r offer angenrheidiol i'r coleg yn ogystal â llawlyfrau offer – roedd eu prentisiaid yn gallu defnyddio'r pecyn hwn yn ystod eu sesiynau gweithdai hyfforddiant yn y coleg.
- 18.11 Roedd materion allweddol eraill a godwyd ynghylch darpariaeth prentisiaethau yn cynnwys:
- byddai'n well gan y ddau gyflogwr i hyfforddiant sgiliau hanfodol fod yn elfen ddewisol o gymhwyster prentisiaeth ac roeddent yn dadlau y dylai unigolion allu cael cydnabyddiaeth o'r cymwysterau

a enillwyd ganddynt mewn TGAU a Safon Uwch yn eu hyfforddiant prentisiaethau. Dylai cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol ddibynnu ar angen unigolyn amdano er mwyn rhyddhau'r amser hyfforddiant i ganolbwyntio ar siliau a gwybodaeth am y pwnc.

- rhoddir gormod o bwyslais gan golegu ar ddysgu ar ddull addysgeg ac nid yw hyn yn arbennig o addas i rai dysgwyr, yn enwedig y rheini nad ydynt wedi rhagori mewn amgylchedd ystafell ddosbarth yn yr ysgol. Byddai symud tuag at dulliau eraill o ddysgu yn cael ei groesawu.

Rôl i'r Comisiwn

18.12 Cafodd rhai negeseuon allweddol eu cyfleu ynghylch y rôl y gallai'r Comisiwn o bosibl ei mabwysiadu er mwyn sicrhau bod anghenion cyflogwyr Cymru'n cael eu diwallu'n well yn y dyfodol. Awgrymwyd y gallai fod posibiliadau i'r Comisiwn wneud y canlynol:

- trefnu bod cyllid ar gael yn uniongyrchol i gyflogwyr i gyflwyno eu darpariaeth DSW eu hunain gan y byddai'r ddau gyflogwr yn croesawu mwy o rôl fel cyd-gyflwynwyr dysgu. Roedd un cyflogwr yn dadlau bod yn rhaid iddynt ar hyn o bryd 'wasgu' staff i mewn i brentisiaethau penodol (yn enwedig prentisiaethau lefelau uwch) nad ydynt yn diwallu eu hanghenion penodol fel cyflogwr. Dywedodd y cyflogwr fod ganddynt arbenigedd sylweddol a fyddai'n eu galluogi i gyflwyno darpariaeth yn fewnol ond nad ydynt yn gallu cael cyllid ar hyn o bryd i ganiatáu i hyn ddigwydd. Byddai'r math hwn o ddull cyd-gyflwyno yn diogelu cyflogwyr rhag problemau fel colli arbenigedd tiwtor AB, fel a oedd wedi digwydd yn achos un cyflogwr
- ystyried cynnig pecyn amrywiol o ddewisiadau i gyflogwyr fel rhan o'r llwybrau prentisiaethau newydd. Gallai hyn weithio trwy fabwysiadu darpariaeth seiliedig ar gredydau yn hytrach na darpariaeth seiliedig ar gymwysterau. Byddai cyflogwyr yn gallu manteisio ar ddarpariaeth o becyn o fodiwlau dysgu (tebyg i'r dull Marchnad Lafur Drosiannol presennol) y gellid ei gyflwyno gan naill ai'r cyflogwr neu ddarparwr dysgu
- annog y sector AB i gyflogi tiwtoriaid sydd wedi gweithio mewn diwydiant ac y byddai gofyn iddynt dangos eu bod yn adnewyddu eu profiad diwydiannol yn rheolaidd. Roedd gan y ddau gyflogwr brofiad o diwtoriaid AB nad oedd erioed wedi gweithio mewn diwydiant ac roeddent yn amau addasrwydd eu profiad i gyflwyno darpariaeth DSW. Awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i diwtoriaid fynd ar leoliadau profiad gwaith mewn diwydiant ac i hyn gael ei fonitro gan y Comisiwn trwy ei fframwaith ansawdd
- annog darparwyr hyfforddiant i drafod yn rheolaidd gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu eu gofynion a bod sylw'n cael ei roi i'w hadborth
- ystyried arferion da a fabwysiedir y tu allan i Gymru. Fel enghraifft, cyfeiriodd un cyflogwr at y cyfleuster hyfforddiant

CATCH a sefydlwyd yn Grimsby⁴ a oedd yn cael ei yrru gan gyflogwyr lleol. Mae'r cyfleuster yn cyflwyno hyfforddiant mewn ymateb i anghenion cyflogwyr a gallai fod yn werth edrych ar ei strwythur.

Ardoll Brentisiaethau

- 18.13 Mae'r ddau gyflogwr yn talu'r ardoll brentisiaethau ac yn ystyried hyn fel 'treth' arall ar eu busnes i bob pwrpas, gan nad ydynt am elwa'n uniongyrchol o'u cyfraniadau. Esboniodd un cyflogwr eu bod wedi trafod gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi cytuno i dalu am rai o'r costau cysylltiedig â chyflwyno'r elfennau eraill o ddarparu prentisiaethau sydd y tu allan i ddarpariaeth y fframwaith prentisiaethau safonol. Yn eu hachos hwy mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu cyllid ar gyfer y ffioedd ychwanegol a godir gan y darparwr AB i gyflwyno cwrs cyn-prentisiaeth un flwyddyn llawn-amser (ac felly'n galluogi dysgwyr i fanteisio ar wythnos lawn o addysgu yn hytrach na'r oddeutu 15 awr safonol o amser addysgu) yn ogystal â hawliddio'r costau ychwanegol cysylltiedig â phrentisiaid sy'n ennill y cymwysterau HNC a HND. Dywedodd y cyflogwr fod hyn bellach wedi cael ei ymgorffori i'r fframwaith prentisiaethau fel bod cyflogwyr eraill yn gallu manteisio ar gytundeb tebyg.
- 18.14 Byddai'r ddau gyflogwr yn croesawu symudiad i gael un corff asesu i Gymru i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth AHO ac roeddent yn gweld hyn fel datblygiad rhesymegol. Er nad oedd ganddynt farn gref y naill ffordd na'r llall ynghylch ai Estyn neu gorff arall ddylai fod yn gwneud hyn, roeddent yn awgrymu y dylai'r egwyddorion asesu a fabwysiedir roi sylw i'r canlynol:
- yr angen am wahanol feini prawf asesu ar draws y sector AB ac AU
 - bod y broses asesu yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ddeilliannau heblaw cymwysterau, megis deilliannau a fyddai'n fwy perthnasol i fusnesau.

Graddau Carlam

- 18.15 Roedd barn wahanol gan y ddau gyflogwr ynghylch manteision cyflwyno graddau carlam i'w busnesau, er bod y ddau'n cydnabod eu bod yn cynyddu'r dewis o ddysgu i gyflogwyr yn gyffredinol. Roedd gan un cyflogwr staff eisoes yn cymryd rhan mewn graddau carlam gan eu bod yn cyflawni eu Gradd Sylfaen mewn Peirianeg dros gyfnod o 11 mis y flwyddyn, gan gymryd mis Awst yn unig yn rhydd yn ystod y flwyddyn. Roedd y dull gweithredu hwn wedi gweithio'n dda i'r cyflogwr a'r staff.

⁴ <http://www.catchuk.org/>

- 18.16 Yn achos y cyflogwr arall, nid oedd yn glir beth fyddai manteision gradd garlam iddynt – yn enwedig gan eu bod yn cynnig cyfleoedd ar hyn i bryd i israddedigion i ddilyn lleoliadau gwaith taledig yn y busnes yn ystod cyfnod gwyliau'r haf yn ogystal â phrofiadau rhngosod mewn diwydiant. Ni fyddai model graddau carlam yn caniatáu i'r cyfleoedd hyn ddigwydd, cyfleoedd a oedd yn cael eu hystyried fel rhai a oedd yn dod â budd i'r dysgwr yn ogystal â'r cyflogwr: mae'r busnes yn tueddu i recriwtio nifer mawr o'r dysgwyr hyn maes o law.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

- 18.17 Roedd y ddau gyflogwr o'r farn y dylai'r Comisiwn barhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth arwain y ddarpariaeth a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Dywedodd un cyflogwr, fel aelod o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y de-orllewin, fod cyflogwyr eisoes yn gallu lleisio'u barn fel hyn. Mae aelodau'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gallu rhoi arweiniad i ddyraniad prentisiaethau Llywodraeth Cymru ar draws eu rhanbarth i ryw raddau gan yr ymgynghorir â hwy ar feysydd lle dymunant weld cynnydd yn ogystal â lleihad mewn dyraniadau prentisiaethau. Gallai'r model hwn barhau yn y dyfodol drwy'r Comisiwn. Maent yn sylweddoli fodd bynnag bod eu gallu i ddylanwadu ar ddarpariaeth yn cael ei gyfyngu gan brosesau cynllunio busnes y sector AB.

Y berthynas rhwng y Comisiwn a chyflogwyr

- 18.18 Byddai'r ddau gyflogwr yn croesawu deialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru er mwyn diweddarau eu gwybodaeth ynglŷn â sefydlu'r Comisiwn newydd, er eu bod yn rhybuddio yn erbyn gorfod mynd i 'siopau siarad'. Roedd un cyflogwr yn awyddus i weld sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried eu hadborth fel rhan o'r broses ymgynghori hon ac yn gweithredu arno.
- 18.19 Mynegwyd rhai pryderon ynghylch yr amser y byddai sefydlu Comisiwn newydd yn ei gymryd, a galwodd y ddau gyflogwr ar Lywodraeth Cymru i sicrhau na fyddai datblygiadau polisi ar mwyn mynd i'r afael yn well â phrinder sgiliau o fewn y gweithlu, yn cael eu llesteirio gan ofynion deddfwriaethol i sefydlu'r Comisiwn.

Materion eraill

- 18.20 Gofynnodd un cyflogwr a oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i godi oedran addysg orfodol i 18 fel sydd wedi digwydd yn Lloegr, gan y byddai hyn yn cael effaith mawr ar gyflogwyr sy'n ymwneud â dysgu seiliedig ar waith.

19. Materion yn ymwneud â Chyllid Myfyrwyr

9^{fed} Gorffennaf 2018

19.1 Presennol:

- CCAUC
- Prifysgolion Cymru
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Union School of Theology
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Coleg Cambria
- Prifysgol Wreccsam Glyndwr

C89: A allai cynyddu nifer y graddau carlam ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru yn well?

19.2 Roedd pawb o'r rheini a oedd yn bresennol yn cefnogi cynnydd yn y graddau carlam sydd ar gael yng Nghymru fel rhan o gynnig eang, ond gyda'r rhybudd fod angen iddynt gael eu hystyried yng nghydestun cyrsiau penodol a segmentau penodol o ddysgwyr.

19.3 Tynnwyd sylw at amryw o faterion:

- Roedd angen i amser staff ac adnoddau ddarparu drwy gydol y flwyddyn gyfan, yn hytrach na'r tymhorau presennol.
- Gallai graddau carlam ffafrio dysgwyr mwy galluog ac felly byddai angen rheoli disgwyliadau er mwyn sicrhau nad yw'r dysgwyr llai galluog yn gor-ymestyn eu hunain.
- Roedd rhai o'r rheini a oedd yn bresennol yn holi a fyddai'r cyfnod byrrach mewn AU yn lleihau'r profiad a'r datblygiad cymdeithasol sy'n gysylltiedig â bod yn fyfyrwr. Teimlai un y gallai fod effaith ar lesiant myfyrwyr gan fod rhai myfyrwyr eisoes yn ei chael yn anodd dygymod â'r pwysau i lwyddo.
- Yr angen i gadw hyblygrwydd a'r gallu i drosglwyddo, fel y gallai myfyrwyr a oedd yn canfod y cwrs yn rhy feichus leihau eu llwyth gwaith neu drosglwyddo i gwrs / darparwr arall. Gallai cyrsiau carlam pedair-blynedd rhan-amser fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r rheini sydd mewn gwaith cyflogedig wrth ddysgu.
- Nid yw'r pecyn o gymorth i fyfyrwyr a awgrymir yn adolygiad Diamond yn ymestyn dros fisoedd yr haf ac mae angen cydnabod hyn mewn rhyw ffordd.
- Roedd rhai cyfranwyr yn holi a oedd graddau carlam yn cydymffurfio â safonau Ewropeaidd ac a oeddent yn bodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i broses Bologna ynghylch yr isafswm amser a gymerir i gyflawni gradd.
- Roedd canfyddiad fod y ddarpariaeth graddau carlam yn gweithio orau ar gyfer pynciau technegol neu alwedigaethol lle mae dysgu dilyniannol yn bosibl – er enghraifft technoleg neu beirianeg.

- 19.4 Roedd teimlad y byddai'r farchnad am raddau carlam yn cynnwys rhai sy'n newid gyrfaedd (yn enwedig myfyrwyr aeddfed) a'r rheini sy'n "ennill a dysgu", a gallai'r grŵp hwn brofi anawsterau gydag ymrwymadau eraill (er enghraifft gofal plant yn ystod misoedd yr haf) neu gael amser i ennill digon o arian i'w cynnal eu hunain.
- 19.5 Un fantais o raddau carlam yw y gallai fod llai o gostau cynhaliaeth ac os bosibl rhywfaint o leihad yng nghyfanswm ffioedd dysgu i ddysgwyr, a allai gynyddu mynediad i rai sy'n newid gyrfaedd neu fyfyrwyr aeddfed. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y byddai angen diwygio pecyn cynhaliaeth Diamond ar gyfer graddau carlam er mwyn adlewyrchu'r ffaith y byddai'r myfyriwr yn astudio drwy'r haf. Y farn oedd ei bod yn hanfodol fod graddau carlam yn cael eu hystyried o safbwynt buddion i ddysgwyr a chyflogwyr ac nid fel rhan o arbedion i sefydliadau.
- 19.6 Y neges gan sefydliadau yn gyffredinol oedd y byddai cyflogwyr yn croesawu cynnydd yn y graddau carlam sydd ar gael fel rhan o gynnig cymysg. Un her y tynnwyd sylw ati oedd bod cyflogwyr sy'n cynnig profiad gwaith yn tueddu i wneud hynny dros gyfnod yr haf ac felly gallai fod gwrthdaro posibl gydag addysgu yn y trydydd tymor.
- 19.7 Un pwynt a wnaed oedd y gallai'r cynnydd yn y graddau carlam sydd ar gael gael ei ddarparu y tu allan i'r ymgynghoriad hwn, gan nad yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at y broses hon.

C90: A yw'r trefniadau deddfwriaethol presennol, yn enwedig y diffyg terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau carlam, yn cyfyngu ar y gwaith o ddatblygu a chyflwyno graddau carlam yng Nghymru?

- 19.8 Cytunwyd yn gyffredinol fod y trefniadau presennol yn cyfyngu ar ddatblygiad graddau carlam yng Nghymru. Pe bai sefydliadau addysg uwch yn cyflwyno graddau carlam, byddai angen iddynt godi tâl blynyddol uwch. Gallai cyflwyno'r un nifer o gredydau mewn dwy flynedd olygu costau uwch mewn nifer o feysydd. Er mwyn darparu'n effeithiol, byddai angen i gostau fod yn seiliedig ar y lefel bresennol o £27K – sef taliadau fesul credyd. Pe bai darparwyr yn codi £18K am radd lawn, byddai angen iddynt dorri'n ôl am amser cyswllt, a fyddai'n amlwg yn effeithio ar ansawdd darpariaeth.
- 19.9 Ni fydd sefydliadau addysg uwch yn darparu graddau carlam oni bai eu bod yn hyfyw yn fasnachol ac yn derbyn niferoedd digonol o fyfyrwyr (er y gallent fod yn ddeniadol i fyfyrwyr tramor). Ni ddylai cyrsiau carlam gael eu gweld fel ffordd o arbed costau.

C91: Sut y gellid diffinio graddau carlam?

- 19.10 Er mwyn cysondeb, y teimlad oedd y dylid mabwysiadu diffiniadau ledled y Deyrnas Unedig am raddau carlam (gyda'r rhybudd bod y rhain yn dal heb gael eu cytuno'n derfynol). Byddai'n ddefnyddiol cael diffiniad y cytunir arno i ddibenion UCAS, fel bod myfyrwyr yn sylweddoli'n glir beth maent yn ymgeisio amdano, a hefyd i ddibenion

cymorth i fyfyrwyr. Byddai hyn yn debygol o gael ei fynegi yn nhermau'r nifer o gredydau a gyflawnir bob blwyddyn.

- 19.11 Nodwyd bod y Brifysgol Agored eisoes yn cynnig cyrsiau rhan-amser o 120 o gredydau / y flwyddyn – sy'n gyfwerth â gradd garlam ran-amser.
- 19.12 Er bod y syniadau presennol ynghylch defnyddio trydydd tymor, gofynnwyd a ellid cyflwyno graddau carlam mewn dau dymor, gan ddefnyddio mwy o oriau cyswllt yr wythnos. Heriwyd hyn gan rai a oedd yn bresennol, ar y sail fod cyflwyno cyrsiau yn cynnwys mwy nag amser cyswllt a bod rhai myfyrwyr (yn enwedig mewn pynciau STEM) eisoes yn derbyn 18-20 awr yr wythnos o amser cyswllt, ac y byddai'n anodd cynyddu hyn heb effeithio ar ddysgu hunan-gyfeirio. Roedd pryderon hefyd ynghylch cynnydd mewn costau staff wrth weithredu fel hyn.

C92: Beth yw eich barn chi am y costau posibl sydd ynghlwm â chyflwyno graddau carlam dwy flynedd? Yn benodol, beth yw'r goblygiadau posibl ar gyfer ffioedd dysgu sy'n daladwy am gyrsiau o'r fath ac ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr cymwys?

- 19.13 Fel y disgrifiwyd uchod, roedd teimlad cyffredinol y byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno graddau carlam ac y byddai hyn yn treiddio drwodd i ffioedd dysgu.
- Byddai angen talu costau asesu a chostau datblygu cyrsiau, ac amser ychwanegol i staff contract
 - Gallai cost gwasanaethau myfyrwyr fel cymorth lles gynyddu, yn sgil, er enghraifft, yr angen i gynnig cymorth dros gyfnod yr haf.
 - Byddai ar ddarparwyr angen mwy o staff i baratoi myfyrwyr ar gyfer eu cwrs.
 - Er y gallai myfyrwyr fod ar eu hennill o ran costau cynhaliaeth is cyfnod byrrach, gallent fod yn agored i ffioedd uwch yn gyffredinol ac ni fyddent yn gallu ennill yn yr haf i ychwanegu at gymorth ariannol i fyfyrwyr. Gallai rhai wynebu costau uwch am ofal plant hefyd, a gallai hyn effeithio ar hygyrchedd.

C93: Yn eich barn chi, a oes angen ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â graddau carlam?

- 19.14 Gallai fod effeithiau diwylliannol ar sefydliadau o ganlyniad i raddau carlam yn cael eu haddysgu drwy gydol y flwyddyn. I rai darparwyr, mae cynhadleddau haf a'r defnydd o gyfleusterau yn dod ag incwm ychwanegol a gallai fod angen cyfrif am hyn pe na bai ar gael. Yn yr un modd, gellid effeithio ar raglenni cynnal a chadw trwy ymestyn amser addysgu i'r haf. Nid oedd dim o'r rhain yn cael eu gweld fel pethau na ellid eu goresgyn, fodd bynnag.
- 19.15 Ar gwestiwn mwy athronyddol, gofynnwyd i ba raddau mae ar Gymru eisiau derbyn yr hyn a ddisgrifiwyd fel "y graddau hyn o

farchnadeiddio", fel y canfyddiad o'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Roedd cyfranogwyr yn cymeradwyo'r ffaith nad yw Cymru wedi dilyn yr un llwybr hyd yma, ond cydnabuwyd bod angen i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gystadlu am fyfyrwyr a bod angen rhoi iddynt y gallu i gynnig darpariaeth newydd. Er enghraifft, gall SAU weithio gyda chyflogwyr mawr i ddatblygu graddau ar y cyd.

- 19.16 Dywedodd un cyfranogwr y dylid ystyried anghenion dilynant myfyrwyr graddau sylfaen, o ystyried y gallai fod gradd o orgyffwrdd yn y gynulleidfa am raddau sylfaen a graddau carlam.
- 19.17 I ddysgwyr, pwysleisiwyd mai'r prawf ddylai fod a yw graddau carlam yn diwallu eu hanghenion neu beidio, a chytunwyd y byddai i rai myfyrwyr.

C94: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r Comisiwn reoleiddio'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n ceisio cael eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

- 19.18 Roedd cytundeb unfrydol y dylai'r Comisiwn fod yn rheoleiddio pob darparwr AU yng Nghymru sy'n ceisio dynodi eu cyrsiau am gymorth i fyfyrwyr. Roedd hyn yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn gyson â'r Comisiwn yn cael goruchwyliaeth gyffredinol am reoleiddio a'r canfyddiad oedd nad oedd dewis arall amlwg ond hyn.
- 19.19 Un amod oedd bod ar y Brifysgol Agored eisiau gweld cysondeb â Lloegr, gan fod rhai agweddau o reoleiddio'u darpariaeth yn cael ei wneud gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Roedd eraill na welai unrhyw rwystr i hyn, gan fod arnynt eisiau lleihau baich gweinyddol ac osgoi dyblygu.
- 19.20 Teimlai un ymatebydd y dylai'r Comisiwn, yn ogystal â rheoleiddio, osod gofyniad sylfaenol i bob darparwr. Trafodwyd bod CCAUC yn ddiweddar wedi ymgynghori ar fframwaith gwaelodlin newydd ac felly byddai gofyn i bob darparwr gyrraedd y gofyniad sylfaenol hwn am gyllid / ansawdd.

C95: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid parhau i ddarparu dau gategori ar gyfer dynodi cyrsiau darparwyr addysg uwch yng Nghymru at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

- 19.21 Unwaith eto, roedd cytundeb gyda'r cynnig; dylai ddal i fod ddau gategori ar gyfer dynodi cyrsiau darparwyr yng Nghymru o safbwynt cymorth i fyfyrwyr. Fodd bynnag, gwnaed y pwynt nad y budd ariannol i'r darparwr ddylai fod yn brif benderfynydd deddfwriaeth, ond y dylai hyn cael ei yrru gan anghenion y myfyriwr.
- 19.22 Un pryder posibl oedd, oherwydd y gall SAU ddewis pa gategori maent yn mynd iddo, gallai SAU mewn theori ddewis i ddarparu o dan ddynodiad categori 2 i sicrhau mwy na £9K y flwyddyn mewn ffioedd. Er bod hyn yn cael ei weld yn gyffredinol fel rhywbeth annhebygol,

cytunwyd bod potensial i hyn weithio yn erbyn buddiannau myfyrwyr – yn enwedig gan fod y rheini sy'n mynd ar gyrsiau categori 2 mewn mwy o risg o safbwynt cost, ond a fyddai'n derbyn llai o gymorth na'r rhai cyfatebol iddynt sy'n derbyn darpariaeth categori 1. Roedd yn amlwg i gyfranogwyr y dylai'r baich rheoleiddiol a osodir ar ddarparwyr fod yn seiliedig ar fuddiannau myfyrwyr ac nid ar fudd ariannol i'r darparwr. Y teimlad oedd y gallai fframwaith deddfwriaethol a gynigir yn Neddf Addysg Uwch 2015 roi arweiniad.

- 19.23 O safbwynt darparwr gwahanol, roedd y ddau gategori yn cael eu croesawu, gan y byddent fel arall yn ei chael hi'n anodd i gael achredu cyrsiau. Nodwyd hefyd y gall yr amser a gymerir i achredu cwrs fod yn rhwystr i ddarparu categori 2.

C96: Pa un o'r tri opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi a pham? A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch y tu allan i Gymru fodloni un o'r tri opsiwn hefyd?

- 19.24 Fe wnaeth y C hwn danio cryn ddadlau. Yn gyffredinol y teimlad oedd mai dewis a) oedd y gorau, er bod amheuan. Roedd cyfranogwyr yn chwilio am gysondeb gweithredu heb ddim, neu po leied â phosibl, o gyfyngiadau ar ddewisiadau myfyrwyr. Cydnabuwyd y gallai darparwyr preifat gynnig gwell amrywiaeth o ddewis, ond bod angen mesurau diogelu i sicrhau ansawdd a lleihau risg.
- 19.25 Byddai dewis b) yn gofyn am reoleiddio ychwanegol er mwyn sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol a bod unrhyw arian dros ben a gynhyrchir yn cael ei fuddsoddi i gefnogi dysgwyr neu fudd y cyhoedd. Roedd cytundeb unfrydol ar hyn a gwnaed y pwynt pellach y gallai dewis b) fod â'r potensial i beryglu'r statws elusennol mae SAU yn eu mwynhau ar hyn o bryd.
- 19.26 Mae dewis c) yn gweithredu gwahanol systemau rheoleiddio a sicrwydd, a all weithio yn erbyn buddiannau myfyrwyr. Fodd bynnag, teimlai un cyfrannwr y gallai'r dewis hwn arwain at fwy o ddewis i fyfyrwyr – er enghaifft os oedd sefydliad preifat yn cynnig y dewis mwyaf addas i unigolyn penodol. Teimlai cyfrannwr arall y gallai costau sicrhau diogelu dewis c) orbwyso'r manteision o ran dewisiadau i fyfyrwyr.
- 19.27 Roedd teimlad y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr o'r tu allan i Gymru fodloni'r un dewis am resymau cysondeb a chystadleurwydd.

C97: A oes unrhyw faterion eraill yr ydych yn credu y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

- 19.28 Tynnwyd sylw at y ffaith fod rhai darparwyr na allant ymgeisio i gael eu rheoleiddio, gan nad yw hyn ond yn berthnasol i gyrsiau gradd llawn-amser ar hyn o bryd.

Y Gymraeg

- 19.29 Ar hyn o bryd, mae darparwyr cofrestredig yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg ac mae angen cynnal hyn.
- 19.30 Gallai fod yn anodd cael hyd i'r adnoddau dysgu a deunyddiau i ddarparu cynnwys cyfrwng Cymraeg.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 19.31 Ar hyn o bryd, mae rhagdybiaeth fod sefydliadau elusennol yn darparu budd i'r cyhoedd. Os yw'r system yn symud oddi wrth hynny, gallai olygu cost sy'n gysylltiedig ag archwiliad cymdeithasol am dystiolaeth o wario unrhyw arian dros ben a gynhyrchir.
- 19.32 Yn y tymor byr i'r tymor canolig, y teimlad oedd y bydd y cynigion yn golygu costau i ddarparwyr o ran yr amser a'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen. Fodd bynnag, dylai fod yr effeithiau ehangach o fudd i Gymru fel cyfanrwydd yn yr hirdymor.
- 19.33 Mae angen i'r Comisiwn gael adnoddau digonol i weithredu'n briodol – mae effaith negyddol posibl i'r cynigion o ran risg i'r safonau presennol oni chânt eu gweithredu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, gallent gael effaith drawsffurfiannol os yn gadarnhaol.

20. Digwyddiad i Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr - Gogledd Cymru

12^{fed} Gorffennaf 2018

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi barnau'r ddau gyfrannwr a gymerodd ran yn y digwyddiad i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr.

Pwyntiau Cyffredinol

- 20.1 Dylid nodi bod un o'r cyfranwyr wedi ei drwytho mewn agweddau o'r system AHO, prentisiaethau yn arbennig, tra bod y llall yn newydd i'r maes ac yn gweld y gweithdy fel cyfle i ddysgu yn gymaint â dim byd arall. Yn wir, dywedodd yr unigolyn hwn fod 'Llywodraeth Cymru'n dallu [cyflogwyr] gyda geiriau' a chynlluniau, i'r graddau ei bod yn anodd deall sut i gymryd rhan. Golygai hyn fod y mwyafrif o'r sylwadau wedi cael eu gwneud gan un unigolyn.
- 20.2 Nid oedd yr ymgynghoriad yn cael ei weld fel blaenoriaeth uchel gan gyflogwyr, yn rhannol oherwydd ei natur dechnegol ac yn rhannol gan nad oedd yn glir sut y bydd cyfrannu at y broses ar y cam hwn yn debygol o fod o fudd iddynt. Nid oedd y naill na'r llall o'r cynrychiolwyr wedi darllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd, er bod un wedi darllen y bennod ar brentisiaethau a rhai adrannau eraill.
- 20.3 Y farn oedd nad oedd yr acronym Saesneg a ddefnyddiwyd fel teitl i'r Comisiwn, 'TERC' neu 'TERCW' yn arbennig o ysbrydoledig. Awgrymwyd 'RTEC' fel dewis arall gan fod iddo, yn ogystal â swnio'n well, y fantais o gynnwys y gair 'Research' ar gychwyn enw'r sefydliad, ac felly'n pwysleisio'r rhan allweddol a chwaraeir gan ymchwil wrth hybu cynnyrch domestig y pen ac arwain y ffordd mewn datblygu sgiliau.

Cynnig i sefydlu Comisiwn

- 20.4 Roedd y syniad o Gomisiwn a fyddai'n dod ag amrywiol elfennau AHO at ei gilydd yn cael ei groesawu, a hynny i raddau helaeth oherwydd y dylai helpu sicrhau:
- Mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth o fewn un corff cyllido AHO: ar hyn o bryd mae'n anodd gwybod i sicrwydd pwy o fewn Llywodraeth Cymru a CCAUC sy'n gyfrifol am beth
 - gwell integreiddio ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr
 - hyrwyddo parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd.
- 20.5 Er y derbynnir y gall adrannau/is-adrannau Llywodraeth Cymru fod yn cydweithio'n nes at ei gilydd nag erioed o'r blaen ar hyn o bryd, mae angen i bethau ddigwydd yn sylweddol gyflymach nag y maent wedi'i wneud hyd yn hyn.

- 20.6 Dywedwyd hefyd fod angen i'r Comisiwn geisio 'cysoni' ar draws y system AHO ac nid 'safoni'. Mae angen i'r Comisiwn fod yn ofalus hefyd i beidio â cholli hyblygrwydd a chwimder o ganlyniad i ddod â gwahanol elfennau o'r sector AHO at ei gilydd.
- 20.7 Roedd awydd i'r Comisiwn gael ei yrru gan flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru trwy gyfres glir (byr, miniog, cryno) o amcanion a osodwyd ar gyfer y system AHO. Fodd bynnag, ni all economi Cymru fforddio â disgwyl i'r Comisiwn gael ei sefydlu cyn cysoni'r system AHO ag uchelgeisiau Ffyniant i Bawb a dod ag elfennau o'r system AHO yn nes at ei gilydd: mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau y gweithredir gweledigaeth bum mlynedd ar gyfer newid yn gyfochrog â sefydlu'r Comisiwn. Nid yw'n debygol y bydd cyfeiriad cyffredinol AHO yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod pan sefydlir y Comisiwn.
- 20.8 Mae angen i swyddogion y Llywodraeth feddwl yn fwy fel busnesau wrth sefydlu'r Comisiwn ac mae angen iddynt weithredu'n bragmataidd yn hytrach na 'dawnsio o gwmpas' manylion newidiadau deddfwriaethol.
- 20.9 Roedd y cyfranwyr yn croesawu'r syniad o roi'r dysgwr yn ganolog yn nyluniad y system.

Prentisiaethau

- 20.10 Dadleuwyd bod angen agwedd bragmataidd at sicrhau 'cludadwyedd' cymwysterau o fewn fframweithiau prentisiaethau. Er enghraifft, dadleuwyd y gellid defnyddio TGAU Saesneg i gymryd lle sgiliau hanfodol ac nad oes angen i brentisiaid gyda Gradd C neu uwch mewn TGAU Saesneg ddilyn hyfforddiant pellach mewn sgiliau hanfodol.
- 20.11 Nodwyd y dylai Cymru osgoi gwneud y camgymeriadau a wnaed yn Lloegr trwy greu'r Sefydliad Prentisiaethau. Dadleuwyd bod busnesau bach a chanolig yn cael eu torri allan o'r gwaith o ddylanwadu ar bolisi prentisiaethau, gan na allant neilltuo'r adnoddau i'r broses fel y gall sefydliadau mawr.

Cyllido Prentisiaethau

- 20.12 Dadleuwyd bod y cynnig i gyllido prentisiaethau hyd at lefel pump mewn ffordd wahanol i'r rheini ar lefel chwech ac uwch yn sylfaenol ddiffygiol gan y bydd yn cynnal a pharhau'r canfyddiad o brentisiaethau fel rhywbeth ar wahân i addysg uwch (ac israddol iddo). Dadleuwyd bod y ddogfen ymgynghori'n dweud y pethau iawn ynghylch 'llwybrau', ond wedyn yn 'gosod cylchfan yng nghanol y llwybr trwy siarad am lefelau un i bump a lefel chwech ar wahân'. Dyma union y math o raniad y sefydlir y Comisiwn i fynd i'r afael ag ef.

- 20.13 Yn y cyd-destun hwn, dadleuwyd bod angen annog pobl ifanc i ystyried prentisiaethau fel llwybrau at ennill graddau, yn enwedig mewn meysydd sy'n gysylltiedig â STEM. Mae'r system fel y mae ar hyn o bryd yn pwysleisio prifysgol fel y cam nesaf naturiol wrth gyrraedd 18 oed ac mae gormod o bobl ifanc yn dilyn y llwybr hwnnw'n ddall, gan gronni dyled sylweddol o ganlyniad ac yn aml yn methu â datblygu'r sgiliau mae ar gyflogwyr eu heisiau. Mae angen gwneud rhywbeth i 'ennyn brwdfrydedd a diddordeb a recriwtio' pobl ifanc a'u denu a'u harwain hwy i brentisiaethau STEM (a phrentisiaethau eraill) ar amrywiol gamau o'u teithiau drwy'r system ysgol, sef o 4 oed ymlaen. Mae angen arfogi pobl ifanc â gwybodaeth briodol o'r cychwyn er mwyn gwneud dewisiadau dysgu addas ar eu teithiau trwy addysg orfodol a'r tu hwnt iddo.
- 20.14 Crybwyllwyd gweithgareddau gwella ysgolion gan Nissan yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, y dywedwyd ei fod yn dangos cynnydd erbyn hyn o safbwynt y nifer sy'n dilyn pynciau STEM yn yr ysgol a phrentisiaethau peirianeg ymhellach ymlaen – gyda rhai sy'n cychwyn prentisiaethau'n cael eu disgrifio fel 'cywion ieir yn barod i'r popty'! Mae Airbus wedi bod yn dadlau dros 'Ardal STEM' yng ngogledd-ddwyrain Cymru ers dwy flynedd a mwy, ond nid ymddengys fod dim wedi deillio o hynny eto.
- 20.15 Er eu bod wedi llenwi eu lleoedd prentisiaethau yn 2108, mae Airbus wedi'i chael yn anodd denu ymgeiswyr o'r ansawdd iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod, yn achos prentisiaethau lefel 6 yn enwedig, yn rhaid i gyflogwyr a darparwyr dysgu gael cynnig deniadol iawn i gystadlu ag atyniad addysg uwch llawn-amser.
- 20.16 Nodwyd y gall prentisiaid gwyddoniaeth bwyd fod yn neilltuol o anodd eu denu, gyda phrentisiaid peirianeg ychydig yn haws eu recriwtio.
- 20.17 Er bod Airbus yn elwa ar gydweithrediad rhwng AB ac AU (trwy Ganolfan y Brifysgol yng Ngholeg Cambria), y farn oedd bod yn rhaid i'r trefniant hwnnw 'weithio yn unol â'r system', yn hytrach na bod y system wedi ei llunio'n naturiol i weithio o amgylch anghenion y cwmni. Yn sylfaenol, roedd yn rhaid i'r fframwaith lefel 6 a ddatblygwyd gan Airbus ar y cyd â Choleg Cambria a Phrifysgol Abertawe gael ei ôl-addasu â fframwaith brentisiaethau a oedd yn bod eisoes yn hytrach na'i fod wedi'i gynllunio fel cynnyrch unsydd ar gyfer y cwmni. Nodwyd hefyd y bydd fframweithiau prentisiaethau peirianeg yn cael eu cyllido o fis Medi, ond na fydd hyn yn digwydd i fframweithiau fel gweinyddu busnes. Er y gallai cynrychiolwyr cyflogwyr ddeall pam fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddogni cyllid fel hyn, y farn oedd nad oedd yn sefyllfa ddelfrydol.

Ardoll Brentisiaethau

- 20.18 Roedd y ddau gynrychiolydd cyflogwyr yn glir nad oedd yr ardoll brentisiaethau'n fawr mwy na threth ychwanegol ar gyflogwyr yng Nghymru. Awgrymwyd bod gorfod talu'r ardoll heb unrhyw fudd amlwg yn ôl yn golygu na all cwmnïau fforddio â chymryd prentisiaid

ymlaen. Amcangyfrifwyd bod Airbus ym Mrychdyn yn talu ardoll net o £1.7m, ond ei fod yn gallu adfachu elfen o'r ardoll £2.4m a godir arno trwy anfon prentisiaid i Fryste.

- 20.19 Er y deŵllid y byddai Cymru'n adennill yr ardoll a delir gan gyflogwyr yng Nghymru trwy drefniant fformiwla Barnett, y farn oedd bod hyn yn annhebygol o gynnig ateb tryloyw o safbwynt cyflogwr. Teimlai'r cynrychiolwyr y dylai busnesau fod yn gallu gweld budd uniongyrchol talu'r ardoll brentisiaethau.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

- 20.20 Roedd y ddau gynrychiolydd cyflogwyr yn gwybod am y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, er nad oedd ond un yn ymwneud yn uniongyrchol â hi. Roedd y cynrychiolydd nad oedd yn ymwneud â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, fodd bynnag, yn aelod o rwydwaith Rheolwyr Adnoddau Dynol Glannau Dyfrdwy a Wrecsam a'r farn oedd y gallai hwn fod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer bwydo i mewn i'r Bartneriaeth. Gwnaed y pwynt fod cynrychiolwyr busnesau bach a chanolig yn brin o adnoddau i ymwneud â'r llu o sefydliadau a chynlluniau sy'n bod ac, felly, yn gorfod bod yn ddethol ynghylch y rhai maent yn ymwneud â hwy. Mae ar sefydliadau o'r fath angen dealltwriaeth fras o amrywiaeth o ddatblygiadau hyn yn hytrach na dealltwriaeth ddofn o unrhyw rai penodol (ee sefydlu Comisiwn). Mae angen i Lywodraeth Cymru, felly, gymryd agwedd bragmataidd wrth osod agendâu cyfarfodydd y mae arni eisiau i fusnesau ddod iddynt a chanolbwyntio ar beth fydd y budd i fusnesau gymryd rhan, sef beth sydd ynddo iddyn nhw.
- 20.21 Roedd y ddau gynrychiolydd yn nodi bod gan eu sefydliadau weithlu sy'n heneiddio gyda nifer sylweddol o grefftwyr/technegwyr medrus yn cyrraedd oedran ymddeol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hyn yn golygu y bydd bylchau posibl mewn sgiliau yn y dyfodol agos oni bai yr hyfforddir prentisiaid yn awr. Y farn oedd y byddai cyflogwyr yn agored i rannu gwybodaeth ynghylch demograffeg gweithluoedd pe byddent yn cael eu hargyhoeddi y byddai hyn yn arwain at hyfforddiant yn cael ei drefnu i fynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau sydd o'u blaenau. Roedd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael eu gweld fel cyfryngau delfrydol ar gyfer casglu a threfnu gwybodaeth o'r fath a'i defnyddio fel sail ar gyfer eu cynlluniau sgiliau blynyddol. Rhagwelwyd y byddai'r pwyslais yn wahanol ym mhob un o ranbarthau Cymru, yn wyneb gwahanol broffiliau sectorol y tri rhanbarth.
- 20.22 Er nad oedd teimlad y dylai'r Comisiwn ddal cyllid yn ôl i ymateb i argymhellion a wneir mewn cynlluniau sgiliau blynyddol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, dylai gymell darparwyr i weithredu mewn ffyrdd penodol, ee datblygu mathau penodol o ddarpariaeth neu gydweithio, lle mae hynny'n gwneud synnwyr. Yn wyneb y rôl hon a allai fod yn ddylanwadol, pwysleisiwyd y byddai ar y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol angen 'y bobl iawn' o amgylch y bwrdd.

Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru / Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru

- 20.23 Rodd Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru yn cael ei weld fel cyfrwng ar gyfer ystyried sut mae fframweithiau prentisiaethau'n cydfynd â chynlluniau cenedlaethol, Ffyniant i Bawb yn fwyaf amlwg.
- 20.24 Y farn oedd y byddai'n synhwyrol i swyddogaethau Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cynghori ar Sgiliau Cymru gael eu sugno i mewn i'r Comisiwn. Nid yw'r brandiau'r naill fwrdd na'r llall yn ddigon pwysig i haeddu eu cadw o angenrheidrwydd.

Ymchwil

- 20.25 Cafodd 'canolfannau catapwl't' eu crybwyll, gan gynnwys y Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch ym Mhrifysgol Sheffield, sy'n ymwneud â chynllun Canolfan Deunyddiau Cyfansawdd Cymru, ochr yn ochr ag Airbus, Coleg Cambria, Prifysgol Abertawe a phartneriaid eraill. Roedd hyn yn cael ei weld fel y math o ddatblygiad a fyddai'n helpu busnesau yng Nghymru i achub y blaen a chadw ar flaenau'r traed, ac felly, yn llai agored i niwed, yn enwedig i effeithiau dinistriol posibl Brexit.